

RHYBUDD O GYFARFOD / NOTICE OF MEETING



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

*Emyr Williams
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF
Ffôn/Phone (01766) 770274
E.bost/E.mail : parc@eryri.llyw.cymru*

Snowdonia National Park Authority

*Emyr Williams
Chief Executive
Snowdonia National Park Authority
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF
Ffacs/Fax (01766) 771211
Gwefan/Website: : www.eryri.llyw.cymru*

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dyddiad: *Dydd Mercher 13 Hydref 2021*

Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig

Amser: *10.00 y.b.*

Anfonir cyfarwyddiadau ymuno at yr Aelodau ar wahân

Snowdonia National Park Authority

Date: *Wednesday 13 October 2021*

Members are asked to join the meeting 15 minutes before the designated start time

Time: *10.00 a.m.*

Joining instructions will be sent to Members separately

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Members appointed by Gwynedd Council

Y Cynghorydd / Councillor :

*Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes,
Judith Mary Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts,
John Pughe Roberts, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams;*

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Members appointed by Conwy County Borough Council

Y Cynghorydd / Councillor :

Philip Capper, Wyn Ellis-Jones, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru

Members appointed by The Welsh Government

*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle,
Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn.*

R H A G L E N

- 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
Cael unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd.
- 2. Diweddariad Corfforaethol**
Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.
- 3. Hawl i'r Cyhoedd Holi**
Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.

Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost) i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.
- 4. Datgan Diddordeb**
Cael unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.
- 5. Cofnodion**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 9fed Mehefin a 30 Mehefin 2021 fel rhai cywir. (Copïau yma)
- 6. Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**
- 7. Taflen Gweithredu**
Cyflwyno'r Daflen Gweithredu, er gwybodaeth. (Copi yma)
- 8. Diweddariad o'r Gyllideb**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)
- 9. Datganiad o Gyfrifon Drafft 2020/21**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)
- 10. Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant ar gyfer 2020/21**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
- 11. Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu – Enwau Lleoedd**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir. (Copi yma)
- 12. Siarter Creu Lleoedd**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir. (Copi yma)
- 13. Adroddiadau Gweithgor yr Aelodau**
Cyflwyno adroddiadau y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 19fed o Mai a 30ain o Fehefin 2021. (Copïau yma)
- 14. Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**
Cael adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

15. **Cyflwyno'r cofnodion a ganlyn er gwybodaeth:-**

- (1) Cofnodion Cyfarfod Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru gynhaliwyd ar 19fed o Fawrth 2021. (Copi yma)
- (2) Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 14eg Gorffennaf, 2021. (Copi yma)
- (3) Cofnodion Cyfarfodydd Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 3ydd o Fedi 2021. (Copiau yma)

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
DYDD MERCHER 9 MEHEFIN 2021**

PRESENNOL:

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd

Y Cyngorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cyngorwyr Philip Capper, Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs Sarah Hattle, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Mr. E. Williams, Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Mr. E. Roberts, Ms. Bethan Hughes, Ms Helen Pye, Ms. Etta Trumper, Mrs. A. Gaffey.

Ymddiheuriad

Mr. Tim Jones.

Gan fod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal o bell, fe wnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

- amlinellu'r weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod.
- ddatgan bod y cyfarfod yn ddarostyngedig i Reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, a
 - o bod Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi a bod yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
 - o nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
 - o roedd y cyfarfod yn cael ei gofnodi i helpu i wirio'r cofnodion, ond efallai y bydd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Cadeirydd

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig y Cyngorydd Wyn Ellis Jones fel Cadeirydd.

Etholwyd y Cyngorydd Wyn Ellis Jones yn Gadeirydd yr Awdurdod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. Is-Gadeirydd

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig dau Aelod fel Is-Gadeirydd, y Cyngorydd Annwen Hughes a'r Cyngorydd Ifor Glyn Lloyd. Gwahoddwyd y ddau Aelod i annerch y cyfarfod.

Llongyfarchodd y Cyngorydd Annwen Hughes y Cyngorydd Wyn Ellis Jones ar ei benodiad fel Cadeirydd a chymerodd y gwahoddiad i annerch y cyfarfod.

Diolchodd y Cyngorydd Ifor Glyn Lloyd i'r Aelodau am gyflwyno ei enw ond dywedodd ei fod am dynnu ei enwebiad ynôl. Manteisiodd ar y cyfle i longyfarch y Cyngorwyr Wyn Ellis Jones ac Annwen Hughes ar eu henwebiadau.

Etholwyd y Cynghorydd Annwen Hughes yn Is-gadeirydd yr Awdurdod. Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

- (1) dywedodd y Cadeirydd fod cyfnod Mr. Owain Wyn yn ei swydd wedi ei ymestyn gan Lywodraeth Cymru tan ddiwedd Gorffennaf 2022.
- (2) cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Freya Bentham wedi ymddiswyddo oddi ar Gyngor Gwynedd ac, o ganlyniad, nad oedd bellach yn Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r Cynghorydd Bentham am ei chyfraniad gwerthfawr i waith yr Awdurdod dros y 4 blynedd diwethaf.
- (3) Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am gyfarfod diweddar rhwng Cadeirydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod a Phrif Weithredwr newydd Cyngor Gwynedd, Mr Dafydd Gibbard, ac Arweinydd y Cyngor, Mr Dyfrig Siencyn. Roedd y trafodaethau wedi bod yn adeiladol iawn ac wedi canolbwyntio ar dwristiaeth a gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol.
- (4) Atgoffwyd yr Aelodau o'r hyfforddiant a drefnwyd ar gyfer 25 Mehefin 2021 (a nodwyd yng nghalendr y cyfarfodydd fel Diwrnod Datblygu Aelodau).
- (5) diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am drefnu'r cyfarfod blynyddol gyda'r Cyngorau Cymuned, a gynhaliwyd o bell. Roedd yr adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn.
- (6) diolchodd y Cadeirydd i'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu am ddylunio bathodyn 'Eryri 70' i nodi 70 mlynedd ers i'r Awdurdod gael ei ben-blwydd yn 70oed.

4. Diweddariad Corfforaethol

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar faterion gweithredol:-

- (1) byddai Cynhadledd Ffederasiwn Europarc yn cael ei chynnal o bell yn 2021. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth.
- (2) Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa ar hyn o bryd i wneud penodiad i swydd wag yr Awdurdod gan fod yr uned benodi wedi gorfod gohirio dechrau'r broses recriwtio tan fis Medi / Hydref, er y byddant yn penodi aelod o'r Awdurdod ac aelod wrth gefn bryd hynny.

5. Hawl i'r Cyhoedd Holi

Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd unrhyw gwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. Datgan Buddiant

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

7. Aelodaeth o'r Awdurdod

Cyflwynwyd - Adroddiad y Prif Weithredwr ar aelodaeth gyfredol yr Awdurdod, er gwybodaeth.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a gofynnodd i'r Aelodau gadarnhau bod eu manylion cyswllt yn gywir gan fod y wybodaeth hon wedi'i chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Yn codi ar hynny:-

1. cytunwyd y dylai pob Aelod, yn y dyfodol, ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost corfforaethol. Pe bai Aelodau angen cymorth ychwanegol yn hyn o beth, byddai Swyddog Gwasanaethau'r Aelodau a'r Technegydd Systemau Gwybodaeth yn cynorthwyo'r Aelodau i weithredu eu cyfeiriad e-bost corfforaethol.

2. Gofynnodd y Cynghorydd John Pughe Roberts, Philip Capper, Wyn Ellis Jones a Ms Tracey Evans am i'w manylion cyswllt gael eu diwygio i restru eu rhif ffôn symudol yn hytrach na'u rhif ffôn cartref.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

8. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2021 a llofnodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

9. **Cofnod Gweithredu**

Cyflwynwyd – Cofnod o gamau strategol sy'n deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth a chymau gweithredu.

Cyfarfod Awdurdod 10. 04.19

Eitem Gweithredu 12 – Maniffesto Ieuencid Europarc

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd camau wedi'u cymryd oherwydd salwch staff. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau y byddai swyddogion yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr mai'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir oedd y swyddog arweiniol ar y Grŵp Tasg a Gorffen enwau lleoedd. Cadarnhaodd fod gwaith cefndirol ar y gweill a bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Credai'r Prif Weithredwr mai'r nod oedd cynnull cyfarfod o'r Grŵp cyn gwyliau'r haf.

PENDERFYNWYD nodi'r Cofnod Gweithredu fel y'i cyflwynwyd.

10. **Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau a Chynrychiolaeth Allanol**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Prif Weithredwr i benodi Aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgorau, Paneli, Gweithgorau a Chynrychiolaeth Allanol canlynol.

Yn codi ar hynny, cynghorwyd yr Aelodau fod yr holl Bwyllgorau, Gweithgorau ac ati, yn wag a bod enwau'r aelodau blaenorol wedi'u cynnwys er gwybodaeth yn unig. Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau, lle bo'n bosibl, i geisio cadw at gyfansoddiad yr Awdurdod ei hun (2:1).

PENDERFYNWYD

1. **penodi Aelodau fel a ganlyn:-**

(1) **PWYLLGORAU**

i) **Pwyllgor Cynllunio a Mynediad** - Holl Aelodau'r Awdurdod

ii) **Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau** - Holl Aelodau'r Awdurdod

iii) Y **Pwyllgor Safonau** (Sefydlwyd Tymor y Swydd gan Reoliadau'r Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001)

**Y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Philip Capper; Mrs. Sarah Hattle.
+ 3 Aelod Annibynnol**

(2) PANELI

- i) Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl
3 Aelod + 2 yn dirprwyo Aelodau i'w tynnu o aelodaeth y Pwyllgor Safonau gan y Pwyllgor Safonau

(3) GWEITHGORAU

- i) Gweithgor yr Aelodau - Holl Aelodau'r Awdurdod
- i i) Cyd-weithgor Lleol
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Judith Humphreys, Ifor Glyn Lloyd; Mrs. Sarah Hattle.
- iii) Bwrdd Rheoli'r Ysgwrn
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Elfed Powell Roberts; Mr. Owain Wyn.
- iv) Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch
Y Cynghorydd Judith Humphreys; Ms. Tracey Evans, Mr Tim Jones.

(4) PWYLLGORAU CYNGHORI'R AWDURDOD

- i) Cynhadledd Ymgynghorol Celyn, Tegid a Thrywern
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Ifor Glyn Lloyd, Gethin Glyn Williams; Mr. Brian Angell.
- ii) Fforwm Eryri
Y Cynghorydd Wyn Ellis Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Annwen Hughes (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Ifor Glyn Lloyd; Mr. Brian Angell.
- iii) Fforymau Mynediad Lleol
De: Y Cynghorydd John Pughe Roberts
Gogledd: Mr. Tim Jones
- iv) Fforwm Cydraddoldeb Eryri
Y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd

(5) GRWPIAU TASG A GORFFEN

- i) Canolfannau
Y Cynghorwyr Philip Capper, Alwyn Gruffydd, Wyn Ellis Jones, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams.
- ii) Is-grŵp Asedau
Y Cynghorwyr Philip Capper, Ifor Glyn Lloyd, Gethin Glyn Williams; Mr. Brian Angell, Mr. Tracey Evans, Mr. Owain Wyn.
(Wrth Gefn: Mr. Tim Jones)
- (iii) Strategaeth Ddysgu
Y Cynghorwyr Alwyn Griffiths, Judith Humphreys, Ifor Glyn Lloyd; Ms. Tracey Evans, Mrs Sarah Hattle.

- (iv) Cyfathrebu
Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Edgar Owen; Ms. Tracey Evans, Mr Tim Jones.
 - (v) Grŵp Maniffesto Ieuencid Europarc
Y Cynghorwyr Judith Humphreys, John Pughe Roberts; Ms. Tracey Evans.
 - (vi) Grŵp Ffocws y Wefan
Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Elfed Roberts; Ms. Tracey Evans, Mr Tim Jones.
 - (vii) Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Traffig
Y Cynghorwyr Edgar Owen, John Pughe Roberts; Ms Tracey Evans.
 - (viii) Grŵp Tasg a Gorffen y Cyfrif Carbon
Y Cynghorydd John Pughe Roberts; Mr. Brian Angell, Mr. Owain Wyn.
 - (ix) Grŵp Tasg a Gorffen Enwau Lleoedd
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys.
 - (x) Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu
Y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd; Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn.
- (6) CYRFF ERAILL
- i) Grŵp Rhanddeiliaid Trawsfynydd
Y Cynghorydd Elfed Powell Roberts
 - ii) Cyd-gyngor Cymru
Mr. Owain Wyn
 - iii) Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Pwyllgor Cyswllt Lleol Beddgelert
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd
 - iv) Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol
(Cynrychiolir y 3 Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru gan Aelod o'r Awdurdod sy'n dal Ysgrifenyddiaeth Parciau Cenedlaethol Cymru)
 - v) Cynghrair Tirweddau Dynodedig Cymru
Y Cynghorydd Wyn Ellis Jones
 - vi) Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd
 - vii) Pen Llyn a'r Sarnau (ACA)
Y Cynghorydd Annwen Hughes
 - viii) Grŵp Gweithredol Menter Allweddol Gwyrdd Eryri
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd
 - ix) Fforwm Strategol Rhaglen Ynys Ynni
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd
 - x) Partneriaeth Biosffer Dyfi
Mr. Owain Wyn (Wrth Gefn: Mr. Tim Jones)

xi) **Cynhadledd Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian**
Y Cynghorydd Annwen Hughes

11. **Aelodaeth y Pwyllgor Safonau**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i adrodd ar aelodaeth y Pwyllgor Safonau.

Adroddwyd – Cynghorwyd yr Aelodau bod cyfnod swydd Mrs. Rachael Leah Jane Davies a Mr Martin James Hughes, fel Aelod o'r Pwyllgor Safonau, i fod i gael eu hadnewyddu. Dywedodd y ddau Aelod y byddent yn barod i wasanaethu ail dymor pe bai'r Awdurdod yn cytuno i hyn.

PENDERFYNWYD ail-benodi Mrs. Rachael Leah Jane Davies a Mr. Martin James Hughes yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am dymor pellach, tan 5 Gorffennaf 2025.

12. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer i gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020-21.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n ymgorffori Datganiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar Reolaeth Fewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

13. **Adroddiad Blynyddol ar Weithgarwch Rheoli Gwirioneddol y Trysorlys 2020/21**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn manylu ar weithgarwch Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn ystod 2020/21, er gwybodaeth.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad yn fanwl a chadarnhaodd fod cronfeydd a buddsoddiadau'r Awdurdod yn parhau i fod yn ddiogel.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.

14. **Trefniadau ar gyfer Cyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol er mwyn i'r Aelodau gytuno ar drefniadau ar gyfer cyfarfodydd rhithwir yr Awdurdod a'i bwyllgorau.

Adroddwyd – Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad yn fanwl a rhoddodd gyngor ar yr opsiynau sydd ar gael i'r Awdurdod. Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai pob aelod o'r Awdurdod yn teithio i Blas Tan y Bwlch i fynychu cyfarfodydd yn gorfforol ar ôl i holl gyfyngiadau Covid gael eu codi. Yn unol â hynny, mae angen sefydlu rhyw fath o drefniadau "hybrid".

Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr adroddiad a chododd y materion canlynol:-

- Croesawodd yr Aelodau gynigion i ganiatáu i'r cyhoedd gael mynediad i gyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn agored ac yn dryloyw. Roedd Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eisoes yn gweithredu hyn.

- Trafododd yr Aelodau'r gwahaniaeth yn ansawdd y rhyngweithio pan oedd aelodau'n gallu cwrdd wyneb yn wyneb a theimlai na ddylid colli hyn wrth i'r Awdurdod symud ymlaen. Dywedodd Aelod y byddai'n croesawu cyfarfod wyneb yn wyneb yn y dyfodol agos, pe bai'r amgylchiadau'n caniatáu hynny, a gellid ystyried ymhellach pa gyfarfodydd ddylid eu cynnal yn bersonol yn ddiweddarach.
- Oherwydd y gall rhai cyfyngiadau covid fod yn eu lle am 12 mis arall, gofynnwyd i swyddogion ystyried a oedd Plas Tan y Bwlch yn dal yn addas fel lleoliad cyfarfod neu a ddylid ystyried lleoliadau eraill - fel Siambrau'r Cyngor, gyda mwy o le ar gyfer y cyhoedd.
- cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai adroddiad gydag opsiynau yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau maes o law.
- fel yr amlinellir ym mharagraff 2.8 o'r adroddiad, gofynnodd Aelod i Agendau cyfarfodydd yn y dyfodol gynnwys gofyniad i Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser dechrau dynodedig fel y gellid mynd ag afael ag unrhyw faterion technegol.
- cadarnhaodd swyddogion fod y pandemig wedi arwain at ostyngiad yn ôl troed carbon yr Awdurdod, ond bod unrhyw arbedion ariannol yn gymharol fach.
- mewn ymateb i gwestiwn ar gynnull cyfarfodydd hybrid a'r gost o brynu offer technegol ychwanegol, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid y bydd pob Awdurdod yn ystyried uwchraddio eu systemau yn y dyfodol, ac er bod gan Lywodraeth Cymru arian grant ar gyfer "agor" nid oedd yn credu y byddai'r rhain ar gael at ddibenion prynu technoleg newydd.
- cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, gan nad oedd gan yr Awdurdod yr offer angenrheidiol ar hyn o bryd i gynnal cyfarfodydd hybrid, y byddai'n buddsoddi yn y dechnoleg ar gyfer y dyfodol. Cytunodd ar yr angen i dreialu un neu ddau o gyfarfodydd hybrid dros fisoedd yr haf i ddatrys problemau posibl yn y dyfodol a byddai hyn hefyd yn wir am gyfarfodydd gweminar.
- cytunwyd y dylid caniatáu i Aelodau ddewis sut y maent am fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

1. yn ddarostyngedig bod sylwadau'r Aelodau yn cael eu nodi, cymeradwyo'r mesurau fel yr amlinellir yn Adran 2 o'r adroddiad.
2. cynnwys y gofyniad ar yr Hysbysiad o Gyfarfod y dylai Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser dynodedig.
3. nodi'r sefyllfa fel yr amlinellir yn Adran 3 yr adroddiad ac i aros am adroddiad pellach maes o law.

15. **Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i hysbysu'r Aelodau ynghylch y cwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon yn ystod y cyfnod 2020/21 a gwaith Pwyllgor Safonau'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.

16. **Presenoldeb yr Aelodau**

Cyflwynwyd – Adroddiad gwybodaeth gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn rhoi manylion presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgor o 1af Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

Adroddwyd – Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a gofynnodd Aelod a oedd y math hwn o lywodraethu yn dal yn berthnasol gan fod Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru yn mesur perfformiad, yn hytrach na phresenoldeb, ac y gallai fod yn fater i'w drafod mewn cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu yn y dyfodol. Yn codi ar hynny, atgoffwyd yr Aelodau y dylent, yn y dyfodol, hysbysu'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau os na allant fynychu cyfarfod o ganlyniad i ymrwymiad arall i'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

17. Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Ymgysylltu yn argymhell mabwysiadu fersiwn derfynol o Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu newydd yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'r cefndir a diolchodd i'r Aelodau am eu mewnbwn.

Croesawodd aelod y cynnig i geisio cyllid refeniw i ymgysylltu â phrentisiaid i gynorthwyo'r swyddogion cyfathrebu a dywedodd fod hyn yn gweithio'n dda i Gyngor Gwynedd. Dywedodd yr Aelod hefyd fod Grŵp Tasg a Gorffen Enwau Lleodedd Cymru eisoes wedi dechrau ar ei waith a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir am ei ymdrechion.

Diolchodd yr Aelodau i'r Pennaeth Ymgysylltu a'i thîm am eu gwaith rhagorol a chydnabod hefyd effeithiolrwydd gwell presenoldeb Eryri ar y cyfryngau cymdeithasol.

PENDERFYNWYD yn amodol ar nodi bod Grŵp Tasg a Gorffen Enwau Lleodedd Cymru eisoes wedi dechrau ar ei waith, i fabwysiadu'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a chymeradwyo ei weithredu.

18. Strategaeth Gwirfoddolwyr 2021-2026

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Swyddog Gwirfoddolwyr a Lles i fabwysiadu Strategaeth Gwirfoddolwyr newydd y Parc Cenedlaethol 2021-2026 yn ffurfiol.

Yn codi ar hynny, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i gydnabod cyfraniad sylweddol y gwirfoddolwyr.

PENDERFYNWYD mabwysiadu Strategaeth Gwirfoddolwyr 2021-2026 a chymeradwyo ei gweithredu.

19. Safonau'r Gymraeg

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ynghyd ag Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 2020/21 yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad yn fanwl a gwnaeth yr Aelodau'r sylwadau canlynol:-

- Paragraff 2.10: nododd Aelod, er gwybodaeth, fod Cyngor Gwynedd yn profi problemau tebyg ac y gallai rhannu arfer da fod o fudd i'r Awdurdod. Hefyd, gan fod angen monitro'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gofynnodd yr Aelod sut roedd hyn yn gael ei reoli.
- mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer nad oedd unrhyw fonitro ffurfiol yn cael ei wneud gan fod y rhan fwyaf o'r staff yn gweithio gartref ar hyn o bryd a bod arferion gwaith yn parhau fel o'r blaen heb unrhyw effeithiau negyddol ar yr iaith yn cael ei nodi. Byddai'r Pennaeth Gweinyddol a

- Gofal Cwsmer yn croesawu canllawiau ar unrhyw ddulliau ffurfiol o fonitro defnydd o'r iaith a chynghorwyd bod Prifysgol Bangor yn cynnal gwaith ymchwil.
- cadarnhaodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fod yr adolygiad 5 mlynedd o Strategaeth yr Awdurdod ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg yn dod i ben, ac er bod gany strategaeth bresennol darged i gynyddu nifer y bobl a allai siarad Cymraeg ym Mharc Cenedlaethol Eryri 2% erbyn 2021, roedd yn amhosibl cysylltu hyn yn uniongyrchol â gwaith yr Awdurdod, ac felly roedd yn anodd ei fesur. Roedd Canllawiau'n cael eu cyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg a byddai'r Strategaeth ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau maes o law.
 - sicrhaodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr Aelodau fod yr Awdurdod yn llwyr gefnogi gweithwyr sy'n dysgu Cymraeg, a bod cyrsiau ar-lein a llawer o gyfleoedd ar-lein ychwanegol ar gael i ddatblygu sgiliau iaith o dan yr amgylchiadau presennol.
 - croesawodd Aelod fod yr Awdurdod yn gweithio i safon uwch o ran y Gymraeg na llawer o sefydliadau eraill yng Nghymru a dylai demograffeg staff yr Awdurdod dawelu unrhyw feirniadaeth o ran yr holl gyfweiliadau sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, i gymeradwyo'r adroddiad ac awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i gyhoeddi Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 20 20/21 ar wefan yr Awdurdod.

20. **Adroddiad Gweithgor yr Aelodau**

Cyflwynwyd – Adroddiad Gweithgor yr ymgorfforiad Ma gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2021.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

21. **Cyfarfodydd Sefydliadau eraill**

Cyflwynwyd – Diweddariad llafar ar gyfarfodydd diweddar o sefydliadau y mae Aelodau wedi'u mynychu fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

Mr. Owain Wyn

Partneriaeth Biosffer Dyfi

- cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith diweddar a wnaed gan ymgynghorwyr a oedd yn ymwneud â rhoi cyfeiriad i'r Bartneriaeth yn y dyfodol. Y consensws cyffredinol oedd bod angen i'r Bartneriaeth ymgysylltu'n well â phobl leoll, yn enwedig y gymuned amaeth a phobl ifanc.
- roedd y Bartneriaeth yn dal i aros am ganlyniad adolygiad y Llywodraeth Ganolog er bod rhai arwyddion cadarnhaol. Bydd adroddiad llawn yn cael ei ryddhau yn gynnar yn yr Hydref.
- Penodwyd y Cynghorydd John Pughe Roberts ar y pwyllgor gwaith sydd newydd ei sefydlu, sy'n cynnwys trigolion lleol, a fydd, gobeithio, yn rhoi gwell perchnogaeth yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD diolch i'r Aelod a nodi'r adroddiad.

22. **Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:-

- (1) Cofnodion Cyfarfod Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2020.

Mewn ymateb i gwestiwn, rhoddodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am COP26 a'r Bartneriaeth Tirweddau Cenedlaethol. Yn codi ar hynny, llongyfarchodd yr Aelodau'r Prif Weithredwr ar ei ethol fel Is-Gadeirydd ar y Bartneriaeth.

(2) Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2021.

Yn codi ar hynny, ac mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr fod y Pennaeth Personél wedi cytuno i barhau yn ei rôl am ddau ddiwrnod yr wythnos tan fis Medi 2021.

23. **Busnes arall**

PENDERFYNWYD galw cyfarfod arbennig o'r Awdurdod ar 30 Mehefin 2021 i derbyn "Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2020/21".

Daeth y cyfarfod i ben am 11. 40

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 30ain MEHEFIN 2021**

Cyng Wyn Ellis Jones (Conwy) (Cadeirydd)

PRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cyng Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyng Philip Capper, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Mr. E. Williams, Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Mr. E. Roberts, Mrs. A. Gaffey.

Ymddiheuriadau

Cyng Elwyn Edwards, Gethin Glyn Williams; Mr. Tim Jones.

1. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

- (1) dywedodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, a bod:
 - Rhybudd o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi ac roedd yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
 - y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
 - y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion, ond fe allant gael eu darparu ar-lein yn ddiweddarach.
- (2) cynghorodd y Cadeirydd ynghylch deiseb, a gyflwynwyd gan Elfed Wyn ap Elwyn gyda dros 5,000 o lofnodion, yn gofyn i'r Awdurdod gefnogi defnyddio'r enw 'Yr Wyddfa' yn unig wrth gyfeirio at fynydd uchaf Cymru a 'Parc Cenedlaethol Eryri' yn lle "Snowdonia National Park'. Roedd y ddeiseb bellach wedi'i throsglwyddo i Grŵp Tasg a Gorffen Enwau Lleuedd Cymreig yr Awdurdod i'w hystyried. Manteisiodd y Cyng John Pughe Roberts ar y cyfle i ddiolch i bawb a lofnododd y ddeiseb ac a gefnogodd ei gynnydd.
- (3) adroddodd y Cadeirydd fod Mr Dewi Jones wedi ymddeol yn ddiweddar iawn ar ôl cwblhau 50 mlynedd o wasanaeth fel Warden Gwirfoddol i'r Awdurdod. Roedd yn anffodus nad oedd yr Aelodau'n gallu cwrdd â Mr Jones i ddiolch iddo yn bersonol, fodd bynnag, roedd llythyr wedi'i anfon ato, ar ran yr Aelodau, i ddiolch i Mr Jones am ei flynyddoedd lawer o wasanaeth ac i ddymuno ymddeoliad hir a hapus iddo .
- (4) Aelodaeth yr Awdurdod: Dywedodd y Cadeirydd fod uned benodi Llywodraeth Cymru ar fin dechrau ar y broses recriwtio. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Owain Wyn am gytuno i gynorthwyo Llywodraeth Cymru gyda'r gwaith hwn. Hefyd, nid oedd Cyngor Gwynedd wedi penodi olynnydd i Ms Freya Bentham eto.
- (5) cyfeiriodd y Cadeirydd gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Mr Gerald Williams, Yr Ysgwrn, sydd wedi gwneud cyfraniad rhagorol i'w gymuned, Parc Cenedlaethol Eryri ac at dreftadaeth ddiwylliannol Cymru. Roedd y Prif Weithredwr wedi cysylltu'n bersonol â'i weddw Elsa, ar ran staff ac Aelodau, i gyfleu cydymdeimlad diffuant yr Awdurdod.

Diweddariad Corfforaethol

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar faterion gweithredol: -

- (1) bu oedi gyda'r gwaith atgyweirio yn Hafod Eryri oherwydd anawsterau wrth gludo'r deunyddiau i'r copa. Cytunwyd bellach y byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn gynnar y flwyddyn nesaf ac mae cyllid wedi'i neilltuo at y diben hwn.
- (2) yn dilyn cyfarfod heddiw, gofynnir i'r Aelodau gwblhau arolwg ar-lein i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i nodi'r sgiliau y mae Aelodau'n teimlo nad oes gan yr Awdurdod ar hyn o bryd.
- (3) Dywedwyd wrth yr aelodau am ŵyl a gaiff ei threfnu o bosibl yn 2022 ac y gellid gofyn i'r Parciau Cenedlaethol gyfrannu. Efallai y gofynnir i aelodau ystyried y mater ymhellach dros fisoedd yr haf.

2. Datgan Budd

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2020/21

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn cymharu, ar lefel maes gwasanaeth, cynlluniau refeniw a gwariant cyfalaf cyllidebol yr Awdurdod ar gyfer 2020/2021 a'r gwariant alldro gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad yn manylu ar symudiadau ariannol, trosglwyddiadau a chario cyllidebau refeniw a chyfalaf ymlaen, i'w cymeradwyo'n ffurfiol. Gofynnwyd i'r aelodau nodi un diwygiad i'r Gronfa Ariannu Cyfatebol (para. 5.9) yn yr ystyr bod swm prosiect y cynllun grant CRhC bellach yn £7k ac nid yn £53,964 fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi cynnwys yr adroddiad alldro a chymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf a amlinellir yn rhan 4 (fel y manylir yn Atodiad 1).**
- 2. cymeradwyo'r symudiadau ariannol / trosglwyddiadau i ac o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi (£2,864,679 symudiad net) fel yr amlinellir yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.**
- 3. nodi sefyllfa derfynol cyfarwyddiaethau a gwasanaethau mewn perthynas â rheolaeth gyllidebol (paragraffau 4.3 i 4.7 ac Atodiad 2).**
- 4. cymeradwyo dyrannu llithriad ac ymrwymadau (£233,455) yn Atodiad 4.**
- 5. nodi bod y gwaged ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 (£10,237) yn cynyddu Balansau Cyffredinol yr Awdurdod (paragraff 5.2). cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 6 ac Atodiad 5).**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 10.04.2019

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
12. Maniffesto leuenctid Europarc	PENDERFYNWYD sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i wneud gwaith pellach ar hyn ac adrodd yn ôl i'r Awdurdod ym mis Rhagfyr.	Swyddogion i alw cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Gorffen Maniffesto leuenctid.	HP/AD	<p>Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen cychwynnol wedi'i gynnal, gyda Grŵp Tasg a Gorffen pellach ym mis Mawrth 2020.</p> <p>Disgrifiad swydd ar gyfer Swyddog leuenctid yn cael ei baratoi fel rôl ar y cyd rhwng y Pennaeth Wardeiniaid a'r Pennaeth Ymgysylltu. Bydd y swyddog yn arwain ar ddatblygu Maniffesto leuenctid lleol.</p> <p>Disgrifiad swydd Swyddog leuenctid wedi'i gwblhau ac yn aros i gael ei werthuso.</p>	NA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 25.09.2019

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
8. Diweddariad o'r gyllideb	<ul style="list-style-type: none"> - adroddiad ar y pwysau cyllidebol a wynebwr gan yr Adran Eiddo i'w gyflwyno i Weithgor y dyfodol. - adroddiad gan Grŵp Prosiect Yr Ysgwrn i'w gyflwyno i'r Aelodau yn y Flwyddyn Newydd. - rhoi copi o ddyfarniad Aberdyfi i'r Aelodau unwaith y bydd ar gael. 	<p>Cyflwyno'r adroddiadau.</p> <p>I e-bostio Aelodau gyda'r dyfarniad.</p>	<p>EJ</p> <p>NJ</p> <p>GIJ</p>	<p>Diweddariad - Cyfarfu'r Is-grŵp Asedau ar 4 Mawrth 2020 ac ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu pwysau cyllidebol ac argymhellion i ail-fuddsoddi incwm o safleoedd cynhyrchu incwm mewn cyllidebau cynnal a chadw yn y dyfodol o 2021/22 ymlaen. Adroddiad dilynol i'w baratoi ar gyfer pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn yr Hydref. Nodwyd bod Covid 19 yn risg bosibl ac mae wedi arwain at ohirio'r adroddiad oherwydd pwysau ariannol ehangach yn deillio o'r pandemig. Bu i'r Is-grŵp Asedau gyfarfod ar 15fed Ionawr 2021.</p> <p>Diweddariad - ar ddiwedd tymor 2021 bydd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd Yr Ysgwrn cyn ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ddiwedd 2021 / dechrau 2022</p> <p>Rhodddwyd copi o'r dyfarniad i'r Aelodau ar 28.11.19.</p> <p style="text-align: right;">CWBLHAWYD</p>	<p>NA</p>



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 09.12.2020

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
7 Taflen Gweithredu	Cyfarfod yr Awdurdod 10.04.19 Eitem Weithredu 12 - Manffesto Ieuenctid Europarc	Symud ymlaen gyda'r weithred yma fel mater o frys.	HP/AD	(Gweler y diweddariad uchod Awdurdod 10.04.19 - Eitem Rhif 12) Disgrifiad swydd Swyddpg Ieuenctid wedi'i gwblhau ac yn aros i gael ei werthuso.	NA
10. Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2021/22	Cytunodd y Cyfarwyddwr Rheoli Tir i roi diweddariad i'r Aelodau am Wariant Symiau Cymudo Tai Fforddiadwy.	Cyflwyno'r adroddiad diweddarau..	JC	I'w adrodd i'r Aelodau yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ym mis Mawrth neu fis Ebrill 2021.	NA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 03.02.2021

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
2. Diweddariad Corfforaethol	PENDERFYNWYD aros am adroddiad pellach i'r Aelodau ystyried a ddyld sefydlu gwyliau i'r holl staff ar Ddydd Gŵyl Dewi yn barhaol yn y dyfodol.	Cyflwyno adroddiad pellach.	PW / Cadeirydd	I'w ystyried pan fydd telerau ac amodau staff i'w cyflwyno i'r Awdurdod.	NA

EITEM RHIF 8

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	13 Hydref 2021
TEITL	DIWEDDARIAD O GYLLIDEB 2021-22
ADRODDIAD GAN	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	I hysbysu Aelodau – <ul style="list-style-type: none">• o drosglwyddiadau sylweddol,• o'r cynnydd yn erbyn y gyllideb refeniw a chyfalaf,• ynghyd ag amcan o'r sefyllfa derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol.

1. CEFNDIR

- 1.1 Cyflwynir crynodeb o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer 2021-22 gyda newidiadau sy'n adlewyrchu pum mis cyntaf y flwyddyn ariannol, h.y.1 Ebrill 2021 hyd y 31 Awst 2021.
- 1.2 Mae llithriad a thanwariant o flynyddoedd ariannol 2019-20 a 2020-21 wedi eu ychwanegu i'r gyllideb a £120,193 perthnasol i'r gwasanaeth Wardeiniaid a Phlas Tan y Bwlch wedi ei drosglwyddo i'r gronfa Prosiectau.
- 1.3 Mae rhan 5 o'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb net refeniw, ynghyd ag amcan o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.
- 1.4 Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cymryd cyfrifoldeb dros dro o'r Gwasanaeth Wardeiniad a Mynediad. Fodd bynnag, er hwylustod mae'r adroddiad yma'n dangos y gwasanaethau o fewn eu cyfarwyddiaeth arferol.
- 1.5 Mae'r Awdurdod wedi derbyn cymorth ariannol yn sgîl effaith Covid19 yn cynnwys :
 - Grant Cymorth Llywodraeth Cymru am chwarter cyntaf 2021/22 gwerth £102,730, gyda chais pellach am yr ail chwarter i'w gyflwyno erbyn 15ed Hydref.
 - Gostyngiadau Trethi
 - Ad-daliadau trwy'r cynllun (Ffyrlo) seibiant swyddi £25,838

- 1.6 Yn dilyn derbyn cynnydd yn y grant Parc Cenedlaethol o 10% am 2021/22, mae'r Awdurdod gyda gwarged o £476,251 yn aros i'w glustnodi ar gyfer dibenion penodol, yn cynnwys cynyddu capasiti'r Awdurdod, agenda dad-carboneiddio ac ymrwymadau cyfalaf.
- 1.7 Mae'r grant cyfalaf gwerth £314,530 a dderbyniwyd yn 2020/21 wedi ei ddyrannu i nifer o brosiectau yn 2021/22.
- 1.8 Mae peth o gynlluniau grant prosiectau 'Tirwedd Cynaliadwy, Lle Cynaliadwy' (TCLIC) 2020/21 wedi eu cario trosodd i 2021/22 i'w cwblhau. Mae grant TCLIC pellach gwerth £900,000 wedi ei gymeradwyo i'r Awdurdod am 2021/22 sy'n cynnwys gwerth £81,818 o ffi gweinyddu.

2. GWARIANT REFENIW A CHYFALAF WEDI EI GLUSTNODI A GARIWYD YMLAEN O 2019-20 A 2020-21

- 2.1 Rhoddwyd arian mewn cronfeydd wrth gefn yn unol â'r rhestrau a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd yn yr adroddiadau alldro blynyddol a gyflwynwyd i gyfarfodydd 15 Gorffennaf 2020 a 30 Mehefin 2021 o'r Awdurdod. Dangosir trosglwyddiadau i mewn i gyllideb 2021/22 ym mharagraff 3.1 isod.

3. CYLLIDEB REFENIW DDIWYGIEDIG 2021-22

- 3.1 Cafodd y Gyllideb Net Wreiddiol ei chymeradwyo gan yr Awdurdod ar 3 Chwefror 2021.

Gwelir ddyraniadau o gronfeydd yn y golofn 'Trosgl' yn y tabl isod :-

Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Net Wreiddiol (£)	Trosogl. (£)	Cyllideb Net Ddiwygiedig (£)
Cynllunio a Rheoli Tir	2,728,270	11,190	2,739,460
Corfforaethol	3,882,141	242,969	4,125,110
Balansau, Cronfeydd wrth Gefn a Darpariaethau	10,000	0	10,000
Cyfanswm Gwariant i Wasanaethau	6,620,411	254,159	6,874,570
Llog ar falansau	-8,000	0	-8,000
Refeniw yn ariannu gwariant Cyfalaf	1,636,048	-70,772	1,565,276
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-591,050	0	-591,050
Cyllideb Net	7,657,409	183,387	7,840,796
ARIANNWYD O			
Grant y Parc Cenedlaethol	4,119,789		4,119,789
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262		1,373,262
	5,493,051		5,493,051
Cyfraniadau o gronfeydd wrth gefn:	2,164,358	183,387	2,347,745
Cyllideb Net Wreiddiol	7,657,409		7,840,796

3.2 Mae dadansoddiad manwl yn dangos y gyllideb net ddiwygiedig, yn ôl pob gwasanaeth ar 31 Awst 2021, i'w weld yn Atodiad 1.

3.3 Mae'r cynnydd net o £183,387 yn y gyllideb sylfaenol o £7,657,409 (fel y'i cymeradwywyd ym mis Chwefror 2021) i £7,840,796 yn cynrychioli :

£7,660	grantiau refeniw o'r gronfa wrth gefn
£417,428	arian llithriad 2019/20 a 2020/21
£49,155	grantiau Cronfa Eryri
£27,923	cyllid at gost pryniant dadansoddwr nwy (mawndiroedd) o'r gronfa arian cyfatebol
-£193,217	cyllideb grant ar gyfer Hafod Eryri wedi ei ddychwelyd i gronfa wrth gefn yn dilyn cais y cwmni rheilffordd i ohirio gwaith tan y flwyddyn ariannol nesaf.
-£125,562	cywriad ar y gyllideb sylfaenol (yn dilyn alldro 2020/21)

4. CYLLIDEB GYFALAF DDIWYGIEDIG

4.1 Dangosir y gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf 2021/22 yn y tabl canlynol:

Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Gros Wreiddiol	Incwm Grant	Cyllideb Net Wreiddiol	Trosogl.	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheoli Tir					
Prosiectau Mynediad	79,530	0	79,530	0	79,530
Wardeniaid - Cerbydau	14,000	0	14,000	68,802	82,802
Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol	113,080	0	113,080	69,046	182,126
Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau	685,480	-508,670	176,810	0	176,810
Cynllun Harlech ac Ardudwy	40,000		40,000		40,000
Carneddau - Data LiDAR (grant LI. C.)	17,590	0	17,590	0	17,590
Carneddau - Llwybrau (grant LI.C.)	32,500	0	32,500	0	32,500
Arsyllfa Symudol (grant LI.C.)	25,000	0	25,000	0	25,000
Ciwy'r Ynn (grant LI. C.)	50,000	0	50,000	0	50,000
Bioamrywiaeth (grant LI. C.)	75,000	0	75,000	0	75,000
Dadansoddw'r Nwy (cynllun mawndiroedd)	0	0	0	27,923	27,923
Penmaen Brith (grant LI.C.)	25,000	0	25,000	0	25,000
Llyn Cynwch (grant LI.C.)	30,000	0	30,000	0	30,000
Bwch Mawr - Brithdir (LI. C.)	50,328	0	50,328	-43,149	7,179
Brithdir - Pen Ceunant (grant LI. C.)	40,000	0	40,000	0	40,000
Gorseddau (grant LI. C.)	50,000	0	50,000	0	50,000
Nant Gwynant (grant LI. C.)	45,000	0	45,000	0	45,000
Cadair Idris (grant LI. C.)	50,000	0	50,000	0	50,000
Llyn Llywelyn (grant LI. C.)	30,000	0	30,000	-6,250	23,750
Lôn Gwyrfaei (grant LI. C.)	30,000	0	30,000	0	30,000
Ffridd Uchaf (grant LI. C.)	0		0	6,250	6,250
Gorffen Cynlluniau Grant Amrywiol (grant LI. C.)	8,000	0	8,000	0	8,000
Corfforaethol					
Systemau gwybodaeth - Rhaglen Amnewid.	72,340	0	72,340	0	72,340
Tech. Gwybodaeth at ddefnydd Cynllunio (grant LI. C.)	60,000	0	60,000	32,539	92,539
Safle Gwe	10,000	0	10,000	0	10,000
Dathliadau 70 oed (grant LI.C.)	30,000	0	30,000	0	30,000
Cynllun Partneriaeth y Wyddfa (grant LI. C.)	62,780	0	62,780	-317	62,463
Cynllun Dehongli'r Wyddfa (grant LI.C.)	50,000	0	50,000	0	50,000
Pwyntiau Trydan i Geir (grant LI. C.)	13,040	0	13,040	-751	12,289
Gwaith ailwynebu Meysydd Parcio ac ym Mhlas Tan y Bwch (grant LI. C.)	40,000	0	40,000	0	40,000
Can. Ogwen (cynllun TAIS)	0	0	0	2,000	2,000
Betws y Coed (grant LI.C.)	77,780	0	77,780	-635	77,145
Gorsafoedd Ail-gyflenwi Dwr (grant LI.C.)	12,040	0	12,040	0	12,040
Hafod Eryri (grant LI. C 18/19)	66,210	0	66,210	-66,210	0
Hafod Eryri (grant LI. C 19/20)	160,020	0	160,020	-160,020	0
	2,144,718	-508,670	1,636,048	-70,772	1,565,276

4.2 Mae'r gostyngiad o £70,772 yn y gyllideb cyfalaf oherwydd :

- £115,326 cywiriad ar y gyllideb sylfaenol (yn dilyn alldro 2020/21)
- £193,217 cyllideb (grant) ar gyfer Hafod Eryri wedi ei ddychwelyd i gronfa wrth gefn yn dilyn cais y cwmni rheilffordd i ohirio gwaith tan y flwyddyn ariannol nesaf.

£27,923 cyllid at gost pryniant dadansoddwr nwy (mawndiroedd) o'r
 gronfa arian cyfatebol
 £209,848 llithriad 2019/20 a 2020/21

5. SEFYLLFA RAGWELEDIG 2021/22

5.1 Mae'r Tîm Rheoli yn anelu i gadw gwariant net eleni o fewn yr adnoddau ar gael, gyda'r dewis o gyfraniad o gronfeydd wrth gefn yn ôl yr angen. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r cynnydd hyd 31 Awst 2021 yn erbyn y gyllideb, a thafluniad o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (fel y trafodwyd gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Cyfarwyddwyr). Rhagolwg cynnar a gyflwynir yma yn fuan yn ystod 2021/22 ac wrth gwrs gall y ffigyrau a ragwelir newid.

Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Net Dd'gedig (£)	Gwariant Net hyd yma (£)	Tafluniad diwedd blwyddyn (£)	Gwahaniaeth a ragwelir (£)
Cynllunio a Rheoli Tir	2,739,460	387,288	2,739,460	0
Corfforaethol	4,125,110	913,568	4,065,110	60,000
Balansau, Wrth Gefn a Darpariaethau	10,000	0	10,000	0
Cyfanswm Gwariant i Wasanaethau	6,874,570	1,300,856	6,814,570	60,000
Llog a Enillwyd ar Gronfeydd Dros Ben	-8,000	-1,987	-8,000	0
Cyfraniad refeniw ar wariant cyfalaf	1,565,276	317,010	1,565,276	0
Addasiad Taliadau cyfalaf	-591,050	-246,271	-591,050	0
Cyllideb Refeniw Net	7,840,796	1,369,608	7,780,796	60,000
Rhagolwg balans Net (+) / diffyg (-) for 2021/22				60,000
<u>WEDI EI ARIANNU O</u>				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789			
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262			
Cyfr. o gronfeydd wrth gefn	<u>2,164,358</u>			
Cyllideb Net Wreiddiol	7,657,409			
Cyfr. o gronfeydd wrth gefn	<u>183,387</u>			
Cyllideb Net Ddiwygiedig	7,840,796			

5.2 I grynhoi, y rhagolwg at ddiwedd y flwyddyn ar yr adeg hwn ydy tanwariant o £60,000. Mae cafeat ar hyn o ran unrhyw ddirywiad yn y sefyllfa Covid19, a'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i osod yn erbyn cost ariannol y pandemig.

Cyflwynir isod esboniadau y prif amrywiannau a ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn, ac addasiadau o ganlyniad i hynny, gan ganolbwyntio'n bennaf ar symiau o £10,000 a throsodd.

5.3 **Corfforaethol**: Rhagwelir gwarged o oddeutu £60,000. Mae'r prif amrywiadau fel a ganlyn :

Plas Tan y Bwlch – rhagwelir diffyg yn erbyn y gyllideb o oddeutu £35,000. Disgwylir rhagori ar y targed incwm gwely a brecwast, ond fod costau cyflogaeth ac ynni yn benodol yn debygol o fod yn uwch na'r gyllideb. Mae rhyddhad o gost treth am y flwyddyn, ond ar sail ffigwr llynedd gall yr incwm tariff cynhyrchu trydan fod yn sylweddol îs na'r gyllideb, ac felly'r ddau i raddau'n cyd-bwysu'u gilydd.

Meysydd Parcio – rhagwelir gwarged o oddeutu £170,000 ar y gyllideb ar ôl neilltuo cyfraniad at gost blwyddyn o gyflogaeth y Rheolwr Cyfleusterau ac Eiddo. Mae'r Pennaeth Eiddo , gyda chefnogaeth y tîm Rheoli, yn bwriadu cadw unrhyw warged wrth gefn at gostau cyfalaf sydd dan ystyriaeth.

Cyfleusterau Ymwelwyr – tra bo gwarged ar y gyllideb, byddai defnydd ar hwn os penderfynir cadw toiledau ar agor dros y gaeaf.

Cyfieithu – rhagwelir tan-wariant o oddeutu £20,000 yn deillio o ddefnydd cyfieithwyr allanol yn hytrach na chyflogi cyfieithydd.

Cyfreithiol – mae achos Hillside, Aberdyfi yn dal heb dderbyn gwrandawriad ac felly'r goblygiadau ariannol yn dal yn annelwig. O safbwynt yr adroddiad hwn cymerir cost net y gwasanaeth yn wastad yn erbyn y gyllideb.

Cyllid – amcan o oddeutu £13,000 gor-wariant yn deillio o newid mewn trefniadau cyflogaeth.

Rheolaeth Corfforaethol – mae swydd cynorthwy-ydd yn wag ac hefyd mae llinell gwaged o £476,251 heb ymrwymiad yn ei erbyn hyd yma, ond i'w glustnodi ar gyfer dibennion penodol fel ag a nodwyd ym mharagraff 1.6.

Ymgysylltu – rhagwelir tanwariant o oddeutu £10,000 yn deillio o gyfuniad o linellau yn cynnwys costau teithio a'r ffaith na chynhyrchir cylchgrawn Eryri eleni.

Cynllun Eryri a Phartneriaethau – ar yr adeg hwn rhagwelir tanwariant ar y llinell cyllideb Cronfa Gomisiynu. Deellir fod trafodaethau yn digwydd hefo Fforwm Eryri ar brosiectau ond dim ymrwymiad pendant hyd yma. At ddiben yr adroddiad hwn cymerir amcan o hanner y gyllideb (£58k) fel tanwariant.

5.4 **Cynllunio a Rheoli Tir**: Ar y cyfan, mae'r amrywiaethau cyllideb a ragwelwyd yn dod i falans net o ddim h.y. torri'n wastad yn erbyn y gyllideb.

Treftadaeth Diwylliannol – Rhagwelir tanwariant gyda'r Pennaeth ar gyfnod mamolaeth, ond fod hwn i'w glustnodi'n gyllideb ychwanegol ar gyfer y prosiect Harlech ac Ardudwy.

Cynllunio – Mae'r cynnydd gyda'r incwm ffioedd cynllunio yn gyson â chyrraedd y targed cyllideb. Mae arbedion yn y gyllideb cyflogaeth a hefyd dim defnydd hyd yma o linell "prynu gwasanaeth i mewn". Mae'r cyfarwyddwr yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i ehangu capasiti'r gwasanaeth dros dro.

Wardeniaid - Mae yma arbedion yn deillio o swyddi gweigion. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn dymuno defnyddio'r arbedion at ddibenion eraill o fewn y gwasanaeth gan gynnwys ailstrwythuro a phryniant dau uned lles.

Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE) – mae'r gwariant tu ôl i broffil. Yr holl arian Llywodraeth Cymru (£2m) wedi ei hawlio. Y Rheolwr Prosiect wedi cychwyn paratoi yr ail adroddiad "canol tymor", ac yn edrych i gadarnhau'r sefyllfa parthed estyniad i'r cynllun yn sgil effaith y pandemig.

5.5 **Balansau, Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau**: Mae'r balans gwaelodlin gwreiddiol o £10,000 yn ddarpariaeth chwyddiant ac eto i'w ddosrannu.

5.6 **Costau cyflog** : Nid oes cytundeb ar gynnydd chwyddiant 2021/22 hyd yma. Mae darpariaeth o £72,240 yn y gyllideb ddiwygiedig.

5.7 **Llog**: Mae'r cyfraddau llog yn dal yn isel iawn a bydd cyrraedd y targed gyllideb (fel gostyngwyd am eleni) yn heriol.

5.8 **Cyfalaf**: Mae'r prif wariant net hyd ddiwedd Awst yn cynnwys:

Cynllun Cronfa Dreftadaeth y Loteri Dolgellau	£45,546
Ysgwrn (T.C.LI.C 2020/21)	£39,420
Offer Dadansoddi Nwy (Mawndiroedd)	£27,923

6. **Trosglwyddiadau Rhwng Cyllidebau Dros £30,000 Er Sylw'r Awdurdod.**

6.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth rhwng £30,000 a £100,000 rhwng cyllidebau, lle nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo yn flaenorol gan yr Awdurdod. Yn ogystal mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod i unrhyw drosglwyddiad gwerth £100,000 neu fwy.

Nid oes achosion o'r fath ym mhwm mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon.

7. **ARGYMHELLIAD**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cadarnhau'r trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn ym mharagraff 1.2 a'r golofn 'Trosgl' yn y tabl o dan paragraff 3.1**

8. **PAPURAU CEFNDIROL** **Dim**

Atodiad 1

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri			
Cyllideb Ddiwygiedig 2021-22 ar 31 Awst 2021			
	Cyllideb Sylfaenol £	Trosgl £	Cyllideb Net Ddiwygiedig £
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR			
Cadwraeth, Coed ac Amaeth	418,210	-15,820	402,390
Awyr Dywyll	47,800	0	47,800
Mawndir Cymru (grant Ll. Cymru)	45,190	10	45,200
Grid Cenedl. - Maentwrog (Dwyrain)	91,160	0	91,160
Coedwigoedd Celtaidd (LIFE)	74,860	0	74,860
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau	25,000	0	25,000
Mynediad Cyhoeddus	111,730	0	111,730
Tim Yr Wyddfa	305,120	0	305,120
Wardeniaid - Cyffredinol	267,660	4	267,664
Wardeniaid - Gogledd	258,400	0	258,400
Wardeniaid - De	239,860	0	239,860
Archeoleg	60,340	2,746	63,086
Treftadaeth Diwylliannol	70,480	0	70,480
Treftadaeth Treflun Dolgellau	22,510	0	22,510
Cynllun Harlech ac Arudwy	61,110	0	61,110
Ysgwrn	94,190	0	94,190
Cynllunio	534,650	24,250	558,900
Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen	2,728,270	11,190	2,739,460
CORFFORAETHOL			
Costau Aelodau	103,510	0	103,510
Cefnogaeth yr Awdurdod	84,810	0	84,810
Rheolaeth Gorfforaethol	1,104,401	60,578	1,164,979
Eiddo	259,330	0	259,330
Cyfreithiol	52,290	0	52,290
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	219,170	-10,000	209,170
Cyfieithu	110,780	0	110,780
Personel a Hyfforddiant	108,250	0	108,250
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	2,042,541	50,578	2,093,119

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri			
Cyllideb Ddiwygiedig 2021-22 ar 31 Awst 2021			
	Cyllideb Waelodlin £	Trosogl. £	Cyllideb Net Ddiwygiedig £
Is-gyfansymiau a gariwyd ymlaen			
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR	2,728,270	11,190	2,739,460
CORFFORAETHOL	2,042,541	50,578	2,093,119
Pencadlys	222,410	0	222,410
Systemau Gwybodaeth	318,780	0	318,780
Cyllid	167,570	10,000	177,570
Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch	286,450	-5,240	281,210
Ymgysylltu	456,200	79,365	535,565
Safle Gwe Newydd	42,760	26,690	69,450
Ymgysylltu â Phobl Ifanc (grant LI.Cymru)	20,010	0	20,010
Llwybrau Llesiant (grant LI.Cymru)	40,000	0	40,000
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	250,330	121,746	372,076
Mynydda Diogel	30,000	-30,000	0
Canolfannau Gwybodaeth	143,380	-10,170	133,210
Llyn Tegid	-19,940	0	-19,940
Meysydd Parcio	-423,580	0	-423,580
Clirio Ysbwriel	19,510	0	19,510
Traffig a Chludiant	5,000	0	5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	280,720	0	280,720
	3,882,141	242,969	4,125,110
BALANSAU	10,000	0	10,000
CYFANSWM	6,620,411	254,159	6,874,570
Llog a Enillwyd	-8,000	0	-8,000
Refeniw yn Ariannu Gwariant Cyfalaf	1,636,048	-70,772	1,565,276
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-591,050	0	-591,050
	7,657,409	183,387	7,840,796
WEDI EI ARIANNU O			
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789		4,119,789
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262		1,373,262
Tros. Net o'r cronfeydd wrth gefn	2,164,358	183,387	2,347,745
Cyllideb Net	7,657,409	183,387	7,840,796

EITEM RHIF 9

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cdenedlaethol Eryri
DYDDIAD	13 Hydref 2021
TEITL	DATGANIAD O GYFRIFON DRAFFT 2020/21
ADRODDIAD GAN	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	Nodi cynnwys y Datganiad o Gyfrifon drafft a'r cyfnod i'w archwilio gan aelodau o'r cyhoedd.

1. CRYNODEB

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon Blynyddol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn (Atodiad 1). Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel y'i cymeradwywyd yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 6 Mehefin 2021.

Mae'n ofyniad gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliad (Cymru) 2005 (diwygiedig) fod y Prif Swyddog Cyllid yn cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon Blynyddol drafft erbyn 31 Mai. Yn sgîl effaith pandemig Covid19 caniatwyd estyniad i'r amserlen tan 31 Awst cyhyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i gwblhau mor fuan a phosibl a bod hysbysiad cyhoeddus o'r rheswm am fetu'r terfyn amser gwreiddiol.

Yn dilyn yr archwiliad, bydd cynrhychiolwyr Aelodau'r Awdurdod yn eu cymeradwyo erbyn 30 Tachwedd, y dyddiad hwn eto yn estyniad oherwydd amgylchiadau Covid19. Yn y cyfamser, cyflwynir y Datganiad o Gyfrifon drafft i'r Aelodau er gwybodaeth.

2. ARCHWILIO'R CYFRIFON

Gyrrwyd y cyfrifon i'r archwilydd ar 27 Gorffennaf a dechreuwyd yr archwiliad ar 4ydd Hydref. Nid yw'r gwaith archwilio wedi ei gwblhau hyd yma.

Yn unol â'r rheoliadau, bydd yr Archwilydd Penodedig yn cwblhau'r archwiliad a chyflwyno'r adroddiad am y Datganiad o Gyfrifon ger bron Aelodau'r Awdurdod, cyn sicrhau llofnod swyddogol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru erbyn 30 Tachwedd 2021.

3. ARCHWILIAD CYHOEDDUS O'R CYFRIFON

O dan adran 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, a rheoliad 13 a 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio Cymru 2005, mae'n ofynnol i'r Awdurdod hysbysu'r cyhoedd bod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio am gyfnod o 20 diwrnod gwaith.

Trefnwyd archwiliad cyhoeddus ar gyfer y cyfnod o 20 diwrnod gwaith rhwng 20 Hydref i 16 Tachwedd 2021 (hysbyswyd ar wefan yr Awdurdod, derbynfa prif swyddfeydd yr Awdurdod a Chanolfan Gwybodaeth Betws y Coed).

Yn ystod y broses archwilio, mae cyfle hefyd i etholwr llywodraeth leol ofyn cwestiynau i'r Archwilydd am y cyfrifon. Eleni pennwyd 17 Tachwedd fel y dyddiad penodol ar gyfer hyn.

4. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Dim. Nid yw'r penderfyniad heddiw yn ymrwymo unrhyw adnodd ychwanegol yn erbyn cyllideb yr Awdurdod.

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Nodi cynnwys y Datganiad o Gyfrifon 2020/21.

PAPURAU CEFNDIROL

Dim

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DATGANIAD O GYFRIFON



AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31^{AIN} MAWRTH 2021

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**DATGANIAD O GYFRIFON 2020/21****MYNEGAI**

	<u>Tud(au)</u>
Adroddiad Naratif	3-9
Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon	10
Datganiad o Bolisiâu Cyfrifyddu	11-21
Y Datganiadau Cyfrifyddu:	
- Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant	22
Mantolen	23
- Datganiad o Symudiadau yn y Cronfeydd	24-25
- Datganiad Llif Arian	26
Nodiadau am y Cyfrifon	27-66
Adroddiad yr Archwilydd	67-69
Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	70-99
Geirfa	100

ADRODDIAD NARATIF

1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad naratif yn darparu esboniad cryno ynghylch y materion mwy arwyddocaol adroddir yn y cyfrifon ac mae'n anelu i ychwanegu at a chynorthwyo i ddehongli'r datganiadau cyfrifyddu a amlinellir ar dudalennau 22 i 26 ac mae'n cynnwys :-

- Y **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** sy'n dangos crynodeb enillion a'r colledion a brofwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r enillion a'r colledion hyn wneud iawn am y symudiad mewn gwerth net.
- **Mantolen** yn nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31ain Mawrth 2021.
- Crynodeb yw'r **Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd** o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn rhan isaf y fantolen dros y flwyddyn ariannol.
- Y **Datganiad Llif Arian** sy'n crynhoi'r mewnlifiadau ac all-lifau o arian sy'n deillio o drafodion i bwrpasau refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon gan Ddatganiad o Bolisiâu Cyfrifyddu a nodiadau esboniadol.

2. GWELEDIGAETH A BLAENORIAETHAU AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Mabwysiadodd yr Awdurdod weledigaeth ar gyfer y Parc yng Nghynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri yng nghyfarfod 23ain Medi 2020 fel a ganlyn:

Parc Cenedlaethol sy'n gyfoethog yn ddiwylliannol, gydag economi werdd lewyrchus, profiad ymwelwyr o'r radd flaenaf sy'n cyfrannu'n fawr iawn at les ein cenedl.

Erbyn 2045 bydd Eryri yn parhau i fod yn dirlun gwarchoddedig ac esblygol, wedi'i ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol a hanesyddol cyfoethog, amrywiol a chydnerth; yn darparu buddion lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Bydd pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu cyflawni trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu ar gyfer heriau newid yn yr hinsawdd ac yn seiliedig ar adnoddau naturiol – rhinweddau'r dirwedd, cyfleoedd ar gyfer dysgu a mwynhad, y dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog a chynhwysol sy'n ffynnu, bydd gweithio mewn partneriaeth yn dangos ei bod yn bosib cyflawni mwy trwy gydweithio.

Bydd cymunedau wedi mabwysiadu atebion arloesol mewn byd sy'n newid - bydd economi carbon isel wedi cryfhau cyswllt trigolion â'r amgylchedd, gan ddarparu gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol o fri yn rhyngwladol ac fel lle i'r enaid gael llonydd."

Yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015) mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Datganiad Lles 2021-2026 ym Mawrth 2021.

https://www.eryri.llyw.cymru/data/assets/pdf_file/0032/387365/DATGANIAD-LLES-APCE-2021-26.pdf

Mae'r ddogfen hon yn gosod y cyd-destun ar gyfer y rhaglen waith corfforaethol sy'n manylu ar amcanion penodol llesiant a gwelliant, ac a gyflwynir yng nghyfarfod Awdurdod Ebrill yn flynyddol. Mae'r agenda ar gael trwy'r cyswllt canlynol:

<https://www.eryri.llyw.cymru/data/assets/pdf/0030/385293/Awdurdod-28.04.21.pdf>

3. CYD-DESTUN ARIANNOL

Perfformiad Ariannol a Sefyllfa Diwedd Blwyddyn

'Roedd y gyllideb ddiwygiedig fel ag adroddwyd i'r Awdurdod ar 30ain Mehefin 2021 fel a ganlyn.

	Cyllideb	Gwirioneddol	Amrywiad
	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheoli tir	2,345,627	1,505,001	840,626
Corfforaethol	3,372,080	3,107,988	264,092
Llog	-23,000	-12,307	-10,693
Cyllido cyfalaf o reffeniw	1,868,205	-146,141	2,014,346
Addasiad cost cyfalaf	-567,800	-567,800	0
Net	6,995,112	3,886,741	3,108,371
GPC a Lefi	-4,993,683	-4,993,683	0
Tr i/o gronfeydd wrth gefn	-2,001,429	1,106,942	-3,108,371
CYFANSWM	0	0	0

Addaswyd yr amrywiad net o £3,108,371 ar gyfer trosglwyddiadau diwedd blwyddyn i ac o gronfeydd wrth gefn (gwybodaeth pellach ym mhar. 4.2 o'r adroddiad a gyfeirwyd ato) yn gadael gweddill o £10,237 i'w ddosrannu. Cynhwyswyd y ffigwr hwn yn y balansau diwygiedig wrth gefn gan yr Awdurdod. Mae'r adroddiad yn eitem 3 yn y cyswllt canlynol –

https://www.eryri.llyw.cymru/data/assets/pdf_file/0027/394137/AwdurdodArbenni-g30.06.21.pdf

Tra'n dilyn trefn cwblhau y Datganiad Cyfrifon gwnaethpwyd yr addasiadau canlynol i'r alldro, gyda'r canlyniad o leihau'r balans i'w ddosrannu i £3,702. Mae'r ffigyrau diwygiedig ar gyfer gwariant net yn ymddangos yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu (nodyn 1 i'r prif ddatganiadau).

	Aldro	Addasiadau	DGA (nodyn 1)
	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheoli Tir	1,505,001	921	1,505,922
Corfforaethol	3,107,988	10,002	3,117,990
	4,612,989	10,923	4,623,912
Symudiadau eraill		-4,388	
Gwarged	10,237	6,535	3,702

Mae'r symudiadau mewn cronfeydd unigol yn nodyn 8 i'r datganiadau ariannol.

4. CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU :

Mantolen :

Mae'r cynnydd o **£2,728k** yn y **rhwymedigaeth gronfa bensiwn** yn bennaf gyfrifol am y gostyngiad gwerth net **£1,846k** ym mantolen yr Awdurdod. Symudiadau eraill fel a ganlyn:

- Gwerth **asedau tymor hir** wedi gostwng **£97k** gan fwyaf oherwydd y gwahaniaeth rhwng dibrisiant blynyddol a cholledion prisiant yn erbyn y gwariant ychwanegol ar asedau sefydlog.
- Gwerth **asedau cyfredol** wedi cynyddu o **£2,412k**. Y prif effaith oherwydd cynnydd mewn :
Dyledwyr (£1,346k) yn cynnwys cynlluniau grant megis Coedwigoedd Celtaidd (£402k), SMS (£1,287k) a CNC (£352k)

Arian a buddsoddiadau (£1,084k) yn deillio o arian grantiau'n cynnwys :
£243k yn perthyn i'r cynllun Coedwigoedd Celtaidd,
£812.5k gan Llywodraeth Cymru,
£191k grantiau Tiroedd Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (T.C.LI.C),
a gwerth £99k o ffi gweinyddu grantiau (T.C.LI.C.), na wariwyd yn 2020/21.

- Gwerth **rhwymedigaethau cyfredol** wedi cynyddu **£1,121k** gan fwyaf oherwydd :
£221k grantiau ymlaen llaw,
£109k cronriad budd gweithwyr,
£294k cyfraniad dyledus i bartner cynllun Coedwigoedd Celtaidd,
£169k perthnasol i ddiswyddiadau,
a symiau perthnasol i brosiectau grant ac ati.

Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr :

Mae'r cyfanswm cost net gwasanaethau wedi cynyddu £832k gyda symudiadau fesul cyfarwyddiaeth yn :

- Cynllunio, Treftadaeth Ddiwylliannol a Rheolaeth Tir +£755k
- Corfforaethol (cynnwys Cyfathrebu) + £70k
- Cost "na ellir ei ddsbarthu" o £43k (£36k yn 2019/20) + 7k

Y prif symudiadau fel a ganlyn :

Mwy o incwm / llai o wariant :

- (£103k) £272k gwariant net Refcus yn 20/21 i gymharu â £375k yn 2019/20
- (£356k) yn llai o addasiad cost pensiwn IAS19 i'r gwasanaethau yn 2020/21

Llai o incwm / mwy o wariant :

- (£609k) £243k grantiau ar gyfer defnydd yn y dyfodol wedi eu credydu i wasanaethau yn 2020/21 lle credydwyd £852k yn 2019/20.
- (£50k) £256k colled prisiant yn 20/21 i gymharu â £206k yn 2019/20.
- (£86k) cynnydd mewn cost dibrisiant blynyddol
- (£301k) mwy o gostau perthnasol i ddiswyddiadau.
- (£109k) mwy o addasiad cronriad budd gweithwyr yn 2020/21 ynghyd â chostau ychwanegol / diffyg incwm yn deillio o effaith y pandemig dros yr hyn a ddigolledwyd e.e. colledion incwm meysydd parcio a rhenti.

Yn ogystal â derbyn cyllid grant mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ei incwm ei hunan. Mae nodyn 1c i'r prif ddatganiadau yn dangos £1,433k (£2,513k yn 2019/20) wedi ei gynhyrchu o ffioedd ac incwm gwasanaeth fel arall. Y prif rannau ydy :

- | | | |
|---------------------------------------|-------|---------------------|
| • Ffioedd parcio | £470k | (£884k yn 2019/20) |
| • Ffioedd Cynllunio | £248k | (£185k yn 2019/20) |
| • Gwerthiannau Canolfannau gwybodaeth | £63k | (£159k yn 2019/20) |
| • Rhent | £32k | (£141k yn 2019/20) |

Gostyngiad yn gyffredinol, heblaw am y ffioedd cynllunio, oherwydd effaith y pandemig.

5. RHWYMEDIGAETH BENSIWN

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyflogwr yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r cyfrifon yn ymgorffori'n llawn beth yw gofynion y Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 19 (IAS 19).

Mae'r polisi'n adlewyrchu'r ymrwymiad yn y tymor hir i gynyddu cyfraniadau i wneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn asedau net priodoledig yn y gronfa bensiwn.

Mae'r rhwymedigaeth bensiwn net yn y Fantolen yn lleihau gwerth net yr Awdurdod o £7,317k ar 31 Mawrth 2021. Mae'r ffigwr damcaniaethol yma wedi cynyddu £2,728k ers 31 Mawrth 2020. Y prif reswm am hyn ydyw effaith y newid yn rhagdybiaethau'r Actiwari yn sgîl datblygiadau cenedlaethol (manylder yn nodyn 36).

6. COST NEU GREDYD ANGHYFFREDIN YN Y CYFRIFON

Y prif eitemau ydy'r :

- grantiau gwerth £1,878,344 a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru
- grantiau ac ad-daliadau gwerth £811,538 a dderbyniwyd yn sgîl y pandemig.

7. GWARIANT CYFALAF

Gwariant cyfalaf yw gwariant ar feddiannu ased sefydlog, neu wariant sy'n 6 yhn yr adroddiad naratif yn cyfeirio atychwanegu at werth ased sefydlog bresennol, nid ei gynnal yn unig.

Roedd gwariant cyfalaf yn ystod 2020/21 yn £1,778,255 (cyn cynnwys effaith dau gredydwr hanesyddol a ddilewyd gwerth £92,622). Dangosir manylion ynghylch y gwariant ym mhob maes gwasanaeth yn nodyn 30. Ariannwyd y gwariant gan grantiau a chyfraniadau oddi wrth gyrrff eraill (£1,606,074) ac ariannu refeniw uniongyrchol (£172,181).

Bydd yr holl wariant cyfalaf a gynlluniwyd yn cael ei ariannu o refeniw, grantiau allanol a chronfeydd a ddelir ar gyfer gwariant unwaith ac am byth.

Y prif gynlluniau gan yr Awdurdod ar 31^{ain} Mawrth 2021 ydyw :

- cynllun menter treftadaeth treflun Dolgellau gydag amcan cost cyfredol o £2m. Cynllun wedi ei raglennu i orffen yn Rhagfyr 2022.
- cynllun Partneriaeth y Carneddau bellach yn ei gyfnod gweithredol ac yn werth £4.17m. Cynllun wedi ei raglennu i orffen erbyn Mawrth 2026.
- y prosiect Coedwigoedd Celtaidd yn brosiect 7 blynedd gwerth £7.6m. Cynllun wedi ei raglennu i orffen yn 2025/26.

8. CYLLIDO CYFALAF

Cafodd holl wariant cyfalaf yr Awdurdod, ers iddo gael ei sefydlu ar yr 23ain o Dachwedd 1995, ei ariannu trwy gyfrwng grantiau cyfalaf a chyfraniadau gan y Llywodraeth, y Gymuned Ewropeaidd a grantiau o ffynonellau eraill, o dderbyniadau cyfalaf a gymhwyswyd ac o adnoddau refeniw'r Awdurdod.

Ar 31 Mawrth 2021 nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw fenthyciad i ariannu cyfalaf, ac i ddibenion rheolaeth trysorlys bydd yn parhau fel awdurdod di-ddyled.

9. CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY

Adolygwyd balans y Gronfa Refeniw Gyffredinol yn ystod y flwyddyn fel rhan o adolygiad cronfeydd yr Awdurdod, a bellach yn werth £663k.

Mae gan yr Awdurdod gyfanswm o £9,114k o Gronfeydd Defnyddadwy penodol ac mae manylion rhain yn nodyn 8 o'r datganiadau ariannol. Dylid nodi fod y rhan fwyaf o'r cronfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer dibenion penodol.

10. LLYWODRAETHU

Mae gan yr Awdurdod 18 aelod sy'n gwasanaethau ar Fwrdd yr Awdurdod, y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Mae gan Plas Tan y Bwlch a'r Ysgwrn eu Byrddau Rheolaeth eu hunain yn cynnwys 3 aelod yr un.

Darperir gwybodaeth pellach ar lywodraethu a materion perthnasol i 2020/21 yn y rhan Datganiad Llywodraethu Blynyddol o'r ddogfen hon.

11. RISGIAU A CHYFLEON

Risgiau

Cofnodir prif risgiau'r Awdurdod yn y Cofrestr Risg Corfforaethol a adolygir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac yn flynyddol yn Awdurdod Chwefror.

Nodir 4 risg mwyaf sylweddol yr Awdurdod, ynghyd â'r mesurau i'w lleddfu, yn niwedd rhan 6 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Cyfleon

Mae'r Awdurdod wedi derbyn cyllid "un tro" gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ar brosiectau cyfalaf yn cynnwys prosiectau Mynediad a gwelliannau i eiddo'r Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn parhau i ddenu cyllid grant o amrywiol ffynonhellau sy'n galluogi capasiti gweithredu llawer uwch na'r hyn sy'n bosibl trwy grant sylfaenol yn unig. Mae'r crebachu blynyddol ar niferoedd staff yr Awdurdod yn golygu bod elfen o risg gyda chapasiti i gyflawni ar brosiectau'n y dyfodol.

12. STRATEGAETHAU'R AWDURDOD

Pedwar prif strategaeth yr Awdurdod yw:

- Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri,
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri,
- Cynllun Corfforaethol, a
- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae gwybodaeth ychwanegol am y 4 ynghyd â strategaethau eraill yr Awdurdod ac adolygiad o'u effeithiolrwydd yn rhan 5 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

13. EFFAITH YR HINSAWDD ECONOMAIDD GYFREDOL

Mae'r Awdurdod wedi mantioli ei gyllideb am 2021/22 yn seliedig ar y ffigwr Grant Parc Cenedlaethol yn ôl hysbysiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2020. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu ffigurau grant dangosol am 2022/23 a thu hwnt.

Effaith COVID-19

Mae'r Awdurdod wedi derbyn cymorth ariannol trwy arbediad treth Annomestig, grantiau cymorth busnes gan gynghorau Gwynedd a Chonwy, grantiau cymorth penodol i'r Ysgwrn a'r cynllun seibiant swydd. Mae Plas Tan y Bwlch ond yn cynnig

gwasanaeth gwely a brecwast ar yr adeg hwn ynghyd â chyfleusterau ar gyfer cyfarfodydd dydd. Mae mynediad i'r Ysgwrn a Chanolfannau Gwybodaeth yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, a gwasanaethau'r Awdurdod yn gyffredinol yn dilyn trefniadau gwaith Covid.

Tra bo rhyw gymaint o bresenoldeb yn y brif swyddfa ym Mhenrhyndeudraeth mae'r rhan helyw o staff yn dal i weithio o gartref. Nid oes mynediad i'r cyhoedd i'r brif swyddfa heblaw drwy apwyntiad. Mae rhai staff Plas Tan y Bwlch yn parhau ar y cynllun seibiant swydd.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried sefyllfa tenantiaid a chaniatau gostyngiad rhent fel bo'r angen. Lle mae oediad gyda phrosiectau cyfalaf a grant, mae'r Awdurdod mewn cysylltiad â'r cyllidwyr a phartneriaid perthnasol ac wedi derbyn estyniad amser lle'n briodol e.e. cynlluniau Treftadaeth Treflun Dolgellau a Phartneriaeth Tirwedd Carneddau.

Ar adeg sgwennu'r Datganiad mae llif arian yr Awdurdod yn ddigonol, ond, petai "trydydd ton" o'r firws byddai angen ail-werthuso y sefyllfa.

Mae'r Awdurdod wedi gwirio Cynllun Rheolaeth y Parc yn erbyn y gwersi a ddysgwyd o Covid. Bydd cychwyn ar adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol o fewn y ddwy flynedd nesaf (gyda'r dyddiad penodol ar gyfer yr adolygiad yn dibynnu'n bennaf ar Adroddiad Adolygiad Blyneddol y Cynllun Datblygu Lleol) a bydd hwn hefyd yn ystyried yr heriau i'r ardal sy'n deillio o Covid. Bu datblygu ar y cynllun Llesiant dros yr Hydref / gaeaf gan gynnwys ystyriaeth o faterion Covid. Mae'r Awdurdod yn adolygu'n barhaus yr effaith ariannol tan fydd gwell sefydlogrwydd yn bodoli.

GWYBODAETH BELLACH

Mae gwybodaeth bellach ynghylch y Datganiad Cyfrifon hwn ar gael oddi wrth:

Emyr Roberts
Pennaeth Cyllid
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF
Ffôn: 01766 772 225
Ebst: emyr.roberts@eryri.llyw.cymru

Y DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol ar i'r Awdurdod:-

- Wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu priodol ei faterion ariannol ac i sicrhau fod un o'i swyddogion gyda chyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn achos Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Cyllid;
- Rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon, ac effeithiol o'i adnoddau a diogelu ei asedau;
- Cymeradwyo ei ddatganiad cyfrifon.

Cafodd y cyfrifon hyn eu cymeradwyo gan yr Awdurdod ar 2021.

Llofnod:

CYNG. WYN ELLIS-JONES - CADEIRYDD

CYFRIFOLDEBAU'R PRIF SWYDDOG CYLLID

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol a amlinellir yn y Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y DU ('y Cod Ymarfer').

Wrth baratoi'r datganiadau cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:-

- Dethol polisiâu cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth;
- Wedi cydymffurfio â'r Datganiad Ymarfer a Argymhellir.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:-

- Cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol;
- Wedi cymryd camau rhesymol i rwystro a darganfod twyll ac anghysonderau eraill.

TYSTYSGRIF Y PRIF SWYDDOG CYLLID

Mae'r Datganiadau Cyfrifon wedi cael eu paratoi'n unol â Chyfrifon Llywodraeth Leol a Rheoliadau Archwilio ac yn cyflwyno'n deg a gwir sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a gwariant i'r flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021.

Llofnod :
2021



27ain Gorffennaf

DAFYDD L. EDWARDS – PRIF SWYDDOG CYLLID

DATGANIAD O BOLISIÂU CYFRIFYDDU

1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y DU ('y Cod Ymarfer').

Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i bolisiau cyfrifyddu gael eu cymhwyso'n gyson. Y gofyniad pwysicaf yw bod y Datganiadau Cyfrifon yn 'cyflwyno'n deg a gwir' berfformiad ariannol a sefyllfa'r Awdurdod.

2. Cysyniadau Cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n unol â'r egwyddorion a'r cysyniadau cyfrifyddu hanfodol (a threiddiol) a ganlyn :

- Perthnasedd
- Dibynadwyedd
- Cymaroldeb
- Dealladwy
- Materoldeb
- Croniadau
- Busnes Gweithredol
- Uchafiaeth gofynion deddfwriaethol

Mae'r egwyddorion a chysyniadau hyn wedi eu defnyddio wrth ddethol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif ac wrth weithredu barn broffesiynol.

3. Croniadau Gwariant ac Incwm

Mae cyfrifon refeniw a chyfalaf yr Awdurdod yn cael eu cynnal ar sail croniant. Mae'r holl symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn cael eu gosod yn y cyfrifon ar yr amser maent yn ddyledus.

- Bydd y refeniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a phan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd refeniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pryd fydd taliadau'n cael eu gwneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif refeniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

4. **Arian Parod a'r Eitemau sydd Gyfystyr ag Arian Parod**

Mae hyn yn cynnwys cyfrifon imprest a chronfeydd parod yr Awdurdod ac arian parod a ddelir "ar alwad" neu wedi ei ddydodi dros y tymor byr gyda banciau lle mae'r arian yn ad-daladwy heb gosb pan geir rhybudd nid hwy na 24 awr.

5. **Eitemau Eithriadol**

Lle mae eitemau o'r fath yn berthnasol i gyfrifon 2020/21, tynnir sylw atynt yn y nodiadau perthnasol e.e. colledion ailbrisiad.

6. **Addasiadau cyn cyfnod, newidiadau mewn polisiau cyfrifyddu ac amcangyfrifon a chamgymeriadau**

Nid oes unrhyw newidiadau o sylwedd yn 2020/21.

7. **Codi tâl ar refeniw am asedau anghyfredol**

Codir tâl ar wasanaethau, gwasanaethau cefnogol a chyfrifon masnachu gyda'r symiau a ganlyn er mwyn cofnodi'r gost o ddal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant sy'n digwydd i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol,
- Ailwerthuso a cholledion nam ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronus yn y Gronfa Ailwerthuso lle gellir dileu'r colledion yn eu herbyn,
- Amorteiddio asedau sefydlog anghyffyrddadwy sy'n berthnasol i'r gwasanaeth. Ni ellir codi tal am y symiau hyn yn erbyn Cronfa Gyffredinol yr Awdurdod ac felly maent fel y cyfryw yn cael eu gwyrddroi trwy gyfnewidiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf fel y dangosir yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd.

8. **Buddion gweithwyr**

8.1 **Buddiannau Sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth :**

Buddiannau gweithwyr tymor byr yw'r rheiny sydd i fod i gael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau fel cyflogau wythnosol a misol, tâl gwyliau blynyddol a thâl cyfnod salwch, bonysau a buddiannau nad ydynt yn rhai ariannol (ee ceir) i weithwyr presennol ac maent yn cael eu cydnabod fel traul gwasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i'r Awdurdod.

8.2 **Buddiannau terfynu :**

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymdeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol a chodir y rhain ar sail groniadau i'r llinell Costau Heb eu Dosbarthu Costau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Awdurdod yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu i wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

8.3 **Buddion Ôl-gyflogaeth**

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd. Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Awdurdod.

8.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr, a.y.b. yn ogystal â thafuniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol, gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 2.3% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol gyda statws credyd AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o gostau Corfforaethol.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod – gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf, neu am fod yr actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Awdurdod dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg Perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i Gronfa'r Awdurdod o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

8.5 Buddion Dewisol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

9. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, yn rhai ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiadau:

- y rheiny sy'n rhoi tystiolaeth o'r amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau
- y rheiny sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau, ond ble

y byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol ddisgwyliedig. Nid adlewyrchir digwyddiadau sy'n cymryd lle ar ôl dyddiad awdurdodi i gyhoeddi yn y Datganiad Cyfrifon.

10. **Offerynnau Ariannol** **Atebolrwydd Ariannol**

Mae'r Awdurdod yn Awdurdod diddyled yn yr ystyr nad oes ganddo unrhyw fenthyciadau.

Asedau Ariannol

Dosberthir asedau ariannol i ddau fath:

- benthyciadau a derbyniadau posib – asedau sydd â thaliadau sefydlog neu benodadwy ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu yn y farchnad weithredol.

Y fath offerynnau sy'n berthnasol i'r Awdurdod yw benthyciadau car a wneir i weithwyr (fodd bynnag tybir nad yw'r symiau'n ddigon sylweddol i'w cynnwys).

- asedau sydd ar gael i'w gwerthu – asedau sydd â phris marchnad dyfynedig ac/neu sydd heb daliadau sefydlog neu benodadwy. Nid oes gan yr Awdurdod ased o'r math hwn.

11. **Arian tramor**

Mae incwm a gwariant sy'n deillio o unrhyw drafodion mewn arian cyfredol o dramor yn cael ei gyfieithu i £ sterling.

12. **Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau eraill**

P'un a ydynt yn cael eu talu i'r cyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:

- y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
- y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Nid yw'r symiau a nodwyd fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn cael eu rhoi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd oni fydd yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi eu bodloni. Mae'r amodau'n nodi bod rhaid i'r buddiannau economaidd yn y dyfodol neu i'r gwasanaeth posib sydd wedi'i ymgorffori yn yr ased a brynwyd gyda'r arian grant neu gyda'r cyfraniadau gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y nodwyd, neu bydd raid dychwelyd i'r trosglwyddydd y buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'r gwasanaeth posib.

Mae'r arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau lle na chafodd yr amodau eu bodloni yn cael eu cludo ymlaen yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell gwasanaeth priodol (grantiau refeniw a chyfraniadau a briodolwyd) neu Dreth ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r cyfan o'r grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo'r grantiau cyfalaf yn cael eu rhoddi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth gefn.

Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei bostio i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn – y rhai na chafodd eu defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn na chawsant eu defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

13. Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth yw'r asedau hynny sydd wedi eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol, h.y. mae ganddynt rinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, geoffisegol neu amgylcheddol. Maent yn cael eu cynnal gan yr Awdurdod yn bennaf am eu cyfraniad tuag at wybodaeth a diwylliant, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdod wrth iddo gyflawni ei fusnes arferol. Mae dibrisiant asedau treftadaeth, lle bo hynny'n briodol, yn unol â pholisi cyffredinol yr Awdurdod ar ddibrisiant.

14. Asedau anghyffyrddadwy

Cyfrifir am asedau anghyffyrddadwy a brynir ar ffurf trwyddedau meddalwedd fel rhan o'r rhaglen amnewid Technoleg Gwybodaeth, ac maent yn cael eu lleihau i refeniw yn unol â'r dibrisiant costau.

15. Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Mae gan yr Awdurdod fuddiant mewn Partneriaeth Rhwymedigaeth Cyfyngedig ar y cyd gyda 13 Awdurdod Parc Cenedlaethol arall, gyda'r diben o gynhyrchu incwm yn bennaf o nawdd.

16. Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir

Mae stociau'n cael eu tynnu i'r cyfrif yn ôl cost y prisiau yn achos stociau'r bar, nwyddau i'w hailwerthu a darpariaethau cyffredinol ym Mhlas Tan y Bwlch, y Ganolfan Astudio ac yn achos nwyddau i'w hailwerthu yng Nghanolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod. Mae hyn yn gyson â'r polisi a fabwysiadwyd ym mlynnyddoedd y gorffennol. Dan yr ymarfer a argymhellir rhaid dangos y stociau yn ôl y pris isaf o ddau, sef y gost wirioneddol neu'r gwerth dichonadwy net, ond nid yw'r gwahaniaeth yn berthnasol yn yr achos hwn.

17. Prydlesau (Cyllid)

Ar 31/3/2021 nid oes gan yr Awdurdod unrhyw drefniadau brydles cyllid.

18. Prydlesau (Gweithredol)

Mae'r Awdurdod yn rheoli prydlesau gweithredol i:

- Gerbydau,
- Llungopiŵyr a pheiriannau diodydd a byrbrydau.
- Tir ac adeiladau

Codir am daliadau prydles yn llawn yn ôl y dyddiad y maent yn daladwy arno ar sail llinell syth, yn sicrhau tâl blynyddol cyfartal i gyfrifon refeniw gwasanaeth drwy gydol oes y brydles.

Mae'r Awdurdod yn rhentu sawl eiddo i gefnogi ei wasanaethau, a hefyd mae'n derbyn incwm rhent o sawl eiddo a berchenogir. Mae'r eiddo a berchenogir yn cael

ei ddal fel asedau sefydlog yn y fantolen. Cyfrifir am yr incwm prydlles ar sail llinell syth.

19. **Eiddo, Offer a Chyfarpar**

Dosberthir asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu i bwrpasau gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol fel Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Cydnabyddiaeth: Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gyfalafu ar sail groniadau, cyn belled â'i fod yn bosib y bydd y buddiannau economaidd i'r dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw'n llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddiannau economaidd i'r dyfodol neu botensial gwasanaeth (hy trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul fel ag y mae'n digwydd.

Mesur: Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:

- y pris prynu
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol iddo fedru cael ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr (amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y lleolir ef arno.)

Tybir bod cost asedau a gaffaelir heblaw drwy bryniant i fod eu gwerth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (hy ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian yr Awdurdod). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan yr Awdurdod.

Pan fo enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario i'r Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu - cost dibrisiant hanesyddol pan wyddys hwnnw
- asedau dros ben – gwerth (marchnad) teg.
- pob ased arall – potensial gwasanaeth ar sail gwerth defnydd presennol (GDP), , a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol

Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig (CAD) fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Heblaw am gyfarpar systemau gwybodaeth, mae lefel de minimis o £10,000 wedi ei ddefnyddio ar gyfer cydnabyddiaeth asedau nad ydynt yn gyfredol.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisiu yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol o'u gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ar y lleiaf bob pum mlynedd. Mae cynnydd mewn ailbrisiu'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. [Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan maent wedi codi o wyrddroi colled a godwyd yn flaenorol yn erbyn gwasanaeth.]

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdanynt trwy:

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronrus)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabyddir ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu cyfnerthu yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Cydrannu: Mae'r Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor cydrannu i'r asedau sydd werth £150,000 neu fwy a lle bo'r gwahaniaeth mewn costau dibrisiant yn sylweddol. Mae'r egwyddor hon yn cael ei defnyddio er mwyn sicrhau bod yr elfennau hynny o'r eiddo â bywydau gweithredol gwahanol ac felly gwahanol raddau o ddibrisiant yn cael eu cydnabod ac y rhoddir cyfrif amdanynt.

Amhariad: Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth. Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, ble bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt trwy:

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronrus)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrddroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrddroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer Dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydabod.

Dibrisiant: darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (hy tir rhydd-daliad a rhai asedau cymunedol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (hy asedau sy'n cael eu hadeiladu). Nid yw asedau buddsoddi nac asedau a ddelir ar gyfer eu gwerthu yn cael eu dibrisio.

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:

- adeiladau – dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – canran o werth bob dosbarth o asedau yn y Fantolen, fel y cynghorir gan swyddog â chymwysterau addas

Dibrisir ar sail blwyddyn llawn yn y flwyddyn yr adnabyddir yr ased gyntaf yng nghyfrifon yr Awdurdod. Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân. Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau Heb fod yn Gyfredol yn Cael eu Dal ar Gyfer Gwerthu

Pan y daw'n bosib y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased sy'n Cael ei Dal i'w Werthu. Mae'r ased y cael ei ailbrisio yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg.

Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel yn cael eu dal i'w gwerthu; addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n Cael Eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

Nid yw asedau sydd wedi eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Pan geir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddatgomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu (hy wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10k a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae'n ofynnol ar i'r derbyniadau cyfalaf gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y cânt eu defnyddio [neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol yr Awdurdod i fenthyca (y gofyniad cyllido cyfalaf)]. Mae

derbyniadau'n cael eu meddiannu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilëir o warediadau'n cael ei godi ar y Gronfa Gyffredinol. Mae'r symiau hyn yn cael eu meddiannu i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

20. **Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn**

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Awdurdod sydd yn ôl pob tebyg angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod yr Awdurdod yn rhan o achos llys a allai arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Darpariaethau

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a cânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth posib i'r awdurdod, y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol a bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau wrth gefn

Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r awdurdod, y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod.

Ni chydabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnllif o fuddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth.

21. **Cronfeydd wrth Gefn**

Mae'r Awdurdod yn gosod o'r neilltu symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn i ddibenion polisi'r dyfodol, neu i ymdrin â risgiau. Crëir cronfeydd wrth gefn trwy feddiannu symiau o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan y ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a

Gwariant Cynhwysfawr. Yna meddiannir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, fel nad oes taliad net yn erbyn y Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeol a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio gan yr Awdurdod – eglurir y cronfeydd wrth gefn hyn yn y polisïau perthnasol.

22. Gwariant Refeniw a ariennir o Gyfalaf Dan Statud

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n creu ased nad yw'n gyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthycia, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yna'n gwyrddroi'r symiau fel nad oes effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

23. Treth ar Werth

Mae'r TAW sy'n daladwy yn cael ei gynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'n adenilladwy gan Gyllid a Thollau EM. Mae'r TAW y gellir ei dderbyn yn cael ei eithrio o incwm. Arfer yr Awdurdod yw cynnwys yr holl dreth fewngyrch na ellir ei hadennill gan Gyllid a Thollau EM o fewn costau'r gwasanaethau perthnasol. O ganlyniad i'r newid yn nhrefniadau busnes cyfredol Plas Tan y Bwlch, nid oes cost TAW anadferadwy yno ar gyfer 2020/21.

Y DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn 1084unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

2019/20 Gwariant Gros £'000	2019/20 Incwm Gros £'000	2019/20 Gwariant Net £'000		2020/21 Gwariant Gros £'000	2020/21 Incwm Gros £'000	2020/21 Gwariant Net £'000
5,549	-4,475	1,074	Cynllunio a Rheoli Tir	6,891	-5,062	1,829
5,563	-1,926	3,637	Corfforaethol	5,304	-1,597	3,707
36	0	36	Costau na ellir eu dosrannu	43	0	43
11,148	-6,401	4,747	Cost Net	12,238	-6,659	5,579
			Gwasanaethau			
			Gwariant Gweithredu			
		-58	Arall (nodyn 9)			5
			Incwm a Gwariant			
		146	Cyllido a Buddsoddi (nodyn 10)			99
		4,835	Gwariant Gweithredu Net			5,683
		-6,219	Incwm grant amhenodol (nodyn 11)			-6,246
		-1,384	Gwarged (-) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau am y flwyddyn			-563
		180	Diffyg net ar ailbriso asedau nad ydynt yn gyfredol a cholledion amhariad i'r gronfa ailbriso (nodyn 21)			296
		-4,212	Asedau / rhwymedigaethau pensiwn (nodyn 36)			2,113
Mae'r ffigur am 31 Mawrth 2020 yn cynnwys ystyriaeth o'r gostyngiad fu raid ei roi oherwydd effaith COVID-19. Mae'r ffigurau yn ddarostyngedig i effaith adolygiadau rhent, a'r incwm a gynhyrchir ynghyd â niferoedd ymwelwyr ar gyfer Hafod Eryri. Mae rhent Hafod Eryri wedi ei ddarogan ar sail gwerth 2019/20, gan gydnabod dim incwm ar ei gyfer yn 2020/21 na 2021/22.

Mae'r taliad dibrisiant cysylltiedig ar yr asedau perthnasol i brydlesau gweithredol yn £37,569 (2019/20 £37,569).

32. COLLEDION AMHARIAD

Ni fu colledion amhariad ar eiddo ac offer yn ystod 2020/21.

33. RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

Ar 31 Mawrth 2021 'roedd gan yr Awdurdod y rhwymedigaeth amodol canlynol.

Er y bu'r Awdurdod yn llwyddianus mewn trefniadau Uwch Lys ag apel i'r Llys Apel mewn perthynas i hawl perchennog Hillside, Aberdyfi i weithredu ar ganiatâd cynllunio hanesyddol, mae'r perchennog yn y broses o geisio am hawl i apelio'r penderfyniad i'r Goruchel Lys. Os bydd yr Awdurdod yn methu, bydd yn wynebu gorchymun costau ar gyfer costau'r Ymgeisydd ynghyd â chostau'r Awdurdod. Mae'r cyfanswm rhwymedigaeth costau yn anodd i'w ragweld ar yr adeg hwn gan eu bod yn ddibynol ar yr Awdurdod yn llwyddo, neu ddim, i amddiffyn ei safbwynt.

34. ASED AU AMODOL

Ar 31 Mawrth 2021 nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw asedau amodol perthnasol.

35. NATUR A MAINT RISGIAU’N DEILLIO O OFFERYNNAU CYLLIDOL

Gall gweithgareddau'r Awdurdod ei wneud yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- **Risg credyd** – y posibilrwydd y gall partïon eraill fethu â thalu symiau dyledus i'r Awdurdod,
- **Risg hylifedd** – y posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod arian ar gael i gwrdd â'i ymrwymadau i wneud taliadau,
- **Risg marchnad** – y posibilrwydd y gall yr Awdurdod ddiodef colled ariannol o ganlyniad i newid mewn mesurau fel graddfeydd llog. Gall newid yn y gyfradd gyfnwid dramor olygu risg sylweddol o fewn y prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE).

Rheolwyd y risgiau uchod drwy drefniadau adennill dyledion yr Awdurdod a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, gyda dim effaith negyddol o sylwedd yn 2020/21. Mae gwerth offerynnau cyllidol yr Awdurdod yr un fath a'u gwerth teg.

36. Y GRONFA BENSIWN

Cyfranogi mewn Cynlluniau pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddiannau ôl gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo'r gweithwyr yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl i'r dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl gyflogaeth :

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd - mae hwn yn gynllun buddiant diffiniedig cyflog terfynol a ariennir, sy'n golygu fod yr Awdurdod a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso'r rhwymedigaethau pensiwn gydag asedau buddsoddi.
- Ôl fuddiannau ymddeol disgrisiwn wrth ymddeol yn gynnar. Mae hwn yn drefniant buddiant diffiniedig heb ei gyllido, y cydnabyddir rhwymedigaethau iddo pan fo'r dyfarniadau wedi eu gwneud. Ni adeiladwyd unrhyw asedau buddsoddi i gwrdd â'r rhwymedigaethau pensiwnau hyn, a rhaid cynhyrchu arian i gwrdd â'r taliadau pensiwn gwirioneddol fel y dônt yn ddyledus. Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth flynyddol wedi ei seilio ar ddyfarniadau yn y gorffennol a wnaethpwyd dan y trefniadau hyn, ond nid yw wedi ychwanegu at y rhwymedigaeth hon mewn blynyddoedd diweddar. Yn hytrach, cydnabyddir unrhyw rwymedigaeth bensiwn ychwanegol sy'n deillio o ganiatáu ymddeol yn gynnar a'i dalu yn y flwyddyn benodol honno.

TRAFODION YN GYSYLLTIEDIG Â BUDDIANNAU ÔL GYFLOGAETH

Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yn y gost gwasanaethau sy'n destun adroddiad pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r fath fuddiannau'n cael eu talu yn y pen draw fel pensiwnau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae gofyn i ni ei godi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy

yn y flwyddyn, felly mae cost gwirioneddol ôl gyflogaeth /buddiannau ymddeol yn cael ei wyrddroi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

NEWID MEWN GWERTH TEG ASEDAU'R CYNLLUN, YMRWYMIAD BUDDION A DDIFFINNIR AC YMRWYMIAD NET AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021.

Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2021	Asedau	Ymrwymadau	(Ymrwymadau)/ asedau Net
	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg asedau'r cyflogwr	32,215	0	32,215
Gwerth presennol ymrwymadau wedi eu hariannu	0	36,436	(36,436)
Gwerth presennol ymrwymadau heb eu hariannu	0	368	(368)
Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2020	32,215	36,804	(4,589)
Cost Gwasanaeth			
- Cost Gwasanaeth Cyfredol *	0	1,135	(1,135)
- Cost Gwasanaeth Hanesyddol (yn cynnwys cwtojiadau)	0	43	(43)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	1,178	(1,178)
Llog Net			
- Incwm llog ar asedau'r cynllun	741	0	741
- Cost llog ar ymrwymiad buddion a ddiffinnir	0	852	(852)
Cyfanswm Llog Net	741	852	(111)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	741	2,030	(1,289)
Llif Arian			
- Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	209	209	0
- Cyfraniadau'r Cyflogwr	646	0	646
- Cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu	(843)	(843)	0
- Buddion a dalwyd	(28)	(28)	0
- Buddion heb eu hariannu a dalwyd	28	0	28

Sefyllfa cau a ddisgwyllir	32,968	38,172	(5,204)
Ail Fesuriadau			
- Newid mewn rhagdybiaethau demograffig	0	10,557	(10,557)
- Newid mewn rhagdybiaethau ariannol	0	547	(547)
- Profiadau eraill	0	(324)	324
- Enillion ar Asedau ag eithro symiau a gynhwysir yn y llog net	8,667	0	8,667
Cyfanswm yr holl ail-fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	8,667	10,780	(2,113)
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	41,635	0	41,635
Gwerth presennol ymrwymadau wedi eu hariannu	0	48,550	(48,550)
Gwerth presennol ymrwymadau heb eu hariannu	0	402	(402)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth 2021	41,635	48,952	(7,317)

Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% am gostau gweinyddol.

NEWID MEWN GWERTH TEG ASEDau'R CYNLLUN, YMRWYMIAD BUDDION A DDIFFINNIR AC YMRWYMIAD NET AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020.

Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2020	Asedau	Ymrwymadau	(Ymrwymadau)/ asedau Net
	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg asedau'r cyflogwr	35,421	0	35,421
Gwerth presennol ymrwymadau wedi eu hariannu	0	42,756	(42,756)
Gwerth presennol ymrwymadau heb eu hariannu	0	417	417
Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2019	35,421	43,173	(7,752)
Cost Gwasanaeth			
- Cost Gwasanaeth Cyfredol *	0	1,448	(1,448)
- Cost Gwasanaeth Hanesyddol (yn cynnwys cwtogiadau)	0	36	(36)

Cyfanswm Cost Gwasanaeth		1,484	(1,484)
Llog Net			
- Incwm llog ar asedau'r cynllun	852	0	852
- Cost llog ar ymrwymiad buddion a ddiffinnir	0	1,048	(1,048)
Cyfanswm Llog Net	852	1,048	(196)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	852	2,532	(1,680)
Llif Arian			
- Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	198	198	0
- Cyfraniadau'r Cyflogwr	603	0	603
- Cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu	28	0	28
- Buddion a dalwyd	(804)	(804)	0
- Buddion heb eu hariannu a dalwyd	(28)	(28)	0
Sefyllfa cau a ddisgwylir	36,270	45,071	(8,801)
Ail Fesuriadau			
- Newid mewn rhagdybiaethau demograffig	0	(1,447)	1,447
- Newid mewn rhagdybiaethau ariannol	0	(3,450)	3,450
- Profiadau eraill	0	(3,370)	3,370
- Enillion ar Asedau ag eithro symiau a gynhwysir yn y llog net	(4,055)	0	(4,055)
Cyfanswm yr holl ail-fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	(4,055)	(8,267)	4,212
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	32,215	0	32,215
Gwerth presennol ymrwymadau wedi eu hariannu	0	36,436	(36,436)
Gwerth presennol ymrwymadau heb eu hariannu	0	368	(368)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth 2020	32,215	36,804	(4,589)

Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% am gostau gweinyddol.

Mae'r atebolrwydd hwn yn cynnwys oddeutu £402k mewn perthynas â phensiynau heb eu hariannu gan CPLIL a £0 mewn perthynas â phensiynau heb eu hariannu gan Athrawon. O ran rhwymedigaethau heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2021, tybir fod pob pensiwn sydd heb ei ariannu yn daladwy am weddill bywyd yr aelod. Tybir ymhellach fod 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd-fyw) pan fyddant yn marw a bod eu priod (neu un sy'n cyd-fyw) yn derbyn 50% o bensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

GWYBODAETH AM YR YMRWYMIAD BUDDION DIFFYNADWY

	Rhaniad ymrwymiad		Cyfnod Cyfartalog wedi ei Bwysoli adeg y Prisiad Diwethaf.
	£'000	(%)	
Aelodau gweithredol	2,788	75	52
Aelodau gohiriedig	262	7	50
Aelodau pensiynwyr	645	18	67
Cyfanswm	3,695	100	

(Mae'r ffigyrau ar gyfer ymrwymadau heb eu hariannu yn unig ac yn hepgor ymrwymadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae hyd yr ymrwymiad yn weithredol ar sail y prisiad ffurfiol diwethaf ar 31 Mawrth 2019).

HANES Y CYNLLUN

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth presennol rhwymedigaethau yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	(31,775)	(37,044)	(38,018)	(43,173)	(36,804)	(48,952)
Gwerth Teg Asedau yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	26,022	31,283	32,666	35,421	32,215	41,635
Gwarged / (diffyg) yn y cynllun :	(5,753)	(5,761)	(5,352)	(7,752)	(4,589)	(7,317)

Dengys y rhwymedigaethau yr ymrwymadau gwaelodol sydd gan yr Awdurdod yn y tymor hir i dalu buddiannau ôl gyflogaeth (ymddeoliad). Mae'r cyfanswm rhwymedigaeth o £48,952k yn cael effaith sylweddol ar werth net yr Awdurdod fel y caiff ei gofnodi yn y Fantolen h.y. ei leihau o £7,317k. Golyga darpariaethau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn parhau'n iach :

- gwneir iawn am y diffyg yn y cynllun llywodraeth leol trwy gyfraniadau uwch dros weddill oes waith gweithwyr (h.y. cyn bod y taliadau'n dod yn ddyledus), fel yr asesir gan actwari'r cynllun,
- dim ond ar gyfer buddiannau disgresiwn pan fo'r pensiynau'n cael eu talu'n wirioneddol mae angen codi cyllid.

Mae cyfanswm cyfraniadau gan yr Awdurdod, fel yr amcangyfrifir gan yr Actwari, am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021 yn £674k. Mae'r Actwari yn amcangyfrif y bydd cost cyfraniadau'r cyflogwr am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022 yn £644k.

Nid oes gan y trefniadau Buddiannau Disgresiwn unrhyw asedau i ymdrin â'u rhwymedigaethau. Mae asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys y categorïau canlynol, fesul cyfran o'r cyfanswm ac asedau sy'n cael eu dal :

31 Mawrth 2020		31 Mawrth 2021
(%)		(%)
73	Buddsoddiadau ecwiti	70
17	Buddsoddiadau dyled	21
10	Eiddo	8
0	Arian	1
100		100

PRIF GATEGORIAU ASEDAU'R CYNLLUN FEL CANRAN O GYFANSWM ASEDAU'R CYNLLUN

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion IAS19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny nad oes ganddynt. Tybir bod rhaniad asedau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2019. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £41,635k ar 31 Mawrth 2021, yn seliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

GWERTH TEG ASEDAU'R CYFLOGWR

Mae gwerth yr asedau isod ar sail gwerth bid yn unol â gofynion IAS19.

Categori Ased	31 Mawrth 2021				31 Mawrth 2020			
	Prisiau a ddyfynnir mewn marchnad-oedd gweithredol (£'000)	Prisiau na ddyfynnir mewn marchnad-oedd gweithred-ol (£'000)	Cyf. (£'000)	%	Prisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol (£'000)	Prisiau na ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol (£'000)	Cyf. (£'000)	%
Ernesau Ecwiti :								
Defnyddiwr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cynhyrchu	0	0	0	0	0	0	0	0
Ynni a gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	0
Sefydliadau ariannol	0	0	0	0	0	0	0	0
Iechyd a Gofal	0	0	0	0	0	0	0	0
Technoleg Gwybodaeth	0	0	0	0	0	0	0	0
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ernesau Dyled								
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	2,588.80	2,588.80	6	0	1,872.6	1,872.6	6
Eiddo Diriaethol :								
Eiddo y DU	0	3,302.20	3,302.20	8	0	3,175.3	3,175.3	10
Eiddo Tramor	0	0	0	0	0	3.8	3.8	0

Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol :								
Ecwiti	0	26,675.70	26,675.7	64	0	21,604.2	21,604.2	67
Bondiau	0	0	0	0	0	0	0	0
Is-adeiladwaith	0	733.9	733.9	2	0	740.8	740.8	2
Eraill	0	8,094.10	8,094.10	19	0	4,658.7	4,658.7	14
Arian a Chywertoedd Arian :								
Y cyfan	240.3	0	240.3	1	159.6	0	159.6	0
Cyfanswm	240.3	41,395	41,635	100	159.6	32,055	32,215	100

SAIL AR GYFER AMCANGYFRIF ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod gan ddibynnu ar ragdybiaethau ynghylch graddfeydd marwoledd, lefelau cyflog, ayb. Mae rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Buddiannau Disgresiwn wedi eu hasesu gan Hymans Robertson, cwmni annibynnol o actwaryddion, gyda'r rhagamcanion i Gronfa'r Awdurdod wedi ei seilio ar y gwerthusiad llawn olaf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2019.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwari oedd :

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	
	2020/21	2019/20
Graddfa dychweliad disgwylidig tymor hir ar asedau yn y cynllun :		
Ecwiti	2%	2.3%
Bondiau	2%	2.3%
Eiddo	2%	2.3%
Arian	2%	2.3%
Rhagdybiaethau Marwoledd :		
Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr presennol :		
• Dynion	21.5 blynedd	21.3 blynedd
• Merched	23.9 blynedd	23.4 blynedd
Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr y dyfodol :		
• Dynion	22.7 blynedd	22.2 blynedd
• Merched	25.9 blynedd	25.1 blynedd
Graddfa chwyddiant (CPI)	2.85%	1.9%
Graddfa cynnydd mewn cyflogau	3.15%	2.2%
Graddfa cynnydd mewn pensiynau	2.85%	1.9%
Graddfa ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	2.00%	2.3%
Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad	50% cyn gwasanaeth 1/4/2008 a 75% ðl gwasanaeth 1/4/2008.	50% cyn gwasanaeth 1/4/2008 a 75% ðl gwasanaeth 1/4/2008.

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaethau buddion diffinedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2021 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau IAS19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwy meintoli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Awdurdod pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o thua 3%-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythr y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn). Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth yr Awdurdod fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019, dyddiad y prisiad actwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn cynt.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun		
Newid tybiaeth	Brasamcan cynnydd i'r Cyflogwr	Brasamcan swm ariannol
	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2021
	(%)	(£'000)
Lleihad 0.5% i'r gwir gyfradd disgownt	11	5,186
Cynnydd 0.5% i'r cyfradd codiad cyflog	1	586
Cynnydd 0.5% i'r cyfradd codiad pensiwn	9	4,486

RHAGOLWG COST BUDDION A DDIFFINNIR AM Y CYFNOD I 31 MAWRTH 2022

	Asedau	Ymrwymadau	(ymrwymiad) / ased Net	
	£'000	£'000	£'000	% of pay
Rhagolwg Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	1,750	(1,750)	(53.8%)
Cost Gwasanaeth Hanesyddol yn cynnwys cwtogiadau	0	0	0	0
Effaith setliadau	0	0	0	0
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	1,750	(1,750)	(53.8%)
Incwm llog ar asedau'r cynllun	831	0	831	25.5%
Cost llog ar yr ymrwymiad budd a ddiffinnir	0	988	(988)	(30.4%)
Cyfanswm Cost Net Llog	831	988	(157)	(3.6%)
Cyfanswm wedi ei gynnwys yn yr elw a cholledion	831	2,738	(1,907)	(58.7%)

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans am dreuliau gweinyddol megis 0.5% o'r gyflogres. Mae'r gwerth ariannol yn seiliedig ar amcan gwerth y gyflogres o £3,253k.

Gosodir y cyfraniadau a delir gan y Cyflogwr gan Actiwari y Gronfa bob tair blynedd ar adeg prisiad actwariaid y Gronfa (yr un mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2019), neu ar unrhyw adeg arall yn unol â chyfarwyddid yr Awdurdod sy'n gweinyddu'r Gronfa.

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod y polisïau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 31 Mawrth 2020 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol o'r Awdurdod yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Awdurdod i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn y Datganiad Cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn y Datganiad Cyfrifon, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am yr Awdurdod a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 10, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn

y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

ADRIAN CROMPTON

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
..... 2021

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020-21



Mae'r datganiad hwn yn diwallu'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd yn 2010)

1. Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau'n cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, ac yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ddarostyngedig i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i bennu Amcanion Lles sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r 7 Nodau Lles fel y nodir yn y Ddeddf, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Ar ben hynny, mae'n rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag 'egwyddor cynaliadwyedd statudol', sy'n golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang hyn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, hwyluso gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / Solace "Delivering Good Governance in Local Government". Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod a hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 4(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad rheolaeth fewnol.

2. Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu ag, ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i ddylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i

gyflawni polisiâu, nodau ac amcanion; gall felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod ac yn blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiâu, nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i werthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hynny gael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

3. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys saith egwyddor i lywodraethu'n dda:

- **Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- **Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr
- **Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- **Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir
- **Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo
- **Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy gyfrwng rheolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref
- **Egwyddor 7:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn datblygu ac yn gweithredu ei gynllunio corfforaethol strategol trwy fabwysiadu:

- Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri);
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri;
- Cynllun Corfforaethol; a
- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae'r 4 dogfen yma yn cynrychioli conglaen gwaith yr Awdurdod wrth gyflawni ei brif bwrpasau, fel y diffinnir yn Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac wrth weithredu ei weledigaeth.

Strwythur Llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu'r Awdurdod yn cynnwys 4 prif bwyllgor:

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda 18 o Aelodau a benodwyd, ac yn ystod 2020/21 cynhaliwyd 8 cyfarfod.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 3 gwaith yn ystod 2020/21. Fel rhan o'i gylch gwaith mae'n ymgymryd â swyddogaethau pwyllgor archwilio yn unol â gwybodaeth CIPFA.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad 7 gwaith yn ystod 2020/21. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Safonau'r Awdurdod unwaith yn ystod 2020/21. Mae aelodaeth y pwyllgor, sydd gyda gylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau, yn cynnwys 3 Aelod o'r Awdurdod a 3 aelod annibynnol.

Mae'r Rheolau Sefydlog yr Awdurdod (a gyhoeddwyd ar y wefan) yn rhoi disgrifiad manwl o'r trefniadau ar gyfer pob pwyllgor. Ar gyfer pob pwyllgor, mae'r rhaglen, cofnodion ac adroddiadau cysylltiedig â phapurau cefndir i gyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Tîm Rheoli

Mae strwythur rheoli'r Awdurdod yn cynnwys y Prif Weithredwr (sydd hefyd yn 'Swyddog y Parc Cenedlaethol' ac yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a dau Gyfarwyddwr. Mae Tîm Rheoli'r Awdurdod yn cyfarfod bob pythefnos, gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Personél yn mynychu.

Safonau

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Ymddygiad i Aelodau, sy'n cynnwys adran sy'n cyfeirio'n benodol at fuddiannau a Chofrestr Buddiannau Aelodau. Y Cod Ymddygiad i staff yw'r cod ymddygiad safonol cenedlaethol ar gyfer cyflogeion awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r polisiau a gweithdrefnau canlynol ar gyfer cynnal safonau uchel o ymddygiad ar gyfer staff ac Aelodau, ac i sicrhau atebolrwydd tuag at y cyhoedd:

- Y Drefn Gwyno – wedi'i sefydlu ar fodel drefn cwynion ymarfer da gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Polisi Seinio Rhybudd - i alluogi staff i leisio pryderon difrifol yn hyderus gyda'r sicrwydd o wybod y ceir eu hymchwilio yn drwyadl ac mewn ffordd deg, heb ofni dial;
- Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth - yn cynnwys mesurau sydd wedi'u cynllunio i rwystro unrhyw weithred o dwyll neu lygredigaeth, a pha gamau y dylid eu cymryd petai rywbeth o'r fath yn digwydd; ac y
- Cynllun Dirprwyo - yn amlinellu sut mae swyddogaethau'r Awdurdod llawn yn cael eu cyflawni trwy ddirprwyo i'w bwyllgorau a'i is-bwyllgorau

Rheoli Risg

Mae Polisi a Strategaeth Rheoli Risg wedi'i sefydlu. Caiff y broses o adnabod risgiau ei chydlynu gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, gyda mewnbwn gan y Tîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Gofrestr Risg a'r mesurau lliniaru yn cael eu hadolygu a'i ddiweddarau'n chwarterol.

Archwiliad Mewnol

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system o drefniadau rheolaeth a llywodraethu mewnol yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd. Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth leol yn y DU. Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canlyniadau gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn.

Archwiliad Allanol

Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gweithredu fel archwilydd allanol i'r Awdurdod, ac felly sy'n adrodd ar reolaeth ariannol a pherfformiad yr Awdurdod. Yn ogystal, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi barn ar ddigonolrwydd y gwaith archwilio mewnol.

Swyddog Monitro

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi'i enwebu fel Swyddog Monitro. Mae gan y Swyddog Monitro'r ddyletswydd benodol i sicrhau bod Aelodau a benodwyd a Swyddogion yr Awdurdod yn cynnal y safon uchaf o ymddygiad ym mhopeth a wnânt. Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori ar drefn gyfansoddiadol a chyfreithlondeb gweithredoedd yr Awdurdod.

Rheolaeth Ariannol

Mae trefniadau rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (2010). Y Prif Swyddog Cyllid (Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd) yw'r swyddog sydd â chyfrifoldebau o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4. Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Gymerwyd yn ystod y Flwyddyn

Mae'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd craidd ar yr Awdurdod i osod amcanion lleisiant sy'n magsimeiddio ein cyfraniad at gyflawni'r 7 nodau lleisiant a osodwyd yn y Ddeddf. Dylai amcanion lleisiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid yn y tymor hir.

Hefyd, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi cynllun gwella, sy'n nodi ei drefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau trwy gyfrwng yr amcanion gwella, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru). Fodd bynnag, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21, cafodd y Mesur ei ddad-gymhwyso i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol Unedol ac Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

Felly, roedd yr amcanion lleisiant y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod hefyd yn gweithredu (am y tro olaf) fel yr amcanion gwelliant ar gyfer 2020/21.

Gan nad oedd yr union ddyddiad pan fuasai'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn cael ei ddad-gymhwyso yn hysbys ar y pryd, cafodd amcanion lleisiant (ac amcanion gwella) yr Awdurdod eu hystemyn heb newid ar gyfer 2020/21 gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar

11eg o Ragfyr 2019, sef:

1. [Ein Cymunedau](#)

Gweithio gyda'n cymunedau i ddatblygu lles economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Eryri.

2. [Cynlluniau a Pholisïau](#)

Adolygu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) a sicrhau bod egwyddorion Lles Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi'u hintegreiddio'n llawn i waith yr Awdurdod.

3. [Iechyd a Lles](#)

Cydnabyddir Parc Cenedlaethol Eryri fel ardal, sy'n cyfrannu at les corfforol a meddyliol y genedl.

4. [Pobl, Lleoedd a Phartneriaid](#)

Dros y pum mlynedd nesaf rydym am anelu at hyrwyddo'r cyfleoedd i weithio gyda phobl, gwirfoddolwyr a phartneriaid mewn ffordd gydweithredol. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i gyfrannu at werthfawrogi a rheoli'r hyn sy'n gwneud Eryri yn werthfawr ac yn arbennig.

5. [Cydbwysu ein Hadnoddau a'n Hymdrechion](#)

Mae'r Awdurdod yn targedu ei adnoddau i gyflawni ei flaenoriaethau o fewn yr adnoddau llai sydd ar gael.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n nodau llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. Tymor Hir - pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.
2. Integreiddio - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.
3. Cynnwys - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. Cydweithio - Gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn (neu'r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. Atal - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

O ganlyniad i bandemig Covid-19 a'r llwyrglo cenedlaethol ar ddiwedd mis Mawrth 2020, ataliwyd cyfarfodydd pwyllgor dros-dro tra bod plattform rhithiol addas ac effeithiol yn cael ei sefydlu. O ganlyniad, ni fabwysiadwyd y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020/21 gan yr Awdurdod tan ei gyfarfod ar y 3ydd o Fehefin 2020.

Er bod amcanion llesiant craidd yr Awdurdod (fel yr amlinellwyd uwchlaw) yn parhau heb newid; gwnaed newidiadau i rai blaenoriaethau gwasanaeth a gweithgareddau cysylltiol i adlewyrchu blaenoriaethau newydd a gweithredoedd lliniaru o ganlyniad i'r pandemig.

Yn yr un cyfarfod, cyflwynwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2020/21 i'w chymeradwyo gan yr Aelodau. Mae'r Rhaglen yn gosod y prosiectau, cynlluniau a chamau gweithredu penodol yr ymgymeir â hwy er mwyn cyflawni amcanion llesiant a gwelliant yr Awdurdod, ac unwaith eto roedd hwn yn cynnwys newidiadau i rai gweithgareddau gwaith i adlewyrchu'r gofynion ddaeth i'r amlwg o'r pandemig.

Mae cynnydd yn erbyn y Rhaglen wedi'i adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 18fed o Dachwedd 2020 ac y 24ain o Fawrth 2021. Mae'r adroddiad blynyddol llawn ar y Rhaglen Waith Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2021.

5. Effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwr uwch o fewn yr Awdurdod, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill. Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar y saith egwyddor o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Egwyddor 1: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

<p>Cod Llywodraethu Corfforaethol</p>	<p>Cynhaliwyd yr adolygiad olaf o'r Cod ym mis Chwefror 2018 gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i'r Awdurdod i'w gymeradwyo.</p> <p>Mân newidiadau yn unig a gafodd ei wneud i'r Cod, a diweddarau'r derminoleg fu hynny'n bennaf. Yr unig newid sylweddol a wnaed oedd sicrhau bod y Cod diwygiedig bellach yn cynnwys yr Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy a'r Nodau Llesiant fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.</p> <p>Nid yw'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi bod yn destun adolygiad ychwanegol ers hyn, ac nid oes unrhyw faterion penodol wedi codi yn ymwneud â'r Cod ei hun yn ystod 2020/21.</p>
--	---

Pwyllgor Safonau	<p>Cynhaliwyd un cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn ar y 16eg o Hydref 2020.</p> <p>Yn ystod y cyfarfod rhoddwyd ystyriaeth i nifer o faterion gan gynnwys caniatáu goddefebau i Aelodau Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.</p> <p>Adolygwyd Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2019/20 gan yr Aelodau hefyd, a chynghorwyd ar y datblygiadau a oedd yn berthnasol i'r Awdurdod hwn.</p> <p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Cwynion Blynyddol i'r Pwyllgor Safonau hefyd, er gwybodaeth.</p>
Polisi Seinio Rhybudd	<p>Ymgwymerwyd â'r adolygiad manwl olaf gan y Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2016, gyda'r newidiadau a oedd yn deillio o hynny yn cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2016.</p> <p>Yn ystod 2020/21, ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod o dan y Polisi Seinio Rhybudd.</p>
Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth	<p>Yn ystod 2020/21 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion honedig o dwyll neu lygredigaeth mewn perthynas â unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod, ac ni adnabuwyd unrhyw feysydd sy'n peri pryder gan yr Archwilwyr Mewnol yn ystod eu gwaith archwilio.</p>
Model Cod Ymddygiad	<p>Yn ystod 2020/21, ni fu unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol.</p>
Cwynion – Swyddogion	<p>Yn ystod 2020/21 derbyniodd yr Awdurdod gyfanswm o 7 cwyn ffurfiol.</p> <p>Ni fu'r Awdurdod yn destun ymchwiliad ffurfiol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2020/21.</p>
Cwynion – Aelodau	<p>Yn ystod 2020/21, ni dderbyniodd Swyddog Monitro'r Awdurdod unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud â'r Aelodau, a ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn uniongyrchol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.</p>

Rheolau Sefydlog	<p>Adolygwyd a diwygiwyd y Rheolau Sefydlog diwethaf gan yr Awdurdod ar y 26ain o Ebrill 2017, yn dilyn derbyn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygiad) 2017.</p> <p>Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2020/21 mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr Awdurdod gyda'i Reolau Sefydlog.</p>
Cynllun Dirprwyo	<p>Cafodd y Cynllun Dirprwyo ei adolygu a'i newid ddiwethaf gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 13eg o Ragfyr 2017.</p> <p>Yn ystod 2020/21 ni chodwyd unrhyw fater ynglŷn â gweithrediad y Cynllun.</p>
Cofrestr Buddiant / Diddordebau Aelodau	<p>Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad ar yr Awdurdod i gyhoeddi'r Gofrestr gyfredol o Ddiddordebau / Fuddiant Aelodau ar wefan yr Awdurdod.</p> <p>Mae'n gyfrifoldeb ar bob Aelod o'r Awdurdod i ddiweddarau eu cofnod buddion/diddordebau ac i adrodd ar unrhyw newidiadau mewn modd amserol. Serch hynny, mae'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau yn anfon copi o'u cofnod cyfredol i bob Aelod ar ôl bob Cyfarfod Blynyddol o'r Awdurdod, ac yn gofyn iddynt eu hadolygu a'i diweddarau os yn berthnasol.</p> <p>Yn ystod 2020/21, ni fu i unrhyw faterion na chwynion godi mewn perthynas â'r Gofrestr o Ddiddordebau / Buddion Aelodau.</p>

Egwyddor 2: Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr

Cynllun Cydraddoldeb Strategol	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18fed Tachwedd 2020.</p> <p>Adroddwyd ar gynnydd yr Awdurdod gyda'i gynllun gweithredu o ran cyrraedd ei Amcanion Cydraddoldeb, ynghyd â'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb yr ymgwymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn, data monitro cyflog cyfartal a data cydraddoldeb staff.</p>
---------------------------------------	---

	<p>O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd bob 4 mlynedd.</p> <p>Roedd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yr Awdurdod ar gyfer 2020-24 i fod i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 25ain Mawrth 2020, ond bu raid canslo oherwydd y llwyr glo Covid-19. Cafodd y Cynllun ei fabwysiadu wedi hynny ar y 15fed o Orffennaf 2020 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.</p>
<p>Ymgynghori Uniongyrchol</p>	<p>Yn ystod blwyddyn na welwyd mo'i thebyg o'r blaen, bu'n rhaid i'r Awdurdod ddod o hyd i atebion newydd ac arloesol i'w alluogi i barhau â rhai agweddau ar ei waith yn effeithiol. Mae datblygu atebion ar-lein priodol ac effeithiol i alluogi cyfathrebu uniongyrchol, ymgynghori ac ymgysylltu wedi bod yn un o'r meysydd hyn.</p> <p>Yn ystod 2020/21 mae'r Awdurdod wedi ceisio parhau i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol trwy amryw o ffyrdd, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau a chyfarfodydd a gweithdai ar-lein. Er bod cyfarfodydd Fforwm Eryri, y Grŵp Cyswllt Amaeth Blynyddol, ac Asiantwyr Cynllunio Blynyddol i enwi ond ychydig, wedi cael eu cynnal yn rhithiol, nid yw rhai wedi digwydd (Nosweithiau Agored y Cyngor Tref a Chymuned) neu fe gynhaliwyd nifer llai o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn. (Fforymau Mynediad y Gogledd a'r De).</p> <p>Fodd bynnag, y tu allan i'r ymgynghoriadau uniongyrchol arferol ar fusnes yr Awdurdod sydd wedi digwydd h.y. Canllawiau Cynllunio Atodol newydd, Amcanion Lles Drafft ac ati, mae ymgysylltu hefyd wedi digwydd gyda chymunedau lleol er mwyn galluogi i wybodaeth gael ei rhannu ac i roi cyfle i bobl roi eu barn am nifer o heriau y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i gymunedau wedi'u hwynebu oherwydd Covid-19.</p> <p>Wrth i'r llwyr glo cyntaf gael ei lacio'r haf diwethaf, cynhaliwyd ymgysylltiad â chymunedau lleol ar ailagor a'r problemau anochel y gellid eu rhagweld yn sgil mewnlifiad torfol o ymwelwyr i'r ardal. Ers hynny, mae Partneriaeth Yr Wyddfa wedi cynyddu eu gwaith ar ddatblygu Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth Gynaliadwy, gan adeiladu ar y profiad a'r gwersi a ddysgwyd o weithredu mesurau mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill yn ystod Haf 2020. Cynhaliwyd gweithdai cymunedol ar-lein ar ddechrau 2021 i</p>

	<p>ddatblygu atebion ar gyfer y tymor sydd i ddod, ac yna gwnaed gwaith ymgysylltu pellach gyda rhai cymunedau a oedd wedi codi pryderon. Bydd y gwaith ymgysylltu yn parhau ar gyflymder yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.</p>
Strategaeth Ymgysylltu	<p>Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn elfen hanfodol ym mhopeth y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Mae hefyd yn faes lle mae yna wastad lle i wella, ac mae strategaeth yr Awdurdod yn adlewyrchu hyn.</p> <p>Mae datblygiadau technolegol cyflym a'r twf parhaus mewn llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a lefelau cyfranogi yn golygu bod angen i'r Awdurdod ganolbwyntio'n llawn ar gyfathrebu'n effeithiol trwy'r sianeli cywir ar yr adeg iawn gydag ystod eang o gynulleidfaoedd. Mae hyn wedi bod yn amlwg iawn dros y flwyddyn ddiwethaf, lle bu cyfathrebu ac ymgysylltu clir a diamwys wedi bod yn hanfodol.</p> <p>Nid yw'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth newydd wedi gwneud cynnydd yn unol â'r amserlen wreiddiol oherwydd y pwysau gwaith adweithiol sydd wedi bod ar y gwasanaeth ers dechrau'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth nawr ar ei ffurf ddrafft terfynol yn dilyn proses ymgynghori trylwyr a'r newidiadau a ddeilliodd o hynny, a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau i'w chymeradwyo ac i'w mabwysiadu'n derfynol pan ddaw'r cyfle nesaf.</p> <p>Mae'r gwaith o ddatblygu gwefan newydd i'r Awdurdod yn mynd rhagddo. Penodwyd Rheolwr Cynnwys a Brand ym mis Gorffennaf 2020. Parhawyd gyda'r gwaith o ddatblygu a chwblhau dogfen dendro a manyleb gynhwysfawr ar gyfer y wefan newydd, ac fe gyhoeddwyd y tendr fis Tachwedd 2020.</p> <p>Daeth 31 o dendrau i law a chanran uchel ohonynt o ansawdd uchel iawn a oedd yn mynd i'r afael ag anghenion yr Awdurdod mewn modd hyderus a chreadigol. Dyfarnwyd y gwaith o ddatblygu'r wefan i gwmni Creo o Gaerdydd.</p> <p>Dechreuwyd ar y gwaith o gynhyrchu'r wefan ym mis Mawrth 2020 gan ddechrau gyda chyfnod archwilio. Cynhaliwyd cyfres o weithdai gydag aelodau staff yr Awdurdod ar faterion a oedd o bwys i'r Awdurdod yng nghyd-destun y wefan - materion megis rheolaeth ymwelwyr, llwybrau a hyrwyddir a mapio digidol.</p>

	<p>Erbyn hyn, mae'r cyfnod archwilio yn agosáu at ei therfyn a bydd Creo yn symud ymlaen at gam nesaf y gwaith sef y cyfnod dylunio.</p>
Datganiad Lles	<p>Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i gyhoeddi Datganiad Lles yn nodi sut y mae ei amcanion lles yn cyfrannu at Nodau Lles Llywodraeth Cymru a sut y bydd yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhopeth mae'n ei wneud.</p> <p>Mae Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 yn cynnwys Datganiad Lles a Blaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn, mae'r gwaith wedi mynd rhagddo i ddatblygu Amcanion Lles newydd fel rhan o'r gwaith i ddatblygu Datganiad Lles i'r Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2021-26.</p> <p>Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen i ddatblygu tri maes canlyniad, ac fe'u cymeradwywyd gan yr Aelodau i ymgynghori'n anffurfiol arnynt dros yr haf. Ystyriwyd ymatebion i'r ymgynghoriad gan yr Aelodau mewn cyfarfod o'r Gweithgor Aelodau, ac o ganlyniad datblygwyd Amcanion Llesiant drafft, ac fe gymeradwywyd y rhain gan yr Aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 11eg o Dachwedd 2020.</p> <p>Yn dilyn cyfnod ymgynghori ffurfiol, cymeradwywyd a mabwysiadwyd y Datganiad Llesiant ac Amcanion Llesiant ar gyfer 2021-26 yn ffurfiol gan yr Aelodau mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 24ain o Fawrth 2021.</p>
Rhyddid Gwybodaeth	<p>Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi cyhoeddi canllaw ar wybodaeth, ac mae'r ddau ohonynt ar gael ar y wefan.</p> <p>Yn ystod 2020, derbyniwyd 33 o geisiadau, ac o'r rhain fe dderbyniodd 24 yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani (73%).</p> <p>Cafwyd Rhybudd o Benderfyniad gan y Comisiynydd Gwybodaeth ar y 30ain o Fedi 2020 yn ymwneud â chais a gyflwynwyd ym mis Hydref 2019 i gael mynediad at gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio ar ddatblygiad tai arfaethedig.</p>

Ar yr adeg pan gafodd y cais ei gyflwyno, nid oedd unrhyw gais cynllunio ffurfiol wedi cael ei gyflwyno gan y datblygwr. Gwrthodwyd y cais ar y sail y dylai unrhyw un allu ymofyn cyngor gan yr Awdurdod hwn mewn modd cyfrinachol ar gyfer eu cynigion drafft. Roedd y datblygwr wedi talu swm sylweddol o arian am y cyngor, ac ar yr adeg hynny roedd y wybodaeth yn fasnachol sensitif.

Dywedwyd wrth yr ymgeisydd pe bai cais ffurfiol yn cael ei gyflwyno y buasai'r wybodaeth yn cael ei gwneud yn gyhoeddus. Cadarnhaodd y Comisiynydd Gwybodaeth benderfyniad yr Awdurdod i wrthod mynediad at y wybodaeth.

Cafwyd ail Rybudd Penderfyniad gan y Comisiynydd Gwybodaeth ar yr 28ain o Hydref 2020, ac unwaith eto cadarnhawyd penderfyniad yr Awdurdod i wrthod mynediad at y wybodaeth.

Roedd y gŵyn mewn perthynas â mynediad at gyngor cyfreithiol a dderbyniwyd gan yr Awdurdod am gais cynllunio NP2/62/399 Ffordd Mynediad Llanbedr. Gwrthodwyd mynediad at y cyngor hwn gan ei fod yn cael ei ystyried yn fraint broffesiynol gyfreithiol o dan Reoliad 12(5)(b) o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Cydnabu'r Awdurdod bod yna ddiddordeb cyhoeddus mewn datgeliad a fuasai'n hyrwyddo dadl gyhoeddus mewn perthynas â chynigion sy'n effeithio'r gymuned. Byddai rhyddhau'r cyngor yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at hyrwyddo dealltwriaeth a rhoi mewnwelediad i'r cyhoedd ynghylch ymagwedd yr Awdurdod gyda'r cais cynllunio hwn.

O ran yr Awdurdod ei hun, mae'n hanfodol ei fod yn gallu cael cyngor cyfreithiol llawn a gonest trwy ddull diogel, i gynorthwyo Swyddogion i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Barn yr Awdurdod oedd nad oedd digon o ddadleuon a oedd a wnelo budd / diddordeb cyhoeddus o blaid rhyddhau'r wybodaeth hon a fyddai'n gorbwysu cryfder y ddadl wrth gynnal Braint Gyfreithiol Broffesiynol, sy'n parhau i fod yn gonglfaen sylfaenol i weinyddu cyfiawnder yn y DU.

Cytunodd y Comisiynydd a daeth i'r casgliad bod y budd / diddordeb cyhoeddus o gynnal yr eithriad yn gorbwysu'r budd/ diddordeb cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth.

<p>Rhaglenni Pwyllgorau ac Adroddiadau Cysylltiedig</p>	<p>Mae rhaglenni ac adroddiadau cysylltiedig Pwyllgorau'r Awdurdod yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn bob cyfarfod.</p> <p>Mae archif o raglenni a dogfennau cysylltiedig o bwyllgorau'r gorffennol hefyd ar gael ar y wefan.</p>
--	---

Egwyddor 3: Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

<p>Cynllun Partneriaeth y Wyddfa</p>	<p>Cyflwynodd Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa'r adroddiad cynnydd ar y prosiectau o fewn Cynllun Yr Wyddfa, i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 18fed o Dachwedd 2020.</p> <p>Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhoi diweddariad ar y system beilot ym mis Awst 2020 i rag-archebu parcio ym Mhen y Pass, lansiad Ap ym mis Gorffennaf 2020 a alluogir gan GPS sy'n cwmpasu'r 6 brif lwybr i fyny'r Wyddfa, Cynllun Llysgenhadon Eryri, datblygiad ymgyrch sbwriel gyda Chymdeithas Eryri, a datblygiad Cynllun Cyfathrebu ar gyfer y Bartneriaeth.</p> <p>Wrth i'r llwyrglo gael ei lacio a'r cyfyngiadau ar deithio rhynglwadol aros yn eu lle dros yr haf diwethaf, roedd hyn yn golygu bod y niferoedd o ymwelwyr a ddaeth i Eryri, ac yn benodol i ardal Yr Wyddfa, wedi bod yn ddi-gynsail. Mae'r pandemig wedi dwysáu'r problemau cronig a oedd eisoes yn bodoli, ac wedi rhoi pwysau ychwanegol ar Bartneriaeth Yr Wyddfa i gynyddu cyflymder datblygiad atebion cynaliadwy ac arloesol i'r problemau cyfredol.</p> <p>Mae manylion sydd eisoes wedi cael eu hamlinellu yn gynharach yn yr adroddiad hwn o dan y pennawd Ymgynghori Uniongyrchol, yn crynhoi'r gwaith ymgysylltu sydd wedi'i gynnal dros y gaeaf ar ymatebion cynaliadwy ar gyfer parcio a thrafnidiaeth. Wrth adeiladu ar y cynllun peilot, mae system rhag-archebu parcio wedi cael ei lansio ar gyfer Pen y Pass ar gyfer Ebrill 2021.</p>
<p>Cynllun Eryri (Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri)</p>	<p>Mae Cynllun Eryri – sef Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2020 – 25, wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei Gyfarfod Blyneddol ar y 23ain o Fedi 2020.</p>

	<p>Lansiwyd y Cynllun yn swyddogol gan Lesley Griffiths, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, mewn digwyddiad ar-lein ar y 26ain o Dachwedd 2020.</p> <p>Yn yr un digwyddiad, lansiwyd un o'r prosiectau pwysig o fewn y cynllun - Cynllun Llysgenhadon Eryri. Mae'r cynllun yn dathlu Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol ac mae'n bwydo gwybodaeth ac addysgu trwy gyfrwng modiwlau. Ar ôl gorffen y modiwlau, mae cyfranogwyr yn cael eu hadnabod fel llysgenhadon ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda channoedd o bobl wedi cwblhau'r modiwlau yn y misoedd cyntaf. Mae niferoedd y llysgenhadon yn cynyddu'n ddydiol.</p> <p>Mi fydd Fforwm Eryri yn awr yn gyfrifol dros weithredu'r Cynllun ac am fonitro'r cynnydd wrth symud ymlaen. Yn ystod 2020-21, cyfarfu'r fforwm 4 gwaith.</p>
<p>Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031</p>	<p>Oherwydd pandemig Covid-19, nid oedd Llywodraeth Cymru angen Awdurdodau Cynllunio Lleol i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystod 2020-21, a disgwylir i'r Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf gael ei gyflwyno erbyn mis Hydref 2021.</p> <p>Fodd bynnag, roedd swyddogion yn teimlo ei fod yn bwysig i barhau gyda chasglu data ac i fonitro'r perfformiad CDLI Eryri, ac o ganlyniad paratowyd Adroddiad Monitro Blynyddol Interim. Cyflwynwyd hwn i'r Aelodau yn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar yr 20fed o Ionawr 2021.</p>
<p>Cynllun Corfforaethol 2020/21</p>	<p>Bydd yr Awdurdod yn derbyn canlyniadau Cynllun Busnes a Gwelliant 2020/21 trwy'r Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant 2020/21 a gaiff ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Medi 2021.</p> <p>Fodd bynnag, rhoddwyd diweddariadau rheolaidd i'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed ar y camau i wireddu'r Amcanion Llesiant (sydd wedi eu hamlinellu yn y Rhaglen Waith Corfforaethol 2020/21) a'r dangosyddion perfformiad cysylltiol.</p> <p>Mae'r cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd trydydd chwarter y flwyddyn ariannol (31/12/20) fel y canlyn:</p>

	O'r 56 gweithrediadau / mentrau / prosiectau a amlinellwyd yn y Rhaglen Waith Corfforaethol, roedd 39 wedi eu graddio yn wyrdd (wedi symud ymlaen ac o fewn yr amserlen), 9 wedi ei graddio yn ambr (i'w gweithredu yn y chwarter nesaf a/neu i'w cwblhau cyn diwedd Mawrth 2021) a 8 wedi ei graddio yn goch (heb symud ymlaen a / neu darged amser wedi llithro).
--	---

Egwyddor 4: Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir

Strategaeth y Gyllideb 2020/21	<p>Cadarnhawyd cyllideb referniw'r Awdurdod ar gyfer 2020/21 gan y Prif Swyddog Cyllid yn ei adroddiad i'r Awdurdod ar y 5ed Chwefror 2020. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cadarnhau'r lefi ar awdurdodau cyfansoddol.</p> <p>Cyflwynwyd diweddariad i'r Gyllideb i'r Awdurdod ar y 23ain o Fedi 2020. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cymorth ariannol a dderbyniwyd i liniaru effeithiau Covid-19, sydd wedi cynnwys grantiau gan Lywodraeth Cymru, grantiau cymorth busnes gan Gynghorau Gwynedd a Chonwy, ad-daliadau trethi, ac ad-daliadau cyflog trwy'r cynllun seibiant swyddi.</p>
Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2020/21 – 2023/24	<p>Yn ei gyfarfod ar y 3ydd o Chwefror 2021, cyflwynodd y Prif Weithredwr y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2020/21 – 2023/24 i'r Awdurdod, yn nodi'r prif faterion ariannol a fydd yn effeithio ar yr Awdurdod dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Cynllun yn amlinellu model o'r adnoddau ariannol sy'n ofynnol gan yr Awdurdod ar gyfer y lefelau gwasanaeth y mae'n gobeithio eu darparu yn y tymor canolig.</p> <p>Mae'r Cynllun yn adrodd bod yr amcanestyniad cyfredol ar gyfer 2020/21 wedi dangos gorwariant yn erbyn y gyllideb oherwydd costau diswyddo Plas Tan y Bwlch a goblygiadau ariannol y pandemig. Mae'r Cynlluniau hefyd yn nodi y disgwylir i ffigur setliad Grant y Parc Cenedlaethol ddangos cynnydd o 10% ar gyfer 2021/22, er na chadarnhawyd hyn.</p> <p>Nodwyd ystod eang o bosibiliadau yn yr adroddiad - gosodwyd y rhain yng nghyd-destun yr 'Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr' a oedd i fod i ddigwydd cyn 2022/23; gan ddisgwyl y byddai'r canlyniad yn ôl pob tebyg tuag at y llwybr canol.</p>

Rheoli Perfformiad	<p>Adroddwyd ar alldro Dangosyddion Perfformiad yr Awdurdod ar gyfer 2019/20 ynghyd â'r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu o fewn y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer y flwyddyn i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 15fed o Orffennaf 2020.</p> <p>Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18fed Tachwedd 2020 ar ganlyniadau hanner gyntaf y flwyddyn o ran Dangosyddion Perfformiad a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2020/21.</p>
---------------------------	---

Egwyddor 5: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

Presenoldeb Aelodau	<p>O ganlyniad i Covid-19 bu'n angenrheidiol i gynnal pob cyfarfod yn rhithiol yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Ni chynhaliwyd unrhyw bwyllgorau ffurfiol yn ystod Ebrill 2020, tra'r oedd platfform rithiol hyfyw a oedd yn gallu darparu ar gyfer gwasanaethau cyfieithu yn cael ei sefydlu. Ail ddechreuodd pwyllgorau swyddogol ym mis Mai.</p> <p>Roedd presenoldeb yr Aelodau mewn cyfarfodydd yn ystod 2020/21 yn 90%, o'i gymharu â 81% yn 2019/20 a 81% yn 2018/19.</p>
Hyfforddiant Aelodau	<p>Ar ddechrau 2020/21, daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym, ac maent - ymysg pethau eraill - yn caniatáu i bwyllgorau gael eu cynnal o bell gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Felly, roedd ffocws ar anghenion hyfforddiant yr Aelodau ar ddechrau'r flwyddyn yn canolbwyntio ar y defnydd o, a chefnogaeth TG, gyda phwyslais ar ddefnyddio technoleg i gynnal cyfarfodydd o bell.</p> <p>Roedd presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddiant aelodau yn ystod 2020/21 yn 69% (52.5% yn 2019/20). Gan fod cyfleoedd datblygu personol ar gyfer yr Aelodau wedi cael ei effeithio gan y pandemig, gofynnwyd i'r swyddogion roi ystyriaeth i ddarparu opsiynau/dulliau eraill o hyfforddiant, fel gweminarau, yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar y 18fed o Dachwedd 2020.</p>

<p>Gwerthusiadau Perfformiad a Hyfforddiant Staff</p>	<p>Mae anghenion dysgu a datblygu yn cael eu hadnabod mewn adolygiadau gwerthuso perfformiad blynyddol, ac mae cynllun hyfforddiant yn cael ei gynhyrchu gan y Pennaeth Personél sy'n amlinellu'r blaenoriaethau hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn i ddod.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn, codwyd pryder yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau bod y canran o staff a gafodd eu gwerthuso yn ystod 2019/20 yn parhau i fod yn isel (75%), a bod y targed blynyddol yn cael ei fethu yn gyson. Bydd y cwmp sylweddol i ddim ond 32% o staff yn cael eu gwerthuso yn ystod 2020/21, sydd, heb amheuaeth, yn rhannol oherwydd Covid-19, yn mynd i waethygu'r pryder hwn.</p> <p>Mewn arolwg staff a gynhaliwyd yn 2020/21, roedd 81.5% o staff yn cytuno eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau (89.8% yn 2019/20).</p>
<p>Strategaeth Adnoddau Dynol</p>	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Diweddarau Blynyddol ar weithredu Strategaeth Adnoddau Dynol yr Awdurdod 2017-20 i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18fed o Dachwedd 2020.</p> <p>Mae'r adroddiad yn rhoi data ar y bwch tâl rhyw, rhyw staff wedi ei ddsbarthu yn ôl gwasanaeth, proffil oedran, cyfraddau trosi staff a.y.b. Nodwyd bod absenoldeb salwch fyny o 8.9 diwrnod Cyfwerth Amser Llawn (CALI) yn 2018/19 i 11.5 diwrnod CALI yn 2019/20.</p> <p>Mae'r Cynllun Gweithredu yn ymdrin ag arweinyddiaeth a datblygu rheolaeth, rheoli perfformiad, recriwtio a chadw staff, rheoli absenoldeb a chydraddoldeb ac amrywiaeth.</p>

Egwyddor 6: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

<p>Datganiadau Ariannol</p>	<p>Oherwydd pandemig Covid-19 cwblhawyd y Datganiad Cyfrifon drafft o fewn y llinell amser estynedig ac fe'i hardystiwyd (yn ddarostyngedig ei fod yn cael ei archwilio) gan Brif Swyddog Cyllid yr Awdurdod ar yr 21ain o Awst 2020.</p> <p>Cyn hyn, cymeradwyodd yr Aelodau'r Adroddiad Alldro ar gyfer 2019/20 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 15fed o Orffennaf 2020.</p>
------------------------------------	---

	<p>Archwiliwyd y Datganiad Cyfrifon gan Archwilio Cymru, a chyflwynwyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2019/20 ynghyd â'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol i'r Awdurdod ei gymeradwyo yn ystod ei gyfarfod ar y 18fed o Dachwedd 2020 yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiedig) 2018.</p> <p>Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru ei adroddiad ISA260 blynyddol i'r Awdurdod.</p> <p>Cadarnhaodd yr Archwilydd y bydd o'n cyflwyno barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ynghyd â'r nodiadau cysylltiedig.</p>
Rheoli Risg	<p>Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n chwarterol gan Benaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli.</p> <p>Fel y nodir yn y Gofrestr Risg, mae'r cyfrifoldeb dros y risgiau a adnabuwyd yn cael eu dyrannu i swyddogion a enwir ac mae dyddiad targed yn cael ei osod ar gyfer mesurau lliniaru. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu gan Aelodau yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ogystal â chyfarfod yr Awdurdod.</p>
Archwilio Allanol	<p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 20fed o Fai 2020, cyflwynodd Archwilio Cymru eu hadroddiad yn gosod allan eu darganfyddiadau wedi iddo gynnal Adolygiad o Gyfranogiad. Mae manylion llawn o'r darganfyddiadau wedi'u gosod allan o dan Ran 6 (Materion Llywodraethu Arwyddocaol) islaw.</p> <p>Cyflwynodd Archwilio Cymru eu Cynllun Archwilio ar gyfer 2020 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 3ydd o Fehefin 2020. Roedd y Cynllun Archwilio wedi ymgorffori'r effeithiau posib o Covid-19 ar waith yr Awdurdod ynghyd â gallu Archwilio Cymru i gynnal gwaith archwilio.</p> <p>Roedd y Cynllun Archwilio yn gosod allan trefniadau diwygiedig ar gyfer Archwilio'r Datganiadau Ariannol, a oedd yn ddibynnol ar ba bryd y byddai'r Awdurdod yn cwblhau'r cyfrifon. Roedd hefyd yn gosod allan y bwriad i gynnal archwiliad perfformiad ar gydnerthedd corfforaethol a chynaliadwyedd. Roedd y gwaith yn adeiladu ar yr adolygiad diwethaf o gwmpas cyfranogiad.</p> <p>Yn dilyn eu harchwiliad o'r Cynllun Gwella ar gyfer 2020/21, cyflwynodd Archwilio Cymru dystysgrif yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 23ain o Fedi 2020, i</p>

	<p>gadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 15(6) hyd at (9) o'r Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2009.</p> <p>Yn ychwanegol i hyn, yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 3ydd o Chwefror 2021, wedi i Archwilio Cymru gynnal archwiliad o Asesiad yr Awdurdod o'i Berfformiad ar gyfer 2019/20 cyflwynodd Archwilio Cymru dystysgrif i gadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 15(2) (8) a (9) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.</p> <p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 29ain o Ebrill 2021, cyflwynodd Archwilio Cymru adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol o'r gwaith a ymgymerwyd ag o yn ystod 2020-21. Adroddwyd nad oedd yr Awdurdod wedi gallu cyrraedd yr amserlen statudol i gyflawni datganiadau ariannol a fe'i cyflwynwyd i'w harchwilio ar y 21ain o Awst 2020. Cytunwyd ar amserlen ddiwygiedig, a chwblhawyd yr archwiliad o fewn y terfyn amser newydd ac o fewn amserlen ddiwygiedig ddisgwyliedig Llywodraeth Cymru.</p> <p>Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd Archwilio Cymru eu Cynllun Archwilio ar gyfer 2021-22 a chadarnhawyd (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau Covid-19) y bydd yr archwiliad perfformiad am y flwyddyn i ddod yn canolbwyntio ar werth am arian.</p> <p>Hefyd, yn yr un cyfarfod, cyflwynwyd canlyniad yr archwiliad ynghylch Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy. Amlinellir y manylion llawn o dan Ran 6 (Materion Llywodraethu Arwyddocaol) islaw.</p>
<p>Archwiliad Mewnol</p>	<p>Bydd y Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd ar waith y flwyddyn ariannol ddiwethaf yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf.</p> <p>Cynlluniwyd i bedwar archwiliad mewnol gael eu cynnal yn ystod 2020/21, sef Yr Ysgwrn, Diogelwch Seibr, Dychwelyd Cyfarpar a Dangosyddion Perfformiad.</p> <p>Roedd archwiliadau Diogel Seibr a Dychwelyd Cyfarpar wedi cael eu graddio fel "Cyfyngedig" - er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth gyda'r rheolaethau a / neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau y mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.</p> <p>O ganlyniad i'r raddfa a roddwyd i hyn, cytunwyd ar bwyntiau gweithredu penodol ac ar amserlen i'w gwblhau gyda'r swyddogion perthnasol, er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.</p>

	<p>Yn yr archwiliad ar Ddangosyddion Perfformiad fe gawsant i gyd eu graddio fel “Digonol” - mae yna reolyddion yn eu lle i gyflawni'r amcanion ond mae rhai agweddau lle gellir tynhau'r trefniadau er mwyn lliniaru risgiau ymhellach.</p> <p>Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 nid oedd hi'n ymarferol i gynllunio ar gyfer cynnal archwiliad ar Yr Ysgwrn. Bydd y diwrnodau sy'n weddill yn cael eu trosglwyddo i archwilio prosiect grant Cynllun Rheoli Cynaliadwy, a gafodd ei radio yn “Uchel” - Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir ddibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</p>
Iechyd a Diogelwch	<p>Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch yn cyfarfod bob chwarter i fonitro materion iechyd a diogelwch o fewn yr Awdurdod.</p> <p>Mae'r Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn cynnwys manylion y cyrsiau hyfforddiant a wnaed yn ystod y flwyddyn a'r digwyddiadau / damweiniau a gofnodwyd.</p> <p>Yn ystod 2019/20, cofnodwyd 13 digwyddiad, o'r rhain adroddwyd ar un i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan y 'Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) '.</p>
Canolfannau Gwybodaeth	<p>Mae gan yr Awdurdod 3 Ganolfan Gwybodaeth ym Metws y Coed, Beddgelert ac Aberdyfi, sydd yn cael eu rheoli gan Reolwr Masnachol y Canolfannau, gyda'r prif nod i sicrhau bod y canolfannau yn hyfyw fasnachol / hunangynhaliol.</p> <p>Cyflwynwyd Cynllun Busnes y Ganolfannau Croeso i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 24ain o Fawrth 2021.</p> <p>Adroddwyd bod y Cynllun wedi cael ei addasu er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau a ragwelir yn y dyfodol o ran sail y cwsmeriaid a niferoedd yr ymwelwyr oherwydd effaith cyfyngiadau teithio Covid-19.</p> <p>Mae arbedion ar wariant yn ystod y llwyrglo, derbyn grantiau a'r cynllun seibiant swyddi wedi golygu bod y Canolfannau o fewn eu cyllideb ar gyfer 2019/20.</p>

	<p>Mae'r adroddiad yn dangos bod Canolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod yn cael eu rhedeg yn dda gyda phrosesau rheolaeth ariannol cadarn ar waith.</p>
<p>Strategaethau Benthycia a Buddsoddi / Rheoli'r Trysorlys</p>	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol sy'n darparu'r gweithgaredd Rheoli Trysorlys gwirioneddol (benthycia a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2019/20, i gyfarfod yr Awdurdod ar 3 Mehefin 2020.</p> <p>Yn ystod 2019/20 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthycia.</p> <p>Yn 2019/20, £48,077 oedd y cyfanswm llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau. Mae £1,419 o log a dderbyniwyd o fenthyciadau ceir yn cynyddu'r cyfanswm i £49,496 yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o £29,300.</p> <p>Mae'r swm llog banciau a chymdeithas adeiladu o £48,077 am 2019/20 yn uwch na'r swm cyfatebol o £35,980 yn 2018/19. Y prif reswm am hyn ydyw fod HSBC Marchnad Arian, Nationwide a Santander UK wedi parhau i dalu cyfradd llog uwch ar adneuron tymor drwy 2019/20.</p> <p>Rhodddwyd adroddiad ar lafar Intermin i Rheoli'r Trysorlys yn yr Awdurdod ar y 9fed o Rhagfyr 2020. Cynghorodd y Prif Swyddog Cyllid fod y cyfraddau llog isel parhaus yn golygu na fyddai'r Awdurdod yn cyflawni ei darged o £23k yn 2020/21 ac y byddai'r llog a enillir yn agosach at £13k.</p> <p>Hyd yn hyn, Nid yw'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ar gyfer cymeradwyaeth.</p> <p>Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cyllid y Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2021/22 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 3ydd o Chwefror 2021.</p> <p>Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at gyflawni gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â throsolwg o sut y caiff y risg cysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn cychwyn 2021/22 yn ddiddyled. Cymeradwyodd yr Aelodau 'dim newid' i'r cyfyngiad benthycia awdurdodedig</p>

	a'r ffin weithredol, a chymeradwywyd y Strategaeth Benthycu Cyfalaf a'r Strategaeth Buddsoddi ar gyfer 2021/22, a nodi'r cynnwys sy ymwneud a'r Cod Darbodus.
Ganolfan Astudio Plas Tan y Bwlch	<p>Mae Canolfan Astudio'r Awdurdod wedi bod yn methu targedau a nodwyd yn ei Gynllun Busnes yn gyson ac yn rhedeg ar golled ers nifer o flynyddoedd.</p> <p>Nid yw ymdrechion i arallgyfeirio a chwilio am ffrydiau incwm a marchnadoedd newydd wedi bod yn llwyddiannus, ac arweiniodd dyfodiad Covid-19 at gollu'r busnes presennol yn llwyr, gan olygu bod angen gwneud penderfyniadau anodd ynghylch dyfodol y Ganolfan.</p> <p>Dadansoddwyd modelau busnes amgen a chymeradwywyd yr achos dros ail agor y Ganolfan fel darparwr llety gwely a brechwast, ar ôl ystyried y risgiau ariannol, yr ailstrwythuro staff sy'n ofynnol a chywirdeb blaenamcanion y dyfodol.</p> <p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod Arbennig a gynhaliwyd ar yr 23ain o Hydref 2020, penderfynodd yr Aelodau barhau i weithredu Plas Tan y Bwlch fel llety Gwely a Brechwast yn y tymor byr i ganolig; bwrw ymlaen gyda'r gwaith o ailstrwythuro staff; parhau â'r ddeialog gydag ystod o bartneriaid posibl yn y dyfodol; ac adrodd ar y cynnydd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.</p> <p>Mae'r risgiau o fethu â chyrraedd y targed cynhyrchu incwm a sicrhau dyfodol tymor hir y Ganolfan wedi cael eu lliniaru cymaint â phosibl, ac ar hyn o bryd maent yn cael eu graddio fel canolig. Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol bod yr Awdurdod yn ymsefydlu mesurau rheolaeth fewnol a rheolaeth ariannol gadarn wrth reoli'r Ganolfan.</p>

Egwyddor 7: Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Datganiad Polisi Tâl	Mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl o dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Er bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn ystyriwyd ei fod yn arfer da mabwysiadu datganiad o'r fath, ac yn unol â hynny gwneir hyn yn flynyddol gan y Pennaeth Personél.
-----------------------------	---

	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 200/21 a Datganiad Polisi Tâl yr Awdurdod ar gyfer 2021/22 gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 24ain Mawrth 2021 gan sicrhau tryloywder o ran y taliadau cydnabyddiaeth ariannol i staff yn yr Awdurdod.</p> <p>Ar hyn o bryd, nid yw'r Dyfarniad Cyflog ar gyfer Ebrill 2020 wedi ei gytuno. Mae arwyddion cynnar na fydd cynnydd ar wahân i gyflogau sy'n is na £24,000, fodd bynnag, mae hyn i'w gadarnhau.</p>
<p>Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella 2019/20</p>	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella ar gyfer 2019/20 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 23ain o Fedi 2020, cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan a'i ddsbarthu i brif ganolfannau'r Awdurdod, llyfrgelloedd cyhoeddus ac ati, o fewn y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Mae'n cynnwys Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn, sy'n nodi'r hyn a gyflawnwyd, beth na chafodd ei gyflawni ac unrhyw broblemau a wynebwyd.</p> <p>Mae hefyd yn cynnwys manylion am Flaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac Amcanion yr Awdurdod a osodir yn flynyddol sy'n bwydo i mewn ac yn dangos sut y bwriedir mynd â'r Parc Cenedlaethol yn ei flaen er mwyn gwireddu gweledigaeth yr Awdurdod; gwerthusiad cryno o'r cynnydd a wnaed o ran cwrdd ag Amcanion yr Awdurdod, y gweithgareddau gwaith allweddol ar gyfer 2018/19, a rheoli perfformiad (gan gynnwys canlyniadau dangosyddion perfformiad ar gyfer y flwyddyn).</p> <p>O'r 5 maes gwella, bu'r Awdurdod yn llwyddiannus yn y cynnydd a wnaed ar ddau o'r amcanion, yn rhannol lwyddiannus ar ddau o'r amcanion eraill, tra bo'r cynnydd a wnaed ar un amcan arall sy'n weddill yn gyfyngedig.</p>
<p>Darlledu Pwyllgorau</p>	<p>Er nad oes rhaid i awdurdodau lleol ddarlledu eu cyfarfodydd, mae Llywodraeth Cymru yn annog gweddardlledu.</p> <p>Yn ystod 2019/20, cytunodd yr Aelodau i beidio symud ymlaen i ddarlledu pwyllgorau gan fod y costau'n llawer rhy uchel.</p> <p>Oherwydd pandemig Covid-19, cynhaliwyd pob cyfarfod yn ystod 2020/21 yn rhithiol gan ddefnyddio meddalwedd Zoom. Oherwydd y materion diogelwch gyda'r feddalwedd ynghyd â'r ffaith mai dim ond un sianel iaith a</p>

	ellir ei darlledu'n fyw (sy'n golygu nad yw'n bosib trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal); nid oedd yn bosibl rhoi mynediad i'r cyhoedd fel arsylwyr i'r cyfarfodydd hyn yn ystod 2020/21, ac ni chawsant eu darlledu'n fyw ar wefan yr Awdurdod. Yn dilyn y cyfarfodydd, darlledwyd recordiadau o'r Pwyllgorau Cynllunio a Mynediad yn unig ar sianel YouTube yr Awdurdod.
Craffu Aelodau	Yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 18fed o Dachwedd 2020, cyflwynodd y Prif Weithredwr diweddariad ar Graffu Strategol, a oedd yn adrodd am y cynnydd a waned gan y Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Traffig a'r Grŵp Tasg a Gorffen Cyfrif Carbon. Penderfynodd yr Aelodau i gytuno ar 2 faes craffu ychwanegol, sef Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu a Grŵp Tasg a Gorffen Enwau Lleoedd Cymraeg.

6. Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Bwriedir eu Cymryd ar gyfer 2021/22

Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2021 roedd y genedl ond wedi megis dechrau profi'r effaith ddwys yr oedd Covid-19 yn mynd i gael ar fywyd bob dydd am y dyfodol rhagweladwy. Ar ôl cyhoeddi'r cyfnod llwyr glo yn y DU, symudodd yr Awdurdod yn gyflym iawn i ail-flaenoriaethu ei waith i ddelio â'r argyfwng, i alluogi staff i weithio gartref lle bo hynny'n bosibl, ac i roi systemau ar waith i alluogi gweddill busnes o ddydd i ddydd yr Awdurdod i barhau lle bo hynny'n bosibl.

Ar ôl blwyddyn o gyfnodau clo a graddau amrywiol o gyfyngiadau i geisio rheoli lledaeniad yr haint, mae'r Awdurdod wedi gorfod cyfuno pwysau gwaith adweithiol wrth ddatblygu datrysiadau a chynlluniau rhagweithiol i ymladd yr effeithiau negyddol tymor canolig i hir yn sgil niferoedd yr ymwelwyr, sydd wedi cael ei waethygu oherwydd cyfyngiadau teithio rhyngwladol o ganlyniad i Covid-19.

Bydd effaith y llwyr gloi ar yr economi ynghyd â'r adnoddau ariannol a wariwyd gan Lywodraeth y DU a Chymru i ddelio â'r argyfwng, yn golygu oblygiadau enfawr ar yr arian sydd ar gael i'r sector cyhoeddus am gryn amser i ddod.

Gan fod Cynllun Eryri (Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri) wedi cael ei fabwysiadu yn ystod 2020/21, bydd hyn sicrhau wrth i ni fynd yn ein blaen, bod gan yr Awdurdod a'i bartneriaid ffocws clir ar eu blaenoriaethau gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r egwyddor graidd o gynaliadwyedd yn llifo trwy'r Cynllun, ac mae'n hanfodol bod y 3 maes allweddol, megis yr Amgylchedd, Iechyd a Lles a Chymunedau a'r Economi, yn awr, fwy nag erioed yn cael eu blaenoriaethu wrth symud ymlaen tuag at ail-adeiladu ar ôl y pandemig.

Mae'r Amcanion Lles a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2021-26, fel y'i gosodwyd allan yn y Cynllun Corfforaethol, ynghyd â'r Cynllun Gweithredu a phrosiectau sy'n deillio o hynny, yn gweithio tuag at wireddu Gweledigaeth Cynllun Eryri.

Archwilio Cymru: Adolygiad o Ymglymiad

Mae Archwilio Cymru yn gyfrifol am adolygu sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau ar eu cymunedau, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Wrth adeiladu ar y gwaith archwilio cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod 2019, edrychodd Archwilio Cymru yn fanylach ar sut roedd yr Awdurdod yn cynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau gwasanaeth a pholisi, gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu Cynllun Eryri (Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol). Cyflwynwyd adroddiad o'r casgliadau i'r Awdurdod ar yr 20fed o Fai 2020.

Daeth Archwiliad Cymru i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi "sefydlu dull gweithredu effeithiol sy'n seiliedig ar waith partneriaeth wrth ddatblygu Cynllun Eryri a'i fod mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r dull gweithredu hwn wrth iddo fynd rhagddo, ond mae angen iddo fynd i'r afael a'r heriau o ran cyllid a chapasiti a wynebir ganddo i sicrhau bod ei waith cyfranogi'n gynaliadwy".

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at feysydd arfer da a'r gwaith arweiniol rhagorol a wneir gan yr Awdurdod. Ni wnaeth Archwiliad Cymru unrhyw gynigion ar gyfer gwella ond yn hytrach maent wedi cynhyrchu hunanasesiad i staff ac Aelodau ei ddefnyddio i nodi cryfderau a gwendidau ei ddull gweithredu cyfredol tuag at ymglymiad.

Archwilio Cymru: Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy

Yn ystod 2020-21 adolygwyd cydnerthedd corfforaethol o bell, trwy astudio ac archwilio dogfennau perthnasol ac anfon arolwg allan i Aelodau a staff yn gofyn am eu barn.

Wrth adrodd ar y canlyniadau ym mis Ebrill 2021, daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod "yr Awdurdod wedi ymateb yn dda yn y pandemig ond mae'r heriau a wynebwyd ganddo wedi amlygu angen i wella'i gydnerthedd a'i gynaliadwyedd yn y tymor hwy".

Daethpwyd at y casgliadau a ganlyn o'r canfyddiadau a gafwyd ar ôl edrych ar y pum maes allweddol:

Cyllid: "mae sefyllfa ariannol gadarn yr Awdurdod yn ymguddio'r angen i sefydlu gwaddol ar gyfer prosiectau byrdymor a ariennir gan grantiau er mwyn cynyddu eu heffaith i'r eithaf".

Llywodraethu: "mae gan yr Awdurdod systemau llywodraethu cadarn, ond mae cyfleoedd i ddysgu o'r prosesau penderfynu deinamig a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig".

Y gweithlu: "mae gan yr Awdurdod weithlu medrus ac ymrwymedig, ond mae capasiti a chydnerthedd wedi bod o dan bwysau".

Asedau: "mae gan yr Awdurdod bortffolio amrywiol o asedau, ond yng ngoleuni'r pandemig mae angen iddo ail-werthuso'i fwriad strategol a'i rôl yn y dyfodol o ran rheoli'r rhain".

Parhad busnes: "fe wnaeth yr Awdurdod yn dda i gynnal gwasanaethau yn ystod y pandemig, ond mae angen iddo ddysgu gwersi ar lefel gorfforaethol i helpu i hybu cydnerthedd".

Cynigion ar gyfer Gwella

Mae'r tabl islaw yn gosod allan y cynigion ar gyfer gwella a adnabuwyd gan Archwilio Cymru wrth ymgymryd â'r adolygiad. Yn ystod 2021-22, mae'r Awdurdod am edrych ar sut y gellir symud ymlaen i weithredu'r gwelliannau hyn yn effeithiol.

CaG1	I gefnogi cydnerthedd dylai'r Awdurdod gadarnhau ac arfarnu ei ffyrdd newydd o weithio mewn perthynas â llywodraethu, parhad busnes a gweithio o bell.
CaG2	I gynyddu effaith prosiectau a ariennir â grantiau i'r eithaf dylai'r Awdurdod ddatblygu fframwaith i arfarnu eu cyfraniad posibl at symud Cynllun Eryri yn ei flaen ac i sicrhau bod cynllunio priodol ar gyfer etifeddiaeth yn digwydd.
CaG3	I gefnogi mwy o gydnerthedd dylai'r Awdurdod ystyried sut a phryd i adael i swyddogion gael profiadau newydd mewn gwasanaethau a thimau ehangach i feithrin sgiliau, gwybodaeth a chapasiti.

Proffil Risg yr Awdurdod

Mae'r pedwar risg uchaf i'r Awdurdod fel y'u diweddarwyd ym mis Mawrth 2021, fel a ganlyn:

Risg	Canlyniad	Gweithred a Nodwyd / Cynnydd hyd yma
Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio)	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	Yn sgil y cyfnodau clo pellach yn Hydref a Thachwedd a'r cyfnod clo cenedlaethol sy'n parhau ers Rhagfyr 2020, mae diffyg o £63K yn erbyn y targed incwm am y flwyddyn ar ôl cynnwys y cymorth tuag at golled incwm Chwarter 1. Gwireddwyd 91% o'r targed incwm am y flwyddyn. Gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn i wneud y diffyg yma i fyny am eleni, ond bydd y risg yn parhau yn uchel ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf oherwydd amgylchiadau Covid-19, felly bydd angen cadw golwg manwl ar y sefyllfa.
Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygredd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid.	Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa. Mae is-grŵp i Gynllun Yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafniadaeth / parcio yn yr ardal. Mae astudiaeth ar reolaeth

		<p>traffig ar gyfer ardaloedd y Wyddfa ac Ogwen wedi ei gomisiynu ac wedi ei dderbyn. Mae partneriaid nawr yn ystyried argymhellion yr adroddiad gyda Llywodraeth Cymru ac yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd dros gyfnod prysur yr haf. Mae ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r cymunedau yn cymryd lle yn ystod Chwefror / Mawrth 2021 ar yr adroddiad.</p> <p>Disgwylir niferoedd digynsail o ymwelwyr dydd y DU eto'r haf hwn wrth i'r cloi lawr leihau, a fydd yn achosi problemau i gymunedau lleol. Er y cymerir dull partneriaeth, canfyddiad y cyhoedd bydd mai'r Awdurdod sy'n llwyr gyfrifol.</p>
<p>Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt.</p>	<p>Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn.</p>	<p>Cafwyd Adroddiad Cynnydd Canol-Tymor a chais am daliad ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd yn Rhagfyr 2020 (gohiriwyd o Ionawr 2020). Disgwylir adborth yn ôl gan y Comisiwn yn Chwefror 2021. Bydd adroddiad olaf i Lywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno yn Ebrill 2021 ar gyfer cyfnod Hydref 2020 i Fawrth 2021 - eto, disgwylir i'r prosiect cwrdd â'r gwariant o £2m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn hawlio cyfanswm cyfraniad y Llywodraeth i'r prosiect.</p> <p>Disgwylir i'r prosiect cyrraedd y targed gwariant o £2m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2020/21 er mwyn hawlio cyfraniad LIC yn ei gyfanrwydd, ond os bydd cyfyngiadau llym yn cael eu gweithredu yng ngaeaf 2020/21 o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, bydd hyn yn rhoi ychydig o bwysau ar staff i gyrraedd y targed.</p>
<p>Effaith yr haint Coronavirus (COVID-19) ar y Parc Cenedlaethol ac ar waith yr Awdurdod.</p>	<p>Yr Awdurdod yn methu a gweithredu o ran cyflawni dyletswyddau dyddiol a statudol. Colledion ariannol, methu a thalu cyflenwyr, a methiant cyffredinol i</p>	<p>Mae angen sicrhau fod mesurau mewn lle parthed prif systemau'r Awdurdod a gallu staff allweddol i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r Tîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth wrthi'n trafod mesurau penodol ar gyfer hyn.</p>

	<p>gynnal systemau arferol. Yr Awdurdod yn methu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol, • i gyflawni yn erbyn y rhaglen waith gorfforaethol, • i dalu staff a chyflenwyr, • i ennill incwm yn erbyn targedau a gytunwyd, • cefnogi llesiant cymdeithasol ac economaidd yr ardal, • cefnogi llesiant staff. 	<p>Trefniadau gweithio amgen wedi eu sefydlu a bydd angen adolygu fel mae cyfnod y gaeaf yn dechrau. Mi fydd yna risg ychwanegol i'r Awdurdod yn ystod 2020/21 yn nhermau cyflawni targedau incwm.</p>
--	--	--

7. Barn

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ymdrin â'r materion y cyfeiriwyd atynt yn rhan 6 yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen i wella a bennwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.



EMYR WILLIAMS

**PRIF WEITHREDWR
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL
ERYRI**

DYDDIAD 9/06/2021



WYN ELLIS JONES

**CADEIRYDD
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL
ERYRI**

DYDDIAD 9/06/2021

RHESTR TERMAU

CRONIADAU

Y cysyniad fod incwm a gwariant yn cael ei gydnabod fel y mae'n cael ei ennill neu ei wneud, nid pan fo arian yn cael ei dderbyn neu ei dalu.

TÂL CYFALAF

Taliad i gyfrifon refeniw gwasanaeth i adlewyrchu cost yr asedau sefydlog a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth.

GWARIANT CYFALAF

Gwariant ar gaffael ased sefydlog neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog presennol, nid ei gynnal yn unig.

DERBYNIADAU CYFALAF

Derbyniadau o ddim llai na £10,000 o werthiant asedau sefydlog. Gellir eu defnyddio ar gyfer cyllido gwariant cyfalaf o'r newydd neu ad-dalu dyled. Ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw "dydd i ddydd" arferol.

ASEDAU CYMUNEDOL

Aседau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu dal am byth, nad oes ganddynt oes ddefnyddiol y gellir ei phennu, ac sydd o bosib â chyfyngiadau ar gael gwared â hwy.

RHWYMEDIGAETHAU / ASEDAU AMODOL

Mae'r rhain yn deillio o ddiwyddiad hanesyddol ac sy'n ddibynnol ar ddiwyddiadau ac amseriad heb sicrwydd iddynt yn y dyfodol cyn y gellir eu cynnwys yn y cyfrifon.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD

Gwariant a ddyrennir fel cyfalaf i bwrpasau ariannu ond nad yw'n arwain at i wariant gael ei gario yn y fantolen fel ased sefydlog. Yn gyffredinol grantiau yw'r rhain a gwariant ar eiddo nad yw'n perthyn i'r Awdurdod.

CYNLLUN BUDDIANT DIFFINIEDIG

Cynllun pensiwn ble bo rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddiannau'n annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, ac nad yw'r buddiannau'n uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

PRYDLES GYLLID

Prydles sy'n trosglwyddo holl risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased sefydlog i'r prydleswr.

PRYDLES WEITHREDOL

Prydles heblaw prydles ariannol

ASEDAU SEFYDLOG

Aседau diriaethol sy'n rhoi buddiannau i'r awdurdod a'r gwasanaethau y mae'n ddarparu am ragor nag un flwyddyn.

OES DDEFNYDDIOL

Y cyfnod y mae'r awdurdod yn cael buddiannau o ddefnydd ased sefydlog.

BYRFODDAU

CIPFA	Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo
LASAAC	Local Authority (Scotland) Accounts Advisory Committee
IFRS	Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol
IAS	Safon Cyfrifeg Rhyngwladol

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	13 Hydref 2021
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYNLLUN GWELLA 2020-21
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Argymhell mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella a chymeradwyo ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2021

1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Awdurdod yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella mewn dau gam bob blwyddyn. Mae'r cam cyntaf, sef y Cynllun Corfforaethol (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020), yn ddogfen fer sy'n cyfeirio at y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Datganiad Llesiant yr awdurdod a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy;
- Amcanion yr awdurdod; a
- Dangosyddion a thargedau perfformiad

1.2 Rhaid cyflwyno ail gam yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella i'r Awdurdod erbyn 31 Hydref fan bellaf ac mae'r adroddiad ail gam hwn yn cynnwys mwy o fanylion am berfformiad yr Awdurdod yn ystod 2020/21 a'r hyn a gyflawnwyd o'r hyn a nodwyd i i'w gyflawni yn y Cynllun Corfforaethol.

1.3 Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella sydd ynghlwm i'r adroddiad hwn yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Adroddiad y Cadeirydd / Adroddiad Blynyddol am y cyfnod 2020/21 sy'n nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn flaenorol (Ebrill i Fawrth), yr hyn a gyflawnwyd, yr hyn na chyflawnwyd a'r problemau a gafwyd;
- Manylion am yr ardal a gwmpesir gan y Parc yn ogystal â'r sylfaen statudol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;
- Manylion Gweledigaeth Gorfforaethol yr Awdurdod sy'n nodi'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni a'i adael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
- Manylion Datganiad Llesiant yr Awdurdod a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy;
- Sut y gosodwyd Amcanion yr Awdurdod;
- Gwerthusiad Cryno o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni Amcanion Gwella'r Awdurdod;
- Y Gweithgareddau Gwaith Allweddol ar gyfer 2020/21;
- Rheoli Perfformiad;
- Y Fframwaith Gwella sy'n nodi sut mae'r awdurdod yn bwriadu cyflawni gwelliant parhaus; a

- Manylion ar Ddangosyddion Perfformiad yr Awdurdod; a
- Manylion cyswllt.

2. GOBLYGIADAU ADNODDAU

2.1 Mae'r Cynllun yn nodi sut y gwnaeth yr Awdurdod berfformio wrth gyflawni ei flaenoriaethau yn ystod 2020/21 ac felly ni fydd yn cael effaith ar sut mae cyllideb yr Awdurdod yn cael ei gwario.

3. ARGYMHELLIAD

Bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Cynllun ac yn cymeradwyo ei gyhoeddi erbyn y dyddiad gofynnol.

PAPURAU CEFNDIR

**ADRODDIAD BLYNYDDOL
A
CHYNLLUN GWELLIANT
AR GYFER 2020/21**



Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwelliant, yr asesiadau a nodir o'i fewn, a'r rhagdybiaethau a'r rhagamcanion y maent yn seiliedig arnynt. Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am baratoi systemau rheoli mewnol a rheoli perfformiad priodol er mwyn cael yr wybodaeth a'r asesiadau sydd yn y Cynllun. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr wybodaeth a'r asesiadau sydd yn y cynllun yn hanfodol gywir a chyflawn a bod y cynllun yn realistig ac yn gyraeddadwy.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd, LL48 6LF
www.eryri.llyw.cymru

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ADRODDIAD BLYNYDDOL
A
CYNLLUN GWELLIANT
AR GYFER 2020/21

Rhan	Tudalen(nau)
1. Adroddiad y Cadeirydd / Adroddiad Blynyddol	
2. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	
3. Gweledigaeth	
4. Datganiad Llesiant a'r Egwyddor Ddatblygu Cynaliadwy	
5. Gosod Amcanion yr Awdurdod	
6. Amcanion Gwella'r Awdurdod gyda gwerthusiad cryno o'r cynnydd a wnaed hyd yma	
7. Gweithgareddau Gwaith Allweddol ar gyfer yr Amcanion Gwella 2020/21	
8. Rheoli Perfformiad	
9. Y Fframwaith Gwella	
10. Dangosyddion Perfformiad	
11. Manylion Cyswllt	

Atodiad - Rhestr o Ddangosyddion Perfformiad

**1. AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21**

ADRODDIAD Y CADEIRYDD - I DDILYN

Adroddiad y Cadeirydd 2020-2021

Adolygiad o waith Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Ebrill 2020-Mawrth 2021

Croeso i adroddiad y Cadeirydd ar gyfer 2020-2021. Wrth edrych yn ôl ar y cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, mae hi wedi bod yn amser digynsail i'r Parc Cenedlaethol, ond amser lle y gallwn fod yn falch iawn ohono.

Mae'r ymroddiad gan staff yr Awdurdod yn ystod yr amser hwn wedi bod yn anferthol. Maent wedi ymateb i'r niferoedd llethol o ymwelwyr ac ymddygiad heriol ymwelwyr gyda phroffesiynoldeb a dygnwch. Maent wedi parhau gyda'r gwaith dyddiol angenrheidiol o ofalu am y Parc Cenedlaethol a'i chymunedau gydag ymroddiad. Ac fel cyfangorff, boed hynny tu ôl i'r llenni neu ar y rheng flaen, maent wedi dangos gwerth aruthrol y Parc Cenedlaethol a'i gwasanaethau i ofalu am yr amgylchedd ynghyd â chymunedau'r ardal.

Fel ag y daeth tymor Owain Wyn fel Cadeirydd i ben, cefais y fraint o gael fy mhenodi fel Cadeirydd newydd yr Awdurdod. Penodwyd y Cynghorydd Annwen Hughes fel Is-Gadeirydd a'r ddynes gyntaf i'w phenodi i'r rôl ac yn Gynghorydd Gwynedd dros ward Llanbedr a Llanfair. Rydym yn diolch yn fawr i Owain Wyn am ei gyfnod llwyddiannus fel Cadeirydd yn enwedig am yr ymroddiad ac arweinyddiaeth a ddangoswyd yn ystod yr ychydig fisoedd heriol o'r pandemig ble roedd arweinyddiaeth gref yn angenrheidiol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys rhai o'r cyflawniadau yn ystod 2020-2021, o'r ymateb i bandemig Covid-19 i'r gweithredu sydd yn cael ei wneud i fynd i'r afael a newid yn yr hinsawdd.

Ymateb i Bandemig Covid-19

Ym Mawrth 2020 dechreuodd Covid-19 dddal ei afael ym Mhrydain ac ar yr 20fed o Fawrth, cyhoeddodd y Prif Weinidog Boris Johnson y byddai tafarndai, tai bwyta a chaffis yn cau. Dilynwyd hyn gan un o'r penwythnosau prysuraf yn hanes y Parc Cenedlaethol gyda'r genedl yn cymryd yr un cyfle olaf at ryddid cyn cyhoeddi llwyrglo cenedlaethol ar Fawrth 23.

Roedd yr ymchwydd yn y nifer o ymwelwyr ar y penwythnos hwnnw, tra roedd y wlad ar fin pandemig yn achos pryder o fewn y cymunedau lleol. Cydweithiodd y Parc Cenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn y dyddiau dilynol i weithredu ar ddeddfwriaeth o gau'r tir mynediad i

ardaloedd mwyaf poblogaidd y Parc Cenedlaethol, er mwyn rheoli'r lledaeniad posib o'r firws drwy bobl yn ymgynnull. Yn ystod yr ychydig ddyddiau hyn

gweithiodd staff y Parc i gynhyrchu, argraffu a gosod dros 200 o arwyddion ar safleoedd yn rhoi gwybodaeth am y clod.

Fel yr ail agorodd cefn gwlad, cynyddodd y nifer o ymwelwyr yn gyflym ac roedd teimlad o bwysau mawr parthed rheolaeth ymwelwyr. Roedd hyn yn cynnwys problemau parcio, gweryslla anghyfreithlon; tai modur, sbwriel a thannau i enwi ond ychydig. Yn ystod yr amser hwn, gweithiodd y Parc Cenedlaethol yn agos gyda phartneriaid ar draws Cymru yn cynnwys yr Heddlu, Cyfoeth Naturiol Cymru a chynghorau lleol.

Rhaid cymeradwyo staff y Parc Cenedlaethol am eu hymdrechion yn ystod yr haf heriol hwn, o'r rheini oedd yn gweithio ar y rheng flaen i'r rheini oedd yn cefnogi tu ôl i'r llenni, ac yn y ffordd y gwnaeth y staff i gyd addasu i ffordd newydd o weithio. Mae'r ymdrechion, egni ac oriau a roddwyd i ofalu am yr ardal a'r cymunedau i'w canmol.

Estynnwyd y rheoliad hyd ddiwedd Mawrth 2021 ond yn ystod y llwyrglo cenedlaethol o Dachwedd 2020 ymlaen ni wnaeth yr Awdurdod gau unrhyw ardaloedd o dan y rheoliad dim ond cau'r meysydd parcio. Roedd hyn er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus eraill yn eu hymdrechion i orfodi'r llwyrglo cenedlaethol.

Yn dilyn llwyddiant ymgyrch 2020 #ByddwchynDdiogel#TroediwchynYsgafn#ByddwchynGaredig, datblygwyd yr ymgyrch #CyllunioCanfodCaru yn ystod gaeaf 2020-21 ac fe'i lanswyd ym Mawrth 2021 ac mae wedi gwneud cyrhaeddiad o dros 2 miliwn o bobl hyd yn hyn.

Sylweddoli gwerth y Parciau Cenedlaethol i iechyd a lles

Dangosodd Covid-19 fod y buddion sylweddol a chlir o gael mynediad at yr awyr agored, ac o ganlyniad darganfu'r genedl hoffter newydd at yr awyr agored ac ymarfer corff dyddiol. Roedd nifer ymwelwyr wedi ail agor cefn gwlad yn uwch na welwyd erioed yn Eryri, gyda mis Medi yn gweld cynnydd o 30% mewn nifer ymwelwyr o'i gymharu â 2019.

Lanswyd ymgyrch fawr am wirfoddolwyr yn haf 2020 i roi cymorth i bwysau ymwelwyr mewn partneriaeth a Chymdeithas Eryri a'r Bartneriaeth Awyr Agored. Roedd y nifer o bobl a ddaeth ymlaen i wirfoddoli i ofalu am yr ardal yn eu cannoedd. Does dim amheuaeth heb yr ymdrech gan y gwirfoddolwyr yma a Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa bydda'r amgylchedd naturiol wedi dioddef yn aruthrol.

Yn dilyn tymor 2020, rhoddodd Llywodraeth Cymru arian i gyllido i ymestyn oriau'r Swyddog Gwirfoddoli a Lles er mwyn datblygu a recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer tymor 2021. Mae'r arian yma wedi profi'n werthfawr iawn a chaniataodd y capasiti ychwanegol hwn i'r Awdurdod chwarae rôl arweiniol mewn

datblygu a gweithredu cynllun gwirfoddoli Caru Eryri a oedd yn llwyddiannus iawn, eto mewn partneriaeth â Chymdeithas Eryri a Phartneriaeth Awyr Agored.

Yn ystod y cyfnod hwn mae Strategaeth Gwirfoddoli newydd wedi cael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod ac mae gwirfoddoli wedi dod yn ganolog yn y gwaith yr ydym yn ei wneud

Yn ogystal, mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r bartneriaeth 'Beth Am Symud Gogledd Cymru' sydd yn dod a'r sector iechyd a sefydliadau cyflwyno ynghyd i gydweithio ar brosiectau lles yn yr awyr agored.

Er gwaethaf yr anawsterau logistaidd i weithredu yn ystod y pandemig mae'r adran wardeniaid wedi parhau i weithio ar waith cynnal a chadw ar brosiectau mynediad mawr, o gatiâu, arwyddion a phontydd i adfer llwybrau tir uchel.

Blwyddyn o weithio mewn partneriaeth

Cynllun Llysgenhadon

Ym mis Tachwedd, ar ôl torchi llewys am dros flwyddyn fe lanswyd rhaglen Llysgennad Eryri. Mae darpariaeth Llysgennad Eryri yn cynnwys modiwlau hyfforddiant ar-lein sydd yn adlewyrchiad o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol.

Mae nifer o enwogion wedi ein cynorthwyo i sicrhau darpariaeth o'r radd flaenaf i'n darpar Lysgenhadon.

Dwy o'r rheiny yw Casi Wyn a Lleucu Non. Mae Casi yn gantores a chyfansoddwraig sydd yn cael ei chyfri' fel un o leisiau mwyaf eithriadol Cymru, a Lleucu Non yn animeiddwraig sydd wedi dysgu ei hun sut i animeiddio'n ddigidol gan ddefnyddio'r dull traddodiadol o ddarlunio. Y ddwy o'r ardal, yn artistiaid cyfoes mwyaf blaenllaw Cymru, a thu hwnt.

Roedd y ddwy yn ddewis perffaith ar gyfer creu rhywbeth fyddai'n deffro'r synhwyrâu ac yn dathlu'r Rhinwedd Arbennig – Ysbrydoliaeth i'r Celfyddydau. Fe ddatlwyd y Rhinwedd Arbennig yma drwy nid yn unig gynnwys y traddodiadol a'r clasuron megis diarhebion, chwedlau a cherddi sy'n ein clymu ni â'n gorffennol (sydd wrth gwrs yn deilwng iawn o'u lle), ond i wir ddangos sut mae Eryri yn ysbrydoliaeth i'r celfyddydau heddiw, ac felly'n parhau i gyfrannu at ein hiaith a'n diwylliant.

Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

Mae'r Carneddau yn dirwedd amrywiol ac arbennig. Gyda chymorth grant o £1.7 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn helpu i gyflawni'r cynllun gwerth dros £4 miliwn, dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae Partneriaeth Tirwedd Carneddau wedi datblygu cynllun i hyrwyddo dyfodol positif i'r Carneddau trwy gynyddu dealltwriaeth a mwynhad o hanes, traddodiadau diwylliannol a bywyd gwyllt yr ardal. Bydd yn gwarchod treftadaeth yr ardal trwy hyrwyddo ffermio cynaliadwy sy'n amddiffyn cynefinoedd, rhywogaethau ac olion archeolegol prin, a thrwy gofnodi enwau lleoedd ac atgofion.

Bydd y Partneriaeth yn diogelu treftadaeth fregus y Carneddau trwy wella dealltwriaeth a mwynhad cynyddol o dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardal ar draws ystod eang o gymunedau, unigolion a sefydliadau. Ar ddiwedd y Cynllun, bydd y dirwedd yn cael ei rheoli'n well, mewn cyflwr gwell ac yn cael ei deall yn well.

Prif amcanion Partneriaeth Tirwedd y Carneddau yw:

- Amddiffyn rhywogaethau a chynefinoedd prin, olion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol a nodweddion tirwedd nodweddiadol
- Cadw traddodiadau, gwybodaeth ac enwau lleoedd y dirwedd yn fyw
- Annog defnydd tir cynaliadwy
- Galluogi cynulleidfam amrywiol i ddarganfod, cofnodi, diogelu a dathlu'r Carneddau trwy ddigwyddiadau, gweithgareddau, hyfforddiant, dehongli newydd a gwell mynediad
- Cynnal niferoedd yr ymwelwyr i'r ardal o fewn ffiniau cynaliadwy.

Un o brif amcanion cynllun y Carneddau yw annog ysgolion yr ardal gymryd rhan mewn addysg awyr agored drwy gynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu a dathlu amrywiaeth tirlun arbennig y Carneddau. Mae'r tîm wedi datblygu rhaglen hyfforddiant er mwyn cynorthwyo athrawon ddod a dysgu awyr agored mewn i'r cwricwlwm. Dros gyfnod o chwe wythnos yng Ngaeaf 2020, cafodd athrawon cynradd ac uwchradd yr ardal gyfle i ymuno a gweminarau drefnwyd gan y tîm am ddim.

Lansiwyd Cronfa Gymunedol y Carneddau yn rhaglen grantiau newydd ar gyfer prosiectau cymunedol yn ardal y Carneddau a'r cyffiniau. Mae grantiau o rhwng £200 a £5,000 ar gael ar gyfer prosiectau cymunedol bach i ganolig sy'n cyd-fynd ag amcanion Partneriaeth Tirwedd y Carneddau. Panel Cronfa Gymunedol y Carneddau sy'n penderfynu pwy fydd yn derbyn y grantiau. Mae'r panel hwn yn cynnwys gwirfoddolwyr sy'n byw yn yr ardal ac sydd â diddordeb mewn cyfrannu at amcanion y Cynllun.

Partneriaeth Yr Wyddfa

Tra'r oedd y cyfnod clo yn amser heriol i bawb, fel yr adroddwyd yn eang ar y pryd, rhoddodd gyfle i brofi pa mor gydnerth yw'r mynydd a rhoddodd gyfle perffaith, ac o bosibl gyfle unwaith mewn oes i arolygu cyflwr cynefinoedd Yr Wyddfa - heb bobl. Comisiynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol arolwg mewn saith o'u safleoedd.

Fe fydd ail-ran o'r arolwg yn cael ei wneud ymhen blwyddyn gan asesu unrhyw newidiadau i'r cynefinoedd a'r bywyd gwyllt. Un peth oedd yn amlwg yn ôl ein harbenigwr Ben Porter oedd bod nifer y

sbwriel ar y llwybrau yn arwyddocaol is. Bydd rhaid disgwyl tan yr arolwg nesaf i gymharu llawn effeithiau cau'r mynydd ar yr amgylchedd fregus.

Rhyddhawyd ap newydd sbon wedi ei dylunio gan Bartneriaeth Yr Wyddfa yn ystod y flwyddyn. Mae'r ap yn hawdd i'w ddefnyddio, yn gweithio gyda GPS ac yn cynnwys mapiau manwl sy'n dilyn eich taith wrth i chi gerdded ar unrhyw un o'r 6 prif lwybr i'r copa. Mae hyn yn gweithio all-lein, sy'n golygu nad oes angen cyflenwad i'r we neu signal ffôn tra'n ei ddefnyddio ar y mynydd. Mae pob map yn cynnwys cyfuchliniau fel y gallwch gadw golwg ar rannau anodd wrth i chi gerdded.

Fe fydd yr ap yn eich helpu i gynllunio ymlaen llaw cyn eich ymweliad ac yn cynnwys cyngor pwysig gan y Bartneriaeth, fydd yn eich galluogi i'n cynorthwyo i barchu, gofalu, a gwarchod y mynydd, yr amgylchedd o'i amgylch, a'r cymunedau lleol.

Mae creu parthau di-blastig yn bwynt gweithredu yng nghynllun rheoli partneriaeth y Parc Cenedlaethol - Cynllun Eryri, sy'n mynd law yn llaw gyda blaenoriaeth Partneriaeth Yr Wyddfa i fynd i'r afael â'r broblem sbwriel yn yr ardal. Felly, ymgwymerwyd â nifer o drafodaethau cynnar gyda nifer o asiantaethau ynglŷn â'r posibiladau yn ardal Yr Wyddfa. Un o'r heriau yw'r diffyg darpariaeth dŵr yfed ble y gallai ymwelwyr ail-lenwi eu poteli dŵr eu hunain. I'r perwyl hwn, rydym wedi cynnal nifer o drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru, Cyngor Gwynedd ac eraill i weld beth sy'n ymarferol.

Elfen arall o'r gwaith yw cynnal ymchwil ar gyfer dadansoddi'r ymddygiad o adael sbwriel. Rydym yn hynod falch o dderbyn cefnogaeth gan Ganolfan Newid Ymddygiad Cymru, Prifysgol Bangor i'r gwaith hwn. Gyda'u harbenigedd, gobeithiwn gael gwell dealltwriaeth o'r ymddygiad gan adeiladu ein negeseuon o amgylch yr hyn â ddysgir.

Heriau ein safleoedd a chanolfannau

Plas Tan y Bwlch

Fel llawer o lefydd tebyg mae cyfnod y pandemig wedi bod yn amser heriol iawn i Blas Tan y Bwlch a caewyd y drysau dros dro ym mis Mawrth 2020 er mwyn gwarchod y cyhoedd a chymunedau lleol. Roedd y flwyddyn nesaf yn amser pryderus iawn i bawb oedd ynghlwm a'r Plas ond bu llawer iawn o waith cynllunio ac ailstrwythuro yn digwydd tu ôl i'r llenni.

Mae newidadau wedi digwydd ond rydym yn fyddiog ein bod yn cael ein traed nôl oddi tanom, mae Plas Tan y Bwlch yn adnodd mor bwysig i'r gymuned ac ardal economaidd. Nid oedd y cyfnod clo yn ffafriol ar yr adeilad rhestredig gradd II* ac o ganlyniad nid oedd yr holl ystafelloedd ar gael i'w gosod. Roedd cyfyngiadau covid hefyd yn golygu bod y tymor yn llawer llai na'r arfer.

Yn ystod y cyfnod clo penderfynwyd ymestyn rhai gwasanaethau megis Gwely & Brechwast a llogi ystafelloedd. Yn anffodus prin oedd y galw am gyrsiau addysgiadol ac eraill o ganlyniad i'r pandemig ac felly roedd rhaid addasu'r model busnes. Ni fydd Plas yn trefnu cyrsiau yn fewnol ond mi fydd yn cynnig

y cyfle i arweinwyr cyrsiau drefnu rhai eu hunain yn allanol i gael eu cynnal yn Plas. Wrth i ni mewn gobaith adael y cyfnodau clô tu ôl i ni mi fydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch a'r Awdurdod yn trafod sut i addasu'r model busnes ymhellach.

Yr Ysgwrn

Gall ail agor Yr Ysgwrn wedi'r cyfnod clo ei gymharu fel eistedd ar si-so. Roedd y dasg o agor mewn ffordd saff i staff ac ymwelwyr fwynhau'r Ysgwrn yn un anferthol. Wedi ymgynghori gyda'r staff a dod i afael a'r canllawiau newydd, daethpwyd o hyd i ffordd ymlaen heb orfod newid llawer ar drefn yr ydym yn ei ddefnyddio.

Daeth digon o ymwelwyr trwy ddrysau'r Ysgwrn mis Medi i'n cadw'n brysur, ond gwelwyd cwmp yn niferoedd ymwelwyr ac ymholiadau. Mi fyddwn yn parhau i rannu hanesion am sut mae pobl a'u cymunedau wedi goroesi cyfnodau fel hyn ar y safle ac yn ddigidol. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau digidol megis noson Garolau'r Nadolig, trafodaethau, flogs a darlithoedd gyda rhai o ffrindiau'r Ysgwrn megis Myrddin ap Dafydd a Siwan Llynor.

Mae'r Ysgwrn wedi goroesi nifer o rwystrau megis dau Ryfel Byd, dirwasgiad a'r Ffliw Sbaenaidd a thrwy wrando ar straeon y gorffennol mi gawn obaith i oroesi Covid hefyd.

Canolfannau Croeso

Mae'r canolfannau croeso wedi gwynebu blwyddyn andros o heriol yn 2020-21 fel wnaeth y rhan fwyaf o fusnesau a sefydliadau oedd yn gysylltiedig a'r economi ymwelwyr yn y DU, ac eto er hyn llwyddodd y canolfannau gyrraedd eu targedau am y flwyddyn trwy gyfuniad o ddulliau clyfar a chefnogaeth i'r sector dwristiaeth trwy gynllun ffyrlo y llywodraeth yn ogystal a'r niferoedd syfrdanol o ymwelwyr pan ail-agorwyd y sector dwristiaeth.

Hefyd yn 2021 mabwysiabwyd strategaeth busnes newydd ar gyfer y 5 mlynedd nesaf gan yr Awdurdod ar gyfer y Canolfannau. Derbyniodd y Canolfannau darged yn 2014 i leihau eu costau i'r Awdurdod. Ers hynny maent wedi cynyddu eu gallu i gynhyrchu cyllid ac yn y blynyddoedd diweddaraf wedi bod yn agos neu wedi cyrraedd eu targedau. Mae'r awgrymiadau newydd sydd wedi eu gosod yn parhau ar cynnydd trawiadol ac yn adeiladu ar allu'r canolfannau i weithredu o few neu cyllidebau trwy fireinio'r model busnes.

Strategaeth Parcio Yr Wyddfa & Ogwen

Wedi'r heriau parcio sylweddol a welwyd yn ardal Yr Wyddfa yn dilyn codi'r cyfyngiadau yn ystod haf 2020, fe gytunodd Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Heddlu Gogledd Cymru ar ddull ar y cyd i sicrhau fod gyfrifol yn parcio'n gyfrifol yn ardal Yr Wyddfa.

Daeth Pen-y-Pass yn faes parcio rhagarchebu ac yn fan gollwng ar gyfer bysiau a thaccis yn unig, i atgyfnerthu'r neges y dylai cerddwyr barcio yn Llanberis a Nant Peris a defnyddio'r gwasanaethau bysiau Sherpa rheolaidd. Fe wnaed gwelliannau i'r gwasanaeth Sherpa hefyd gyda bysiau llawer amlach. Fe fuodd y mesurau newydd yn llwyddiannus o safbwynt profiad ymwelwyr a rheoli ymwelwyr.

Mae'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth gan Marin Higgitt Associates yn nodi atebion tymor hir posibl i'r materion parcio, tagfeydd traffig, llygredd a sŵn yn ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen.

Yn ystod gaeaf 2021, lansiodd Partneriaeth Yr Wyddfa - dan arweiniad Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa sy'n rhan o dîm Partneriaethau'r Parc Cenedlaethol - ymgynghoriad cymunedol eang ar y cynigion cychwynnol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru trwy Drafnidiaeth Cymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am bum wythnos o ddydd Llun y 1af o Chwefror i ddydd Sul y 7fed o Fawrth 2021.

Cynhaliwyd gweithdai cymunedol ar-lein ar gyfer pob un o'r pedwar pentref porth sef Llanberis, Betws-y-Coed, Beddgelert a Bethesda (trwy Zoom). Y nod oedd casglu syniadau ar y model twristiaeth gynaliadwy ac atebion posibl ar gyfer parcio, cludo teithwyr a chyfnewidfeydd, cerdded a beicio, a gwasanaethau a darpariaethau lleol newydd yn y cymunedau.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr adroddiad a'r cynnydd hyd yma ar wefan y Bartneriaeth:

<https://www.snowdonpartnership.co.uk/parcio-a-thrafnidiaeth>

Cynorthwyo yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd

Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd

Yn anffodus oherwydd Covid-19 roedd rhaid i'r prosiect ohirio nifer o ddigwyddiadau yn ystod y gwanwyn. Ond, wrth lwc fel mae un drws yn cau mae un arall yn agor a thrwy gydweithio gyda Chofnod llwyddodd y tîm gynnal cyfres o weminarau am rai o agweddau y Coedwigoedd Glaw Celtaidd a beth sydd yn eu gwneud nhw'n arbennig. Roedd y gweminarau yn addas ar gyfer dechreuwyr a rhai sydd gyda rhywfaint o brofiad neu wybodaeth blaenorol. Bu'r arbenigwyr yn sôn am y prif wahanol fathau o'r organebau, eu ffurfiau a'u cynefinoedd.

Yn ogystal, mae'r prosiect wedi gweithio ochr yn ochr â PONT – y sefydliad pori cadwriaethol – i gynnal dau weminar ar bwnc pori cadwriaethol oedd yn manylu ar beth, pam, pam, sut a phryd i bori Coedwigoedd Glaw Celtaidd. Mae'r ddau weminar a elwir 'Pam bod angen pori rheoledig ar Goedwigoedd Glaw Celtaidd?' a "Sut rydym yn pori Coedwigoedd Glaw Celtaidd ar gyfer ffermio integredig ac adfer cynefinoedd?" ar gael i'w gwyllo ar sianel YouTube yr Awdurdod. Mae'r gweminarau hyn yn rhan o brosiect llawer iawn mwy sy'n manylu ar bori coedwigoedd gyda gwartheg yr ucheldir a merlod.

Bu'r prosiect yn gweithio'n agos gyda K Roberts Forestry i wneud rhywfaint o waith hanfodol i adfer coetir hynafol ger Penmaen-pwl, Dolgellau. Mae'r safle, a ddosbarthwyd yn rhannol fel Planhigfa ar Safle Coetir Hynafol (a adwaenir yn gryno yn aml fel PAWS), wedi bod o dan orchudd rhywogaethau conwydd

ers amser maith, gyda dim ond rhannau o'r coetir yn cadw nodweddion coetir brodorol. Fodd bynnag, mae'r prosiect wedi ceisio tynnu'r coed conwydd sy'n weddill o'r safle, a fydd yn caniatáu i rywogaethau brodorol ail dyfu o hadau'r coed brodorol aeddfed sy'n aros yno. Bydd hon yn broses raddol iawn a fydd yn cymryd sawl degawd, ond mae'r prosiect yn falch o allu cefnogi'r camau cychwynnol holl bwysig a fydd yn caniatáu i'r trawsnewid tymor hir ddigwydd.

Prosiect Mawndiroedd Cymru

Mae gwaith adfer mawndir sylweddol newydd ei gwblhau ar ardal o gyforgors ger Gledrffordd, Conwy. Trwy'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy Mawndiroedd Cymru, mae'r gwaith yn ychwanegu at raglen uchelgeisiol o adfer mawndir yn y Carneddau a thu hwnt. Bydd gwaith cynnal a chadw, gan gynnwys gwaith ymarferol gyda gwirfoddolwyr, yn dilyn dros y blynyddoedd nesaf i helpu cloi carbon, dal dŵr, a gwarchod y cynefin pwysig hwn yn yr hir dymor.

Diolch i nawdd gan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Mawndiroedd Cymru, sef prosiect dan arweiniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a chydweithrediad teulu'r Roberts sydd wedi ffermio ym Mhennant, Llanymawddwy ers sawl cenhedlaeth, mae'r prosiect adfer mawndir 66 hecтар wedi ei gwblhau'n llwyddiannus. Dros fisoedd y gaeaf ymgwymerwyd â'r gwaith adfer gan gontractwyr ag arbenigedd mewn mawndiroedd er mwyn ail-broffilio a chau torlannau mawn a rhigolau. Trwy adfer y safle amcangyfrifir y bydd 2,335 tonn o allyriadau carbon yn cael eu hatal rhag cael eu rhyddhau dros y 35 mlynedd nesaf, sy'n fras yn gyfwerth â'r cyfaint o garbon deuocsid a gynhyrchir wrth losgi llond 632* tanc domestig o olew.

Gwarchod tirwedd y Parc Cenedlaethol drwy rheolaeth datblygu

Mae'r gwasanaeth cynllunio'n parhau i chwarae rhan bwysig ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas a adfer natur, ymateb i newid hinsawdd a gwarchod ein cymunedau gwledig.

Bu'n flwyddyn heriol tu hwnt i'r adran wrth ymateb i'r pandemig ond addaswyd y drefn yn gyflym i ffyrdd newydd o weithio er mwyn darparu gwasanaeth cynllunio llawn wrth i staff weithio o bell.

Mae'r adran cydymffurfio yn parhau i ddatrys achosion ac am dri allan o'r pedwar chwarter yn 2020-21, ymchwilyd i fewn i achosion cydymffurfio o fewn y targed 84 diwrnod, tra mae'r adran yn parhau i berfformio yn dda o fewn yr amser cyfartalog mae'n gymryd i benderfynu ar geisiadau.

Beth sydd nesaf i'r Awdurdod

Mae 202-21 yn nodi carreg filltir arwyddocaol ym mlaenoriaethau strategol yr Awdurdod gyda datblygiad a mabwysiadu Cynllun Corfforaethol newydd sbon ar gyfer 2021-2026. Roedd y broses yn cynnwys Aelodau yn cymeradwyo pwrpasau ddrafft er mwyn symud ymlaen i ymgynghoriad answyddogol gyda rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid. Cafodd yr adborth ei adrodd i'r aelodau er mwyn trafod ymhellach a chynhaliwyd ymgynghoriad swyddogol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid yn ystod Rhagfyr 2021/Ionawr 2021. Adolygwyd yr adborth a sylwadau o'r ymgynghoriad swyddogol, a datblygwyd yr amcanion ymhellach a chroesgyfeirio gyda'r camau gweithredu yn Cynllun Eryri. Cyflwynwyd adroddiad i aelodau'r Gweithgor ym mis Mawrth a rhoddwyd cymeradwyaeth i swyddogion i barhau gyda'r gwaith ar gyfer y cymeradwyaeth olaf o'r amcanion gan aelodau.

Mae'r cynllun a'r amcanion strategol yn adlewyrchu'r cynnydd i fynd ati i gydweithio gyda'n partneriaid yn ogystal ag adlewyrchu'r blaenoriaethau o fod yn 'Werthfawr a Chydnerth' sydd yn amlinellu blaenoriaethau allweddol yn dilyn ystyriaeth i'r canlyniadau o'r Adolygiad i Dirweddau Dynodedig, Rhaglen Tirweddau am Oes Cymru ac ymatebion i ymgynghoriad Bwrw ymlaen â rheoli adnoddai naturiol Cymru yn gynaliadwy.

Mae rhai o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cynnwys:

- Sicrhau bod yr amcanion yng Nghynllun Eryri a Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol yn cael eu cyflawni yn llwyddiannus gennym ni, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn gwella cyflwr y Parc.
- Sicrhau bod gweithrediadau cynllunio statudol yn cael yr adnoddau digonol ac yn cael eu rheoli'n effeithiol er mwyn cwrdd â'r polisi cenedlaethol, disgwyliadau cwsmer a chefnogi cymunedau cynaliadwy.
- Cyrchu ffrydiant ariannol newydd i gefnogi pwrpasau'r Parc a'r Awdurdod.
- Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n llawn gyda chyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a blaenoriaethau o fod yn Werthfawr a Chydnerth.
- Dangos y buddion o gael Awdurdod Parc Cenedlaethol yn lleol a chenedlaethol i reoli lle mor arbennig ag Eryri nawr a chenedlaethau'r dyfodol.
- Gofalu am ein staff, trigolion, defnyddwyr a'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn erbyn lledaeniad y firws Covid-19 ar lefel, lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

- Sicrhau bod staff ag aelodau yn cael cefnogaeth ddigonol y neu drefniadau gweithio mewn cyfnod o'r fath a bod cefnogaeth i les staff.
- Delio gydag anghenion gweithredol a phwysau ariannol o ganlyniad i'r cyfyngiadau a heriau o weithredu mewn amgylchedd heriol a mesurau sydd eu hangen i ddelio hefo pandemig Covid-19 mewn blynyddoedd i ddod. Bydd hyn yn cynnwys yr angen i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r problemau sydd wedi codi i reolaeth ymwelwyr fel gwerysyla'n anghyfreithlon a'r cynnydd anferthol mewn gwerysyla dros nos gan dai modur.

Mae'n ddiogel dweud oherwydd yr ymroddiad a'r dyfalbarhad a ddangoswyd yn y ffordd yr ymatebodd yr Awdurdod a'i staff i heriau aruthrol 2020-21, gallwn fod yn hyderus bod gennym y tîm gorau posib i ddelio gyda'r heriau a chyfleoedd diamheuol a wynebwn yn y dyfodol.

2. AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

2.1. Parc Cenedlaethol Eryri

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Eryri ym 1951 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn dros 213,200 hectar o gefn gwlad sy'n amrywio o fynyddoedd a gweundir i goetir ac arfordir. Mae tua 25,000 o bobl yn byw yn y Parc a chredir bod 10.5 miliwn yn ymweld â'r ardal bob blwyddyn. Mae tua 59% o drigolion y Parc Cenedlaethol yn siarad Cymraeg.

2.2. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Sefydlwyd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel awdurdod lleol un pwrpas. Mae ganddo'r pwrpasau canlynol yn ôl diffiniad y Ddeddf:

- Gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, y bywyd gwyllt a'r dreftadaeth ddiwylliannol; a
- Hyrwyddo cyfle i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc (Cenedlaethol).

Erys y cyfrifoldeb am gynllunio, cadwraeth, rheoli tir, mynediad a hamdden â'r Awdurdod, ond nid yw'n gyfrifol am ofalu am yr henoed, ysgolion, priffyrdd, gwagio biniau ysbwriel a dyletswyddau eraill Awdurdod Lleol.

Â'r Ddeddf yn ei blaen i ddweud bod yn rhaid i Awdurdod y Parc Cenedlaethol feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol er mwyn bodloni Pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol. Dylai gydweithredu gydag awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus y mae hyrwyddo datblygiad economaidd a chymdeithasol yn ardal y Parc Cenedlaethol yn rhan o'u dyletswyddau.

At hyn, o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan. Mae'r Awdurdod felly'n gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Rheolaeth y Parc, y Cynllun Datblygu Lleol ac am benderfynu ceisiadau cynllunio.

3. GWELEDIGAETH

Mabwysiadodd yr Awdurdod weledigaeth ar gyfer y Parc ym mis Rhagfyr 2009 yn dilyn ymgynghoriad allanol helaeth â'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid allweddol. Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc (yng Nghynllun Rheolaeth y Parc) fel a ganlyn:

Erbyn 2035, bydd Eryri'n parhau i fod yn dirlun a warchodir, yn cael ei ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol gyfoethog ac amrywiol; yn rhoi buddiannau cymdeithasol, economaidd a lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Cyflenwir pwrpasau'r Parc Cenedlaethol trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu i heriau newid yn yr hinsawdd, wedi ei seilio ar adnoddau naturiol – nodweddion y tirlun, cyfleoedd i ddysgu a mwynhau, treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog bywiog a chynhwysol, bydd gweithio mewn partneriaeth wedi dangos y gellir cyflawni mwy trwy undod.

Bydd cymunedau wedi mabwysiadu datrysiadau arloesol mewn Byd sy'n newid - bydd economi carbon isel wedi cryfhau cysylltiad y preswylwyr â'r amgylchedd, gan roi gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol sy'n enwog yn rhyngwladol ac un o'r lleoedd i enaid gael llonydd.

4. DATGANIAD LLESIANT A'R EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Ddeddf") yn rhoi pwrpas cyffredin cyfreithiol rwymol, sef y saith nod lles. Y saith nod lles yw fel a ganlyn:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrrff cyhoeddus penodol eraill, megis yr Awdurdod hwn.

I'r Awdurdod, dyletswydd graidd y Ddeddf (dyletswydd llesiant) yw bod yn rhaid i ni bennu nodau llesiant sy'n maxsimeiddio ein cyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant a

nodir uchod. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni gymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r nodau llesiant hynny yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Dylai nodau llesiant yr Awdurdod fod yn nodau ar gyfer newid yn y tymor hir. Byddwn yn cwrdd â'n nodau llesiant drwy gyfres o gamau a gall y camau gweithredu hyn fod yn rhai tymor byr, canolig neu hir ar gyfer newid, neu gyfuniad o'r un peth.

Mae nodau llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2020-21 wedi cael eu mabwysiadu gyda'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-21, a gweler y rhain dan Adran 6 o'r Cynllun yma. Maent yn cael eu gosod allan yn y fath fodd ag i ddangos yn glir sut mae pob un ohonynt yn berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant. O dan y nodau llesiant unigol, ceir gyfres o gamau sydd angen eu cyflawni ac mae'r rhain unwaith eto wedi eu hasesu'n unigol o ran sut y maent yn berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant. Bydd y camau sydd i'w cymryd fel y nodir uchod ac yn Adran 6 yn cael eu cefnogi gan Raglen Waith Gorfforaethol flynyddol fanwl sy'n cael ei hadrodd i'r Awdurdod ac yn cael ei harchwilio ganddo'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Yna gellir mesur cynnydd drwy Ddangosyddion Perfformiad Lleol a fabwysiadwyd i'r diben penodol.

Mae cefnogi'r nodau llesiant yn ddyletswydd gyfochrog y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus ei chyflawni drwy ddatblygu cynaliadwy. Gweler isod fanylion pellach ynghylch yr hyn a olygir gan ddatblygu cynaliadwy.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n nodau llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. Tymor Hir - pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.
2. Integreiddio - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.
3. Cynnwys - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. Cydweithio - Gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn (neu'r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. Atal - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

Wedi asesu'r gofynion datblygu cynaliadwy gyda nodau llesiant yr Awdurdod fel yr adroddwyd yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-21, mae'n ymddangos bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'n nodau llesiant, a cheir manylion pellach isod:

Tymor hir

Mae pob un o nodau llesiant yr Awdurdod yn cwmpasu dyheadau tymor hir yr Awdurdod, yn benodol sut y byddwn fel Awdurdod yn cynnal ein busnes yn y

dyfodol ac ethos ein ffordd o feddwl. Mae hyn yn cynnwys mwy o gydweithio gyda'n rhanddeiliaid, mwy o ymwybyddiaeth o fanteision iechyd y Parc Cenedlaethol i bobl yn gyffredinol, heriau newid yn yr hinsawdd, grymuso ein cymunedau tra'n cydnabod bod rhaid i'r Awdurdod barhau i weithredu o fewn yr adnoddau ariannol llai sydd ar gael iddo.

Integreiddio

Mae rhai o'n nodau llesiant yn cael mwy o effaith ar nodau llesiant unigol nag eraill. Fel rhan o'r broses o fabwysiadu ein nodau llesiant, ystyriodd yr Awdurdod sut maent yn cwrdd â'r nodau llesiant, a nodir y rhain nid yn unig mewn perthynas â phob un o'r nodau llesiant ond hefyd ar gyfer y camau gweithredu tymor byr a thymor canolig penodol sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â'n nodau llesiant. Gweler y rhain yn Adran 6 y Cynllun Corfforaethol.

Cynnwys

Mae'r rhan fwyaf o'n nodau llesiant yn cynnwys pobl eraill. Trwy gyfathrebu'n effeithiol ac ehangu dealltwriaeth y cyhoedd o ran nodweddion arbennig Eryri, disgwylir y bydd cyfathrebu o'r fath yn adlewyrchu poblogaeth Cymru. Yn yr un modd, bydd yr adolygiad o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn ddi-os yn denu diddordeb cenedlaethol, ond o brofiad, bydd gweithredu'r Cynllun yn cynnwys mewnbwn mwy lleol. Dylai'r amcan iechyd a Llesiant apelio at y boblogaeth leol yn ogystal â'r boblogaeth genedlaethol, a fydd, gyda digon o wybodaeth, yn gallu mwynhau mwy o'r hyn sydd gan y Parc i'w gynnig, tra bod ein nod Ein Cymunedau a Phobl, Lleuedd a Phartneriaid yn bennaf yn cynnwys cymunedau lleol gan ei fod yn canolbwyntio ar rymuso'r cymunedau, partneriaid a gwirfoddolwyr dan sylw. Mae ein nod Cydbwyso ein Hadnoddau a'n Hymdrechion, er nad yw'n cynnwys pobl eraill yn uniongyrchol, yn sicrhau bod uchelgeisiau tymor hir yr Awdurdod yn parhau i fod yn gyraeddadwy.

Cydweithio

Fel Awdurdod Parc cymharol fach, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri bob amser wedi cydnabod y manteision sylweddol a geir drwy gydweithio ag eraill a thrwy weithio mewn partneriaeth barhaus. Erbyn hyn, mae'r ffordd hon o feddwl wedi treiddio i mewn i ffabrig yr Awdurdod a'i staff, ac nid yw'n syndod bod ein holl nodau llesiant yn golygu cydweithio. Bydd pedwar o'r nodau llesiant yn golygu cymysgedd o gydweithio mewnol ac allanol, tra bod gan y nod llesiant arall sy'n troi o amgylch adnoddau'r Awdurdod fwy o ffocws mewnol, i sicrhau bod yr Awdurdod mewn sefyllfa i barhau i wthio am yr hyn sy'n wirioneddol bwysig, trwy reoli ein hadnoddau yn ofalus.

Atal

Ni ddylai fod yn syndod bod atal yn elfen ganolog o nodau llesiant yr Awdurdod, o ystyried ein pwrpasau statudol. Trwy gynnwys ein cymunedau ac eraill yng ngwaith yr Awdurdod; trwy gyfathrebu'n effeithiol o ran y cyfleoedd go iawn sydd gan y Parc Cenedlaethol i'w cynnig; drwy sicrhau ein bod yn cynnig amodau ffafriol ar gyfer adfer cynefinoedd; drwy gymryd y camau gweithredu hyn, a rhai eraill, yn awr, gallwn ddechrau ar y broses o addasu i heriau newid yn yr hinsawdd. Mae angen i hyn fod ar y cyd ag ymgyrch gydunol i wella iechyd ein poblogaeth yn awr, er mwyn

osgoi dyfodol lle bydd adnoddau'r GIG yn gwbl annigonol i gwrdd ag anghenion ei boblogaeth. Os nad yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n awr i ymdrin â'r materion hyn, mae perygl gwirioneddol y bydd yr heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yn anorchfygol.

Mae nodau llesiant yr Awdurdod a amlinellir isod yn cael eu gosod yn flynyddol trwy'r Cynllun Corfforaethol hwn, heb fod yn hwyrach na diwedd mis Ebrill bob blwyddyn. Bydd cynnydd ar weithredu'r nodau llesiant yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod. Ystyrir adroddiad terfynol gan yr Awdurdod ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben, drwy ystyriaeth o Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant yr Awdurdod.

Er bod yr amcanion lles yn cael eu gosod yn flynyddol er mwyn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru), maent wedi eu bwriadu fel amcanion tymor hir, ac yn unol â hynny rhagwelir bod yr amcanion lles presennol yn parhau yn destun i adolygiad cyfnodol. Gan fod y gofyniad bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) wedi'i ddileu erbyn hyn, mae'r Awdurdod hefyd wedi cynnal adolygiad o'i Amcanion Llesiant a hwn fydd y tro olaf i ni adrodd ar yr Amcanion Llesiant penodol hyn. Gwnaeth y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020/21 yn glir mai'r Amcanion Llesiant ar gyfer y cyfnod hwn oedd bod yn Gynllun pontio ond yn ymgorffori newidiadau a roddwyd ar waith i amddiffyn iechyd y cyhoedd rhag pandemig Covid-19 a'r gofynion o ddelio â'r bygythiad i gymdeithas.

5. GOSOD AMCANION YR AWDURDOD

Ym mis Hydref 2017, fe ddechreuodd yr Awdurdod fynd ati i adolygu ei flaenoriaethau a phennu amcanion gwella.

Roedd y broses honno'n cynnwys:

Yn gynnar yn Hydref 2017	Ymgynghoriad cychwynnol â staff yr Awdurdod.
18 Hydref 2017	Gweithgor Aelodau wedi'i hwyluso i gwmpasu Meysydd Gwella ac Amcanion Lles posibl.
Diwedd Hydref 2017	Saith nod llesiant yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys staff, aelodau, partneriaid, Llywodraeth Cymru, Cynghorau Cymuned, y Sector Gwirfoddol, y sector preifat ac eraill. Roedd y gwaith hwn wedi'i alluogi gan hwylusydd allanol
13 Rhagfyr 2017	Ystyriodd yr awdurdod ymatebion ymgynghori a chytunwyd ar flaenoriaethau gwasanaeth drafft, meysydd gwella ac amcanion llesiant.
Rhagfyr 2017 – Ionawr 2018	Ymgynghoriad ffurfiol â rhanddeiliaid.

Chwefror 2018	Bu Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth yn ystyried ymatebion ymgynghori, ac yn paratoi drafft terfynol o'r meysydd Gwella a'r amcanion llesiant ac i lunio rhaglen waith yn seiliedig arni.
7 Mawrth 2018	Ystyriodd y Gweithgor drafftiau terfynol.
21 Mawrth 2018	Bu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ystyried ac yn argymhell y meysydd gwella a'r amcanion llesiant i'w mabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill 2018.
25 Ebrill 2018	Yr Awdurdod yn mabwysiadu'n ei Amcanion a'i Gynllun Corfforaethol yn ffurfiol. Roedd y cynllun yn cynnwys datganiad yn egluro sut mae'r amcanion yn helpu'r Awdurdod i gyflawni'r nodau llesiant a sut mae wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Roedd yr ymatebion gan randdeiliaid, gweithdai â swyddogion ac aelodau fel yr amlinellwyd uchod wedi arwain at fabwysiadu'r Amcanion Gwella.

Gellir cyflwyno sylwadau ar hwn neu ar fersiynau o'r Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant yn y dyfodol mewn e-bost at iwan.jones@eryri.llyw.cymru neu'n ysgrifenedig at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LF.

Mae'r amcanion gwella a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 ar 3 Mehefin 2020 wedi'u nodi'n llawn yn Adran 6 o'r ddogfen hon ynghyd â chrynodeb o arfarniad o'r cynnydd a wnaed hyd yma.

6. AMCANION GWELLA'R AWDURDOD GYDA GWERTHUSIAD CRYNO O'R CYNNYDD A WNAED HYD YMA

EIN CYMUNEDAU	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cwblvnu	Diwylliant Bwriog	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Gweithio gyda'n cymunedau i ddatblygu lles Economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Eryri.	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Byddwn yn cyflawni hyn drwy:							
Sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i ddarparu tai fforddiadwy	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy yn ein cymunedau sy'n defnyddio'r rhinweddau a'r cyfleoedd y mae Eryri yn eu darparu	✓	✓		✓	✓	✓	✓
Gyfathrebu'r manteision o ddynodi Eryri fel Parc Cenedlaethol er lles ein cymunedau yn effeithiol	✓	✓	✓		✓	✓	
Ddatblygu ymhellach ein gwaith o ran deall, hyrwyddo a rheoli ein treftadaeth ddiwylliannol	✓	✓				✓	✓

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Yr ydym wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer nifer y tai a nodwyd yn flynyddol yn y Cynllun Datblygu Lleol		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Yr ydym wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer nifer y tai a nodwyd yn flynyddol yn y Cynllun Datblygu Lleol.	Yn ystod 2020-21 mae'r Awdurdod wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer 14 o unedau tai fforddiadwy, sy'n gynydd sylweddol o 2 uned yn 2019-20. Gellir priodoli'r cynnydd hwn yn rhannol i roi caniatâd cynllunio ar gyfer 9 uned ar safle a ddyrannwyd yn Y Bala.	Data i'w fonitro'n agos ar gyfer unrhyw dueddiadau.

Sicrhawyd bod pawb sydd â diddordeb wedi cael cyfle i roi mewnbwn trwy Fforwm Eryri i Gynllun Rheoli'r Awdurdod		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
% bod pawb sydd â diddordeb wedi cael cyfle i roi mewnbwn trwy Fforwm Eryri i Gynllun Rheoli'r Awdurdod.	100%	Cyflawnwyd.

Fo budd i'r economi leol yn deillio o waith yr Awdurdod		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Gosod data gwaelodlin a methodoleg ar fudd i'r economi leol yn deillio o waith yr Awdurdod.	Heb ei gyflawni.	Mae Arolwg Ymwelwyr a Phreswylwyr ar draws y parc gan Beaufort Research (2021) - wedi'i ariannu gan Cronfa Eryri a thrwy Fforwm Eryri - bydd yn parhau am weddill 2021. Ni sefydlwyd data sylfaenol.

Cwblhau Adolygiad Trafnidiaeth a Pharcio'r Wyddfa		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Cwblhau Adolygiad Trafnidiaeth a Pharcio'r Wyddfa	Cwblhawyd.	Symud i'r cam gweithredu.

Adolygir y Strategaeth Gyfathrebu i sicrhau ei fod yn cynnwys cyfeiriad cryf at fudd dynodiad y Parc Cenedlaethol i'n cymunedau ac yn monitro ei effeithiolrwydd		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Adolygu y Strategaeth Gyfathrebu i sicrhau ei fod yn cynnwys cyfeiriad cryf at fudd dynodiad y Parc Cenedlaethol i'n cymunedau ac yn monitro ei effeithiolrwydd.	Bron yn gyflawn gan fod y Gweithgor wedi trafod a darparu adborth ar y Strategaeth.	Strategaeth i'w chyflwyno i'r Awdurdod ym mis Mehefin i'w chymeradwyo'n derfynol.

Paratoi'r a gweithredi'r strategaeth ar gyfer yr Awdurdod i ddiogelu, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri a monitro ei heffeithiolrwydd		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Paratoi'r a gweithredu'r strategaeth ar gyfer yr Awdurdod i ddiogelu, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri a monitro ei heffeithiolrwydd.	Oedi. Gohiriwyd yr amserlen oherwydd effaith Covid 19 ac absenoldeb mamolaeth y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol.	I'w symud ymlaen yn 2022.

Gwerthuso'r cynnydd a wnaed hyd yma:

Er gwaethaf yr heriau cyfredol, gellir gweld bod cynnydd yn cael ei wneud. O ystyried yr ystod eang o waith, efallai nad yw'n syndod bod rhai agweddau nad ydynt wedi dechrau fel y cynlluniwyd yn enwedig pan fydd rhywun yn ystyried y gwaith ychwanegol a wnaed yn ystod pandemig Covid a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Awdurdod. O'r prosiectau sydd wedi'u gohirio, mae un bron wedi'i gwblhau, mae'r llall yn waith ar y gweill tra bydd yr olaf yn dechrau ar ôl i'r swyddog cyfrifol ddychwelyd i'r swyddfa. Mae'r Awdurdod yn parhau i ddangos cryn gadernid wrth addasu a pharhau i ddarparu gwasanaeth, ac ar yr un pryd cynllunir ar gyfer y dyfodol yn ystod yr amseroedd anodd hyn.

CYNLLUNIAU A PHOLISIÂU	Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Adolygu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) a sicrhau bod Egwyddorion Lles Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi'u hintegreiddio'n llawn i waith yr Awdurdod.	✓	✓	✓		✓	✓	✓
Byddwn yn cyflawni hyn trwy:							
Weithio gyda phartneriaid i sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Eryri trwy integreiddio ein rhaglen waith â Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gweithredu a monitro'n barhaus y Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri)	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

CYNLLUNIAU A PHOLISIŌAU	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Datblygu, ymgynghori a chytuno ar amcanion strategol newydd ar gyfer Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2021 i 2026	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Datblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol	✓					✓	

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Bydd ein prosiectau yn mynd i'r afael â'r themâu a godwyd yn Natganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Bydd ein prosiectau yn mynd i'r afael â'r themâu a godwyd yn Natganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru.	Mae canlyniadau'r datganiadau ardal wedi'u hadlewyrchu yn Cynllun Eryri (Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol) a fabwysiadwyd. Mae'r datganiadau Ardal wedi llywio neu danategu rhai o'r prosiectau Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (TCLIC) a Chynlluniau Rheoli Cynaliadwy (CRhC). Mae prosiectau a noddir gan CNC yn Eryri hefyd yn mynd i'r afael â'r rhai a nodwyd mewn Datganiadau Ardal.	Parhau i fonitro.

Edrych i ychwanegu ein cyfraniad at y Strategaeth Ffyniant i Bawb a'r Polisi Adnoddau Naturiol		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
I'w ymgorffori mewn rhaglenni gwaith adrannol lle bo hynny'n berthnasol.	Mae llawer o brosiectau'r Awdurdod yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â nodau ac amcanion y Strategaeth Ffyniant i Bawb. Mae hyn wedi'i osod llan mewn amserlen a ddefnyddir gan Benaethiaid Gwasanaeth.	Trafodwyd integreiddio llinell sylfaen yn effeithiol i raglenni gwaith a'i chroesgyfeirio at ffrydiau gwaith amrywiol gwasanaethau APCE.

Y Cynllun Datblygu Lleol – unwaith y'i mabwysiedir bydd y meysydd y mae angen CCA arnynt yn cael eu hasesu ac yna eu blaenoriaethu fel bod pob CCA sy'n ofynnol yn cael eu mabwysiadu o fewn amserlen gytunedig

Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Unwaith y'i mabwysiedir y Cynllun Datblygu Lleol asesu'r meysydd y mae angen CCA arnynt ac yna eu blaenoriaethu fel bod pob CCA sy'n ofynnol yn cael eu mabwysiadu o fewn amserlen gytunedig.	Mae'r Rhwymedigaethau Cynllunio CCA bellach wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol ac mae'r CCA ar Gynllunio a'r laith Gymraeg wedi mynd i ymgynghoriad cyhoeddus, ac mae'n bryd i'r CCA ar Delegyfathrebu i fod i gael ei ymgynghori â'r cyhoedd yn fuan. Mae'r gwaith yn parhau i symud ymlaen gyda'r CCA ar yr Amgylchedd Hanesyddol a Hysbysebion.	Parhau i adolygu cynnydd.

Amcanion Llesiant Newydd wedi'u mabwysiadu yn barod ar gyfer 2021 ymlaen

Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Amcanion Llesiant Newydd wedi'u mabwysiadu yn barod ar gyfer 2021 ymlaen	Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid yn ystod mis Rhagfyr 2020 / Ionawr 2021. Adolygwyd adborth ac ymatebion ymgynghoriad ffurfiol, datblygwyd amcanion drafft ymhellach a chwblhawyd ymarfer i groesgyfeirio yn erbyn y camau yng Nghynllun Eryri. Cyflwynwyd adroddiad i Weithgor yr aelodau ym mis Mawrth a rhoddwyd cymeradwyaeth i swyddogion symud ymlaen â'r gwaith. Cymeradwyodd yr aelodau yr amcanion terfynol yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Pwyllgor P&A.	Cwblhawyd.

Gwerthuso'r cynnydd a wnaed hyd yma:

Gwnaed cynnydd da ar yr Amcan hwn gyda phob un yn dangos tuedd amlwg tuag at wneud cynnydd sylweddol.

IECHYD A LLES	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Cydnabyddir Parc Cenedlaethol Eryri fel ardal, sy'n cyfrannu at les corfforol a meddyliol y genedl.	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Byddwn yn cyflawni hyn trwy:							
Hyrwyddo buddion iechyd Eryri	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddarparu cyfleoedd (gan gynnwys gwirfoddoli) fydd yn cyfrannu tuag at iechyd a lles	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gweithio gyda phartneriaid allweddol i reoli'r ardal mewn perthynas ag unrhyw reoliadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod wrth ddelio â phandemig Covid-19	✓	✓	✓		✓		✓

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Sefydli'r beth sy'n tynnu pobl at ardal a'r gweithgareddau y byddant yn cymryd rhan ynddynt		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Cynnal arolwg defnyddwyr er mwyn sefydlu beth sy'n tynnu pobl at ardal a'r gweithgareddau y byddant yn cymryd rhan ynddynt.	Gosodwyd arolwg Ymwelwyr a Phreswylwyr ar Gwerthwch i Gymru, a Beaufort Research a benodwyd i gyflawni'r gwaith eleni. Cawsom gyfarfod sefydlu gyda nhw ar 17.03.21. (Bydd arolwg ymwelwyr yn cychwyn w / d 10/05/21 Arolwg preswylwyr w / d 01/06/21)	Heb ei gyflawni o fewn yr amserlen ond yn mynd rhagddo.

Y dadansoddi'r manteision iechyd y gweithgareddau cyfunol hyn		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Dadansoddi'r manteision iechyd y gweithgareddau cyfunol hyn.	Dim ond ar ôl cwblhau'r prosiect uchod y gellir dechrau ar y gwaith hwn.	Heb ei gyflawni o fewn yr amserlen.

Hyrwyddir yr amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer mwynhad a dealltwriaeth o'r Parc sy'n cyfrannu at iechyd a lles a monitro ei effeithiolrwydd		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Gan ddefnyddio canlyniadau'r arolwg a'r dadansoddiad dilynol, paratoi strategaeth ar gyfer hyrwyddo amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer mwynhad a dealltwriaeth o'r Parc sy'n cyfrannu at iechyd a lles a monitro ei effeithiolrwydd.	Mae hyn yn ddibynnol ar y ddau fater blaenorol yn cael ei weithredu.	I symud ymlaen unwaith bydd yr uchod wedi'u gwblhau.

Mabwysiedir y Strategaeth Wirfoddoli, a'i monitro er mwyn asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Mabwysiadwyd Strategaeth Wirfoddoli.	Strategaeth ddrafft i'w chyflwyno i weithgor aelodau ym mis Mawrth / Ebrill i'w mabwysiadu gan yr Awdurdod ym mis Mehefin.	Ar ôl ei fabwysiadu bydd angen cychwyn monitro i sefydlu ei effeithiolrwydd.

Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn llwyr o ran unrhyw reoliadau mewn perthynas â Covid-19 ac mae wedi cyfleu ei negeseuon allweddol yn effeithiol ac fe lwyddwyd i gyflawni ei gydymffurfiad statudol		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn llwyr o ran unrhyw reoliadau mewn perthynas â Covid-19 ac mae wedi cyfleu ei negeseuon allweddol yn effeithiol ac fe lwyddwyd i gyflawni ei gydymffurfiad statudol	Gweithiodd yr Awdurdod gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r rheoliad brys a alluogodd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru i gau tir, i reoli lledaeniad posibl y firws trwy bobl yn ymgynnull. Adolygwyd y cyfyngiadau yn wythnosol ac fe'u codwyd ym mis Gorffennaf. Bydd y rheoliad cyfredol yn dod i ben yn y flwyddyn newydd. Ymestynnwyd y rheoliad hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021. Yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol o fis Rhagfyr 2020 ymlaen, ni wnaeth yr	Parhau i weithio gydag eraill i leihau effaith Covid-19.

	Awdurdod gau unrhyw ardaloedd o dan y rheoliad ond caeodd feysydd parcio er mwyn cynorthwyo cyrff cyhoeddus eraill yn eu hymdrechion i orfodi'r broses llwyrngloi genedlaethol.	
--	---	--

Gwerthuso'r cynnydd a wnaed hyd yma:

Mae'n ymddangos nai cynnydd cyfyngedig wnaed ar yr amcan hwn yn ystod y flwyddyn hon o weithredu. Y gobaith yw y gellir symud ymlaen â'r materion sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol nesaf.

POBL, LLEOEDD A PHARTNERIAID	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Dros y pum mlynedd nesaf rydym yn anelu at hyrwyddo'r cyfleoedd i weithio gyda phobl, gwirfoddolwyr a phartneriaid mewn ffordd gydweithredol. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i gyfrannu at werthfawrogi a rheoli'r hyn sy'n gwneud Eryri yn werthfawr ac yn arbennig.	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Byddwn yn cyflawni hyn trwy:							
Fuddsoddi mewn gwirfoddolwyr i ychwanegu gwerth at gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Asesu effeithiolrwydd ein fframwaith ar gyfer gwirfoddoli	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gefnogi datblygiad "Cynlluniau Lle" yn Eryri	✓	✓		✓		✓	✓
Wella ymwybyddiaeth a'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg		✓		✓	✓	✓	✓
Gweithio gyda'n partneriaid lleol, cenedlaethol a rhanbarthol i fynd i'r afael â'r heriau a rheoli'r ardal unwaith y bydd y rheoliadau sy'n rheoli symud ar ôl Covid-19 gael eu llacio	✓	✓	✓		✓		✓

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Mabwysiadwyd Strategaeth Wirfoddoli. Monitro i'w wneud i asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Mabwysiadwyd Strategaeth Wirfoddoli. Monitro i'w wneud i asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn.	Strategaeth ddrafft i'w chyflwyno i weithgor aelodau ym mis Mawrth / Ebrill i'w mabwysiadu gan yr Awdurdod ym mis Mehefin.	Ar ôl ei fabwysiadu bydd angen cychwyn monitro i sefydlu ei effeithiolrwydd.

Gynhyrchir adroddiad blynyddol sy'n monitro gweithrediad y fframwaith ar gyfer gwirfoddoli i'r Aelodau		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Cynhyrchu adroddiad blynyddol i Aelodau sy'n monitro gweithrediad y fframwaith gwirfoddoli.	I'w symud ymlaen ar ôl i'r Strategaeth Wirfoddoli gael ei hadolygu.	Cynnydd pellach wedi'i ohirio ar hyn o bryd.

Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa yw'r Cynllun Lle cyntaf i'w fabwysiadu yn Eryri. Asesu ei effeithiolrwydd ac ym mha feysydd y gallai dulliau tebyg fod o fudd i ardaloedd eraill yn y Parc		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa yw'r Cynllun Lle cyntaf i'w fabwysiadu yn Eryri. Cynhelir asesiad o'i effeithiolrwydd ac ym mha feysydd y gallai dullai tebyg fod o fudd i ardaloedd eraill yn y Parc.	Mae Llyn Tegid wedi'i nodi fel ardal bosibl. Dim cynnydd hyd yn hyn oherwydd sefyllfa Covid.	I'w adolygu a'i symud ymlaen.

Parheir i flaenoriaethu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weithredol yr Awdurdod a bod yr holl staff sy'n debygol o ymdrin â'r cyhoedd yn gallu ymateb i ymholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Parhau i flaenoriaethu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weithredol yr Awdurdod a bod yr holl staff sy'n debygol o ymdrin â'r cyhoedd yn gallu ymateb i ymholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.	Mae'n ofynnol i'r adroddiad blynyddol ar berfformiad yr awdurdod mewn perthynas â'r safonau gael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn. Oherwydd bod amserlen y pwyllgor wedi	Parhau i fonitro.

Cynhyrchu adroddiad blynyddol.	cael ei tharfu o achos cyfnod clo Covid-19, ni fu'n bosib cyflwyno'r adroddiad tan y 15fed o Orffennaf 2020 eleni. Cymeradwyodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yr adroddiad ar y dyddiad hwn yn briodol, gan ei alluogi i'w gyhoeddi yn syth wedi hynny.	
--------------------------------	--	--

Bod partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cydlynu ymdrechion mewn perthynas â rheoli pobl a negeseuon pan lacir cyfyngiadau perthnasol i Covid-19		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Bod partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cydlynu ymdrechion mewn perthynas â rheoli pobl a negeseuon pan lacir cyfyngiadau perthnasol i Covid-19	Mae cydweithrediad agos yn parhau i ddigwydd. Mae'r Pennaeth Ymgysylltu yn mynychu cyfarfodydd wythnosol 'Comms Cell' Gogledd Cymru, - Cyfarfod Cyfathrebu sy'n digwydd bob pythefnos a gydlynir â Croeso Cymru yn ogystal â chyfarfod bob pythefnos gyda Pharciau Cenedlaethol Cymru. Mae Ymgyrch #ProsiectCynllunioDarganfod wedi'i lansio yn 2021, gyda chefnogaeth Cymdeithas Eryri a phartneriaid ehangach. Cyrhaeddwyd dros 2 filiwn o bobl hyd yn hyn ers mis Mawrth. Fideo mewnbyn ar ymgyrch Addo gan Croeso Cymru wedi'i fewnbynnu i ymgyrch ehangach Parc Cenedlaethol y DU ar sbwriel a chyrchu cefn gwlad.	Parhau i fonitro.

Gwerthuso'r cynnydd a wnaed hyd yma:

Mae'n ymddangos y bu rhywfaint o gynnydd ar lawer o'r uchod yn ystod y flwyddyn hon o weithredu ond mae angen gwaith pellach os ydym am symud materion ymhellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

CYDBWYSO EIN HADNODDAU A'N HYMDRECHION	Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Mae'r Awdurdod yn targedu ei adnoddau i gyflawni ei flaenoriaethau o fewn yr adnoddau llai sydd ar gael.	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Byddwn yn cyflawni hyn trwy:							
Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel, gan gynnwys gwerthusiadau blynyddol ffurfiol i gynorthwyo gyda rheoli perfformiad	✓			✓			✓
Datblygu a chefnogi ein Haelodau i reoli'r Awdurdod yn effeithiol yn ystod y cyfnod hwn o newid	✓	✓		✓			✓
Ddenu cyllid allanol i hyrwyddo gwaith yr Awdurdod ymhellach wrth gyflawni ei bwrpasau statudol	✓	✓		✓		✓	✓
Adolygu ymrwymiadau gwariant presennol er mwyn amddiffyn yr Awdurdod rhag colli ffrydiau incwm yn y cyfnod hwn		✓					
Ail-broffilio pob prosiect a rhaglen gyda'n partneriaid a'n cyllidwyr allweddol i sicrhau bod modd cyflawni pob un ohonynt yn dilyn y cyfyngiadau ar y gallu i gyflawni oherwydd pandemig Covid-19	✓	✓			✓	✓	✓

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan fo:

Blaenoriaethau'r gwasanaeth a'r strategaeth ariannol wedi cael eu mabwysiadu, ond efallai y bydd angen hyblygrwydd gyda hyn yn y cyfnod hwn o ansicrwydd ariannol. Bydd angen monitro hyn yn barhaus a chynnal adolygiad o bosibl yn ystod y cyfnod hwn		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
Mae'r blaenoriaethau gwasanaeth a'r strategaeth ariannol wedi cael eu mabwysiadu – ond efallai y bydd angen hyblygrwydd gyda hyn yn y cyfnod o ansicrwydd ariannol. Bydd angen monitro hyn yn barhaus a chynnal adolygiad o bosibl yn ystod y cyfnod hwn. Parhau i fonitro.	Mae aelodau wedi adolygu a mabwysiadu cynllun ariannol tymor canolig. Roedd cyllid yr Awdurdod yn cael ei fonitro'n agos gan y Tîm Rheoli ac roedd yr Awdurdod yn gallu cyflawni o fewn y gyllideb y cytunwyd arni.	

% o staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso yn ystod y 12 mis diwethaf		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
% o staff yr Awdurdod wedi cael eu gwerthuso yn ystod y 12 mis diwethaf - targed 95%	Erbyn diwedd y 4ydd Chtr. Roedd 32% wedi anfon ffurflenni gwerthuso wedi'u llenwi i'r Gwasanaeth Personél.	Atgoffwyd y Cyfarwyddwyr a Phenaeithiaid Gwasanaethau ynghylch pwysigrwydd cynnal gwerthusiadau staff ar gyfer rownd 2021.

% y staff yn fodlon neu'n fodlon iawn â'u swyddi		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
% o staff yn fodlon neu'n fodlon iawn â'u swyddi – gosod gwaelodlin.	98%	Cynyddodd boddhad swydd yn ystod y flwyddyn er gwaethaf effaith pandemig Covid. Bydd angen monitro effaith barhaus y pandemig.

% y staff sy'n dweud eu bod yn fodlon â lefel y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a gânt gan eu rheolwyr llinell uniongyrchol		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
% o staff sy'n dweud eu bod yn fodlon â lefel y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a gânt gan eu rheolwyr llinell uniongyrchol.	96%	

Pan fo 100% o aelodau newydd yr Awdurdod o fewn unrhyw gyfnod 12 mis wedi mynychu sesiwn Ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
% aelodau newydd yr Awdurdod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis wedi mynychu sesiynau Ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd	100%	Mynychodd 2 Aelod o APCE sesiwn ymsefydlu rithwir 15-17 Mawrth, 2021.

% o'r aelodau sydd wedi ymgymryd â chyfarfod Adolygu Datblygiad Personol mewn perthynas â'u hanghenion cymorth a datblygu		
Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
% o Aelodau sydd wedi ymgymryd â chyfarfod Adolygu Datblygiad Personol mewn perthynas â'u hanghenion Cymorth a datblygu.	Targed 50% Canlyniad 0%	0 wedi'i gwblhau. Mae'r broses hon fel arfer yn dechrau yn dilyn y CCB ym mis Mehefin. Eleni ni chynhaliwyd y CCB tan fis Medi sydd wedi achosi oedi i'r broses. Dylid nodi bod

asesiadau 2 flynedd wedi'u cynnal gyda 2 o Aelodau Penodedig LIC eleni.

Asesir ffrydiau arian cyllido tebygol sydd ar gael i gyflawni ein dibenion statudol a'r gallu i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf

Dangosydd Perfformiad 2020/21	Canlyniad 2020/21	Camau i'w Cymryd
<p>Asesu'r ffrydiau arian tebygol sydd ar gael i gyflawni ein dibenion statudol a'r gallu i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf.</p>	<p>Mae gan sawl prosiect aml-flwyddyn sy'n cyfrannu at ein pwrpasau statudol beth amser ar ôl i fynd e.e. Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE 2025, TCLIC y Carneddau 2025, MT Dolgellau 2022 ac ati. Felly, bydd sawl ymrwymiad presennol yn parhau i gyfrannu at bwrpasau statudol yn y tymor byr-canolog. Mae wedi dod yn amlwg bod rhai ffrydiau cyllido yn debygol o ddod yn fwy cystadleuol yn y dyfodol e.e. Grantiau Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Bydd angen monitro hyn yn agos. Er gwaethaf hyn, mae cyfleoedd eraill yn dal i fodoli - trwy Lywodraeth Cymru (e.e. TCLIC, CRhC) a chronfeydd eraill fel y Gronfa MGT y Grid Genedlaethol (sydd wedi'i chymeradwyo am 5 mlynedd arall gan OFGEM). Mae Covid yn debygol o newid y dirwedd ariannu yn sylweddol yn y dyfodol, er nad yw'n glir ar hyn o bryd sut y bydd hyn yn esblygu. Mae gweithio mewn partneriaeth (e.e. CNC, CADW a Llywodraeth Cymru) a phrosiectau a ariennir ar y cyd yr un mor bwysig ag erioed rwan, a bydd yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar y rhain hefyd. Mae gan rai adrannau o'r Awdurdod gronfeydd cyfalaf</p>	<p>Parhau i fonitro.</p>

	pwysig (er yn gymharol fach) yn y gyllideb waelodlin, a rhaid parhau i ddefnyddio hyn fel 'arian sbarduno' i ddatblygu prosiectau newydd yn y dyfodol.	
--	--	--

Gwerthuso'r cynnydd a wnaed hyd yma:

Mae'n galonogol nodi bod perfformiad wedi bod yn well ar yr Amcan hwn. Mae'n ymddangos bod boddhad staff wedi cael ei gynnal yn dda er gwaethaf yr amseroedd anodd a wynebwyd yn ystod y flwyddyn. Cynyddodd boddhad ag arweiniad a chefnogaeth gan reolwyr llinell yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r cynnydd cyffredinol ar yr Amcan hwn yn foddhaol.

7. GWEITHGAREDDAU GWAITH ALLWEDDOL AR GYFER YR AMCANION GWELLA 2020/21

1. EIN CYMUNEDAU

Gweithio gyda'n cymunedau i ddatblygu lles Economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Eryri.

Yn cael ei gyflawni trwy:

Sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i ddarparu tai fforddiadwy			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Sicrhau bod Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI yn darparu asesiad o berfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â thai fforddiadwy - gan gynnwys, lle bo'n briodol, unrhyw gamau i fynd i'r afael â thargedau na chafodd eu cyrraedd	Yn ystod 2020/21	Yr ydym wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer nifer y tai a nodwyd yn flynyddol yn y Cynllun Datblygu Lleol.	Cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol Dros Dro i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ym mis Ionawr 2021, lle nododd yr Aelodau'r Adroddiad. Yn ystod 2020-21 mae'r Awdurdod wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer 14 o unedau tai fforddiadwy, sy'n gynydd sylweddol o 2 uned yn 2019-20.
Cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy yn ein cymunedau sy'n defnyddio'r rhinweddau a'r cyfleoedd y mae Eryri yn eu darparu			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Cydweithio ag asiantaethau datblygu economaidd, gan gynnwys awdurdodau lleol i weithio tuag at gadernid economaidd lleol a chyfleoedd economaidd, gan gynnwys: Cefnogi mentrau o fewn y strategaethau twf rhanbarthol sy'n gwella cysylltedd digidol, a diogelu'r dirwedd; Gweithio gyda'r adrannau datblygu economaidd o fewn cynghorau lleol i ddatblygu cyfleoedd a rennir sy'n gysylltiedig â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol;	Trwy gydol 2020-21 a thu hwnt	Budd i'r economi leol sy'n deillio o waith yr Awdurdod.	Ar hyn o bryd yn gweithio mewn Partneriaeth gyda CNC, YG ac Arloesi Gwynedd Wledig i sefydlu a gwella cysylltedd digidol yn ardal Dyffryn Ogwen trwy Fwthyn Ogwen. Fel aelodau o GGLI Gwynedd a Chonwy rydym wrthi'n bwydo i mewn i fentrau gwella ledled ardal y PC; Mae'r ddau gyngor lleol yn aelodau o Fforwm Eryri ac yn ymwybodol o'r holl gamau gweithredu ar Gynllun Eryri, mae rhai trafodaethau y tu allan i Fforwm Eryri wedi

<p>Gweithio gyda phartneriaid i arallgyfeirio'r economi gan gynnwys datblygu ymgyrch i annog busnesau sy'n gallu gweithio o bell (e.e. busnesau technoleg a TG) i sefydlu yn yr ardal;</p> <p>Cefnogi cyfleoedd yn y sector twristiaeth sydd o werth uchel, o ansawdd uchel ac yn ystyriol ynghylch amddiffyn Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol;</p> <p>Sicrhau bod egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy wedi'u hymgorffori ledled y Parc Cenedlaethol.</p>			<p>digwydd, ond nid oes unrhyw gyfleoedd clir wedi codi eto. Mae'r Cynllun Llysgennad ar sail ardal gyfan wedi'i weithredu gyda busnesau lleol mewn partneriaeth â'r holl awdurdodau lleol ledled gogledd Cymru - mae Cyngor bwrdeistref Sirol Conwy yn lansio eu rhai hwy ym mis Mai, mae Cyngor Gwynedd eto i bennu dyddiad lansio;</p> <p>Adroddiad manyleb dechnegol yn cael ei datblygu fel rhan o'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth ar gyfer Yr Wyddfa ac Ogwen i fwydo i mewn i'r gwaith hwn.</p> <p>Cyfarfodydd cwmpasu cynnar wedi'u cynnal gyda BT i ddarganfod eu diddordeb a'u cyfranogiad posibl mewn pecyn Cyfathrebu Ymwelwyr;</p> <p>Mae'r Cynllun Cyfathrebu ar gyfer y Parc Cenedlaethol wedi'i seilio ar Egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy, mae'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth ar gyfer ardal Yr Wyddfa ac Ogwen yn seiliedig ar fodel Twristiaeth Gynaliadwy, mae'r Rheolwr Partneriaethau a'r Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd i ddatblygu a chadarnhau egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy a fydd yn berthnasol ledled y sir, ac mewn cydweithrediad agos â busnesau twristiaeth mawr a bach yn y rhanbarth. Gweler hefyd y camau gweithredu ar Gynllun Eryri Canlyniad A1 a pholisïau A1.1-A1.5 ar gyfer cynnydd parhaus yn y maes hwn.</p>
<p>Sicrhau bod Fforwm Eryri yn cyfarfod i roi mewnbyn i Gynllun Rheoli'r Parc yr Awdurdod.</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Sicrhau fod yr holl bartion â diddordeb wedi cael y cyfle i ddarparu mewnbyn trwy gyfrwng Fforwm</p>	<p>Ydy - mae Fforwm Eryri yn parhau i fod yn fecanwaith effeithiol ar gyfer cael mewnbyn gan bartneriaid. Erbyn hyn, mae CRhPC wedi'i fabwysiadu. Mae</p>

		Eryri i Gynllun Rheoli'r Parc yr Awdurdod.	cyfarfodydd cynnydd gyda phartneriaid unigol wedi dechrau. Mae cyflwyniadau partner wedi cael eu hailgyflwyno ym mhob cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd. Mae fersiwn ar-lein ar gael o'r Cynllun Gweithredu, trwy Share Point a Basecamp i Bartneriaid ei ddiweddarau o bell. Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar gynnydd ar Gynllun Eryri yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod yn yr hydref 2021.
Parhau i weithredu Cynllun Gweithredu Partneriaeth Eryri a fabwysiadwyd gyda phartneriaid	Parhaus	Cwblhau Adolygiad Trafnidiaeth a Pharcio'r Wyddfa	Ydy - Mae'r holl brosiectau parhaus canlynol wedi'u cynnwys yng Ngynllun Yr Wyddfa fel pwyntiau gweithredu am y pum mlynedd gyntaf o'r Cynllun: Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen ac amryw o brosiectau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru trwy Trafnidiaeth Cymru: Cwblhawyd yr adolygiad a dechreuwyd ar y gwaith i ymgynghori ymhellach â chymunedau a gweithredu argymhellion cychwynnol; Archwilio datrysiadau cysylltedd o amgylch ardal Yr Wyddfa mewn partneriaeth ag Arloesi Gwynedd Wledig: Gwaith yn barhaus; Ap Teithiau Cerdded Yr Wyddfa: Wedi'i gwblhau ond bydd yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol; Datblygu a gweithredu rhaglen Llysgennad Eryri: Lansiwyd y rhaglen a bydd yn esblygu wrth i'r cynllun ddatblygu; Parth di-blastig Yr Wyddfa: Tîm wedi'i gomisiynu a gwaith i fod i gael ei gwblhau erbyn Mehefin, 2021; System datrysiadau arddangos allanol wedi'i gosod yn Nant Peris gyda chyllid gan TAIS.

Cyfathrebu'r manteision o ddynodi Eryri fel Parc Cenedlaethol er lles ein cymunedau yn effeithiol

Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Adolygu a gweithredu Strategaeth Cyfathrebu / Ymgysylltu yr Awdurdod gan gynnwys: Asesu ein dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy adolygiad sianel cyflawn (asesiad o'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwr ar gyfer cyfathrebu) o weithgareddau'r Awdurdod; Defnyddir y canlyniadau i fwydo i'r Strategaeth Gyfathrebu / Ymgysylltu newydd. Adlinio'r ffocws i gyfathrebu â'n rhanddeiliaid pwysicaf ynghylch ein negeseuon allweddol; Datblygu a gweithredu grid cyfathrebu (cynllun calendr ar-lein a gweithgareddau cyfathrebu traddodiadol) ar gyfer 2020-21 sydd wedi'i ysbrydoli gan y Rhinweddau Arbennig fel y'i nodir yng Nghynllun Eryri ac sy'n dathlu Pen-blwydd y Parciau yn 70 oed.	Mai 2020 – Mawrth 2021	Adolygir y Strategaeth Gyfathrebu i sicrhau ei fod yn cynnwys cyfeiriad cryf at fudd dynodiad y Parc Cenedlaethol i'n cymunedau ac yn monitro ei effeithiolrwydd.	Wedi'i gwblhau'n rhannol: Mae hyn yn cynnwys arolwg holl staff. Cyflwynwyd y canlyniadau i'r Tîm Rheoli ym mis Tachwedd; Negeseuon allweddol wedi'u drafftio; Grid Cyfathrebu wedi'i gwblhau ac yn cael ei weithredu. Bydd yn cael ei adolygu unwaith y bydd Strategaeth Gyfathrebiadau newydd ar waith. Bydd papur ar gynlluniau 70 mlwyddiant yn cael ei drafod gyda'r Aelodau cyn diwedd y flwyddyn; Strategaeth Cyfathrebu / Ymgysylltu: Trafodwyd strategaeth ddrafft gyda'r Grŵp Tasgau a Gorffen Cyfathrebu. Disgwylir iddo gael ei gyflwyno i aelodau yn y gweithgor ym mis Ebrill. Ar hyn o bryd hefyd yn datblygu ac yn gweithredu Cyfathrebu. Strategaeth ar gyfer tymor 2021.

Datblygu ymhellach ein gwaith o ran deall, hyrwyddo a rheoli ein treftadaeth ddiwylliannol

Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Rheoli a datblygu'n Yr Ysgwrn yn barhaus fel canolfan ddiwylliannol ac un o'r safleoedd treftadaeth ddiwylliannol mwyaf arwyddocaol yn ardal y Parc Cenedlaethol i'w weithredu ar ôl Covid-19	Mawrth 2021	Budd i'r economi leol sy'n deillio o waith yr Awdurdod A Paratoi'r a gweithredi'r strategaeth ar gyfer yr Awdurdod i ddiogelu, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri a monitro ei heffeithiolrwydd.	Arweiniodd pandemig Coronafeirws at gau Yr Ysgwrn trwy gydol Chwarter 1 a hanner cyntaf Chwarter 2. Ailagorwyd y safle yn llwyddiannus yng nghanol mis Awst 2020. Mae gwaith Grant TCLIC yn parhau mewn gwahanol rannau o'r safle - gyda boeler a thanciau nwy LPG newydd wrth gefn i'r boeler biomas presennol. Bydd gwaith hefyd yn dechrau ar welliannau i'r siop

			a'r weinyddfa yn ddiweddarach yn y Flwyddyn. Comisiynwyd ymgynghorydd i gwblhau'r gwaith marchnata 'ar ei liwt ei hun' (llaw-rydd) yn Yr Ysgwrn rhwng 2021-23 (contract 2 flynedd), a bydd yn cwblhau 36 diwrnod y.f. Disgwylir y bydd Yr Ysgwrn yn ailagor ddechrau'r Haf.
Paratoi strategaeth i'r Awdurdod i ddiogelu, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o Dreftadaeth Ddiwylliannol Eryri.	Mawrth 2021	Paratoi'r a gweithredi'r strategaeth ar gyfer yr Awdurdod i ddiogelu, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri a monitro ei heffeithiolrwydd.	Mae'r Cynllun drafft yn mynd rhagddo ond mae'r amserlen wedi cael ei gohirio oherwydd effaith Covid 19 ar raglen waith y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol ac absenoldeb mamolaeth sydd ar ddod. Bydd y drafft yn cael ei gyflwyno i'r aelodau yn 2022.
Parhau i reoli a datblygu Prosiect MTT Dolgellau gan ddeall y bydd angen ymestyn amser ar gyfer y prosiect oherwydd effaith Covid-19	Mawrth 2021 a thu hwnt	Budd i'r economi leol sy'n deillio o waith yr Awdurdod	Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi cymeradwyo estyniad amser ar gyfer y prosiect oherwydd effaith Covid-19 ar y prosiect. Dyddiad cwblhau'r prosiect newydd yw 31 Rhagfyr 2022. Mae gwaith adfer wedi'i gwblhau yn Y Sospan ynghyd â'r ail-balmantu i'w berimedr. Enillodd y contractwyr a oedd yn adfer y manylion toi traddodiadol ar yr adeilad wobwr genedlaethol yn y categori 'defnydd gorau o deils to ar adeilad treftadaeth'. Mae'r gwaith ar Bod Arran (yr hen siop nwyddau a adwaenir fel 'The Old Stationery') wedi'i gwblhau. Mae gwaith mewnol i wneud y llawr cyntaf yn hygyrch i bawb ac mae gwelliannau i'r cyfleusterau toiled yn Y Ddarllenfa Rhydd yn mynd rhagddynt yn dda. Dychwelwyd tendrau mewn cysylltiad ag Adeiladau Fictoria. Yn aros i glywed a fydd y perchnogion yn cymryd rhan ai peidio. Yn disgwyl cwblhau gwerthiant yr hen 'Wilkins

			Newsagents'. Mae problemau gyda phrofiant wedi gohirio'r pryniant. Ar hyn o bryd mae'r Pensaer penodedig ar gyfer 4 a 5 Rhes Eldon yn gweithio ar y lluniadau i symud ymlaen gyda chais am grant.
Nodi safleoedd archeolegol ar gyfer gwaith cadwraeth, mynediad a dehongli a chynllunio'r prosiectau hynny i'w gweithredu ar ôl Covid-19	Mawrth 2021	Paratoi'r a gweithredi'r strategaeth ar gyfer yr Awdurdod i ddiogelu, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri a monitro ei heffeithiolrwydd.	Gwaith pellach ar y gweill i wella seilwaith yng Nghaergai pan fydd cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu i'r gwaith gael ei wneud. Mae ymgynghori a chysylltu cymunedol pellach wedi digwydd mewn perthynas â gwaith arfaethedig yn Ynysypany, Gorseddau a Threforys, Cwmystradllyn a chafwyd ymateb cadarnhaol. Bydd angen rhoi ystyriaeth ddyledus i'r gwaith ar seilwaith a gwasanaethau lleol. Bydd y gwaith yng Nghaergai yn cael ei gwblhau yn 2021/22. Gohiriwyd y gwaith oherwydd effaith Covid 19.
Sefydlu prosiect Ffermydd Coll Ardudwy gyda phartneriaid a chymuned Ardudwy	Mawrth 2021	Paratoi'r a gweithredi'r strategaeth ar gyfer yr Awdurdod i ddiogelu, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri a monitro ei heffeithiolrwydd.	Mae gwaith wedi parhau ar themâu amrywiol o'r hyn a ystyrir yn dreftadaeth anghyfyrrdadwy i raddau helaeth fel rhan o'r prosiect, gan gynnwys 'mapio ffermydd', enwau lleoedd a'u hetymoleg, cymunedau gwledig hanesyddol, tafodiaith leol, tirweddau gwleidyddol a llenyddol, hanes llafar, cymeriadau lleol. . Gwnaethpwyd hyn gyda sawl sefydliad partner a'r gymuned leol. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ynghylch datblygu'r themâu hyn.

2. CYNLLUNIAU A PHOLISIËU

Adolygu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) a sicrhau bod egwyddorion Lles Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi'u hintegreiddio'n llawn i waith yr Awdurdod.

Yn cael ei gyflawni trwy:

Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Eryri trwy integreiddio ein rhaglen waith â Datganiadau Ardal CNC			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Sicrhau bod Datganiad Ardal Eryri a CNC ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru yn alinio. Y Rheolwr Partneriaethau i gydlynu ymateb APCE i'r Datganiadau Ardal drafft a bwydo'r ddealltwriaeth i mewn o bob rhan o Bartneriaethau a gydlynir gan swyddogion yr Awdurdod	Mawrth 2021	Bydd ein prosiectau yn mynd i'r afael â'r themâu a godwyd yn Natganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru	Gwaith wedi'i gwblhau a pharhau wrth i'r Datganiadau Ardal ddatblygu. Mae canlyniadau'r datganiadau ardal wedi'u hadlewyrchu yng Nghynllun Eryri (Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol) a fabwysiadwyd. Mae'r datganiadau Ardal wedi llywio neu danategu rhai o'r prosiectau Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (TCLIC) a Chynlluniau Rheoli Cynaliadwy (CRhC). Mae prosiectau a noddir gan CNC yn Eryri hefyd yn mynd i'r afael â materion a nodwyd mewn Datganiadau Ardal.
Gweithio gyda swyddogion perthnasol i integreiddio rhaglenni gwaith a symud ymlaen i weithredu Cynlluniau Ardal	Mawrth 2021	Bydd ein prosiectau yn mynd i'r afael â'r themâu a godwyd yn Natganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru	Penodwyd Uwch Wardeiniaid yn y 3ydd Chwarter. Bydd Uwch Wardeiniaid yn adolygu ac yn diweddarau cynlluniau cyfredol yn ystod cyfweiliadau gwerthuso ac yn eu cwblhau erbyn dechrau mis Ebrill.
Gweithredu a monitro'n barhaus y Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri)			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Cyflwyno adroddiad Monitro blynyddol i'r Awdurdod yn amlinellu sut mae'r Cynllun	Parhaus	Unwaith bydd y CDLI a'r Cynllun Rheolaeth y Parc wedi eu mabwysiadu, i	Bydd yr adroddiad cyntaf ar Gynllun Eryri yn cael ei gyflwyno ar ben-blwydd

Datblygu Lleol yn perfformio yn erbyn y fframwaith monitro.		gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Awdurdod i ddarparu diweddariad ar y cynnydd hyd yma.	mabwysiadu'r cynllun (Medi 2021).
Sicrhau bod polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gweithredu'n effeithiol a sicrhau ymagwedd gyson ar gyfer swyddogion.	Parhaus	Unwaith bydd y CDLI a Chynllun Rheolaeth y Parc wedi'u mabwysiadu, i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Awdurdod i ddarparu diweddariad ar y cynnydd hyd yma.	Proses barhaus sy'n destun adroddiad blynyddol.

Datblygu, ymgynghori ar a chytuno ar amcanion strategol newydd ar gyfer Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2021-2026

Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Mabwysiadu amcanion newydd yn barod ar gyfer 2021 ymlaen gan gynnwys tystiolaeth o ymarferion ymgynghori a datblygu polisi manwl, wedi'i gwblhau ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol statudol newydd, Cynllun Eryri, 2020-2025	Mawrth 2021	Amcanion Llesiant Newydd wedi'u mabwysiadu yn barod ar gyfer 2021 ymlaen	<p>Cymeradwyodd yr aelodau amcanion drafft ar gyfer symud ymlaen at ymgynghoriad anffurfiol. Cwblhawyd ymgynghoriad anffurfiol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol. Adroddwyd ynghylch yr adborth i'r Aelodau, i'w drafod ymhellach.</p> <p>Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol â rhanddeiliaid a phartneriaid yn ystod mis Rhagfyr 2020 / Ionawr 2021. Adolygwyd adborth ac ymatebion o ymgynghoriad ffurfiol, datblygwyd amcanion drafft ymhellach a chwblhawyd ymarfer i groesgyfeirio yn erbyn y camau yng Nghynllun Eryri. Cyflwynwyd adroddiad i Weithgor yr aelodau ym mis Mawrth a rhoddwyd cymeradwyaeth i swyddogion symud ymlaen â'r gwaith er mwyn i aelodau gymeradwyo amcanion newydd yn derfynol.</p>

Datblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Asesu'r meysydd sydd angen CCA ac wedi hynny blaenoriaethu a chynhyrchu rhaglen ar gyfer eu cynhyrchu, ymgynghori arnynt a'u mabwysiadu.	Parhaus	Ar ôl i'r CDLI gael ei fabwysiadu, ymgymryd ag asesiad o'r meysydd sydd angen CCA ac wedi hynny blaenoriaethu hynny fel bod yr holl CCAau gofynnol yn cael eu mabwysiadu o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.	Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud gyda chynhyrchu CCA. Mae'r CCA ar Rwymedigaethau Cynllunio bellach wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol. Mae'r CCA ar Gynllunio a'r Gymraeg wedi mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus, gyda'r CCA ar Delathrebu a Mastiau i fod i fynd allan i ymgynghori rwan. Mae'r gwaith yn parhau i symud ymlaen gyda'r CCA Amgylchedd Hanesyddol a Hysbysebion.

3. IECHYD A LLES

Cydnabyddir Parc Cenedlaethol Eryri fel ardal, sy'n cyfrannu at les corfforol a meddyliol y genedl.

Yn cael ei gyflawni trwy:

Hyrwyddo buddion iechyd Eryri			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Trwy'r Strategaeth Gyfathrebu / Ymgysylltu, tynnu sylw at fuddion iechyd a lles yr amgylchedd naturiol a datblygu negeseuon allweddol sy'n gysylltiedig ag Eryri o amgylch y rhain, yn benodol trwy gynhyrchu tudalen we gyda gwybodaeth allweddol.	Tachwedd 2020	Hyrwyddo'r amrywiaeth o gyfleoedd i fwynhau a deall y Parc sy'n cyfrannu at iechyd a lles a monitro ei effeithiolrwydd wedi hynny	Mae'r Rheolwr Cynnwys a Brand wedi bod yn adolygu ac yn gwella cynnwys ar y wefan bresennol. Mae deunyddiau a chynnwys ychwanegol hefyd yn cael eu datblygu ar gyfer tymor 2021. Bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei datblygu fel rhan o'r wefan newydd sydd i'w lansio ym mis Medi
Lledaenu negeseuon allweddol i'r cyhoedd trwy gyfryngau digidol, cylchgrawn "Eryri" a chylchlythyr y Parc Cenedlaethol.	Parhaus	Hyrwyddo'r amrywiaeth o gyfleoedd i fwynhau a deall y Parc sy'n cyfrannu at iechyd a lles a monitro ei	Mae Cylchlythyr digidol y Parc Cenedlaethol yn profi'n boblogaidd iawn gyda chynnydd gwych ac annisgwyl yn y nifer sy'n manteisio arno. Bydd

		effeithiolrwydd wedi hynny	Cylchgrawn Eryri yn mynd yn ddigidol fel rhywbeth 'untro' er mwyn lliniaru yn erbyn risgiau Covid - copïau papur ac ati. Cylchlythyr digidol bellach wedi'i anfon at restr bostio o tua 4000 o dderbynwyr.
Treialu datblygiad cynnwys ar-lein gan hyrwyddo llwybrau a llwybrau a chyfleoedd i wella iechyd a lles yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r gwaith yn amlwg iawn yn y briff ar gyfer paratoi'r wefan newydd a rôl y Rheolwr Brand a Chynnwys. Yn amodol ar gymhwyso cyfyngiadau Covid-19 yn ystod y cyfnod hwn	Mai 2021	Sefydlu'r hyn sy'n denu pobl i ba bynag ardal fel petai a'r gweithgareddau y byddant yn eu cyflawni AC Dadansoddi buddion iechyd y gweithgareddau cyfun hyn	Disgwylir i wefan newydd gael ei lansio ym mis Medi 2021
Adolygu'r Strategaeth Hamdden i sicrhau bod preswylwyr ac ymwelwyr yn gallu cyrchu amrywiaeth o lwybrau sydd â'r nod o wella iechyd corfforol a meddyliol. Sicrhau ei fod yn cefnogi'r amcanion strategol a amlinellir yn CRhP, Cynllun Eryri	Mai 2021	Sefydlu'r hyn sy'n denu pobl i ba bynnag ardal fel petai a'r gweithgareddau y byddant yn eu cyflawni AC Dadansoddi buddion iechyd y gweithgareddau cyfun hyn	Y drafft cyntaf yn cael ei gwblhau i sicrhau aliniad â Cynllun Eryri Oedi wrth gyflwyno drafft cyntaf i'r Tîm Rheoli, sydd bellach i'w gyflwyno ym mis Mehefin 2021.
Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddarparu cyfleoedd (gan gynnwys gwirfoddoli) fydd yn cyfrannu tuag at iechyd a lles			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Adolygu ac adnewyddu'r Strategaeth Wirfoddolia chanolbwyntio gwirioneddol ar Les	Gorffennaf 2020	Mabwysiadwyd y Strategaeth Wirfoddoli. Monitro i'w wneud i asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn	Mae'r Tîm Rheoli wedi cael mewnbwn ac wedi rhoi adborth ar y strategaeth. Disgwylir i'r strategaeth gael ei chyflwyno i'r Gweithgor aelodau ym mis Mawrth / dechrau mis Ebrill. Trafodwyd y strategaeth yn y Gweithgor Aelodau ac mae'n bryd iddi gael ei chyflwyno i'r Awdurdod i'w chymeradwyo'n derfynol ym mis Mehefin
Mabwysiadu meini prawf i fesur buddion iechyd a lles y gweithgareddau gwirfoddoli a ddarperir gan yr	Ebrill 2021	Mabwysiadwyd y Strategaeth Wirfoddoli. Monitro i'w wneud i asesu sut	Disgwylir i'r strategaeth gael ei chyflwyno i'r Gweithgor aelodau ym mis Mawrth / Ebrill, yna

Awdurdod. Datblygu Porth Gwirfoddolwyr fel pwynt canolog ar gyfer cofnodi a mesur cynnydd, cydlynu gweithgaredd gwirfoddolwyr ar draws yr awdurdod, a hyrwyddo cyfleoedd i ni'n hunain a'n partneriaid, mewn cydweithrediad â Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru.		mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn	cymeradwyaeth derfynol gan yr Awdurdod ym mis Mehefin
Darparu a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli yn Yr Ysgwrn trwy'r cyfryngau cymdeithasol (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau Covid-19)	Mawrth 2021	Mabwysiadwyd y Strategaeth Wirfoddoli. Monitro i'w wneud i asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn	Parhoadd y safle i fod ar gau trwy gydol Chwarter 1 a hanner cyntaf Chwarter 2 a chaeodd dros dymor y gaeaf. Mae swyddogion wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â gwirfoddolwyr ac estynnwyd gwahoddiad i bob gwirfoddolwr ddychwelyd i Yr Ysgwrn pan fyddant yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i wneud hynny. Gobeithiwn weld gwirfoddolwyr yn dychwelyd yn 2021 a byddwn yn ceisio recriwtio gwirfoddolwyr newydd ar gyfer y tymor newydd.
Parhau i chwarae rhan weithredol yn "Cael Gogledd Cymru i Symud" a datblygu cysylltiadau pellach er mwyn ymgysylltu â phobl leol, gan gynnwys "Gweithwyr Cyswllt" a chysylltiadau uniongyrchol â gwasanaethau iechyd ac elusennau	Parhaus	Hyrwyddo'r amrywiaeth o gyfleoedd i fwynhau a deall y Parc sy'n cyfrannu at iechyd a lles a monitro ei effeithiolrwydd wedi hynny	Parhaus ac yn gweithio'n dda. Mae cysylltiadau a phartneriaethau pellach yn cael eu datblygu. Mae'r Swyddog Iechyd a Lles yn parhau i fynychu cyfarfod rheolaidd a rhoi diweddariad i'r Pennaeth Gwasanaeth Wardeinio.
Paratoi Manifesto Ieuenctid drafft i'w drafod a'i gymeradwyo gan yr Aelodau	Mawrth 2021	Hyrwyddo'r amrywiaeth o gyfleoedd i fwynhau a deall y Parc sy'n cyfrannu at iechyd a lles a monitro ei effeithiolrwydd wedi hynny	Dim cynnydd i adrodd arno. Gohirio recriwtio Swyddog Ieuenctid. Bydd y recriwtio yn dechrau o fis Ebrill ymlaen.
Gweithio gyda phartneriaid allweddol i reoli'r ardal mewn perthynas ag unrhyw reoliadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod wrth ddelio â phandemig Covid-19			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Parhau i weithio gyda chynrychiolwyr o Dirweddau	Mawrth 2021	Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei	Mae Parciau Cenedlaethol Cymru

<p>Dynodedig ledled Cymru, Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru i rannu arfer da a datblygu polisi ynghylch egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy</p>		<p>gyfrifoldebau statudol yn llwyr o ran unrhyw reoliadau mewn perthynas â Covid-19 ac mae wedi cyfleu ei negeseuon allweddol yn effeithiol</p>	<p>wedi ystyried hyn ac fe'i codwyd gyda'r Dirprwy Weinidog a Swyddogion Llywodraeth Cymru. Bydd y Grŵp Tasg a Gorffen Adfer Gwyrdd o dan Gadeiryddiaeth Cadeirydd CNC yn adrodd yn fuan ac yn gwneud argymhellion ar faterion o'r fath. Cynhaliwyd seminar ar y cyd o Gyngor Gwynedd ac aelodau'r Awdurdod hwn yn y pedwerydd chwarter i ystyried polisi Cyngor Gwynedd ar dwristiaeth. Bydd Croeso Cymru hefyd yn ystyried egwyddorion twristiaeth gynaliadwy ar lefel Cymru. Mae swyddogion yn edrych ar fetrigau, a allai gefnogi canlyniadau sector twristiaeth gynaliadwy yn hytrach na'r model STEAM cyfredol ar gyfer twristiaeth.</p>
<p>Parhau i weithio gyda Grŵp Cell Cyfathrebu Gogledd Cymru i gytuno a lledaenu negeseuon allweddol</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn llwyr o ran unrhyw reoliadau mewn perthynas â Covid-19 ac mae wedi cyfleu ei negeseuon allweddol yn effeithiol</p>	<p>Parhaus ac yn profi i fod yn fuddiol iawn. Mae'r Pennaeth Ymgysylltu yn cwrdd yn wythnosol â 'Comms Cell' Gogledd Cymru, a chynhelir trafodaethau a gweithredir yr arferiad o gyfleu negeseuon a rennir.</p>

4. POBL, LLEOEDD A PHARTNERIAID

Dros y pum mlynedd nesaf rydym yn anelu at hyrwyddo'r cyfleoedd i weithio gyda phobl, gwirfoddolwyr a phartneriaid mewn ffordd gydweithredol. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i gyfrannu at werthfawrogi a rheoli'r hyn sy'n gwneud Eryri yn werthfawr ac yn arbennig.

Yn cael ei gyflawni trwy:

Buddsoddi mewn gwirfoddolwyr i ychwanegu gwerth at gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Parhau i fonitro i asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at ein gweledigaeth a'n pwrpasau statudol.	Parhaus	Mabwysiadwyd y Strategaeth Wirfoddoli. Monitro i'w wneud i asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn	Mae'r gwaith gwirfoddoli yn datblygu'n dda. Bydd mesurau newydd yn cael eu datblygu fel rhan o'r strategaeth wirfoddoli. Gweithir mewn partneriaeth â Chymdeithas Eryri a Phartneriaeth Awyr Agored i lansio Croeso Gwirfoddolwyr ar gyfer tymor 2021. Lansiwyd cynllun gwirfoddolwyr Caru Eryri ar gyfer tymor 2021 gyda dros 100 o wirfoddolwyr eisoes wedi cofrestru.
Ymgysylltu'n ystyrlon â gwirfoddolwyr wrth reoli'r Ysgwrn trwy ymgynghori'n rheolaidd trwy e-bost, galwadau ffôn a phan fydd cyfyngiadau Covid-19 yn llacio, trwy gyfrwng cyfarfodydd tîm	Mawrth 2021	Mabwysiadwyd y Strategaeth Wirfoddoli. Monitro i'w wneud i asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn	Bydd parhau i gau Yr Ysgwrn oherwydd Covid, yn golygu y bydd cyfleoedd newydd i ymgysylltu â gwirfoddolwyr yn gyfyngedig am y tro. Ar ôl sicrhau dyddiad agor, gellir ailddatblygu cynlluniau gyda'r bwriad o greu cyfleoedd newydd i'r gwirfoddolwyr.
Asesu effeithiolrwydd ein fframwaith ar gyfer gwirfoddoli			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Rhoi adroddiad blynyddol yn monitro gweithrediad y fframwaith ar gyfer gwirfoddoli i'r Aelodau.	Mawrth 2021	Cynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Aelodau sy'n monitro gweithrediad y fframwaith gwirfoddoli.	I'w symud ymlaen ar ôl i'r Strategaeth gael ei hadolygu. Strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod i'w

			chymeradwyo ym mis Mehefin.
Cefnogi datblygiad "Cynlluniau Lle" yn Eryri			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa yw'r Cynllun Lle a fabwysiadwyd gyntaf yn Eryri. Asesu a fyddai dull gweithredu tebyg o fudd i ardaloedd eraill yn y Parc.	Mawrth 2020	Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa yw'r Cynllun Lle a fabwysiadwyd gyntaf yn Eryri. Asesu ei effeithiolrwydd ac os fyddai dull gweithredu tebyg o fudd i ardaloedd eraill yn y Parc.	Mae Llyn Tegid wedi'i nodi fel ardal bosibl. Dim cynnydd hyd yn hyn oherwydd sefyllfa Covid. Penodwyd Uwch Warden y De a bydd yn arwain ar y gwaith o fis Ebrill ymlaen.
Sicrhau bod y dangosyddion o fewn Cynllun Parnteiraeth Yr Wyddfa yn cael eu monitro a'u hadrodd i'r Awdurdod yn flynyddol.	Mawrth 2021	Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa yw'r Cynllun Lle cyntaf a fabwysiadwyd yn Eryri. Asesu ei effeithiolrwydd a lle gallai dull tebyg fod o fudd i rannau eraill o'r Parc Cenedlaethol	Adolygiad o barcio a thrafnidiaeth yn ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen: Symud i'r cam gweithredu. Adolygiad wedi'i weithredu gyda chefnogaeth LIC trwy Trafnidiaeth Cymru Cynhyrchu Cynllun Cyfathrebu ar gyfer Partneriaeth yr Wyddfa CWBLHAWYD – rydym yn y cyfnod gweithredu rwan. Sefydlu cynllun llysgennad ar gyfer busnesau lleol Chrtr. 1-2: Cynllun yn y cyfnod datblygu ar gyfer ei ymestyn i'r Parc Cenedlaethol cyfan. Chrtr. 3-4: Mae cynllun Llysgennad wedi'i lansio ac mae'n llwyddiannus iawn gyda dros 500 o Lysgenhadon wedi cofrestru. Cynhyrchu Ap ar gyfer yr Wyddfa (i'w dreialu ar gyfer ei ehangu i'r Parc Cenedlaethol cyfan Ap wedi'i GWBLHAU ac yn y cyfnod monitro, rhannwyd arfer da gydag ardal Ogwen. Bydd cwblhau prosiect arhosfan bysiau Tais Nant Peris yn cael ei ail-broffilio. (Oedi oherwydd goblygiadau Covid-19)

			<p>Chrtr. 1: Yn y cyfnod gweithredu ac i fod i gael ei gwblhau erbyn Mawrth 2021.</p> <p>Chrtr. 2: Mae prosiect arhosfan bysiau Tais Nant Peris wedi'i ail-broffilio ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2021.</p> <p>Chrtr. 3 - 4: CWBLHAWYD prosiect Tais Nant Peris Mae Dangosyddion Perfformiad y Cynllun wedi'u hadolygu ac fe'u cyflwynwyd i Bwyllgor P&A mis Mawrth.</p>
Gwella ymwybyddiaeth a'r defnydd a wneir o'r Gymraeg			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Asesu'r cynlluniau lles mabwysiedig sy'n berthnasol i ardal yr Awdurdod i nodi camau priodol i'w cymryd gan yr Awdurdod mewn Partneriaeth ag eraill i wella ymwybyddiaeth a'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg.	Mawrth 2020	Parhau i flaenoriaethu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weithredol yr Awdurdod a bod yr holl staff sy'n debygol o ymdrin â'r cyhoedd yn gallu ymateb i ymholiadau yn Gymraeg a Saesneg. Cynhyrchu adroddiad blynyddol.	Partneriaid BGLI i drafod sut i alluogi a darparu adnoddau ar gyfer defnyddio a normaleiddio'r iaith Gymraeg yn y gweithle bob dydd.
Parhau i flaenoriaethu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weithredol yr Awdurdod a bod yr holl staff sy'n debygol o ymdrin â'r cyhoedd yn gallu ymateb i ymholiadau yn Gymraeg a Saesneg. Cynhyrchu adroddiad blynyddol.	Parhaus	Parhau i flaenoriaethu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weithredol yr Awdurdod a bod yr holl staff sy'n debygol o ymdrin â'r cyhoedd yn gallu ymateb i ymholiadau yn Gymraeg a Saesneg. Cynhyrchu adroddiad blynyddol.	Mae'n ofynnol i'r adroddiad blynyddol ar berfformiad yr awdurdod mewn perthynas â'r safonau gael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn. Oherwydd yr aflonyddwch i amserlen y pwyllgorau a achoswyd gan gyfnod clo Covid-19, nid oedd yn bosibl cyflwyno'r adroddiad tan y 15fed o Orffennaf 2020 eleni. Cymeradwyodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yr adroddiad ar y dyddiad hwn yn briodol, gan ei alluogi i'w gyhoeddi yn syth wedi hynny.

<p>Gweithio gyda cholegau lleol a'r brifysgol i sicrhau cyfranogiad gweithredol gydag unrhyw gynnwys gweithredol a gwybodaeth ar-lein ynghylch lleoliadau gwaith, gwirfoddoli a chyfleoedd gyrfa, a fyddai'n cynnwys gwaith ar hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau'r Iaith Gymraeg wrth gael gwaith gyda'r Awdurdod. Cymryd rhan mewn unrhyw yrfaedd a ffeiriau swyddi, digwyddiadau, trafodaethau a sgysiau gwe ar-lein / anghysbell, os cânt eu sefydlu fel dewis arall yn lle'r cyfleoedd wyneb yn wyneb traddodiadol.</p>	<p>Blwyddyn academaidd 2020/21</p>	<p>Parhau i flaenoriaethu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weithredol yr Awdurdod a bod yr holl staff sy'n debygol o ymdrin â'r cyhoedd yn gallu ymateb i ymholiadau yn Gymraeg a Saesneg.</p> <p>Cynhyrchu adroddiad blynyddol.</p>	<p>Oherwydd Covid-19 ni wnaed unrhyw gynnydd gyda'r weithred hon. Ar hyn o bryd mae Colegau a Phrifysgolion yn blaenoriaethu amgylcheddau diogel ystafell ddosbarth ac addysgu ar gyfer eu myfyrwyr, - nid ydynt mewn sefyllfa i hyrwyddo'r gwaith hwn. Ni chynhaliwyd Ffeiriau'r Glas eleni ac ni chynigiwyd unrhyw gyfleoedd ar-lein amgen i'r Awdurdod gymryd rhan ynddynt. Mae'r Awdurdod o dan gynnig Ymbarél gan 14 o Barciau Cenedlaethol y DU yn cynnig darparu pum cyfle i bobl ifanc o dan y fenter "Kick start". Ni wnaed unrhyw gynnydd pellach gyda'r gwaith hwn. Fodd bynnag, mae cynlluniau ar y gweill i gynnal Ffair Swyddi Iaith Gymraeg flynyddol Prifysgol Bangor ym mis Mawrth / Ebrill 2021</p>
<p>Sicrhau bod yr holl ddeunydd cyfathrebu ar gael yn ddwyieithog.</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Parhau i flaenoriaethu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weithredol yr Awdurdod a bod yr holl staff sy'n debygol o ymdrin â'r cyhoedd yn gallu ymateb i ymholiadau yn Gymraeg a Saesneg.</p> <p>Cynhyrchu adroddiad blynyddol.</p>	<p>Mae'r holl ddeunydd cyfathrebu ar gael yn ddwyieithog.</p>
<p>Darparu cyfleoedd i ddysgwyr cymraeg gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gwirfoddoli yn Yr Ysgwrn.</p>	<p>Mawrth 2021</p>	<p>Mabwysiadwyd y Strategaeth Wirfoddoli. Monitro i'w wneud i asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn</p>	<p>Ymwelodd 'Iaith ar Daith' â'r Ysgwrn i ffilmio ym mis Rhagfyr a'r gobaith yw y bydd y rhaglen yn offeryn marchnata rhagorol i apelio at ddysgwyr Cymru pan fydd yn cael ei ddarlledu yn y gwanwyn yn 2021.</p>
<p>Hyrwyddo Yr Ysgwrn fel Canolfan ddiwylliannol ac</p>	<p>Mawrth 2020</p>	<p>Mabwysiadwyd y Strategaeth</p>	<p>Mae ymgynghorydd wedi'i gomisiynu i gwblhau'r</p>

fel Canolfan i well ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a'r diwydiant.		Wirfoddoli. Monitro i'w wneud i asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn	gwaith marchnata ar ei liwt ei hun yn Yr Ysgwrn rhwng 2021-23 (contract 2 flynedd), a bydd yn cwblhau 36 diwrnod y. f. Disgwylir y bydd Yr Ysgwrn yn ailagor ddechrau'r Haf, lle y gobeithir y bydd rhaglen o weithgareddau amrywiol yn cael ei datblygu.
Gweithio gyda'n partneriaid lleol, cenedlaethol a rhanbarthol i fynd i'r afael â'r heriau a rheoli'r ardal unwaith y bydd y rheoliadau sy'n rheoli symud ar ôl Covid-19 yn cael eu llacio			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Parhau i weithio gyda'r sector Twristiaeth trwy Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru	Parhaus	Bod partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cydlynu ymdrechion mewn perthynas â rheoli pobl a negeseuon pan lacir cyfyngiadau perthnasol i Covid-19	Parhaus - mynychu cyfarfodydd bob chwarter (yn wythnosol yn ystod clo Covid).
Cynnal ymarfer cofrestr risg yn croesgyfeirio â Pholisi A3.3 gan sicrhau y rhagwelir mesurau parodrwydd a lliniaru (Polisi A3.3. Archwilio ymarferoldeb gweithredu dull Mynegai Bregusrwydd Hinsawdd (MBH) tuag at asedau treftadaeth naturiol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol) Gyda mewnbwn gan bartneriaid allweddol, - ystyried yr hyn a ddysgwyd yn sgil pandemig Covid-19	Mawrth 2021	Bod partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cydlynu ymdrechion mewn perthynas â rheoli pobl a negeseuon pan lacir cyfyngiadau perthnasol i Covid-19	Mae dichonoldeb y Mynegai Bregusrwydd Hinsawdd yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd mewn Partneriaeth â CNC. Mae dysgiadau allweddol o'r pandemig yn cael eu rhannu gyda Chyngor Gwynedd, Cyngor Conwy, Croeso Cymru, Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Dynodedig eraill a CNC. Nid yw'r Gofrestr Risg wedi cael ei dechrau eto.

5. CYDBWYSO EIN HADNODDAU A'N HYMDRECHION

Mae'r Awdurdod yn targedu ei adnoddau i gyflawni ei flaenoriaethau o fewn yr adnoddau llai sydd ar gael.

Yn cael ei gyflawni trwy:

Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel gan gynnwys gwerthusiadau blynyddol ffurfiol i gynorthwyo â rheoli perfformiad a sicrhau ein bod yn cefnogi lles ein staff mewn cyfnod mor anodd			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Cynhelir cyfarfod o'r holl staff bob blwyddyn ac yn ôl yr angen.	2020/21	% o staff sy'n fodlon neu'n fodlon iawn gyda'u swyddi AC % y staff sy'n dweud eu bod yn fodlon â lefel y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a gânt gan eu rheolwyr llinell uniongyrchol.	Cynhaliwyd cyfarfod rhithwir yr holl staff gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ar 9 Mawrth. Cynhwyswyd sesiwn gydag arbenigwr allanol ar ofalu am iechyd meddwl yn y cyfarfod.
Cyhoeddi diweddariad gwasanaethau yn chwarterol i'r holl staff ac aelodau.	2020/21	% o staff sy'n fodlon neu'n fodlon iawn gyda'u swyddi	Cyhoeddwyd bwletinâu staff yn rheolaidd ac yn aml i roi diweddariad iddynt trwy gydol cyfnod Covid-19 a oedd yn cynnwys diweddariadau o'r gwasanaethau a gwybodaeth gyfredol sy'n berthnasol i staff ar y pandemig ac arferion gwaith.
Mae holl staff yr Awdurdod wedi cael eu gwerthuso yn ystod y 12 mis diwethaf.	Rhagfyr 2020	% o staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso yn ystod y 12 mis diwethaf.	Oherwydd nifer y staff sy'n gweithio o bell yn ystod y cyfnod clo, cychwynnodd y broses werthuso yn ddiweddarach eleni. Hefyd, gosodwyd nifer o staff ar y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws (Ffyrlo) yn ystod y flwyddyn. Erbyn diwedd Chwarter 4, roedd 32% o'r ffurflenni gwerthuso wedi'u hanfon ymlaen at y gwasanaeth Personél.

Cynhaliwyd asesiad o anghenion hyfforddi.	Mawrth 2021	% o staff sy'n fodlon neu'n fodlon iawn gyda'u swyddi AC % y staff sy'n dweud eu bod yn fodlon â lefel y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a gânt gan eu rheolwyr llinell uniongyrchol.	Nodir anghenion hyfforddi fel rhan o'r broses arfarnu. Gan mai dim ond 32% o'r gwerthusiadau a gyflwynwyd mae'n naturiol na chynhaliwyd asesiad llawn o anghenion hyfforddi o achos hynny.
Sicrhau bod Penaethiaid Gwasanaeth yn ymgymryd â chyfarfodydd tîm rheolaidd gyda'u staff i roi gwybod i'r staff am ddatblygiad ac i gynorthwyo gyda rheoli perfformiad.	2020/21	% o staff sy'n fodlon neu'n fodlon iawn gyda'u swyddi AC % y staff sy'n dweud eu bod yn fodlon â lefel y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a gânt gan eu rheolwyr llinell uniongyrchol.	Mae Penaethiaid Gwasanaeth wedi cynnal cyfarfodydd tîm rhithwir rheolaidd â'u staff trwy gydol y 12 mis diwethaf. Mae ymgysylltu â staff wedi bod yn arbennig o bwysig dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau ac i wirio lles aelodau staff a chaniatáu llif gwybodaeth i fyny ac i lawr o fewn yr Awdurdod.
Hwyluso cyfarfodydd Fforwm Cynrychiolwyr Staff.	2020/21	% y staff sy'n dweud eu bod yn fodlon â lefel y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a gânt gan eu rheolwyr llinell uniongyrchol.	Rhoddir trefniadau ar waith i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal 'yn rhithiwr' yn ystod y misoedd nesaf. Hyd yma, ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd.
Datblygu a chefnogi ein Haelodau i reoli'r Awdurdod yn effeithiol yn ystod y cyfnod hwn o newid			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
100% o aelodau newydd i'r Awdurdod mewn unrhyw gyfnod 12 mis wedi mynychu'r cyfnod ynsefydlu ar gyfer aelodau newydd.	Parhaus	% o aelodau newydd yr Awdurdod o fewn unrhyw gyfnod 12 mis wedi mynychu sesiwn Ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd.	Cynhaliwyd cwrs ymsefydlu Aelodau Newydd 15 - 17 Mawrth 2021 yn rhithiwr. Mynychodd dau o Aelodau APCE a benodwyd fwyaf diweddar.
Mae'r aelodau wedi cael Cyfarfod adolygu Datblygiad Personol ar eu hanghenion datblygu a chymorth.	Medi 2020 ymlaen	% o'r aelodau sydd wedi ymgymryd â chyfarfod Adolygu Datblygiad Personol mewn perthynas â'u hanghenion cymorth a datblygu.	Dim wedi'i gwblhau. Mae'r broses hon fel arfer yn dechrau yn dilyn y CCB ym mis Mehefin. Eleni ni chynhaliwyd y CCB tan fis Medi sydd wedi achosi oedi i'r broses. Dylid nodi bod asesiadau 2 flynedd wedi'u cynnal gyda 2 o

			Aelodau a Benodwyd gan Lywodraeth Cymru eleni
Denu cyllid allanol i hyrwyddo gwaith yr Awdurdod ymhellach wrth gyflawni ei bwrpasau statudol			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Gweithio o fewn y Bartneriaeth i gyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a datblygu cyfleoedd pellach ar gyfer arian cyllido allanol.	Parhaus	Asesir ffrydiau arian cyllido tebygol sydd ar gael i gyflawni ein dibenion statudol a'r gallu i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. AC Mabwysiadwyd blaenoriaethau gwasanaeth a strategaeth ariannol ond efallai y bydd angen hyblygrwydd yn yr amseroedd ariannol ansicr hyn. Bydd angen monitro parhaus ac adolygiad posibl yn ystod y cyfnod hwn. Parhau i fonitro	Mae cyfleoedd cyllido allanol yn cael eu hymchwilio a'u datblygu'n barhaus. Mae'r Awdurdod wedi llwyddo i ddenu cyllid ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru trwy'r rhaglen Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLIC) a mentrau eraill.
Adolygu ymrwymadau gwariant presennol er mwyn amddiffyn yr Awdurdod rhag colli ffrydiau incwm yn y cyfnod hwn			
Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Asesu ac ail-bwrpasu lle bo hynny'n bosibl cyllid pwysau gwariant Llywodraeth Cymru heb ei wario	Mawrth 2021	Monitro ymrwymadau gwariant a chynhyrchu incwm yn y cyfnod hwn AC Mae gwasanaethau wedi'u hadolygu ac fe ail-broffiliwyd ymrwymadau gwariant cyfredol er mwyn lleihau'r pwysau ar ein cronfeydd wrth gefn	Mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, mae rhaglenni wedi'u hadolygu a'u haddasu; mae cyfarfodydd chwarterol wedi'u sefydlu i fonitro cynnydd.
Aseu opsiynau parthed. y Gronfa Gomisiynu	Mawrth 2021	Monitro ymrwymadau gwariant a chynhyrchu incwm yn y cyfnod hwn	Asesu opsiynau parthed y Gronfa Gomisiynu: Opsiynau a aseswyd:

		<p>Gellir rhyddhau cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer arolwg cynhwysfawr o drigolion ac ymwelwyr y PC (45k) gan na fydd yn bosibl cwblhau cwmpas y gwaith hwn yn 2020. Byddem yn anelu at ail-dendro ar ddechrau 2021 ar gyfer y gwaith i'w gwblhau erbyn diwedd 2021.</p> <p>Gellir rhyddhau cyllid pellach sydd wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau o dan Gynllun Eryri (15k) hefyd gan na fydd yn bosibl dechrau y prosiectau hyn tan ar ôl adfer ardal y Parc Cenedlaethol ar ôl COVID-19.</p> <p>Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 gellid defnyddio Cronfa Comisynu Eryri i sicrhau bod y seilwaith yn y Parc Cenedlaethol yn gadarn er mwyn dechrau gweithredu'r prosiectau a amlinellir yng Nghynllun Rheoli newydd y Parc Cenedlaethol, a fabwysiadwyd yn 2020.</p> <p>Mawrth 2021 Rheolwr Partneriaethau Mae'r ail-dendro wedi'i gwblhau a chomisiynwyd Beaufort Research i gynnal arolwg cynhwysfawr o ymwelwyr a thrigolion yn 2021.</p> <p>Bydd y gwaith yn dechrau ym mis Mai 2021 (arolwg ymwelwyr) a mis Mehefin (arolwg preswylwyr) a bydd yn parhau am weddill y flwyddyn. Mae 15K arall wedi'i glustnodi ar gyfer treialu methodoleg newydd ar gyfer mesur Tawelwch mewn partneriaeth â Phrifysgol Winchester.</p>
--	--	--

			Disgwylir i hyn ddigwydd yn Hydref 2021.
Gwireddu arbedion cost yn sgil llai o weithrediadau mewn meysydd parcio a thoiledau cyhoeddus i leihau'r diffyg incwm o feysydd parcio yn ystod cyfnod clo Covid-19.	Mawrth 2021	<p>Monitro ymrwmiadau gwariant a chynhyrchu incwm yn y cyfnod hwn AC</p> <p>Nododd pob rhaglen a phrosiect yr effeithiwyd arno gan Covid-19 a galluogwyd mesurau lliniaru addas i wrthsefyll unrhyw lithriad AC</p> <p>Mae gwasanaethau wedi adolygu ac ail-broffilio ymrwmiadau gwariant cyfredol er mwyn lleihau'r pwysau ar ein cronfeydd wrth gefn</p>	<p>Gwireddwyd arbedion costau gweithredu yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol a'u gwrthbwysu yn erbyn colli incwm ar gyfer Chwarter 1. Cynyddodd costau glanhau toiledau cyhoeddus yn Chwarter 2 oherwydd amllder glanhau cynyddol yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Parhaodd arbedion cost wrth symud i ni symud at daliadau cardiau yn unig mewn meysydd parcio cyn y cyfnodau clo pellach. Cafodd cyfnodau clo cenedlaethol a lleol pellach (Conwy) effaith ddifrifol ar incwm ar gyfer Chwarter 4. Symudwyd cynilion o fewn gwasanaeth i dalu am rai colledion.</p>
Adolygu gwaith cynnal a chadw a gohirio gwaith nad yw'n fater brys hyd at 2021/22 i leihau pwysau cyllidebol	Mawrth 2021	<p>Monitro ymrwmiadau gwariant a chynhyrchu incwm yn y cyfnod hwn AC</p> <p>Nododd pob rhaglen a phrosiect yr effeithiwyd arno gan Covid-19 liniaru addas a galluog i wrthsefyll unrhyw lithriad AC</p> <p>Mae gwasanaethau wedi adolygu ac ail-broffilio ymrwmiadau gwariant cyfredol er mwyn lleihau'r pwysau ar ein cronfeydd wrth gefn</p>	<p>Mae gwaith brys yn cael ei flaenoriaethu fel y gall cynllunio a rhaglennu gwaith symud ymlaen yn unol â'r gyllideb yn Chwarteri 3 a 4. Peidiwyd yr holl waith nad oedd yn fater brys oherwydd pwysau ariannol yn deillio o gyfnodau clo pellach a cholli incwm o feysydd parcio yn ystod Chwarter 3 ac yn debygol am y rhan fwyaf o Chwarter 4. Ni aethpwyd ymlaen â gwaith nad oedd yn faterion brys oherwydd colli incwm maes parcio. Bydd angen ail-flaenoriaethu yn 21/22 yn unol â gofynion cynnal a chadw eraill sy'n bodoli eisoes.</p>

<p>Adolygu'r Cynllun Rheoli Asedau a gohirio mabwysiadu'r Cynllun newydd am 12 mis</p>	<p>I'w fabwysiadu cyn mis Mawrth 2022</p>	<p>Monitro ymrwymiadau gwariant a chynhyrchu incwm yn y cyfnod hwn AC Nodwyd pob rhaglen a phrosiect yr effeithiwyd arno gan Covid-19 a galluogwyd lliniaru addas i wrthsefyll unrhyw lithriad</p>	<p>Ni wnaed unrhyw gynnydd oherwydd pwysau gwaith eraill o ganlyniad i Covid-19. Bydd gwaith yn mynd rhagddo ar gyfer mabwysiadu a gweithredu Cynllun Rheoli Asedau newydd o 1 Ebrill 2022 ymlaen Mae gwaith ar brosiectau Datgarboneiddio TCLIC a fydd yn bwydo i'r Cynllun Rheoli Asedau newydd wedi cael ei symud ymlaen a chynigion pellach i TCLIC B/A 2021/22 gynnwys gwelliannau cyfleusterau. Polisi Caffael a Gwaredu Asedau Diwygiedig wedi'i fabwysiadu gan yr Awdurdod gyda gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r Cynllun Rheoli Asedau. Recriwtio ar gyfer Swyddog Eiddo ategol i gynorthwyo gyda'r gwaith o gwblhau arolygon cyflwr safle.</p>
--	---	--	---

Ail-broffilio pob prosiect a rhaglenni gyda'n partneriaid a'n cyllidwyr allweddol i sicrhau bod modd cyflawni pob un ohonynt yn dilyn y cyfyngiadau ar y gallu i gyflawni oherwydd pandemig Covid-19

Disgrifiad o'r Prosiect / Menter gan gynnwys gweithredoedd penodol	Amserlen	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? (manylwch ar ganlyniadau penodol)	A oedd y prosiect yn llwyddiannus?
Bydd TAIS Nant Peris angen cyfnod estynedig y tu hwnt i Ionawr 2021	Mawrth 2021	Monitro ymrwymiadau gwariant a chynhyrchu incwm yn y cyfnod hwn	Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.
Addasu'r holl waith maes yn unol â hynny, amcangyfrifir oedi o 3 mis ym mhroffil gwariant grant LIC yn unol â hynny	Haf 2022	Nododd pob rhaglen a phrosiect yr effeithiwyd arno gan Covid-19 liniaru addas a galluog i wrthsefyll unrhyw lithriad	Aseswyd yr holl waith maes a gwnaed addasiadau amser yn unol â hynny. Yn dilyn asesiadau o reoliadau Covid-19, gosodwyd protocolau APCE ar waith ac yn amodol ar asesiad risg yn cael ei ail-gychwyn ganol mis Mai gan

			staff cynllunio i ddechrau a'i ymestyn i staff gwaith prosiect ddechrau mis Mehefin a pharhau trwy gydol Chwarteri 3 a 4.
Adolygu pob prosiect sy'n seiliedig ar bartneriaeth. Adolygu proffiliau gwariant, pa brosiectau a fydd / sy'n debygol o gael eu gohirio, y llithriad a ragwelir a'r canlyniadau dilynol	Mawrth 2021	Nododd pob rhaglen a phrosiect yr effeithiwyd arno gan Covid-19 fesurau lliniaru addas a galluogwyd hynny i wrthsefyll unrhyw lithriad	Cyflwynwyd diweddariad ar bob prosiect APCE cyfredol i Bwyllgor P&A ym mis Tachwedd. Rhoddir sylw i'r holl estyniadau amser a / neu broffiliau cyllido.

8. RHEOLI PERFFORMIAD

Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn adrodd ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella a chyflawni eu gwasanaethau.

Adwaenir yr adroddiad fel yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar waith Swyddfa Archwilio Cymru ac yn tynnu ar arolygiaethau perthnasol yng Nghymru ac mae'n cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod).

Cadarnhaodd yr Adroddiad fod yr Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus ond yn sgil yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baent yn darganfod pethau y gellir eu gwella.

Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella a chafodd y rhain eu hailadrodd yn yr adroddiad. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn monitro cynnydd yn eu herbyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn yr adroddiadau cenedlaethol fel rhan o'u gwaith asesu gwelliant.

9. Y FFRAMWAITH GWELLIANT

Mae gan Aelodau'r Awdurdod ran annatod i'w chwarae wrth sicrhau bod y fframwaith gwelliant yn darparu proses gadarn ar gyfer sicrhau ein bod yn cyflawni allbynnau llwyddiannus.


Fel rhan o'r broses, mae Dangosyddion Perfformiad, rhai Craidd a Lleol, yn cael eu cofnodi ac adroddiadau yn cael eu paratoi fel bod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn cael craffu arnynt bob chwarter.

Adroddir i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau bob chwarter am y Cynllun Gwaith Corfforaethol, sy'n gynllun blynyddol gyda thasgau penodol wrth wraidd pob amcan gwelliant.

Mae'r broses werthuso a ddilynir gyda holl staff yr Awdurdod yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro ac mae'n gyfle i'r staff gael adrodd ar ddiwedd tasgau unigol mewn perthynas â'r Amcanion Gwelliant yn ogystal ag unrhyw broblemau y deir ar eu traws.

Mae'r fframwaith gwelliant wedi'i nodi isod.

FFRAMWAITH CYNLLUNIO CORFFORAETHOL APCE



10. DANGOSYDDION PERFFORMIAD

Mae gan yr Awdurdod nifer o ddangosyddion perfformiad statudol y mae'n rhaid iddo adrodd yn eu cylch bob blwyddyn.

Ynghyd â dangosyddion craidd Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod wedi datblygu cyfres allweddol o ddangosyddion lleol, ac mae hefyd yn casglu data ar gyfer anghenion Safonau'r Iaith Gymraeg. At hynny, mae'r Awdurdod yn casglu data gwasanaeth, ac yn hytrach na dangos perfformiad, mae'n dangos gwaith pob cyfarwyddiaeth yn ei gyd-destun trwy ddangos llwythau gwaith, niferoedd ac ati.

Mae manylion llawn dangosyddion lleol yr Awdurdod a ddefnyddiwyd i gefnogi Amcanion Gwella'r Awdurdod eisoes wedi'u nodi yn Rhan 6 o'r ddogfen hon, felly ni chânt eu hailadrodd yma. Mae rhestr lawn o Ddangosyddion Perfformiad Craidd yr Awdurdod ynghyd â manylion am berfformiad sy'n codi wedi hynny wedi'u nodi yn yr Atodiad.

11. MANYLION CYSWLLT

Croesawn eich mewnbwn ynghyd â'ch awgrymiadau ar osod amcanion gwella newydd a heriol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Cysylltwch ag Iwan Jones â'ch sylwadau os gwelwch yn dda.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch y manylion a osodir yn y Cynllun Gwelliant hwn trwy ysgrifennu neu anfon e-bost at:

Iwan Jones

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol / Director of Corporate Services

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri / Snowdonia National Park Authority

Ffôn / Phone: 01766 772204

e-bost / e-mail: iwan.jones@eryri.llyw.cymru

www.eryri.llyw.cymru

Atodiad – Dangosyddion Perfformiad

DATA GWASANAETH: DANGOSYDDION CORFFORAETHOL

Rhif	Dangosydd Perfformiad 2020-21	Canlyniad Blynyddol 2019/20	Targed Blynyddol 2020/21	Canlyniad Blynyddol 2020/21	Sylwadau (os oes angen)
CHR/001	Canran o weithwyr sy'n rhoi'r gorau i'w swydd â'r awdurdod, un ai'n wirfoddol neu'n anwirfoddol.	7.4% (9)	7%	12.5% (16)	Arweiniodd newid yn y model busnes ar gyfer Plas Tan y Bwlch at 5 o'r 16 yn ymadael. Roedd un arall oherwydd diwedd cyfnod o absenoldeb mamolaeth, un arall oherwydd cwblhau cyfnod lleoliad ac un arall oherwydd cwblhau prosiect CRhC.
CHR/002	Nifer y diwrnodau gwaith / shifftiau cyfwerth ag amser llawn mae gweithwyr yr awdurdod wedi eu colli oherwydd salwch	11.5 diwrnod	6 diwrnod	3 diwrnod	
CHR/006	Canran yr anfonebau na chafodd eu gwrthwynebu a chafodd eu talu o fewn 30 diwrnod	98.95%	98%	99.28%	

AROLWG CYFARWYDDIAETH CYNLLUNIO LLYWODRAETH CYMRU

MESUR	DA	TEG	GWELLA	CYFARTAL-EDD CYMRU 2019-20	ACLI APCE 2019-20	APCE Chw.1 Ebrill - Mehefin 2020-21	APCE Chw. 2 Gorffennaf - Medi 2020-21	APCE Chw. 3 Hydref - Rhagfyr 2020-21	APCE Chw. 4 Ionawr - Mawrth 2020-21
Llunio cynlluniau									
A oes Cynllun Datblygu cyfredol ar waith sydd o fewn cyfnod y cynllun?	Oes / Do / Ydi		No	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	OES / DO / YDI		OES / DO / YDI	OES / DO / YDI
Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	Oes / Do / Ydi		No	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Yn yr arfaeth 2021 - Adroddiad Monitro dros dro i'w adrodd i'r Gweithgor aelodau ym mis Ionawr 2021.		Adroddiad Monitro Dros Dro wedi'i nodi gan yr Aelodau yn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ym mis Ionawr 2021	
Cyflenwad tir cyfredol ar gyfer tai yr awdurdod cynllunio lleol mewn blynyddoedd	>5		<5	6 of 25	5.0	Canlyniad diwedd blwyddyn		Canlyniad diwedd blwyddyn	Wedi'i ddisodli gan y Taflwybr Tai
Effeithlonrwydd									
Canran y ceisiadau "mawr" a bennir o fewn y cyfnodau amser sy'n ofynnol	>60	50.1-59.9	<50	68	0	D/B (Ni phenderfynwyd ar rai mawr)	D/B (Ni phenderfynwyd ar rai mawr)	D/B (Ni phenderfynwyd ar rai mawr)	D/B (Ni phenderfynwyd ar rai mawr)

MESUR	DA	TEG	GWELLA
Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i bennu ceisiadau "mawr" mewn dyddiau	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod
Canran yr holl geisiadau a bennir o fewn y cyfnodau amser sy'n ofynnol	>80	70.1-79.9	<70
Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar bob cais mewn dyddiau	<67	67-111	112+
Canran y ceisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig a bennir o fewn y cyfnodau amser sy'n ofynnol	>80	70.1-79.9	<70
Ansawdd			
Canran y penderfyniadau a wnaeth yr Aelodau yn erbyn cyngor swyddogion	<5	5-9	9+
Canran yr apeliadau a wrthodwyd	>66	55.1-65.9	<55
Cadarnhawyd ceisiadau am gostau yn apêl Adran 78 yn y cyfnod adrodd	0	1	2+

CYFARTAL-EDD CYMRU 2019-20	ACLI APCE 2019-20	APCE Chw.1 Ebrill - Mehefin 2020-21	APCE Chw. 2 Gorffennaf - Medi 2020-21	APCE Chw. 3 Hydref - Rhagfyr 2020-21	APCE Chw. 4 Ionawr - Mawrth 2020-21
232	370	D/B (Ni phenderfynwyd ar rai mawr)	D/B (Ni phenderfynwyd ar rai mawr)	D/B (Ni phenderfynwyd ar rai mawr)	D/B (Ni phenderfynwyd ar rai mawr)
88	76	55.5%	48%	62%	64%
77	67	67	109	92	91
75	7%	0%	10%	44%	14%
9	5	0	0	0	0
68	60	Dim Penderfynia dau Apêl	100% (3/3)	Dim Penderfynia dau Apêl	67%
0	0	0	0	0	0

MESUR	DA	TEG	GWELLA
Ymgysylltu			
A yw'r AC lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	Oes / Do / Ydi		No
A oes gan y AC lleol swyddog ar ddyletswydd i ddarparu cyngor i aelodau'r cyhoedd?	Oes / Do / Ydi		No
A oes gan wefan yr AC lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio, y gall aelodau'r cyhoedd ei chyrchu, olrhain eu cynnydd (a gweld eu cynnwys)?	Oes / Do / Ydi	Rhannol	No
Gorfodaeth			
% o'r achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (penderfynwyd a yw tor-rheolaeth gynllunio wedi digwydd ac, os felly, datrys a yw camau gorfodi yn ddoeth ai peidio) o fewn 84 diwrnod.	>80	70.1-79.9	<70
Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol	<100	101-200	200+

CYFARTAL-EDD CYMRU 2019-20	ACLI APCE 2019-20	APCE Chw.1 Ebrill - Mehefin 2020-21	APCE Chw. 2 Gorffennaf - Medi 2020-21	APCE Chw. 3 Hydref - Rhagfyr 2020-21	APCE Chw. 4 Ionawr - Mawrth 2020-21
Ymgysylltu					
Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi
Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi
Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi	Oes / Do / Ydi
Gorfodaeth					
77	68	100%	100%	79%	100%
167	198	Dim achosion wedi'u cau	411 diwrnod	124	201

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	13 Hydref 2021
TEITL	ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL CRAFFU – ENWAU LLEOEDD
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir
DIBEN	Crynhoi'r Broses Graffu ar ddiogelu a hyrwyddo Enwau Lleoedd Eryri

1. Cyflwyniad

- 1 Ar ddiwedd 2020, dechreuodd yr Awdurdod gyfres o sesiynau Panel Craffu, i graffu ar feysydd pwnc penodol. Un o'r ymarferion 'plymio dwfn' hyn oedd asesu enwau lleoedd Eryri a'u hamddiffyn a'u hyrwyddo.
- 2 Cyflwynodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol bapur i'r Gweithgor yn flaenorol ym mis Hydref 2020 ar y pwnc hwn, ac ynddo, tynnwyd sylw at yr hyn a ganlyn:
 - Bod enwau lleoedd yn rhan annatod o dreftadaeth ddiwylliannol pob gwlad a diwylliant ledled y byd. Bod enwau lleoedd yn gyfeiriadau ieithyddol a diwylliannol ac mae'r cylch hwn yn wir ym mhob diwylliant ledled y byd.
 - Mae cytundeb cyffredinol ar arwyddocâd enwau lleoedd Cymraeg a Chymreig ond yn aml trafodir sut y dylid eu diogelu.
 - Mae Cynllun Eryri wedi nodi enwau lleoedd fel rhan o rinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Eryri. Maent yn uniongyrchol gysylltiedig â Rhinweddau Arbennig Bywiogrwydd yr Iaith Gymraeg (RhA3), Tirweddau Hanesyddol (RhA7) ac maent yn berthnasol mewn cyd-destun ehangach i Dirweddau Amrywiol (RhA1), Cydlyniant Cymunedol (RhA2), Ysbrydoliaeth ar gyfer y Celfyddydau (RhA4) a Hamdden, Dysgu a Hamdden (RhA6).
- 3 Yn dilyn y Gweithgor uchod, rhoddwyd enwau lleoedd Cymraeg ar y rhestr pynciau ar gyfer cyfarfodydd Panel Craffu'r Awdurdod. Enwebwyd 3 Aelod i'r grŵp – y Cynghorydd Judith Humphreys (Cadeirydd), y Cynghorydd Elwyn Edwards a'r Cynghorydd Alwyn Gruffydd. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir a Phennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol gymorth swyddogion i'r grŵp.
- 4 Yn y cyfarfod cychwynol ym mis Mawrth, penderfynwyd y dylai'r ffocws fod ar sicrhau bod yr Awdurdod yn defnyddio enwau lleoedd yn gyson ac yn seiliedig ar ddull safonol, ac y dylid hyrwyddo arwyddocâd yr enwau lleoedd hyn yn briodol.

- 5 Dylid pwysleisio nad yw'r dull safoni hwn o ymdrin ag enwau lleoedd wedi'i fwriadu o bell ffordd i danseilio amrywiaeth a chymhlethdod posibl enwau lleoedd. Derbynnir y gall fod sawl enw, sillafiad ac ynganiad gwahanol o leoedd penodol, ac mae hyn i gyd yn rhan o dreftadaeth a chyfoeth diwylliannol ardal ddaearyddol. Fodd bynnag, fel sefydliad yn y sector cyhoeddus, cytunwyd y dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol fod ag ymagwedd gyson tuag at ddefnyddio enwau lleoedd – ac yn y pen draw bydd hyn yn helpu gyda'u hyrwyddo a'u hamddiffyn. Mae diffyg cysondeb wedi arwain at rywffaint o ddryswch yn y gorffennol, gan fod gwahanol bobl wedi defnyddio enwau gwahanol ar gyfer yr un lle.
- 6 Ystyriwyd bod y 'safoni' hwn yn gam cychwynnol pwysig o ran diogelu enwau lleoedd yn Eryri. Mae angen rhagor o waith hefyd ar sut mae'r enwau lleoedd hyn yn cael eu 'hyrwyddo', ynghyd â sut y dylai'r Awdurdod ddelio â'r enghreifftiau mwy 'cymhleth' lle gallai fod mwy nag un enw lle yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin. Ymdrinnir â'r 2 bwynt olaf hyn mewn gwaith pellach, a bydd hyn yn cael sylw ar ddiwedd yr adroddiad.
- 7 **Y broses a ddilynwyd**
- 8 Felly, y dasg gychwynnol oedd ceisio safoni'r dull gweithredu Awdurdod y Parc Cenedlaethol tuag at enwau lleoedd, gyda'r pwyslais ar nodweddion daearyddol (mynyddoedd, llynnoedd ac ati). Cysylltodd swyddogion â Dr Dylan Foster Evans, Pennaeth Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd a Dr Eleri James, Swyddog Datblygu gyda Chomisiynydd y Gymraeg i ddatblygu hyn ymhellach.
- 9 Nid oes gan yr Awdurdod ei gronfa ddata ei hun o enwau lleoedd, felly defnyddiwyd y gronfa ddata o enwau lleoedd sydd gan yr Awdurdod o'r Arolwg Ordnans. Mae tua thair mil a hanner o enwau lleoedd ar y gronfa ddata hon.
- 10 Wrth ddatblygu methodoleg er mwyn safoni enwau lleoedd ar gyfer yr Awdurdod, cymhwysodd Dr Evans yr egwyddorion a sefydlwyd yn y Gazeteer o Enwau Lleoedd Cymru (3ydd argraffiad, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1967) a'r *Canllawiau Safoni Cenedlaethol* a ddefnyddir gan *Banel Safoni Enwau Lleoedd* Comisiynydd y Gymraeg. Er bod y canllawiau hyn yn ymdrin yn bennaf ag enwau aneddiadau (yn hytrach nag enwau tirweddau / tirffurfiau), bydd yr egwyddor a sefydlir ynddynt yn parhau i fod yn ddefnyddiol ar gyfer yr ymarfer hwn.
- 11 'Doedd cyfyngiadau amser ddim ond yn caniatáu i 'saml' o'r tair mil a hanner o enwau lleoedd gael eu defnyddio, a chytunwyd i ganolbwyntio ar lynnoedd Eryri fel is-set gychwynnol – lle'r oedd tua 200 o enwau llynnoedd ar y gronfa ddata. Nodir methodoleg Dr Evans yn Atodiad 1. Mae'r defnydd o'r fethodoleg hon tuag at lynnoedd Eryri wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.
- 12 Cyn belled â bod yr Awdurdod yn fodlon ar y dull hwn, y bwriad wedyn fyddai cyflwyno'r 200 o enwau llynnoedd sydd wedi bod yn destun yr ymarfer hwn i Banel Safoni Enwau Lleoedd y Comisiynydd. Byddai hefyd yn fwriad cyflwyno gweddill y gronfa ddata enwau lleoedd drwy'r un weithdrefn. Yn unol â'r gwaith hwn, argymhellir hefyd y dylid gwneud rhywfaint o ymchwil leol benodol i 'ddatrys' unrhyw faterion y gallai'r brif gronfa ddata fod wedi'u colli.

- 13 Nid yw'r fethodoleg a ddefnyddir yn rhoi ateb i'r mater a gyfyd ynghylch ymdrin ag enwau lleoedd lle mae mwy nag un enw yn cael ei ddefnyddio. Gellir mynd i'r afael â delio â'r materion hyn mewn cyfarfod dilynol, a'r gobaith yw y byddai Dr Evans a Dr James yn gallu rhoi cyngor pellach i'r Awdurdod ar ffyrdd o fynd i'r afael â hyn. Bydd canlyniad trafodaeth o'r fath yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Awdurdod i'w gymeradwyo wedyn.
- 14 Dylid nodi hefyd bod Cyngor Gwynedd yn edrych ar y pwnc hwn, a bod eu swyddogion hefyd wedi mynychu'r Panel Craffu. Bydd yr Awdurdod a Chyngor Gwynedd yn parhau i gydweithio'n agos ar hyn.
- 15 Yn olaf, cydnabu'r grŵp hefyd, unwaith y symudir y gwaith uchod yn ei flaen, y bydd angen trafod sut mae'r Awdurdod yn hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd a'u gwerthfawrogi. Gallai hyn fod yng nghyd-destun yr enwau lleoedd safonol sydd wedi bod yn destun y fethodoleg uchod, yn ogystal â phrosiectau eraill sy'n casglu enwau lleoedd drwy hanes llafar ac ati e.e. prosiect Llaisiau'r Carneddau sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- 16 O ystyried natur barhaus debygol y gwaith hwn, awgrymwyd y dylid trosglwyddo'r gwaith cychwynol hwn gan y Panel Craffu i Grŵp Llywio sy'n cyfarfod bob ychydig fisoedd i drafod cynnydd. Wrth gwrs, byddai grŵp o'r fath yn dal i adrodd am unrhyw gasgliadau ac argymhellion i'r Awdurdod. Bydd hyn yn caniatáu 'diweddglo' i'r broses graffu, ond byddai'r gwaith yn parhau trwy gyfrwng dull gwahanol.
- 17 **Casgliadau**
- 18 Mae'r Panel Craffu wedi ymchwilio i safoni enwau lleoedd er mwyn i'r Awdurdod gael un gronfa ddata o enwau lleoedd, yn seiliedig ar fethodoleg gymeradwy. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i weithredu'n gyson ac yn gydlynol, a fydd yn y pen draw yn helpu i ddiogelu enwau lleoedd yn y Parc Cenedlaethol. Fe all enwau lleoedd neu sillafiadau amgen fodoli ar gyfer rhai lleoedd – a bydd yr Awdurdod yn parhau i gydnabod a dathlu'r rhain, er y defnyddir yr enw safonol y cytunwyd arno wrth gyfathrebu'n swyddogol.
- 19 Ymhen amser rhagwelir y bydd yr Awdurdod yn cymhwyso'r fethodoleg hon i gronfa ddata gyfan yr AO o enwau lleoedd Eryri, a bydd y rhain wedyn yn cael eu hanfon at Banel Safoni Enwau Lleoedd y Comisiynydd. Mae'n bosibl bod gwerth sawl wythnos o waith yma, a bydd yn rhaid i'r gwaith hwn fod yn rhan o broses barhaus.
- 20 Bydd angen rhagor o waith ar ddull yr Awdurdod o ymdrin â'r lleoedd sydd â 2 enw yn gyffredin, a bydd y Panel yn gofyn am arweiniad pellach gan Dr Evans a Dr James ar y pwnc hwn. Bydd hwn yn destun cyfarfod yn y dyfodol, gydag unrhyw gasgliadau'n cael eu dwyn yn ôl i gyfarfod o'r Awdurdod Llawn i'w cymeradwyo.
- 21 Bydd angen cyfarfod yn y dyfodol hefyd ar sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio a hyrwyddo'r rhestr safonol hon o enwau lleoedd, a fydd hefyd yn cael ei dychwelyd i gyfarfod llawn yr Awdurdod i'w gymeradwyo.

- 22 **Argymhellion:**
- 23 **Argymhellir:**
- 24 **Bod yr Awdurdod yn cefnogi'r defnydd o'r fethodoleg a gynigiwyd gan Dr Evans wrth gyrraedd rhestr safonol o enwau lleoedd i'w defnyddio gan yr Awdurdod mewn unrhyw gyfathrebu swyddogol;**
- 25 **Bod y gronfa ddata o enwau lleoedd i'w hanfon at Banel Safoni Enwau Lleoedd y Comisiynydd (gan ddechrau gyda'r 200 o lynnoedd sydd eisoes wedi'u hasesu, ond dros amser i gynnwys y gronfa ddata lawn);**
- 26 **Bod y Panel yn cael cyngor pellach gan Dr Evans a Dr James ar yr opsiynau posibl a allai fod yn agored i'r Awdurdod ar sut i fynd i'r afael ag enwau lleoedd sydd â mwy nag 1 enw yn gyffredin – a chyfeirio hyn yn ôl i'r Awdurdod i'w gymeradwyo**
- 27 **Bod y Panel yn trafod y ffordd orau i'r enwau lleoedd yn Eryri gael eu defnyddio a'u hyrwyddo, ac adrodd hyn yn ôl i'r Awdurdod ei gymeradwyo;**
- 28 **O ystyried natur barhaus y ffrwd waith hon, bod y Panel Craffu yn cael ei ddisodli gan Grŵp Llywio (gyda'r un Aelodaeth) a all fynd i'r afael â'r rhain ac unrhyw fater arall sy'n ymwneud ag enwau lleoedd a godir yn y dyfodol, yn ôl y gofyn.**

Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Parc Cenedlaethol Eryri (Drafft)

- 1 Nod y ddogfen hon yw cynnig model ar gyfer safoni enwau lleoedd Parc Cenedlaethol Eryri, gan gymryd yn fan cychwyn y canllawiau sy'n sail i waith [Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg](#).
- 2 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi penodi Panel Safoni Enwau Lleoedd i arwain ar y gwaith o safoni enwau lleoedd Cymru. [Nod](#) y Panel Safoni Enwau Lleoedd yw:
 - anelu at gysondeb cenedlaethol yn y ffordd y caiff enwau lleoedd eu sillafu;
 - osgoi amlhau ffurfiau;
 - cydymffurfio ag egwyddorion orgraff safonol Cymraeg modern.
- 3 Mae'r Panel hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes gan unigolion a chyrff eraill. Dylid cyfeirio'n arbennig at gyfrol Elwyn Davies, *Rhestr o Enwau Lleoedd / A Gazetteer of Welsh Place-Names* (trydydd arg.; Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1967) [RhELI/Gazetteer] ac at waith y Pwyllgor Ymgynghorol ar Enwau Lleoedd (PNAC [Place Names Advisory Committee]) a Thîm Safoni Enwau Lleoedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 4 Mae'r Panel eisoes wedi cyhoeddi [Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru](#) [RhELISC] sy'n cynnwys enwau safonedig ar nifer sylweddol o aneddiadau o fewn ffiniau'r Parc (sef enwau trefi a phentrefi yn bennaf). Dylid nodi nad oes grym statudol i'r ffurfiau hyn ac nid oes yn rhaid i Awdurdodau Lleol (er enghraifft) dderbyn y ffurfiau unigol a gynigir. Yn yr achosion cymharol brin pan na fydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn ffurf RhELISC, bydd cyfle i swyddfa'r Comisiynydd a'r Awdurdod Lleol drafod ymhellach i weld a oes modd dod i gytundeb. Ond gall ddigwydd fod Awdurdod Lleol yn penderfynu mynd yn groes i argymhellion y Panel.
- 5 Mae Panel Safoni Enwau Lleoedd y Comisiynydd yn seilio ei waith ar ei ganllawiau cyhoeddedig: '[Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru](#)'

[CSELIC]. Er mai enwau aneddiadau yw prif ffocws y canllawiau hynny, bydd modd defnyddio'r egwyddorion a nodir ynddynt yn sail ar gyfer safoni enwau tirweddol Parc Cenedlaethol Eryri.

- 6 Mae CSELIC yn eu tro wedi eu seilio ar waith cynharach yn y maes, ac yn arbennig ar RhELI/Gazetteer. Fel y dywedir yn CSELIC §3:

Dylid cydnabod, fel man cychwyn, y ffurfiau a argymhellir yn Elwyn Davies, *Rhestr o Enwau Lleoedd/A Gazetteer of Welsh Place-Names* (trydydd arg.; Gwasg Prifysgol Cymru, 1967) ynghyd ag argymhellion blaenorol Tîm Safoni Enwau Lleoedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Y *Rhestr o Enwau Lleoedd* hwn (neu'r 'Gazetteer' fel y gelwir ef yn aml) yw'r cyfeirlyfr safonol cenedlaethol i orgraff enwau lleoedd Cymru. Mae angen rheswm da dros fynd yn groes iddo.

- 7 Mae'r canllawiau drafft hyn yn dilyn prif egwyddorion CSELIC gan argymhell derbyn y ffurfiau a geir yn RhELI/Gazetteer, oni bai fod rheswm da dros fynd yn groes iddynt.
- 8 Mae safoni enwau lleoedd yn broses sydd â sawl cam iddi. Nodir isod ddwy egwyddor gychwynol RhELI/Gazetteer (tt. xiv–xv):

Yn gyntaf, dylid ysgrifennu enwau lleoedd, hyd y galler, yn un gair. Yn ail, dylid eu hysgrifennu fel y gellir, wrth ddarllen, eu hacennu'n gywir yn ôl rheolau arferol yr iaith Gymraeg; i sicrhau hyn defnyddir cysylltnodau i ddangos safle'r acen. Gwneir eithriad pan geir enw disgrifiadol fel *afon*, *bwloch*, *cefn*, *cwm*, *glyn*, *llyn*, *moel*, *morfa*, *mynydd*, *nant*, etc., yn elfen gyntaf mewn enw ar nodwedd ddaearyddol. Yn y rhain ysgrifennir yr enw disgrifiadol ar wahân, ac felly hefyd gydag enwau lle y ceir *betws*, a *capel*, fel elfen gyntaf ond pan fo'r fannod yn dilyn. Ond pan fo'r enwau daearyddol hyn yn rhan o enw pentref neu fferm ysgrifennir hwynt yn un gair, e.e. *Cwm Aman* am y cwm, ond *Cwmaman* am y pentref a'r plwyf.

- 9 Wrth ystyried enw unigol, felly, rhaid yn gyntaf bennu pa fath o nodwedd y mae'r enw hwnnw'n cyfeirio ati yn y cyd-destun dan sylw. Er enghraifft, yn ddamcaniaethol gall 'Nantperis' gyfeirio at bentref neu at gwm. Gwelwyd uchod y gall fod gwahaniaeth wrth safoni enwau aneddiadau megis pentrefi a phlwyfi ar y naill law, a nodweddion tirweddol megis cymoedd a llynnoedd, ar y llaw arall. Felly byddai'n arferol i *Nant Peris* fod yn enw ar gwm, a *Nantperis* yn enw ar bentref. Mae'n dilyn felly, fod, yn rhaid sicrhau bod natur yr hyn y mae unrhyw enw yn cyfeirio ato yn glir o'r cychwyn cyntaf.
- 10 Rhaid hefyd benderfynu ar gorpws o enwau i'w safoni. Mae'r Arolwg Ordnans wedi darparu rhestr o oddeutu 3,400 enw sy'n cyfeirio at leoliadau yn y Parc ei hun neu ar ei gyrion. Fel prosiect peilot, fe ystyriwyd oddeutu 200 o enwau llynnoedd. Ond gall y bydd edrych ar ddisbarthiadau eraill o enwau yn amodi'r awgrymiadau a wneir yn sgil y gwaith hwnnw.
- 11 Mae cwestiynau pellach yn codi pan fo mwy nag un enw ar leoliad penodol. Gall hyn ddigwydd am nifer o resymau ac nid o anghenraid oherwydd bodolaeth mwy nag un iaith.
- 12 Gellir cael mwy nag un enw Cymraeg ar rai safleoedd. Er enghraifft, mae *Llyn Bach* a *Llyn y Tri Greyenyn* yn enwau ar llyn bychan ym Meirionnydd. Er bod y llyn hwnnw wedi diflannu i gryn raddau yn sgil lledu'r ffordd, erys rhan ohono (o leiaf fel ardal o dir gwlyb), ac mae rhan arall bellach yn faes parcio (y defnyddir yr enw 'Mach Loop' amdano yn aml). Mae'n debyg mai *Llyn Bach* yw'r enw mwyaf cyfarwydd ar y llyn hwn. Ond mae llynnoedd eraill yn y Parc sydd yn rhannu'r enw hwnnw. Mae [chwedloniaeth gyfoethog](#) ynghylch yr enw *Llyn y Tri Greyenyn*, er nad yw'r defnydd cyfoes ar yr enw hwnnw yn eang. Fe allai'r chwedloniaeth honno fod o ddiddordeb mewn cyd-destun addysgiadol neu wrth gyflwyno treftadaeth yr ardal i dwristiaid sy'n defnyddio'r marc parcio. A yw hynny'n ystyriaeth wrth bennu enw safonol o safbwynt y Parc a'r pwyslais ar ddiogelu treftadaeth? Mae pennu enw(au) yn yr achos hwn yn gofyn am benderfyniad sy'n benodol i amgylchiadau'r safle.

- 13 Pan fo mwy nag un enw ar nodwedd, nid yw bob tro yn gwbl glir beth yw iaith yr enwau hynny. Er enghraifft, mae'n gwbl amlwg mai enw Cymraeg yw *Bwlch Gorddinan* (rhwng Blaenau Ffestiniog a Dolwyddelan). Ond beth am y *Crimea*? Mae hwnnw'n enw cyffredin iawn ar lafar gan siaradwyr Cymraeg ers ymhell dros ganrif, felly onid yw yntau'n enw Cymraeg? Ynteu a ddylid ei ystyried yn enw Saesneg? Gellid, er enghraifft, gynnig bod dau enw ar y bwch hwn, a'r ddau enw'n rhai Cymraeg: *Bwlch Gorddinan* a *Bwlch y Crimea*. Neu fe ellid penderfynu bod dau enw, a'r naill yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg: *Bwlch Gorddinan* a *Crimea Pass*. Neu fe ellid penderfynu argymhell un ffurf yn unig ar gyfer defnydd swyddogol (er y dylid pwysleisio nad yw hynny'n golygu bod rhaid anghymeradwyo'r ffurf arall).
- 14 Mewn rhai achosion gall y bydd tystiolaeth o ddefnydd o fwy na dau enw dros gyfnod helaeth o amser. Er enghraifft, mae tystiolaeth gref i ddangos mai *Llyn Myngul* yw enw hanesyddol y llyn enwog ym mhlwyf Tal-y-llyn ym Meirionnydd (gan nodi hefyd fod nifer o amrywiadau diweddarach ar y ffurf honno, e.e. *Llyn Mwyngul*, *Llyn Mwyngil* etc.). Ond ar lafar yn Gymraeg, mae *Llyn Tal-y-llyn* yn fwy cyfarwydd, a *Tal-y-llyn Lake* sydd yn arferol yn Saesneg (nid yw **Myngul Lake* neu **Lake Myngul* etc. byth yn digwydd). Felly a oes tri enw yma, ynteu dau? Ac os felly, pa ddau? A yw *Llyn Tal-y-llyn* yn gynnrych dylanwad yr enw Saesneg *Tal-y-llyn Lake*? Mae'n bosibl, ond mae nifer o lynnoedd wedi eu henwi mewn modd tawtolegol ar y patrwm *llyn* + elfen sy'n cynnwys yr elfen *llyn*, e.e. *Llyn Bodlyn*, *Llyn Hiraethlyn*.
- 15 Mae cyfieithu enwau lleoedd Cymraeg i'r Saesneg yn digwydd ers canrifoedd. Weithiau, nid yw'r cyfieithiad yn datblygu i fod yn enw priod. Ond weithiau fe ddaw cyfieithiad i gael ei ystyried yn enw yn ei hawl ei hun. Er enghraifft, mae *Llyn Barfog* ym Meirionnydd yn cael ei alw'n *Bearded Lake* yn Saesneg ers hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg (o leiaf) ac yn ymddangos ar fapiau'r AO. Sut y mae dewis a yw'n briodol arddel cyfieithiadau o'r fath? Dau faen prawf posibl yw: (i) oedran y cyfieithiad (hynny yw, pryd y dechreuwyd ei ystyried yn enw ar safle), a (ii) amllder ei ddefnydd heddiw. Gellid hefyd benderfynu ymwrthod â chyfieithiadau yn llwyr, er gwaethaf y defnydd helaeth sydd ar rai ohonynt.

- 16 Wedyn mae enwau Saesneg nad ydynt yn gyfieithiadau. Mae nifer o'r rhain yn mynd yn ôl i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg neu'r ddeunawfed ganrif, os nad ynghynt, e.e. *Devil's Kitchen* am *Twll Du*, *Bala Lake* am *Llyn Tegid*, *Fairy Glen* am *Ffos Anoddun*. Nid yw'n amhosibl i'r enw Saesneg fod yn hŷn na'r enw Cymraeg cyfredol, fel yn achos *Happy Valley* a *Cwm Maethlon* ym Meirionnydd (*Cwm Dyffryn Gwyn* gynt). Ond mae nifer o enwau eraill yn y categori hwn sy'n fathiadau llawer mwy diweddar. Eto, bydd angen penderfynu i ba raddau y dymunir arddel enwau Saesneg o'r fath, neu beidio.
- 17 Mae enwau sy'n ymwneud â mynydda yn rhan amlwg o dirwedd ieithyddol y Parc a nifer o'r rhain yn rhai a fathwyd yn Saesneg. Nid yw'n amlwg bob tro a oes enwau Cymraeg ar bob un o'r nodweddion hyn, neu, os oes enwau Cymraeg yn bodoli, gall fod y rheini wedi eu llunio yn ymateb i fodolaeth enwau Saesneg. Er enghraifft, ymddengys fod yr enwau *Cenotaph Corner* a *Pillar of Elidir* yn ddringfeydd neu'n 'is-greigiau' ar greigiau mwy sylweddol (Dinas y Gromlech a Chraig Cwrwgl, yn eu tro). Ond nid yw'n amlwg a oes enwau Cymraeg penodol arnynt. (Dyma un maes lle y mae angen rhagor o ymchwil.) Felly nid yw enwau Saesneg o anghenraid yn 'disodli' enwau Cymraeg – mae'r berthynas rhwng y ddwy iaith yn gymhleth. Hyd yn oed mewn achos nodwedd sydd ar raddfa fawr megis *Nantlle Ridge* (dyweder) nid yw'n glir a yw *Crib Nantlle* yn enw 'gwreiddiol' neu'n gyfaddasiad a luniwyd i gyfateb i fodolaeth *Nantlle Ridge*, term a ddefnyddir yn arbennig ym maes mynydda a cherdded. Eto, gallai rhagor o ymchwil daflu goleuni pellach ar y materion hyn.
- 18 Nid ffurfiau'r enwau yn unig sy'n bwysig ond hefyd sut y'u defnyddir. Dyweder, er enghraifft, fod penderfyniad i gydnabod *Bala Lake* yn ffurf Saesneg ar *Llyn Tegid*. Nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid rhoi statws cyfartal i'r ddwy ffurf. Gallai arwydd nodi 'Llyn Tegid (Bala Lake)', er enghraifft, er mwyn breinio'r Gymraeg. Mewn dogfen Saesneg gellid defnyddio'r enw mewn ystod o ffyrdd, e.e.

'Bala Lake is the largest natural lake in Wales. Bala Lake offers visitors ...'

‘Bala Lake (Llyn Tegid) is the largest natural lake in Wales. Bala Lake offers visitors ...’

‘Llyn Tegid (Bala Lake) is the largest natural lake in Wales. Llyn Tegid offers visitors ...’

Mae hyn yn fater o bolisi golygyddol yn gymaint ag o safoni enwau.

- 19 Cyfeiriwyd yn benodol yn §14–18 uchod at wahanol fathau o gyd-destunau lle y mae enwau Saesneg yn bodoli ar y cyd ag enwau Cymraeg. Nodwyd gan hynny fod gwahanol batrymau i’w cael o ran enwau Saesneg yn y Parc. Ond wrth gwrs, gall y byddai’r Parc yn dymuno ystyried y defnydd o enwau lleoedd Saesneg mewn modd mwy holistaidd na hynny, gan gynnwys y defnydd o enwau o bwys sylfaenol megis Eryri/Snowdonia a’r Wyddfa/Snowdon.

Dylan Foster Evans

Medi 2021

Safoni Enwau Llynnoedd Parc Cenedlaethol Eryri a'r Cyffiniau

- 1 Dyma restr o argymhellion ar gyfer safoni enwau llynnoedd y Parc a'r cyffiniau. Lluniwyd y rhestr ar sail data gan yr Arolwg Ordnans a'r enwau sydd yn RhELI/Gazetteer.
- 2 Y bwriad, maes o law, yw cyflwyno'r rhain i Banel Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg.
- 3 Mae'r enwau mewn blychau llwyd golau yn rhai yr ystyrir y bydd angen rhagor o drafod arnynt. Yn aml, bydd angen gwybodaeth leol er mwyn pennu'r ynganiad (e.e. 'Llyn Dubach', 'Llun Du-bach' ynteu 'Llyn Du Bach') neu'r ffurf (e.e. mae nifer o enwau tawtolegol megis '[Llyn] Hiraethlyn', '[Llyn] Bodlyn'; mae angen deall beth yw'r ffurf arferol yn lleol). Mae'r enwau nad ydynt mewn blychau llwyd yn rhai y rhagwelir na fydd angen eu trafod mewn manylder.
- 4 Oni bai bod rheswm da, mae'r ffurfiau a argymhellir yn dilyn yr hyn sydd yn RhELI/Gazetteer. Fodd bynnag, mae'r rhestr honno yn gymharol fyr ac mae nifer sylweddol o enwau llynnoedd sydd yn digwydd ar restr yr Arolwg Ordnans heb eu cynnwys yn RhELI/Gazetteer.
- 5 Dylid pwysleisio mai gwaith ailadroddol yw safoni enwau, a gall y bydd trafodaethau diweddarach yn golygu y bydd angen ailystyried ambell enw maes o law. Mae enwau llynnoedd yn aml yn cynnwys elfennau sy'n enwau afonydd, copaon neu nodweddion tirweddol eraill, felly wrth safoni enwau yn y categorïau hynny bydd angen cadw golwg ar benderfyniadau cynharach.
- 6 Sylwer bod nifer o lynnoedd yn rhannu'r un enw, e.e. Llyn y Morynion, Llyn y Dywarchen, Llyn Glas, Llyn Du etc.
- 7 Noder mai 'llynnau' yw'r ffurf luosog arferol mewn enwau lleoedd yn yr ardal dan sylw, er mai 'llynnoedd' yw'r ffurf sydd yn fwyaf arferol yn yr iaith safonol heddiw.
- 8 Prin yw'r enwau Saesneg ar lynnoedd. Yn achos 'Bala Lake' a 'Bearded Lake', er enghraifft, bydd angen i'r Parc ystyried sut y bydd yn ymagweddu at enwau fel hyn ac enwau Saesneg ar nodweddion tirweddol eraill.

Ffurf safonol (argymhelliad)	Ffurf Saesneg (x os nad oes ffurf Saesneg)	Ffurf y RhELI/ Gazetteer (\ os yr un â'r ffurf safonol; x os nad yw yn RhELI/Gazetteer)	Arolwg Ordnans (Cymraeg) (\ os yr un â'r ffurf safonol)	Arolwg Ordnans (Saesneg) (x os nad oes ffurf Saesneg)	Lleoliad
Bodlyn	x	\	Llyn Bodlyn	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793233
Creiglyn Dyfi	x	\	\	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793641
Glaslyn	x	x	\	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074818937
Gloywlyn	x	\	Gloyw Lyn	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074797797
Hiraethlyn	x	\, Llyn Hiraethlyn gw. Hiraethlyn	Llyn Hiraethlyn	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793233
Llyn Anhafon	x	\	Llyn Anafon	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793748
Llyn Aran	x	\	Llyn Arran	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793735
Llyn Arennig Fach	x	\	Llyn Arenig Fach	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/doc/4000000074793486
Llyn Arennig Fawr	x	\	Llyn Arenig Fawr	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/doc/4000000074793436

Llyn Bach [Rhyd-y-main]	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793597
Llyn Bach [Nant Peris]	x	x	Llyn Bâch	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793290
Llyn Barfog	Bearded Lake]]	Bearded Lake	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074807498
Llyn Bochlwyd	(Australia Lake)]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793787
Llyn Bodgynydd (Llyn Bodgynydd Mawr)	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793287
Llyn Bodgynydd Bach	x	x	x	x	
Llyn Bodwenni	x	x	Llyn Bodweni	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793279
Llyn Bowydd	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793698
Llyn Bryn-du	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793602
Llyn Bwrw-eira	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793329
Llyn Bwrw-eira Pellaf	x	x	Llyn Bwrw-eira-pellaf	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793444

Llyn Bychan	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793328
Llyn Caerwych	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793236
Llyn Cau	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793693
Llyn Clogwyn-brith	x	Llyn Clogwyn Brith	Llyn Clogwyn-brith	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793240
Llyn Clyd	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793200
Llyn Clyd Bach	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793199
Llyn Coch [Rhyd-ddu]	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793244
Llyn Coch [Blaenau Ffestiniog]	x]	Llyn Côch	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793324
Llyn Coety	x	x	Llyn Coedty	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793897
Llyn Conglog	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793283
Llyn Conglog Bach	x	x	Llyn Conglog-bâch	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793527

Llyn Conglog Mawr	x	x	Llyn Conglog-mawr	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793526
Llyn Conwy	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793645
Llyn Corn-stwc	x	x	Llyn Corn-ystwc	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793826
Llyn Corsybarcud	x	∩	Llyn Cors-y-barcud	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793528
Llyn Corun	x	x	Llyn y Coryn	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793704
Llyn Cowlyd	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793981
Llyn Crafanc	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793360
Llyn Crafnant	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793745
Llyn Craig-y-tân	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793365
Llyn Croesor	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793239
Llyn Crych-y-waun	x	∩	Llyn Grych-y-waun	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793320

Llyn Cwm-bach	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793442
Llyn Cwmbychan	x]	Llyn Cwm Bychan	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793737
Llyn Cwmcorsiog	x]	Llyn Cwm-corsiog	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793285
Llyn Cwmdulyn [Nebo]	x]	Llyn Cwm Dulyn	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793653
Llyn Cwm-y-foel	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793241
Llyn Cwellyn	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793401
Llyn Cwmffynnon	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793703
Llyn Cwmhosan	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793696
Llyn Cwm-mynach	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793190
Llyn Cwmorthin	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074818340
Llyn Cwm-y-foel	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793241

Llyn Cwmystradllyn	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793565
Llyn Cynwch	x	Llyn Cnwch; Llyn Cynwch, gw. Llyn Cnwch]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793189
Llyn Cyri	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793733
Llyn Cywion	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793242
Llyn Dinas	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793492
Llun Du [Pren-teg]	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793443
Llyn Du [Trawsfynydd]	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793825
Llyn Du [Bronaber]	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793736
Llyn Dubach [Llan Ffestiniog]	x	x	Llyn Dubâch	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793395
Llun Dubach [Maenofferen]	x]	Llun Du-bâch	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793783
Llyn Dulyn [Llanenddwyn]	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793231

Llyn Du'r Arddu	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793330
Llyn Dwythwch	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793448
Llyn Dyrnogydd	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793194
Llyn Edno	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793326
Llyn Eiddew Bach	x	∩	Llyn Eiddew-bach	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793235
Llyn Eiddew Mawr	x	∩	Llyn Eiddew-mawr	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793191
Llyn Eigiau	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793660
Llyn Elsi	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793833
Llyn Foeldinas	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793595
Llyn Ffridd-y-bwlch	x	∩	Llyn Ffridd(-y-bwlch)	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793827
Llyn Ffynhonnau	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793447

Llyn Ffynnon-y-gwas	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793331
Llyn Gafr	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793780
Llyn Garnweddwen	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793281
Llyn Geirionnydd	x	∩	Llyn Geirionnydd	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793368
Llyn Gelli-gain	x	∩	Llyn Gelli-Gain	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793738
Llyn Glan-gors	x	x	Llyn Glangors	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793367
Llyn Glas [Blaenau Ffestiniog]	x	∩	Llyn Glâs	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793651
Llyn Glas [Rhyd-ddu]	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793289
Llyn Glas [Nant Peris]	x	x	Llyn Glas	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074817207
Llyn Goddionduon	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793286
Llyn Gwernan	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793822

Llyn Gwynant	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793568
Llyn Hafod-y-llyn	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793564
Llyn Hesgin	x	∩	Llyn Hesgyn	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793393
Llyn Hywel	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793695
Llyn Idwal	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793160
Llyn Irddyn	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793232
Llyn Iwerddon	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793284
Llyn Jericho	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793188
Llyn Llagi	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793439
Llyn Llennyrch	x	∩	Llyn Llennyrch	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793488
Llyn Llydaw	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793937

Llyn Llymbren	x	}, Llyn Lliwbrân, gw. Llyn Llymbren	Llyn Lliwbran	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793278
Llyn Llywelyn	x	x	}	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793566
Llyn Mair	x	}	}	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793563
Llyn Myngul	Tal-y-llyn Lake	}	Llyn Mwyngil	Tal-y-llyn Lake	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793692
Llyn Nadroedd	x	}	}	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793288
Llyn Nantlle Uchaf	x	x	}	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074794829
Llyn Newydd	x	x	}	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793784
Llyn Ogwen	x	}	}	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793159
Llyn Owen y Ddôl	x	x	Llyn Owen-y-ddôl	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793789
Llyn Padarn	x	}	}	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/doc/4000000074793847
Llyn Pandy	x	x	}	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793441

Llyn Penaran	x	x	Llyn Pen Aran	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793642
Llyn Pencraig	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793196
Llyn Penffriddnewydd	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793204
Llyn Penmoelyn	x	x	Llyn Pen Moelyn	x	
Llyn Penygwryd	x	x	Llyn Pen-y-gwryd	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793656
Llyn Perfeddau	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793694
Llyn Peris	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074795845
Llyn Pryfed	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793781
Llyn Pwlllygele	x	x	Llyn Pwll-y-gele	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793643
Llyn Ruck	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793644
Llyn Sarnau	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793197

Llyn Serw	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793599
Llyn Stwlan	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793193
Llyn Tan-y-graig	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074807127
Llyn Tecwyn Isaf	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793321
Llyn Tecwyn Uchaf	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793529
Llyn Tegid	Bala Lake	∩, Bala Lake, gw. Llyn Tegid	∩	Bala Lake	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793882
Llyn Terfyn	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793325
Llyn Teyrn	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793702
Llyn Tomos Lewis	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793657
Llyn Trawsfynydd	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074790545
Llyn Trefor	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074810566

Llyn Tryweryn	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793524
Llyn Twr-glas	x	x	Llyn Twr-glâs	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793782
Llyn Tynymynydd	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793198
Llyn Wylfa	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793187
Llyn y Bi	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793648
Llyn y Biswail	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793327
Llyn y Cefn	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793438
Llyn y Cŵn	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793788
Llyn y Drum	x	x	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793437
Llyn y Drum Boeth	x	x	Llyn y Drum-boeth	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793874
Llyn y Dywarchen [Llan Ffestiniog]	x	∩	∩	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793598

Llyn y Dywarchen [Rhyd-ddu]	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793400
Llyn y Dywarchen [Trawsfynydd]	x	x	Llyn Dywarchen	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/doc/4000000074793234
Llyn y Fawnog	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793280
Llyn y Fedw	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793237
Llyn y Fign	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793596
Llyn y Foel	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793567
Llyn y Frân	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793647
Llyn y Frithgraig	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793649
Llyn y Gadair [Rhyd-ddu]	x]	Llyn y Gader	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793243
Llyn y Gadair [Dolgellau]	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793779
Llyn y Garn	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793525

Llyn y Garnedd	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793530
Llyn y Garnedd Uchaf	x	x	Llyn y Garnedd- uchaf	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793531
Llyn y Graig Wen	x	x	Llyn y Graig-wen	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793364
Llyn y Garreg Wen	x	x	Llyn Gareg-wen	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/doc/4000000074793323
Llyn y Gaseg Fraith	x	x	Llyn Caseg-fraith	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793786
Llyn y Gors	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793600
Llyn y Manod	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793740
Llyn y Morynion [Llan Ffestiniog]	x]	Llyn Morwynion	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793396
Llyn y Morynion [Bronaber]	x]	Llyn Morwynion	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793697
Llyn y Parc	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793195
Llyn y Tomla	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793646

Llyn y Wrach	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793205
Llyn y Wrysgan	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793238
Llyn yr Adar	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793366
Llyn yr Arddu	x	x]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793282
Llyn yr Oerfel	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793394
Llynnau Barlwyd	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793828
Llynnau Cerrig-y-myllt	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793440
Llynnau Cregennen	x]]	x	http://data.ordnancesurvey.co.uk/id/4000000074793823
Bydd newid defnydd o wasanaeth neu gyfleuster cymunedol yn cael ei wrthod oni bai y gellir dangos nad yw'r potensial am ddefnydd parhaus o'r cyfleuster yn hyfyw neu addas.

Polisi Datblygu 18: Yr iaith Gymraeg a ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau (18)

Wrth bennu'r holl geisiadau cynllunio o fewn y Parc Cenedlaethol bydd anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg yn cael eu hystyried. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- i. Gefnogi datblygiad sy'n cynnal neu'n gwella integreidd yr iaith Gymraeg.
- ii. Gwrthod datblygiad fyddai, oherwydd ei faint, graddfa neu leoliad, yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned. Er mwyn gallu gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth am geisiadau a allai gael effaith ar ddyfodol yr iaith Gymraeg o fewn cymunedau, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno:
 - a) 'Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol' i fynd gyda cais cynllunio am safleoedd ar hap annisgwyl ar gyfer 5 neu fwy o unedau preswyl; datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristaidd sy'n ymestyn dros 1000m² neu fwy; datblygiad sy'n debygol o arwain at golli cyfleusterau cymunedol neu gyfleoedd cyflogaeth a datblygiad twristiaeth sy'n creu deg neu fwy o unedau gwyliau.
 - b) Asesiad mwy manwl ar ffurf 'Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol' i fynd gyda'r cais cynllunio ble fo datblygiadau ar raddfa fwy. Yn yr achos hwn, ystyrir bod datblygiadau mwy yn gynigion sy'n llawer iawn uwch na'r trothwyon a amlinellwyd ym maen prawf (a) ac maent yn debygol o gael eu lleoli ar safleoedd heb eu neilltuo, meddu ar ryw arwyddocâd y tu hwnt i ffin y Parc Cenedlaethol a sydd ddim yn perthyn i bolisiau penodol yn y Cynllun.
- iii. Lliniaru rhag effaith andwyol trwy ei gwneud yn ofynnol dan yr amgylchiadau priodol am gyfraniad ariannol trwy gyfrwng cytundeb Adran 106.
- iv. Annog yr holl arwyddion gan gyrrff cyhoeddus a gan gwmnïau masnachol a busnes i fod yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg yn unig i amddiffyn a hyrwyddo amwynder diwylliannol nodedig y Parc Cenedlaethol.
- v. Annog defnydd o enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd ac enwau tai a strydoedd.

Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H)

Er mwyn creu a chadw economi wledig gynaliadwy bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn:

- i. Diogelu safleoedd cyflogaeth allweddol presennol yn y Bala, Dolgellau a Harlech.
- ii. Cefnogi datblygiad cyflogaeth a busnes newydd a chadw'r ddarpariaeth cyflogaeth presennol yn y canolfannau gwasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd. Rhaid i faint a graddfa'r datblygiad fod yn gymesur â maint a swyddogaeth yr anheddiad.
- iii. Hyrwyddo ailddefnyddio tir neu adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio neu ddim yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion economaidd neu gyflogaeth.
- iv. Cefnogi'r sector amaethyddol a chyfleoedd am arallgyfeirio gwledig nad yw'n cael effaith negyddol ar 'Rinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.
- v. Cefnogi twristiaeth a gweithgaredd hamdden sy'n sicrhau'r buddiannau economaidd lleol uchaf, yn lleihau i'r eithaf yr effaith amgylcheddol, a diogelu 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.
- vi. Cefnogi cynigion a fyddai'n darparu isadeiledd cefnogol addas i gynnal a hyrwyddo'r economi leol.
- vii. Cefnogi unedau byw-gweithio a gweithio o'r cartref.

Caniateir ceisiadau ar gyfer ailddefnyddio tir neu adeiladau cyflogaeth presennol (heblaw safleoedd cyflogaeth allweddol) ar gyfer pwrpasau eraill pan fo:

- viii. Y defnydd newydd yn achosi gwelliant sylweddol i'r amgylchedd sy'n gorbwyso'r golled o dir cyflogaeth, neu
- ix. Nad yw cadw'r cyflogaeth neu fusnes bellach yn ddichonadwy ac ni ellir ei ailddefnyddio ar gyfer pwrpasau cyflogaeth tebyg neu amgen a hysbysebwyd y potensial cyflogaeth ar y farchnad am o leiaf blwyddyn.

Polisi Datblygu 19: Gwaith newydd a datblygu hyfforddiant (19)

O fewn neu gerllaw i brif ardal adeiledig canolfan wasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd bydd y mathau a ganlyn o ddatblygiadau ar gyfer dibenion gwaith a hyfforddiant ar raddfa fach yn briodol:

- i. Ail-ddefnyddio adeiladau presennol lle mae gan yr adeilad ddigon o dir a lle storio ynghlwm iddo ar gyfer anghenion swyddogaethol y defnydd arfaethedig.
- ii. Ymestyniad o gyfleuster neu fusnes sy'n bodoli'n barod.
- iii. Adeiladau newydd pan nad oes unrhyw le addas ar gael yn y cyffiniau.

Fel eithriad, yng nghefn gwlad, bydd datblygiadau newydd ar gyfer dibenion gwaith a hyfforddiant ar raddfa fach yn briodol pan:

- iv. Mae graddfa a dyluniad y datblygiad gan gynnwys ei osodiad yn parchu ac yn gwarchod cymeriad y dirwedd ac nid yw'n cael effaith andwyol ar y Parc Cenedlaethol.
- v. Rhoddwyd tystiolaeth gadarn i ddangos nad oes unrhyw safleoedd eraill addas ar gael.
- vi. Mae'r lleoliad yn gynaliadwy o ran gweithlu lleol.
- vii. Mae'n defnyddio'r gweithlu lleol.

Bydd trosi adeilad presennol ar gyfer gwaith ar raddfa fach ac ar gyfer dibenion hyfforddi er mwyn diwallu anghenion lleol yn addas pan:

- viii. Fo adeiladwaith adeilad yn gadarn ac mae'n bosibl ei drosi heb orfod cyflawni gwaith ail adeiladu sylweddol neu heb orfod ail adeiladu'r adeilad gwreiddiol yn gyfan gwbl.
- ix. Nad yw trosi a defnyddio'r adeilad neu ddefnyddio'r tir sydd o'i gwmpas ar gyfer darparu mynediad, cyfleusterau parcio, strwythurau atodol, cyfleusterau ar-safle neu fannau storio yn effeithio yn andwyol o gwbl ar gymeriad yr ardal.
- x. Mae digon o dir a lle storio ar gyfer anghenion swyddogaethol y defnydd arfaethedig gan gynnwys parcio.
- xi. Mae'n cyd-fynd gyda Pholisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig.

Polisi Datblygu 27: Parth Menter Eryri (27)

Bydd angen cynhyrchu prif gynllun amlinellol a arweinir gan dirwedd ar gyfer safleoedd Llanbedr a Thrawsfynydd a chytuno arnynt gyda'r Awdurdod. Bydd y prif gynllun yn cynnwys briff datblygu, datganiad dylunio, ac atodlen sy'n nodi'r broses o ddatblygu a gwella'r seilwaith cysylltiedig sy'n ofynnol ar gyfer pob cam, cyn i unrhyw ddatblygiad ddechrau.

Bydd angen i'r prif gynllun amlinellol gael ei gefnogi gan asesiad tirwedd ac effaith weledol a dangos sut y bydd lleoliad, graddfa, dyluniad a chymeriad y datblygiad yn lleihau'r effeithiau andwyol ar gymeriad tirwedd, amwynderau gweledol, amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

A. Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n unol â rhannau B a C o'r polisi hwn yn cael eu cefnogi o fewn Parth Menter Eryri cyn belled â bod y meini prawf a ganlyn yn cael eu diwallu -

- i. Mae'r dyluniad yn gydlynol ac o safon uchel ac yn ymateb yn bositif i'r lleoliad tirwedd a gweledol sensitif a Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol.
- ii. Bod gosodiad, uchder, ffurf a graddfa'r deunyddiau a'r defnydd o liw o fewn y datblygiad yn ei helpu i ymdoddi i'r dirwedd ac yn lleihau'r effeithiau andwyol sylweddol ar gymeriad y dirwedd ac amwynderau gweledol.
- iii. Mae cynigion datblygu wedi cael eu hystyried gan ystyried gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd a chanfuwyd eu bod yn cydymffurfio.

- iv. Mae'r datblygiad ar y naill safle a'r llall yn unol ag amlinelliad o brif gynllun ar gyfer y safle hwnnw.
- v. Mae'r datblygiad cyflogaeth yn gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu lleol presennol.
- vi. Nid yw'r datblygiad ar y naill safle a'r llall yn cael unrhyw effaith annerbyniol ar y warchodfa awyr dywyll.

B. Llanbedr

O fewn y Dynodiad Parth Menter yn Llanbedr a nodwyd ar y mapiau cynigion, bydd y defnyddiau canlynol yn cael eu derbyn:

- gweithrediadau a defnyddiau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant awyrennau a awyrofod, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â seilwaith a gwasanaethau maes awyr a rheoli gofod awyr;
- defnydd newydd gan gynnwys defnydd cyflogaeth (B1, B2, B8) a defnyddiau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith ymchwil a datblygu (yn cynnwys diwydiannau awyrennau ac awyrofod),
- dibenion hyfforddiant ac addysg sy'n gysylltiedig â chyflogaeth;
- defnyddiau ategol eraill i'r defnydd a nodir uchod gan gynnwys llety, arlwyo a hamdden.

Dylid cyfeirio cynigion datblygu tuag at yr ardal ffocws ddangosol. Pan fydd datblygiad yn cael ei gynnig y tu allan i'r ardal hon, dylid bodloni'r meini prawf canlynol:

- bydd yn rhaid i gynigion manwl ddangos bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys mesurau lliniaru perygl llifogydd cymeradwy a derbyniol y cytunwyd arno gyda CNC;
- nid oes effeithiau sylweddol annerbyniol ar y dirwedd nac amwynderau gweledol;
- cyflwynwyd digon o dystiolaeth bod y safle'n dangos yr effaith leiaf ar y dirwedd, amwynderau gweledol, treftadaeth amgylcheddol a diwylliannol;
- nid yw'r datblygiad wedi'i leoli mewn ardal a fydd yn atal defnyddio'r brif redfa;
- ni ddylai'r datblygiad effeithio'n andwylol ar gyfanrwydd safleoedd dynodedig Ewropeaidd;
- cyflwynwyd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau pam na ellir lleoli'r datblygiad yn yr ardal ffocws ddangosol.

C. Trawsfynydd

O fewn neu yn union cyfagos at ddyraniad Parth Menter Eryri yn Nhrawsfynydd, bydd y defnyddiau canlynol yn cael eu derbyn:

- gwaith a defnyddiau sy'n gysylltiedig â gwaith datgomisiynu niwclear;
- defnyddiau newydd gan gynnwys B1, B2, B8 a defnyddiau eraill sy'n gysylltiedig â busnesau digidol / TGCh;
- busnesau ynni carbon isel a thechnolegau cynhyrchu ynni;
- Ymchwil a Datblygu (sy'n gysylltiedig â sectorau amgylcheddol, TGCh, Ynni) a;
- dibenion hyfforddiant ac addysg sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

Petai'r datblygiad arfaethedig yn dod o dan ddiffiniad o ddatblygiad mawr, bydd yn cael ei ystyried yn erbyn Polisi Strategol B: Datblygiadau Mawr gan yr Awdurdod.

Polisi Datblygu 20: Arallgyfeirio Amaethyddol (20)

O fewn y Parc Cenedlaethol rhoddir cefnogaeth i gynigion arallgyfeirio amaethyddol, sy'n helpu i gadw'r fferm yn hyfyw ac yn hyrwyddo pwrpasau'r Parc Cenedlaethol, pan:

- i. Fo'r datblygiad yn ffurfio rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol.
- ii. Fo'r cynnig yn eilradd i'r defnydd a wneir o weddill y tir ar y fferm i gynhyrchu da byw neu gnydau.
- iii. Fo'r cynllun yn cael ei gynnal ar ddaliad sydd wedi'i gofrestru'n fusnes amaethyddol.
- iv. Fo'r datblygiad yn cydymffurfio gyda Pholisi Datblygu 9.

Pan fo angen adeilad newydd er mwyn cynnal y cynllun arallgyfeirio, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod yr ymgeisydd yn dangos nad yw'n ymarferol ailddefnyddio'r adeilad presennol. Pan nad yw'n ymarferol ailddefnyddio adeilad presennol, bydd raid i unrhyw adeilad newydd:

- v. Fod yn hanfodol yn unswydd er mwyn gweithredu'r cynnig cynllun arallgyfeirio arfaethedig.
- vi. Fod o fath ac o faint sy'n adlewyrchu natur y cynnig arallgyfeirio.

Os bodlonir y gofynion hyn, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio amodau ar y caniatâd cynllunio neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ymrwymo i gytundeb cyfreithiol i sicrhau bod yr adeilad newydd yn cael ei glymu am byth wrth y daliad amaethyddol.

Polisi Strategol I: Twristiaeth (I)

Er mwyn creu a chynnal twristiaeth gynaliadwy neu eco o fewn y Parc Cenedlaethol ac ymestyn y cyfnod pan fo twristiaid yn ymweld tra'n gwarchod a gwella tirwedd y Parc Cenedlaethol a'i rinweddau arbennig bydd yr Awdurdod yn:

- i. Cefnogi datblygiad hamddena a thwristiaeth sy'n seiliedig ar egwyddorion twristiaeth gynaliadwy.
- ii. Adnabod a hyrwyddo ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol ar gyfer denu ymwelwyr tra'n sicrhau nad yw 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol yn cael eu heffeithio.
- iii. Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o gludiant ar gyfer ymwelwyr i ac o'r Parc Cenedlaethol.
- iv. Cefnogi'r diwydiant llety a trwy annog gwelliant yng nghynaliadwyedd ac ansawdd y lletai presennol ar gyfer ymwelwyr.
- v. Annog cynigion sy'n hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol yn cynnwys cynigion a fydd yn cynorthwyo pobl anabl.

Polisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamddena (21)

O fewn y Parc Cenedlaethol diogelir atyniadau twristiaeth presennol ac fe fyddant yn cael eu gwella trwy fabwysiadu egwyddorion twristiaeth gynaliadwy neu eco. Bydd atyniadau twristiaeth newydd a gwella atyniadau presennol yn cael eu cefnogi pan:

- i. Ellir cael mynediad atynt trwy gyfrwng amrywiol ddulliau o deithio, yn enwedig rhai cynaliadwy fel cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus.
- ii. Y'i lleolir yn agos at y brif rwydwaith o ffyrdd a pan nad yw'n achosi cynnydd annerbyniol yn y traffig yn y cyffiniau.
- iii. Na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar 'Rinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.
- iv. Maent yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol, heb niweidio mwynhad tawel, profiad ymwelwyr ac ansawdd bywyd y trigolion lleol.
- v. Mae'r cyfleuster wedi cael ei ddylunio neu ei newid i wella hygyrchedd i bawb, yn enwedig pobl anabl.
- vi. Nid yw'n cael effaith andwyol ar y golygfeydd tuag at neu o'r Parc Cenedlaethol ac nid yw'n creu cynnydd sylweddol mewn llygredd sŵn na golau a allai effeithio yn andwyol ar uniondeb Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri.
- vii. Fydd y cyfleusterau presennol yn cael eu gwella neu pan fo trosi adeilad gwag neu un a dan-ddefnyddir yn cael ei gynnig.

Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Chludiant (L)

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymroddedig i wella mynediad at gyfleusterau lleol a lleihau'r angen i deithio yn enwedig mewn ceir preifat. O fewn y Parc Cenedlaethol bydd cerdded a beicio yn cael ei annog pa bryd bynnag fo hynny bosibl a bydd mynediad at gludiant cyhoeddus a'r ddarpariaeth o gyfleusterau yn cael ei ddarparu.

Cefnogir datblygiad pan:

- i. Leolir y ddarpariaeth o wasanaethau er mwyn lleihau'r angen i deithio.
- ii. Fo mynediad cyfleus trwy gyfrwng llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio a chludiant cyhoeddus, a bod hynny felly yn annog y defnydd o'r dulliau hyn o deithio ar gyfer teithiau lleol ac yn lleihau'r angen i deithio gyda char preifat a gwella mynediad at wasanaethau i'r rhai hynny lle mae cael mynediad i gludiant yn anodd.
- iii. Mae yna welliant o ran yr hygyrchedd i bawb, yn enwedig pobl anabl.
- iv. Nad yw'r newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn niweidio neu'n achosi effeithiau andwyol i HTC adeiladau rhestredig neu henebion hanesyddol, nac yn effeithio yn andwyol ar ddynodiadau amgylcheddol. Rhoddir y flaenoriaeth uchaf i warchod a gwella bioamrywiaeth nodweddiadol Eryri, yn enwedig cynefinoedd a rhywogaethau a ddynodwyd o dan ddeddfwriaeth genedlaethol ac Ewropeaidd. Pan fo hynny'n bosibl, bydd y gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer defnydd ar wahân ar gyfer cerddwyr a beicwyr.
- v. Fydd yn lleihau neu yn cael gwared â thraffig cerbydol o ganol trefi a lle bo'n bosibl o ardaloedd gwledig.
- vi. Nad yw amgylchedd naturiol y parc yn cael ei effeithio yn andwyol.
- vii. Ddarperir cyfleusterau parcio beiciau diogel lle bo hynny'n briodol.

Bydd y Parc Cenedlaethol yn parhau i gefnogi mentrau cludiant a thrafnidiaeth gynaliadwy priodol.

Bydd y llwybrau hamdden a ddynodir ar y mapiau cynigion yn cael eu diogelu rhag datblygiadau eraill a fyddai'n rhwystro eu defnydd fel llwybrau hamdden.

Bydd gwely trac Rheilffordd Corris o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu rhag ffurfiau eraill o ddatblygiad fel ei fod yn gallu cael ei ailsefydlu fel rheilffordd.

Bydd y rhan segur hwnnw o'r rheilffordd sy'n rhedeg o Drawsffynydd i Flaenau Ffestiniog sydd o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu rhag unrhyw ddatblygiad amhriodol a fyddai'n rhwystro defnydd o'r llinell reilffordd fel coridor cludiant yn y dyfodol.

ADRODDIAD O'R GWEITHGOR AELODAU A GYNHALIWDYD AR 19 Mai, 2021**PRESENNOL:****Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**

Cyng Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes (Cadeirydd), Judith Humphreys, Edgar Owen, Elfed Roberts, John Pughe Roberts;

Aelod wedi'i benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyng Philip Capper, Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Helen Pye, Anwen Gaffey;

Ymddiheuriadau

Cyng Gethin Glyn Williams; Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones.
Mr. Dafydd Edwards, Swyddog Adran 151.

1. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

1. Roedd y cyfarfod yn ddarostyngedig i Reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, ac: -
 - nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
 - roedd y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion.
2. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Cyng Freya Bentham wedi ymddiswyddo oddi ar Gyngor Gwynedd, ac felly o ganlyniad, nid oedd bellach yn Aelod ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

2. Datgan Budd

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Gweithgor yr Aelodau a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2021 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel gwir gofnod.

4. Pwrpasau Statudol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Cyflwynwyd - Llythyr gan Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, er gwybodaeth.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr y llythyr a'r cefndir.

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau fod llythyr y Gweinidog mewn ymateb i lythyr y Cadeirydd, a anfonwyd yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod ar 9 Rhagfyr 2020, i ofyn i Lywodraeth Cymru ail edrych ar argymhellion yr Adolygiad o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Chenedlaethol 2015 (Adroddiad Marsden), ac i gynnwys pwrpasau sy'n hyrwyddo llesiant pobl a ffurfiau cynaliadwy o ddatblygiad economaidd a chymdeithasol yn ein

cymunedau, ynghyd â gwarchod a gwella rhinweddau arbennig ein tirweddau a'n bioamrywiaeth. Nododd yr aelodau, yn dilyn yr etholiad Senedd diweddar, y byddai ymateb yr Awdurdod yn cael ei anfon at Julie James AS a oedd bellach yn Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Ystyriodd yr aelodau'r llythyr yn fanwl, a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- dywedodd y cyn-Gadeirydd fod awydd gan Bwyllgor Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru i adolygu pwrpasau'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys yr angen i gryfhau'r trydydd pwrpas. Gan mai dyletswydd yn unig oedd hon, nid oedd pŵer gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i ysgogi lles economaidd a chymdeithasol ei chymunedau, yr oedd pandemig Covid wedi tynnu sylw atynt fel gwendid.
- gan nad oedd y Gweinidog yn gallu gwneud unrhyw ymrwymiadau ar bolisi a deddfwriaeth oherwydd yr etholiadau Senedd sydd ar ddod, dylai'r Awdurdod baratoi ymateb i'r cwestiwn ym mharagraff 5 o'r llythyr, sy'n gofyn am fwy o fanylion ynghylch yr hyn yr oedd APCE yn teimlo y byddai manteision diwygio'r pwrpasau ar hyn o bryd a sut y byddai'n galluogi'r Awdurdod i ymgymryd â gweithgareddau newydd neu weithio'n wahanol. Hefyd, i ba raddau roedd Eryri yn siarad ar ran APCau ac AHNE eraill.
- Gofynnodd yr aelodau i swyddogion: -
 - o drafod profiadau gyda Pharciau Cenedlaethol Yr Alban.
 - o godi'r mater ym Mhwyllgor Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru.
 - o manteisio ar ymrwymiad maniffesto Llafur i greu pedwerydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru - tra'n croesawu bod Llywodraeth Cymru bellach yn cydnabod gwerth y Parciau Cenedlaethol, roedd peth pryder ynghylch cyllid yn y dyfodol.
 - o asesu unrhyw fuddion ôl-covid, goblygiadau Brexit, a chynnwys ystadegau ar gyflogaeth ac incwm, sy'n is na'r cyfartaledd yn y Parciau Cenedlaethol.
 - o ystyried y targedau bioamrywiaeth a hinsawdd cyfredol a'r buddion economaidd i gefnogi busnesau.
- amlinellodd y Prif Weithredwr y broses ar gyfer creu Parc Cenedlaethol newydd, a allai gymryd 5 i 8 mlynedd, a dywedodd mai rôl Cyfoeth Naturiol Cymru oedd gwneud yr argymhelliad.
- dywedodd y Prif Weithredwr fod y ddogfen blaenoriaethau Gwerthfawr a Chydnerth i fod i gael ei chyhoeddi yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf ac y byddai'n cael ei hasesu am ffyrdd i ysgogi'r economi werdd.
- roedd yr Aelod a gyflwynodd y cynnig wedi gwneud hynny er mwyn 'i'r iaith a'r bobl' gael statws cyfartal â'r 'amgylchedd a bioamrywiaeth'.
- cytunodd y Prif Weithredwr i gyflwyno ymateb drafft i Weithgor Aelodau yn y dyfodol, cyn cynnal trafodaethau â sefydliadau eraill.
- darllenodd Aelod ddyfyniad o Adroddiad Marsden fod 'Tirweddau Cenedlaethol Cymru yn cael eu gwerthfawrogi gan y genedl fel "ffatrioedd llesiant" pwysig, gan wella bywydau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol trwy gyfrwng eu tri pwrpas. Mae eu rhinweddau arbennig yn cael eu cynnal, eu gwella a'u gwerthfawrogi'n eang. Maent yn feysydd ar gyfer cydweithrediadau arloesol, wedi'u seilio ar le sy'n mynd i'r afael â'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu Cymru, ac fe'u cydnabyddir yn rhyngwladol fel arweinwyr wrth ddarparu datblygu cynaliadwy ac awgrymwyd y gellid defnyddio hyn i ddangos rhwystrau'r dibenion presennol a sut y gallai dibenion ehangach gyflawni'r weledigaeth hon.
- roedd Aelod yn teimlo bod angen i'r Awdurdod gryfhau'r trydydd pwrpas er mwyn denu busnesau addas i Lanbedr a Thrawsfynydd ac, os oedd cyllid digonol, i alluogi rhedeg cynlluniau grant mwy a chynyddu effeithlonrwydd tra'n cefnogi cymunedau.

PENDERFYNWYD

1. ysgrifennu llythyr o ddiolch i Lesley Griffiths AS am ei gwaith.
2. ysgrifennu at Julie James AS i'w llongyfarch ar ei phenodiad diweddar a darparu ateb daliad yn cynghori bod ymateb llawn yn y broses o gael ei baratoi.
3. adrodd i gyfarfod o Weithgor yr Aelodau yn y dyfodol cyn cynnal trafodaethau pellach gyda chyrff eraill.

5. Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Pennaeth Ymgysylltu i gyflwyno copi o'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd ar gyfer yr Awdurdod ar gyfer adborth.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu'r adroddiad yn fanwl a diolchodd i Aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen Cyfathrebu am eu mewnbwn, a ymgorfforwyd yn y ddogfen. Byddai'r Pennaeth Ymgysylltu yn croesawu mewnbwn pellach gan Aelodau mewn perthynas â'r gynulleidfa darged a negeseuon allweddol.

Ystyriodd yr aelodau'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn fanwl a gwneud yr arsylwadau canlynol: -

- Croesawodd yr aelodau'r ddogfen a oedd yn glir ac wedi'i hysgrifennu'n dda.
- gan gofio sut mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu ac er mwyn cael y neges gywir i San Steffan o safbwynt Cymru, dylai'r gynulleidfa darged wleidyddol gwmpasu mwy nag Aelodau Seneddol Cymru yn unig.
- gallai cynulleidfa darged arall fod yn unigolion heb fawr o wybodaeth am Barciau Cenedlaethol, a pham y cawsant eu creu, gan gofio pwysigrwydd terminoleg ac iaith.
- a fyddai'n fuddiol cynnwys metrig ar sut mae pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn ystyried y Gymraeg ac a yw hyn yn dod yn fwy cadarnhaol dros amser?
- dylai monitro'r defnydd o enwau lleoedd Cymreig fod yn rhan hanfodol o'r Strategaeth.
- a oedd cyfle i ddefnyddio cwricwlwm Donaldson i Gymru gan gynnwys modiwl ar Barciau Cenedlaethol ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd gyda'r pwyslais ar leol?
- trafodwyd ffynonellau newyddion yn fanwl a chytunodd yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb hefyd i rannu straeon newyddion da.
- dylid cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd o dan y canlyniadau cyfathrebu a ddymunir.

PENDERFYNWYD yn ddarostyngedig i nodi'r gwelliannau uchod, i argymhell y dylid cyflwyno'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu i gyfarfod nesaf yr Awdurdod i'w fabwysiadu'n ffurfiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.05

ADRODDIAD O'R GWEITHGOR AELODAU A GYNHALIWDYD AR 30 MEHEFIN 2021

PRESENNOL:

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd

Cyng. Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Owen, Elfed Roberts, John Pughe Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyng. Philip Capper, Ifor Glyn Lloyd, Wyn Ellis Jones;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms Tracey Evans, Mrs Sarah Hattle, Mr Owain Wyn;

Swyddogion

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dafydd Edwards, Elliw Owen, Jane Jones, Geraint Evans, Sion Roberts, Anwen Gaffey;

Ymddiheuriadau

Cyng. Gethin Glyn Williams; Mr. Tim Jones.

1. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd y Gweithgor a dywedodd fod y cyfarfod yn destun Rheoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes:-
 - nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
 - roedd y cyfarfod yn cael ei gofnodi i helpu i wirio'r cofnodion.
2. **Ethol Cadeirydd**
PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Annwen Hughes yn Gadeirydd ar y Gweithgor Aelodau.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.
3. **Datganiad Buddiant**
Yn deillio o drafodaethau annisgwyl, datganodd Mr. Emyr Williams, Mr. G. Iwan Jones a Mr. Dafydd Edwards fuddiant yn eitem 5 ar yr Agenda (pwynt 6 y penderfyniad) a gadawsant y cyfarfod tra'r oedd y mater yn cael ei drafod. Nid oedd Mr. Jonathan Cawley yn bresennol pan oedd y mater yn cael ei drafod ac am y rheswm yma nid oedd yn ofynnol iddo ddatgan buddiant.
4. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Gweithgor yr Aelodau a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

Yn codi yn sgil hynny,

4. Pwrpasau Statudol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd eto wedi cysylltu â Pharciau Cenedlaethol Yr Alban, er ei fod wedi ysgrifennu at Lesley Griffiths AS a Julie James AS. Dywedodd hefyd fod Parciau Cenedlaethol Lloegr yn ceisio cryfhau adferiad natur, a oedd yn gwrthgyferbynnu'n uniongyrchol ag Eryri, a'i fod wedi gofyn am gyfarfod gyda swyddogion o Lywodraeth Cymru i drafod eu barn ar yr hyn a oedd yn cael ei gynig yn Lloegr. Cadarnhaodd fod y Parciau

Cenedlaethol yng Nghymru yn parhau â'u cais i Lywodraeth Cymru i gryfhau'r trydydd pwrpas.

5. **Ariannu 2021-22**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannu'r Awdurdod er mwyn i'r Aelodau wneud penderfyniadau gwybodus ar faterion sy'n ymwneud â staff yr Awdurdod, dyrannu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2021/22 a'r goblygiadau ar gyfer y blynyddoedd canlynol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a gofynnodd i'r Aelodau nodi'r manylion ariannu untro fel yr amlinellir ym mharagraffau 2.2 a 2.3 o'i adroddiad. Dywedodd y Prif Weithredwr yr ymgynghorwyd â'r Prif Swyddog Cyllid a'i fod o hefyd wedi cyfrannu at yr adroddiad.

Yn codi yn sgil hynny, cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid hynny fel yr amlinellir ym mharagraff 2.4.2, fe'i sicrhawyd yn yr un modd gan Swyddogion Llywodraeth Cymru bod y llinell sylfaen, fel y'i haddaswyd, bellach yn barhaol, a'i fod yn llwyr gefnogi'r hyn a oedd yn cael ei gynnig.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad a gwneud y sylwadau canlynol:-

- para. 2.7.3 – Cytunodd yr Aelodau y dylai swyddogion ymchwilio ymhellach i ddiwygio dyfarniad y Panel Gwerthuso Swyddi a newid yr elfen Gymraeg o fod yn 'ofyniad' i 'sgil' a allai wella materion wrth asesu lefel cyflog yn y dyfodol.
- para. 2.7.9 – Cytunodd yr Aelodau y dylai swyddogion gomisiynu gwerthusiad allanol o anghenion yr Awdurdod wrth symud ymlaen. Dylid dyfarnu'r gwaith hwn i sefydliad sector cyhoeddus / awdurdod lleol sydd â phrofiad o faterion o'r fath, yn hytrach na chyflogi ymgynghorwyr o'r sector breifat.
- Sicrhawyd yr Aelodau y byddai'r holl staff, ac eithrio'r Tîm Rheoli, yn cael eu cynnwys yn y gwerthusiad, a chytunwyd y dylid defnyddio'r grant craidd i fynd i'r afael â materion cydnerthedd wrth symud ymlaen.
- Paragraff 2.6.2 - Trafododd yr Aelodau yr angen am hyblygrwydd wrth roi amodau cyflogaeth ar waith. Opsiynau ar gyfer rhannu swyddi gyda sefydliadau / awdurdodau eraill yn yr ardal, dyali'r manteision i rai allu gweithio gartref ac ati, i gyd fod yn ffactorau ar gyfer y dyfodol.
- roedd Aelod, gyda chefnidir mewn recriwtio a chadw staff o'r farn bod y Prif Weithredwr wedi bod yn rhy geidwadol gyda'i ffigurau ym mharagraff 2.7.6., ac er ei fod yn cytuno nad oedd y cyflogau'n gystadleuol, credai nad cyfraddau cyflog yw symbylydd mwyaf pobl o bosibl. Cytunodd y Prif Weithredwr mai amcangyfrif bras yn unig oedd y ffigur ym mharagraff 2.7.6.
- Trafododd yr Aelodau'r diffyg pobl â chymwysterau a phrofiad addas a oedd yn gwneud cais am swyddi gwag gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Teimlai rhai Aelodau, er mwyn cynyddu'r nifer sy'n gwneud cais, y dylai swyddogion ystyried sut y caiff y swyddi eu hysbysebu o ran gofynion iaith. Roedd angen egluro'r angen am lefel benodol o Gymraeg, heb nodi rhuglder a allai ddigalonni rhai pobl, heb gyfaddawdu ar ofynion yr Awdurdod.
- nododd Aelod nad oedd cyfweiliadau ymadael y dangosyddion gorau bob amser o ran pam fod pobl yn gadael cyflogaeth yr Awdurdod. Gall prinder staff roi pwysau ar aelodau presennol y tîm ac erydu eu parodrwydd i gynorthwyo. Efallai mai'r Tâl ac amodau yw'r peth sy'n pennu sut yr aiff pethau yn y pendraw.

- gofynnodd Aelod a oedd yna ddiwylliant yn yr Awdurdod lle nad oedd staff yn teimlo eu bod yn gallu dweud na. Teimlai'r Prif Weithredwr fod y Pecyn Rheoli Prosiect yn ddefnyddiol yn hyn o beth.
- nododd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y byddai graddedigion Cynllunio yn y gorffennol yn anelu at weithio yn y sector gyhoeddus. Nid oedd hyn yn wir bellach, ac yr oedd yr Awdurdod bellach yn gorfod cystadlu â'r sector breifat.
- nododd Aelod fod Archwilio Cymru wedi cyfeirio'n at gadernid yr Awdurdod droeon, a mynegodd farn mai un rheswm, a oedd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod, oedd y cyllid ar gyfer disgyblion Cymru i fynychu Prifysgolion yn Lloegr, sy'n aml yn golygu eu bod yn gadael Cymru ac yn lleihau'r gronfa o ddoniau ymhellach.
- pwysleisiodd Aelod ymhellach fod angen i'r Gymraeg fod yn 'hanfodol' ac nad oedd yn rhwystr i gael y bobl orau ar gyfer y swyddi.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod yn gweithredu system o oriau blynyddol yn y Canolfannau Croeso ac ym Mhlas Tan y Bwlch.
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr y bydd gwaith cefndir yn cael ei wneud dros fisoedd yr haf, y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn gynnar ym mis Medi, ac y byddai'r strwythur cyflog newydd ar waith erbyn Nadolig 2021.
- yn codi yn sgil hynny, trafododd yr Aelodau y pwysau ar y Tîm Rheoli a'r Prif Swyddog Cyllid, nid yn unig o ran gallu i ddelio ag ehangder y gwaith, ond y pwysau ychwanegol ar feysydd penodol. Nid oedd yr Aelodau'n argymhell ystyried y mater ar hyn o bryd, ond cytunwyd ei fod yn fater i'w drafod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

1. **nodi'r sefyllfa mewn perthynas â dyfarniad grant TCLIC ar gyfer 2021/22 (para. 2.1).**
2. **nodi'r sefyllfa mewn perthynas â chyllid refeniw untro ar gyfer 2021/22 (para. 2.2).**
3. **nodi'r sefyllfa mewn perthynas â chyllid cyfalaf untro ar gyfer 2021/22 (para. 2.3).**
4. **comisiynu adroddiad gan sefydliad sector cyhoeddus / awdurdod lleol mewn perthynas â chapasiti staff yr Awdurdod, cadw a recriwtio staff a meingefn cyflog yr Awdurdod (telerau ac amodau'r Llyfr Gwyrdd) (para. 2.7.9) gyda'r ychwanegiad bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn 'sgil' ac nid yn 'ofyniad' wrth symud ymlaen.**
5. **cefnogi, mewn egwyddor, dyrannu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2021/22 a'r goblygiadau ar gyfer y blynyddoedd canlynol (tabl ym mharagraff 2.8.2).**
6. **fel mater ar wahân, i'w ystyried yn annibynnol o'r broses hon, - aros am adroddiad ar gapasiti / rôl y Tim Rheoli maes o law.**

6. Cynllun Datblygu Lleol Eryri – Diweddariad ar Bapurau Cefndir

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cynllunio i drafod a llywio'r gwaith o ddiweddaru papurau cefndir a sylfaen dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Polisi Cynllunio yr adroddiad a'r cefndir a dywedodd y bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Hydref 2021. Gofynnwyd i'r Aelodau am eu harweiniad ar:-

- a oedd swyddogion wedi nodi'r materion cywir a'u goblygiadau i Eryri
- a oedd unrhyw beth wedi'i hepgor, a'r
- meysydd i ymchwilio ymhellach iddynt.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad a'r tabl yn fanwl a gwnaethant y sylwadau canlynol:-

- gofynnodd Aelod sut mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'r hyn y cytunwyd arno eisoes gyda phartneriaid, sef gweithio i ddeall a gwella'r economi gyda Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru a hefyd y gwaith ar dwristiaeth gynaliadwy gyda Chyngor Gwynedd? Dywedodd yr

Uwch Swyddog Cynllunio y byddai gwaith partneriaeth yn cael ei ymgorffori lle byddai hynny'n briodol.

- o ran goblygiadau ariannol yn y dyfodol, a fyddai angen i'r Awdurdod gyfuno adnoddau â sefydliadau eraill? Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio fod swyddogion wedi ymgymryd â gwaith ar hyn o bryd, ond cytunodd, wrth i'r gwaith fynd yn fwy technegol, er enghraifft gwaith rhagamcanu poblogaeth, y byddai'r Awdurdod yn defnyddio arbenigedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddadansoddi'r wybodaeth yn benodol ar gyfer ardal Parc Cenedlaethol Eryri.
- nid oedd poblogaeth a mudo wedi'u cynnwys fel rhan o'r adroddiad ac roedd Aelod yn teimlo bod hwn yn faes a oedd angen gwaith pellach arno. Er ei fod yn cytuno ei bod yn anodd cael y wybodaeth hon ar lefel Parc Cenedlaethol, roedd angen sefydlu'r cefndir er mwyn deall y goblygiadau'n well.
- Trafnidiaeth a Rhwydweithiau - Papur Cefndir 17: gellir gor-edrych cerbydau trydan mewn cymunedau gwledig bach. Dylid cynnwys hyn gan y bydd iddo oblygiadau cynllunio o ran parcio ar ymylol pafin ac ati.
- Amaethyddiaeth a Choedwigaeth: gofynnodd Aelod a oedd goblygiadau yn nhermau tirwedd yn ogystal ag o ran cynllunio i ddefnyddio tir amaethyddol ar gyfer plannu coed ac a ddylid rhoi mwy o flaenoriaeth i hyn nag 'oren' yny tabl? Eglurodd y Prif Swyddog Cynllunio fod y statws yn oren ar hyn o bryd gan fod swyddogion o'r farn bod polisïau arallgyfeirio ffermydd yn ddigon hyblyg, er eu bod yn cytuno y gallai polisïau cenedlaethol newydd ddylanwadu ar hyn ar gyfer y dyfodol, ac er bod angen mwy o wybodaeth, roedd yn fater yr oedd swyddogion yn ymwybodol ohono. Ni allai swyddogion gadarnhau beth oedd y goblygiadau i system gynllunio'r polisïau defnydd tir cenedlaethol newydd a'r potensial ar gyfer newid i dirwedd Eryri.
- cododd Aelod bryderon am duedd newydd lle mae tir amaethyddol yn cael ei brynu gan gwmnïau er mwyn plannu coed a chaniatáu iddynt ddatgan eu bod yn garbon niwtral. Teimlai'r Aelod y dylai arferion o'r fath fod yn destun caniatâd cynllunio er mwyn diogelu tirwedd a bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol. Roedd hyn yn wir hefyd am bobl sy'n prynu annedd-dai i'w troi'n ail gartrefi / gwyliau. Byddai'r duedd hon yn gadael pentrefi yn y Parc Cenedlaethol yn wag dros fisoedd y gaeaf.
- gofynnodd Aelod a yw'r polisïau'n mynd i'r afael ag anghenion pobl sydd bellach yn gweithio gartref ac sydd angen mwy o le fel effaith Covid. Roedd y Prif Swyddog Cynllunio o'r farn bod hyn wedi'i gynnwys ond, os nad oedd, byddai swyddogion yn cynnwys yr angen i edrych ar oblygiadau mwy o bobl yn gweithio gartref.
- dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio nad oedd gan yr Awdurdod bŵer i weithredu o ran newid y defnydd o annedd yn ail gartref neu'n gartra gwyliau ag yr oeddent yn yr un Dosbarth Defnydd. Roedd swyddogion yn lobio'r llywodraeth yn ogystal â chreu polisïau i gefnogi'r defnydd o amodau cynllunio i sicrhau annedd fel prif breswylfa hyd nes y bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r gorchymyn Dosbarth Defnydd.
- gofynnodd Aelod i swyddogion, ar ran yr Aelodau, ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am newid mewn polisi cynllunio fel y byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd annedd i ail gartref neu gartref gwyliau yn y dyfodol. Sicrhodd swyddogion yr Aelod fod cyfathrebu â swyddogion Llywodraeth Cymru ar y mater hwn yn parhau ac y byddai hyn yn golygu newid y ddeddfwriaeth bresennol.
- nododd Aelod ei siom nad oedd trafodaethau'n canolbwyntio ar yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd.
- Trafododd yr Aelodau sesiwn hyfforddi ar gynlluniau lle a gynhaliwyd yn ddiweddar o ran y math o gynllun datblygu a fydd gan yr Awdurdod yn y pen draw a sut y gallai cymunedau lleol gyd-gynhyrchu a rhannu barn ar yr hyn yr hoffent ei weld yn y Cynllun Datblygu Lleol. Cytunodd y Prif Swyddog Cynllunio y byddai'n ffordd dda o ymateb i

ddyheadau'r cymunedau ar gyfer y Cynllun ac y dylai swyddogion asesu sut mae cymunedau am roi eu mewnbwn ac a fyddent am rannu adnoddau.

- Cyflogaeth ac Asesu Tir: gofynnodd Aelod a oedd polisïau'r Awdurdod yn addas i'r diben ac yn ddigon hyblyg i addasu i fusnesau cyfoes lle mae technoleg yn flaenllaw. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod Polisi 19 yn ddigon hyblyg a'i fod yn ardal fenter Eryri wedi'i sefydlu at y diben hwn.
- dywedodd Aelod y byddai dyhead Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn cael ei gyflawni drwy gymryd perchnogaeth o'r iaith drwy'r system gynllunio a dylai hyn fod yn bennaf yn eu cynllun. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio nad oedd yn bosibl gosod amod iaith penodol, ac y byddai swyddogion yn datblygu'r polisïau yn y fath fodd fel bod yr iaith yn greiddiol i'r Cynllun, yn hytrach na dim ond yn atodol.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi'r adroddiad**
- 2. yn ddarostyngedeig bod sylwadau'r Aelodau yn cael eu nodi, mynd ati i fwrw ymlaen â diweddarau papurau cefndir a thystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol, fel yr amlinellwyd.**
- 3. y bydd swyddogion, ar ran yr Aelodau, ynysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am newid mewn polisi cynllunio fel y bydd angen caniatâd cynllunio yn y dyfodol i "newid y defnydd o annedd yn ail gartref neu gartref gwyliau".**

Daeth y cyfarfod i ben am 14. 45



Cofnodion Drafft

YN BRESENNOL:

(PH)	Cyng. Paul Harries	Cadeirydd Parciau Cenedlaethol Cymru (PCC) ac APC Arfordir Penfro (APCAP)
(DC)	Cyng. Di Clements	Dirprwy Gadeirydd APCAP
(TJ)	Tegryn Jones	Ysgrifenyddiaeth PCC, Prif Weithredwr APCAP
(WEJ)	Cyng. Wyn Ellis-Jones	Cadeirydd APC Eryri (APCE)
(AH)	Cyng. Annwen Hughes	Dirprwy Gadeirydd APCE
(EW)	Emyr Williams,	Prif Weithredwr APCE
(JA)	Julian Atkins	Prif Weithredwr APCBB
(SE)	Stephanie Evans	Cyfarwyddwr Pontio, APCBB

Hefyd yn bresennol:

Caroline Llewellyn APCAP

1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU:

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod. Dywedodd ei fod ers y cyfarfod diwethaf, ynghyd â Chadeirydd APC Eryri a Chadeirydd APC Bannau Brycheiniog, wedi cyfarfod â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James. Hefyd roedd wedi mynychu cyfarfodydd Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran PCC, oedd wedi ystyried dogfen ddrafft ar weledigaeth a maniffesto cefn gwlad. Hefyd roedd y Fforwm wedi trafod materion gan gynnwys tai yng nghefn gwlad gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (LIC), y Bil Amaethyddiaeth, cyllid newydd yn lle cyllid yr UE, cytundebau masnach Brexit, y problemau yn y porthladdoedd megis Abergwaun, a'r ddeddfwriaeth newydd ynghylch ffosffadau. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi dod yn ymwybodol o Wal Adduned a grëwyd gan LIC fel rhan o Wythnos Hinsawdd Cymru 2020, ac roedd wedi gofyn i TJ drefnu i adduned gael ei wneud ar ran PCC.

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cyng. Gareth Ratcliffe, Cadeirydd APCBB a Liz Davis, Dirprwy Gadeirydd APCBB.

2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF, 20.11.20.:

Nodwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

Materion yn Codi**a) Ffair Aeaf Sioe Frenhinol Cymru (Cofnod 3)**

Nodwyd bod PCC wedi cefnogi'r ffair aeaf, a gofynnodd TJ a ddylid rhoi cefnogaeth debyg i Sioe Frenhinol rithiol Cymru yr haf hwn.

CYTUNWYD i roi cefnogaeth ariannol debyg i Sioe Frenhinol rithiol Cymru i'w chynnal fis Gorffennaf 2021.

3. CYLLIDEB PCC 2020/21:

Cyflwynwyd sefyllfa'r gyllideb fel yr oedd fis Mawrth 2021. Nodwyd bod gwariant wedi bod yn isel, ac o ganlyniad ni hawliwyd unrhyw arian oddi wrth unrhyw un o'r tri APC.

4. CYLLIDEB DDRAFFT 2021/22

Cynigiwyd cyllideb debyg i'r un ar gyfer 2020/21, ond rhagwelwyd y byddai mwy o wariant yn y flwyddyn sydd i ddod. Roedd y prif eitem o wariant yn ymwneud â Seminar Aelodau Cymru, a dywedodd JA ei bod yn dal yn ansicr a fyddai'r Seminar yn mynd rhagddi eleni; ychwanegodd SE y byddai'n gadael i Awdurdodau wybod gynted ag y medrai. Nodwyd bod £1,000 wedi'i gyllidebu mewn perthynas â Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Faterion Gwledig, a'r gobaith oedd y gallai'r grŵp hwn ail-ymgynnull unwaith y cynhelir yr etholiadau i Senedd Cymru fis Mai.

Gan gyfeirio ymhellach at y drafodaeth ar nodd Sioe Frenhinol Cymru, cwestiynwyd y swm o £4500 oedd wedi'i gyllidebu. Dywedodd TJ y dylai'r swm hwn gael ei ostwng i £500 neu i £1,000, a gofynnodd am i'r gyllideb ddrafft gael ei chymeradwyo cyn belled ag y gwneir y newid hwn. Ychwanegodd pe bai angen gwneud newidiadau pellach, y gallai'r tri Awdurdod gytuno ar y rhai hynny mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD cytuno ar y Gyllideb 2021/22 yn amodol ar ostwng y ffigur a ddyrannwyd ar gyfer y Sioe Frenhinol.

5. Y CAMAU YMLAEN AR GYNLLUN BUSNES PCC:

Roedd adroddiad wedi'i gyflwyno ar y camau a gymerwyd ar y Cynllun Busnes 2020 - 21, ond nodwyd nad oedd gweithgareddau dros y flwyddyn wedi bod yn unol â'r hyn a fwriadwyd oherwydd y Pandemig.

Dywedodd EW o dan Ganlyniad 2 "Datblygu cynigion i gyfrannu tuag at unrhyw adolygiad o "Gwerthfawr a Chydnerth" o 2021 ymlaen", bod PCAE wedi cynnal Gweithdy Aelodau oedd wedi clustnodi nad oedd unrhyw gyfeiriad at ddiwylliant a threftadaeth yn y ddogfen gyfredol. Serch hynny mynegwyd cefnogaeth i'r adolygiad 'llai manwl' arfaethedig gan ei bod yn bwysig bod modd cyflawni'r themâu a glustnodwyd yn y ddogfen.

Cytunodd JA bod angen canolbwyntio mwy ar yr Iaith Gymraeg a diwylliant, ac ychwanegodd ei fod o'r farn y dylid cynnwys rhywbeth ar iechyd a lles yn ogystal. Roedd aelodau APCBB hefyd wedi awgrymu y dylai'r ddogfen amlygu'r agenda ar Newid Hinsawdd; ychwanegodd EW ei bod yn bwysig bod y ddogfen yn amlygu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Tirweddau Dynodedig i'r dyfodol gan y byddai hynny yn gymorth i ddenu cyllid.

Roedd PH o'r farn y dylai rhannau o'r Cynllun Busnes fod yn fwy penodol, megis cyfeirio at bolisiau penodol, ond dywedodd EW bod yr elfennau hynny wedi'u gadael yn annelwig yn fwriadol fel y gallai'r Awdurdodau ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.

NODWYD.

5. HERIAU'R ARGYFWNG COVID-19 A'R CYNLLUNIAU ADFER

Roedd pob swyddog wedi cytuno, er gwaethaf yr heriau enfawr, bod eu Hawdurdodau wedi dysgu gwersi gwerthfawr a'u bod yn fwy parod ar gyfer y tymor eleni, gan fod disgwyl i'r tymor fod mor brysur, os nad yn brysurach, na 2020. Roedd gwell cysylltiadau â'r aelod Awdurdodau Lleol, ynghyd â gwell perthynas â Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru, wedi bod yn gymorth i'r gwaith paratoi. Serch hynny, roedd pob Awdurdod yn parhau i wynebu heriau o ran y pwysau yn sgîl niferoedd yr ymwelwyr.

Dywedwyd mai'r ffocws ar hyn o bryd i'r tri Awdurdod oedd gwneud cais i'r Gronfa Galedi, ac roedd cyfarfod i'w gynnal yr wythnos ddilynol gyda Croeso Cymru i drafod y mater hwn.

NODWYD.

6. CYLLIDEBAU APC:

Dywedwyd mai syndod i'r swyddogion ac i'r Aelodau oedd y cynnydd o 10% yng nghyllideb 2021/22 ar ôl blynyddoedd lawer o gyllidebau digyfnewid, ac wrth reswm roedd croeso mawr i'r cynnydd hwn. Fodd bynnag, cytunwyd bod ansicrwydd a fyddai cynnydd yn y gyllideb yn y dyfodol oherwydd effaith COVID-19, a bod angen i'r Awdurdodau barhau i ddadlau'n gryf bod angen i adnoddau ar y lefel gyfredol, os nad yn uwch, barhau.

Tra'n cydnabod pwysigrwydd bod yn barod i wario arian ar brosiectau priodol, bu peth trafodaeth ynghylch yr heriau o dderbyn grantiau ar ddiwedd blwyddyn. Nodwyd bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddatblygu dull mwy strategol drwy geisio cael cyllid ar gyfer prosiectau mwy dros dymor hirach, a thrwy'r rhaglen Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy.

NODWYD.

7. ADOLYGIAD LLAI MANWL O 'GWERTHFAWR A CHYDNERTH':

Dywedwyd bod amseriad yr adolygiad yn debygol o gael ei effeithio gan ganlyniad yr etholiad Seneddol oedd ar fin digwydd. Gan gydnabod y berthynas dda â'r tîm noddi yn Llywodraeth Cymru, roedd y swyddogion yn obeithiol y byddai'r cydweithredu da yn parhau i'r dyfodol.

NODWYD.

8. COP26

Atgoffwyd yr Aelodau bod y 26ain Cynhadledd Partïon y Cenedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP26) i'w chynnal yn Glasgow fis Tachwedd 2021, a bod Parciau Cenedlaethol y DU yn gobeithio cael presenoldeb. Byddai'r swyddogion yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw fewnbwn gan PCC yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau hwy.

Yn siarad fel cynrychiolydd PCC ar y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, dywedodd JA bod y Bartneriaeth yn gweithio gyda Palladium ar ariannu prosiectau 'sero-net â natur' a'r gobaith oedd y byddai hyn yn cael ei lansio yn yr wythnosau nesaf ac yn cael sylw pellach yn COP26. Fodd bynnag, roedd y trafodaethau hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar Loegr, ac roedd gwaith yn parhau i godi proffil Cymru, gan gynnwys annog deialog gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Byddai'n rhoi mwy o fanylion am y camau a gymerwyd cyn i'w gyfnod ddod i ben.

NODWYD.

9. CYRRAEDD Y TARGEDAU CARBON 2030:

Roedd TJ wedi tynnu sylw at y galw cynyddol am i'r Tirweddau Dynodedig ddilyn mesurau datgarboneiddio, fel sefydliadau ac ar draws y dynodiadau, gan nodi bod Carboniadur Llywodraeth Cymru ar fin cael ei gyhoeddi. Barnai y byddai hyn yn tynnu sylw at faint yr her, ac er na fyddai'r canlyniadau yn hawdd eu derbyn, roedd angen gwybod union hyd a lled y broblem fel y gellir cymryd camau priodol. Roedd cyllid ar gael gan Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy i gael cyngor arbenigol ar fesurau y gallai sefydliad ddatgarboneiddio, a'r gobaith hefyd oedd y byddai cyllid ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael ag allyriadau carbon mewn sectorau megis twristiaeth ac amaethyddiaeth.

Cytunwyd, er bod yr oedi cyn cynhyrchu'r Carboniadur yn rhwystredig, y byddai'n ddefnyddiol gwybod union faint y dasg.

NODWYD.

10. CREU PARCIAU CARBON NIWTRAL 2050 – COMISIWN TIRWEDDAU CYNALIADWY LLEOEDD CYNALIADWY

Dywedwyd mewn perthynas â'r eitem flaenorol bod cyllid wedi bod ar gael fel rhan o gynigion cydweithredol Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy ar gyfer cael cyngor arbenigol i helpu Tirweddau Dynodedig Cymru ddatgarboneiddio.

NODWYD.

11. ARFARNU AELODAU A BENODIR GAN LYWODRAETH CYMRU

Dywedodd PH y gofynnwyd iddo, fel Cadeirydd APCAP, gynnal arfarniadau o Aelodau Llywodraeth Cymru (LIC) sy'n ceisio cael eu penodi am ail dymor yn y swydd. Roedd y sgysiau y tro hwn wedi bod yn hawdd gan fod y ddau yn Aelodau rhagorol, ond roedd yn poeni y gallai anawsterau godi yn y dyfodol. Ychwanegodd TJ bod Llywodraeth Cymru hefyd yn dymuno i'r system arfarnu hon gael ei defnyddio ar gyfer pob Aelod a benodir gan LIC bob blwyddyn, a bod hyn yn groes i'r broses o Adolygu Datblygiad Personol oedd gan yr Awdurdod ar waith ar gyfer pob Aelod. Gofynnwyd am farn Awdurdodau eraill.

Roedd WJ yn derbyn y gallai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod arfarniad yn cael ei wneud bob blwyddyn fel un o'r amodau o benodi Aelod LIC. Fodd bynnag, roedd hefyd yn rhannu'r pryder o wneud arfarniadau os nad oedd Aelod yn perfformio'n dda, er bod y ddau arfarniad yr oedd yntau wedi'u gwneud hyd yn hyn yn hawdd ac yn ddiraffferth. Hefyd nid oedd ychwaith yn hyderus y byddai LIC yn gweithredu ar unrhyw bryderon a godir. Dywedodd JA bod Aelodau Bannau Brycheiniog wedi mynegi pryderon tebyg gyda'r cwestiwn yn cael ei godi ynghylch cydraddoldeb ag Aelodau a benodir gan Lywodraeth Leol nad oedd yn ofynnol eu harfarnu. Dywedodd eraill y gallai arfarnu Cynghorwyr fynd yn drafferthus oherwydd natur wleidyddol y penodiadau.

NODWYD.

12. STAFF CYDNERTH

Dywedodd TJ er bod yr addasu i heriau COVID-19 wedi bod yn dda ²⁴⁸ ar gyfan, roedd effaith y llwyth gwaith a'r patrwm newydd o weithio yn faterion oedd yn codi yn rheolaidd. Cydnabyddir yn arbennig y gallai hyn fod yn broblem i'r staff hynny oedd hefyd yn addysgu

eu plant gartref. Gofynnodd a oedd unrhyw beth y gellid ei rannu neu ei ddysgu oddi wrth yr Awdurdodau eraill.

Cytunodd EW bod y sefyllfa wedi bod yn heriol, a chyfeiriodd at yr adolygiad a wnaed yn ddiweddar gan Archwilio Cymru ar gydnheredd, gan fynegi ei barodrwydd i rannu'r adroddiad a gynhyrchwyd ar gyfer Awdurdod Eryri â'r ddau Awdurdod arall er mwyn dysgu a rhannu arferion gorau.

Cytunodd JA, a dywedodd er bod llawer o fentrau wedi'u cynnal dros y blynyddoedd i gefnogi staff, bod pob aelod o staff yn ymateb yn wahanol, ac nad oedd yr un polisi i bawb yn gweithio. Roedd angen i reolwyr roi cymorth i'r staff yn unigol. Dywedodd SE ei bod yn hapus i Awdurdod Bannau Brycheiniog rannu'r adroddiad unwaith y daw i law.

NODWYD.

13. CAFFAEL - DIWALLU GOFYNION NEWYDD - CYFLEOEDD AR GYFER GWEITHIO AR Y CYD

Dywedodd EW bod Awdurdod Eryri, yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, wedi sylweddoli'r angen am adolygu ei broses caffael ac y byddai'n ceisio cyngor cyfreithiol ar ei fframwaith caffael. Gofynnodd i'r Awdurdodau eraill a oeddent yn dymuno cael eu cynnwys mewn adolygiad o'r fath, a derbyniodd ateb cadarnhaol.

CYTUNWYD bod EW yn paratoi briff ar gyfer adolygu gofynion caffael y tri Awdurdod a bod hyn yn cael ei ddsbarthu i TJ a SE ar gyfer eu sylwadau.

14. PARTNERIAETH Y PARCIAU CENEDLAETHOL:

Dywedodd JA bod y mater hwn wedi'i gynnwys o dan Gofnod 9. Dywedodd bod PCC yn y broses o geisio rhywun arall yn ei le fel cynrychiolydd Cymru ar y Bartneriaeth gan ei fod ar fin gadael.

NODWYD.

15. NEWYDDION O GWMPAS PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU:

APC Arfordir Penfro:

- Roedd llawer o amser ac ymdrech wedi'i neilltuo i'r ymateb i COVID-19 a'r adferiad o'r pandemig.
- Roedd yr Awdurdod yn rhan o brosiect mawr i osod 25-30 o Fannau Gwefru Cerbydau Trydan ar hyd a lled Sir Benfro drwy ddefnyddio cyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy. Roedd cynigion ar gyfer prosiectau yn y dyfodol hefyd yn cael eu paratoi.
- Roedd yr Awdurdod wedi dechrau ymarferiad i adolygu ei flaenoriaethau.
- Roedd menter i gefnogi gwirfoddolwyr yr Awdurdod ar-lein yn cael ei datblygu.
- Byddai adroddiad yn cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod ar ddyfodol cyfarfodydd unwaith y bydd y cyfyngiadau ar gyfarfod wyneb yn wyneb wedi'u llacio'n llwyr, a bydd yr adroddiad yn ystyried yr heriau sy'n codi wrth gynnal cyfarfodydd hybrid.
- APCAP sy'n gyfrifol am gyflogi swyddogion y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol, ac roedd y ddau swyddog a benodwyd yn ymgynffwrddoedd dda.

APC Eryri:

- Roedd pob maes parcio bellach ar agor, ar ôl bod ar gau ar gais yr heddlu. Byddai'n rhaid talu ymlaen llaw am barcio yn Pen-y-Pass rhwng y Pasg a'r hanner tymor fis Hydref, ac roedd Trafnidiaeth Cymru wedi cytuno ar hyn.
- Roedd yn annhebygol y byddai Hafod Eryri yn gweithredu yn ystod 2021 gan nad oedd y cwmni oedd yn rhedeg y gwasanaeth rheilffordd i fyny'r Wyddfa yn credu ei bod yn bosibl cynnal y gwasanaeth eleni. Gan nad oedd y ganolfan wedi agor yn 2020, roedd yr adeilad bellach yn dechrau dirywio ac roedd yr Awdurdod yn wynebu bil atgyweirio mawr.
- Roedd Plas Tan y Bwlch wedi newid ei fodel busnes oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth ac o ganlyniad roedd yn debygol y byddai diswyddiadau. Serch hynny, nodwyd bod y model Gwely a Brechwast oedd yn gweithredu yn unol â'r rheoliadau wedi bod yn eithaf proffidiol.
- Byddai'r Awdurdod yn mabwysiadu amcanion Llesiant newydd ar gyfer y cyfnod 2021-26 yn ei gyfarfod nesaf.
- Roedd 370 a mwy o lysgenhadon wedi'u recriwtio ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Darparwyd lleol oedd y llysgenhadon hyn oedd yn amrywio o fusnesau Gwely a Brechwast a chwmnïau gweithgareddau oedd yn helpu i hyrwyddo negeseuon allweddol yr Awdurdod.
- Roedd Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu i edrych ar foderneiddio llywodraethu.
- Roedd angen recriwtio Aelod newydd a benodir gan Lywodraeth Cymru, ond oherwydd etholiad y Senedd, ni fyddai unrhyw enwebiad yn cael ei wneud tan fis Medi.

APC Bannau Brycheiniog:

- Roedd SE wedi cychwyn yn ddiweddar fel Cyfarwyddwr Pontio ac roedd bellach yn arwain yr Awdurdod. Byddai JA yn gorffen ddiwedd mis Mawrth. Roedd 71 o geisiadau wedi dod i law am y swydd Prif Weithredwr, a'r cyfweiliadau yn cael eu cynnal yr wythnos
- Roedd estyniad wedi'i roi ar gyfer cyflwyno ceisiadau am y swydd Pennaeth Tirweddau ac Adfer Natur. Byddai'r cyfweiliadau ar gyfer ddilynol a'r Awdurdod yn penodi yn ei gyfarfod ar y 30^{ain} o Fawrth.

yr arweinydd Cyfathrebu/Cyfryngau yn digwydd cyn hir.

- Roedd yn debygol y byddai oedi cyn gallu adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi targedau newydd llymach yn ddiweddar ar gyfer lefelau ffosffad mewn afonydd yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig; roedd hyn yn cynnwys afon Gwy ac afon Wysg. Hefyd roedd hyn yn effeithio ar Reoli Datblygu.
- Roedd y gwaith o adolygu'r Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn mynd rhagddo, ac roedd ymgynghoriad ar ei amcanion wedi'i gynnal.
- Roedd yr Aelodau ar hyn o bryd yn adolygu'r hyn a ystyrid yn rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.
- Roedd gan yr Awdurdod 19 o fannau gwefru Cerbydau Trydan ac roedd yn cyflawni rhaglen o osod paneli solar a thechnolegau adnewyddadwy eraill yn ei safleoedd ymwelwyr.
- Roedd Kevin Booker, Rheolwr Fflyd yr Awdurdod, wedi'i enwi yn Eco-Archseren eleni yng Ngwobrau Fflyd Prydain y Byd 2021 am ei waith ar wefru cerbydau trydan ac ynni adnewyddadwy.

16. UNRHYW FATER ARALL:

Nid oedd unrhyw fater arall. Fodd bynnag, estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i JA ar gyfer y dyfodol gan ddweud bod gweithio gydag ef wedi bod yn bleser.

17. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF:

Nodwyd bod cyfarfodydd y Weithrediaeth fel arfer yn cael eu cynnal yn y Gwanwyn a'r Hydref bob blwyddyn. Byddai'r cyfarfod nesaf yn debygol o gael ei gynnal fis Hydref/ Tachwedd, heblaw bod angen cynnal cyfarfod cyn hynny, ac y byddai'n cael ei gynnal yr un adeg â'r Seminar i'r Aelodau os cynhelir y Seminar.

 BRECON BEACONS NATIONAL PARK	 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Pembrokeshire Coast National Park	 SNOWDONIA NATIONAL PARK	 Cymraeg	Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY Ffôn / Tel: 01646 624800 e-bost / e-mail: gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk
Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia National Parks, working in partnership			Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh. Corresponding in Welsh will not lead to delay.	

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 14 GORFFENNAF 2021**

PRESENNOL:

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd

Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorydd Philip Capper, Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs Sarah Hattle, Mr Tim Jones, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Mr. E. Roberts, Ms.B. Hughes, Mrs. A. Gaffey;

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn destun Rheoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, a bod:-

- Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi ac roedd yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei gofnodi i helpu i wirio'r cofnodion ond efallai y bydd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ethol Cadeirydd**

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. **Ethol Is-Gadeirydd**

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John Pughe Roberts yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. **Ymddiheuriadau**

Cynghorydd Gethin Glyn Williams;
Mr. Emyr Williams, Prif Weithredwr.

4. **Datgan Buddiant**

Ni wnaed datganiadau o Fuddiannau Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

5. **Cofnodion**

Cofnodion y cyfarfod Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2021 Cawsant eu derbyn a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

6. **Log / Cofnod Gweithredu**

Cyflwynwyd – Cofnod o'r camau strategol sy'n deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth ac i weithredu arnynt.

Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 20.11.19

Cam Gweithredu Eitem 8 – Rhaglen Waith Gorfforaethol 2019-20

Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei dynnu o'r Cofnod Gweithredu.

PENDERFYNWYD nodi'r Cofnod Gweithredu a dileu'r cam gweithredu fel yr amlinellwyd.

7. **Datganiad Cyfrifon Drafft 2020/21**

Derbyniwyd – Adroddiad llafar gan y Prif Swyddog Cyllid.

Adroddwyd - Ymddiheurodd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd adroddiad Datganiad Cyfrifon Drafft 2020/21 yn barod i'w gyflwyno oherwydd pwysau gwaith cysylltiedig â Covid ar swyddogion yn yr Adran Gyllid a meysydd eraill yr Awdurdod a bod llif gwybodaeth yn araf wedi rhwystro ei gyflawni. Cytunwyd y bydd yr adroddiad drafft yn cael ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD gohirio ystyried adroddiad Datganiad Cyfrifon Drafft 2020/21 i gyfarfod dilynol o'r Awdurdod.

8. **Adroddiad Diweddarau Cyllid Grant Allanol**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr adroddiad ar ran y Prif Weithredwr.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad a gwnaed y sylwadau canlynol:-

- Prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru

Gofynnodd aelod am ragor o fanylion am effaith bosibl methu â chofrestru cytundebau 20 mlynedd, ac a oedd yr Awdurdod wedi cael sicrwydd cyfreithiol gadarn bod hyn yn dderbyniol. Hefyd, gofynnodd yr Aelod a fyddai'r prosiect yn destun Archwiliad Ewropeaidd yn hytrach nag Archwiliad y DU, ar ôl Brexit. Roedd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yn deall y byddai prosiectau Ewropeaidd yn cael eu tanysgrifennu gan Lywodraeth y DU ond cytunodd i ofyn am sicrwydd ar y mater hwn gan y Prif Weithredwr ac adrodd yn ôl i'r Aelod. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod y prosiect yn parhau i fod yn unol â'r targed, ac eithrio'r 100% sy'n ymuno â'r confensiynau 20 mlynedd.

- Tais Ogwen

Cynigiodd Aelod y dylid arddangos map o'r ardal ar fwrdd dehongli gyda'r holl enwau lleoedd Cymraeg wedi'u cynnwys. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod gwaith tebyg yn cael ei wneud ar y cyd gan Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau a Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ar gyfer prosiect y Carneddau ac y gallai cynllun tebyg ar gyfer Tais Ogwen fod yn rhan o gylch gwaith Panel Craffu Enwau Lleoedd Cymru, gyda'r hyn sy'n digwydd yn y prosiect yn cael ei ymestyn ymhellach i feysydd eraill.

- Para. 3.5 Astudiaeth Ddichonoldeb

Mewn ymateb i gwestiwn, cynghorwyd yr Aelodau mai'r astudiaeth ddichonoldeb oedd edrych ar opsiynau Cwm Rhwyddfor yn y dyfodol.

- Prosiect Mawndiroedd – Allbwn 7

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y byddai swyddogion yn bwrw ymlaen â'r allbynnau hyn yn y dyfodol gyda ffynonellau eraill o gyllid grant.

- Prosiect Nos – Partneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru

Gofynnodd Aelod a fyddai rhai agweddau o'r gwaith yn cael ei gynnwys fel gweithgaredd craidd yr Awdurdod, neu a fyddai bob amser yn cael ei ariannu gan brosiect? Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod gwahanol ffynonellau cyllid ar gael, a'i fod yn benderfyniad strategol i'r Awdurdod a ddylid blaenoriaethu ac ymgysylltu â swyddog llawn amser yn benodol ar gyfer y gwaith hwn. Hefyd, gan fod llawer o wahanol ddynodiadau ledled Cymru, roedd potensial i'r Awdurdod allu gweithio ar raglen ar y cyd yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi bod 3 phrosiect CRhC wedi'u cwblhau.**
- 2. nodi bod prosiect CRhC Dinas Mawddwy wedi'i gymeradwyo ac wedi dechrau.**
- 3. nodi bod cymorth wedi'i roi i grŵp a arweinir gan ffermwyr wrth i brosiect CRhC Tir Ifan gau.**
- 4. nodi bod tri phrosiect Menter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol (MGT) wedi'u cwblhau.**
- 5. nodi bod prosiectau TCLIC 2020/21 wedi'u cwblhau.**
- 6. nodi prosiectau TCLIC a phrosiectau cydweithredol a gymeradwywyd ar gyfer 2021/2022.**
- 7. nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 1).**
- 8. nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol (Atodiad 2).**

9. Panel Craffu – Cyfrif Carbon Eryri

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i grynhoi'r Broses Craffu ac i dynnu sylw at y camau arfaethedig dilynol i'r broses.

Adroddwyd – Gwahoddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir Gadeirydd y Panel Craffu i gyflwyno'r adroddiad.

Diolchodd Cadeirydd y Panel Craffu i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir a'i staff am eu gwaith a diolchodd hefyd i Aelodau'r panel am eu mewnbwn. Cyflwynodd yr adroddiad a'r trosolwg strategol a gwnaeth yr Aelodau'r sylwadau canlynol:-

- Roedd aelodau a swyddogion wedi cydnabod yr angen i edrych ymhellach na rheoli mawndiroedd yn unig ac fel y soniodd Archwiliad Cymru, mae'r gwaith hwn yn rhoi cyfle i staff ddysgu a chyfuno eu profiadau mewn ardaloedd y tu allan i'w harbenigeddau eu hunain.
- teimlai Aelod y dylai'r gwaith hwn fod yn gysylltiedig â chynlluniau cymorth amaethyddol Llywodraeth Cymru ac y dylai'r Awdurdod fynegi diddordeb mewn darparu elfen o'r cynlluniau cymorth newydd yng ngoleuni ei brofiad blaenorol er budd yr Awdurdod a ffermwyr lleol.
- Trafododd yr Aelodau COP26, uwchgynhadledd hinsawdd y Cenhedloedd Unedig a gynhelir yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021 a chytunodd y dylid galw'r un Panel Craffu yn ôl i asesu drafftiau cynnar o unrhyw Strategaeth Garbon sy'n dod i'r amlwg ddiwedd 2021 / dechrau 2022, cyn adrodd i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

1. **Nodi'r broses graffu a chynnwys yr adroddiad sy'n tynnu sylw at y broses a ddilynwyd a'r materion a drafodwyd.**
2. **cefnogi coladu'r materion a drafodir i mewn i un Strategaeth Carbon Isel Eryri.**
3. **ailgyflwyno drafft cynnar o Strategaeth Carbon Isel Eryri i'r Panel Craffu yn ddiweddarach yn 2021 / dechrau 2022.**

10. Proffil Risg yr Awdurdod

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Broffil Risg yr Awdurdod ac i ystyried effeithiau COVID-19.

Adroddwyd - Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r gofrestr risg yn fanwl. Trafododd yr Aelodau'r canlynol:-

- Cyfeirnod Risg 8 - Diffyg cydymffurfio â "Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018" (GDPR) – cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei bod yn ofynnol i'r holl staff a'r aelodau gwblhau'r hyfforddiant ar-lein ac nad oedd rhai unigolion, hyd yma, wedi cwblhau'r cwrs o hyd. Anfonwyd nodyn atgoffa ac amser estynedig i gwblhau'r cwrs. Yn ogystal, cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar ddau gwrs ar-lein pellach ar Seiberddiogelwch a fyddai hefyd angen cael eu cwblhau gan yr holl staff a'r Aelodau.
- Risg Cyf 10 - Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE yn anfoddfaol - mewn ymateb i gwestiwn, credai'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir bod y trosiant uchel o staff uchelyn digwydd achos bod staff yn symud i swyddi tebyg neu well ac nad oedd hyn yn adlewyrchiad ar y prosiect ei hun. Roedd yn obeithiol bod y sefyllfa bellach wedi sefydlogi.
- Cyfeirnod Risg 12 – Cydnerthedd Staff yn Edwino – Yn dilyn trafodaethau diweddar yn y Gweithgor yr Aelodau, gofynnwyd i swyddogion ystyried a oes angen cydnabod recriwtio staff fel risg ar wahân yn y gofrestr. Mynegwyd pryderon hefyd, o ganlyniad i bandemig Covid, fod problemau recriwtio yn y sector lletygarwch bellach yn risg sylweddol i Blas Tan y Bwlch.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo Proffil Risg yr Awdurdod fel y'i cyflwynwyd.

11. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2020-21

Cyflwynwyd – Y pedwerydd adroddiad cynnydd a'r chwarter olaf ar gyfer 2020/21 gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd – Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad ar y pedwerydd diweddiariad a'r chwarter olaf. Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr adroddiad a gwnaed y sylwadau canlynol:-

- Cydbwyso Ein Hadnoddau a'n Hymdrechion – Roedd yr Aelodau o'r farn bod gwerthusiadau staff yn bwysig iawn ac y dylai'r Awdurdod geisio gwella ar y gyfradd gwblhau o 32% a adroddwyd ar hyn o bryd. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y Tîm Rheoli yn ymwybodol o hyn ac yn anelu at weld gwelliannau.
- gofynnodd Aelod a oedd cysylltiad rhwng gwerthusiadau staff, absenoldebau oherwydd salwch a recriwtio a chadw staff. Dywedodd fod methu â chwblhau gwerthusiadau staff mewn rhai sefydliadau yn fater disgyblu i'r staff a'u rheolwyr, er nad oedd y trywydd hwn yn cael ei awgrymu ar hyn o bryd.

- cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr Awdurdod wedi'i baratoi ar gyfer y cynnydd disgwylidig mewn twristiaeth, gyda mwy o adnoddau a staff ar lawr gwlad a strategaeth gyfathrebu glir wedi'i datblygu ar gyfer tymor 2021.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

12. Dangosyddion Perfformiad 2020/21: Canlyniadau Terfynol

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i gyflwyno'r canlyniadau terfynol ar gyfer 2020/21 i'w trafod gan yr Aelodau.

Adroddwyd – Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a thrafodwyd y materion canlynol:-

- gofynnodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i'r Aelodau nodi cywiriad i'r data oherwydd fe ddylai cyflenwad tir ar gyfer tai presennol yr Awdurdod fod yn 5.1 mlynedd (gwyrdd) ac nid 3 blynedd (coch) fel y cofnodwyd. Yn codi ar hynny, ac mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod yr Awdurdod tua hanner ffordd yn y tabl perfformiad cynllunio. Gofynnodd Aelod i ddata gael ei ddarparu ar sail Cymru gyfan ar ddiwedd pob blwyddyn ar gyfer dibenion cymharu fel bod yr Aelodau'n gallu asesu perfformiad yr Awdurdod yn erbyn awdurdodau cynllunio eraill.
- Ein Cymunedau: 1a – croesawyd y cynnydd mewn caniatâd cynllunio ar gyfer unedau tai fforddiadwy yn Y Bala.
- Ein Cymunedau: mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod data ar dai a werthir fel ail gartrefi yn ardal y Parc Cenedlaethol ar gael ac y byddai'n cael ei ddisbarthu i'r Aelodau. Yn codi ar hynny, trafododd yr Aelodau erthygl ddiweddar yn The Telegraph a oedd yn annog pobl i fuddsoddi mewn cartrefi gwyliau ac ail gartrefi. Roedd yr Aelodau'n pryderu'n fawr bod pobl leol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai. Roedd yr Aelodau hefyd yn pryderu am y fenter gan Lywodraeth Cymru i roi grantiau ar gyfer plannu coed, a oedd yn cael ei hecsbloetio gan gwmnïau mawr sy'n prynu daliadau fferm i blannu coed er mwyn gwrthbwysu eu hól troed carbon.
- Cydbwysu ein Hadnoddau a'n Hymdrechion : nododd Aelod y canlyniad rhagorol ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Lleol 5c a 5ch.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

13. Adroddiad Monitro Cwynion

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau. Atgoffwyd yr Aelodau nad oedd unigolion yn cael eu nodi ar sail cyfrinachedd.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

14. **Absenoldebau Staff 2020/21**

Cyflwynwyd – Adroddiad gwybodaeth gan y Pennaeth Personél sy'n crynhoi absenoldebau staff ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020 hyd at ddiwedd Mawrth 2021.

Adroddwyd – Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad ar ran y Pennaeth Personél a oedd wedi rhoi amlinelliad o resymau posibl pam yr oedd y ffigurau absenoldeb oherwydd salwch wedi gostwng mor sylweddol. Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad yn fanwl a thrafodwyd y canlynol:-

- gan nad achosion o ffliw gan mwyaf y llynedd, roedd gwersi i'w hennill am barhau â rhyw fath o ymbellhau cymdeithasol, golchi dwylo ac ati, wrth ystyried ail-agor y swyddfa i'r staff.
- roedd y gwelliannau nodedig yn y gyfradd salwch i'w croesawu er y dylid gwneud rhagor o waith i ganfod pam fod pryder/straen/iselder a hefyd problemau cefn i gyd wedi gostwng o ran nifer.
- gofynnodd Aelod a oedd asesiadau desg yn cael eu cynnal i sicrhau na fyddai'r staff yn datblygu problemau yn ôl oherwydd y defnydd o liniaduron gartref a dywedodd hefyd y dylid cynnal oriau gwaith yn y cartref. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Tîm Rheoli yn ymwybodol o'r angen am asesiadau desg a bod y gwaith hwn fel arfer yn cael ei wneud ar gyfer yr holl staff yn y swyddfa. Dywedodd fod y Tîm Rheoli, gan fod y cyfnod ar gyfer cyfyngiadau covid yn agosáu at ei derfyn, ar hyn o bryd yn ystyried cynllun peilot ar gyfer gweithio cyfunol i staff weithio'n rhannol o gartref ac yn rhannol yn y swyddfa.
- Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion ystyried a ddylid cynnwys Covid-19 o fewn y categori annwyd/peswch, ffliw, inflwensa neu fel categori salwch ar wahân ei hun.

PENDERFYNWYD yn amodol ar gynnwys cyfeiriad at Covid-19, nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

15. **Cynhadledd Rithwir Ffederasiwn EUROPARC 2021 : 6 a 7 Hydref 2021 "Parciau o dan y Chwydd-wydr - wedi eu Pweru gan Bobl; Wedi'i ysbrydoli gan Natur"**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i hysbysu Aelodau o Gynhadledd Rithwir EUROPARC 2021 ac i drafod cynrychiolaeth o APCE yn y digwyddiad.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr adroddiad a gofynnodd i'r Aelodau benderfynu a ddylid cynrychioli APCE yng Nghynhadledd Rithwir EUROPARC 2021 ac, os felly, cymeradwyo nifer y cynrychiolwyr.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad ac argymhellodd y dylai'r Cadeirydd fynychu'r gynhadledd ochr yn ochr ag unrhyw Aelodau eraill a oedd â diddordeb mewn mynychu. Gan fod costau yn gysylltiedig, gofynnwyd i'r Aelodau roi eu henwau i'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau erbyn 20 Gorffennaf, i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gytuno ar y gynrychiolaeth wirioneddol. Yn codi ar hynny, nododd y Cynghorydd Judith Humphreys a Ms Tracey Evans eu diddordeb mewn cynrychioli'r Awdurdod yn y Gynhadledd.

PENDERFYNWYD

1. **nodu'r adroddiad ac awdurdodi cynrychiolaeth o Eryri yng Nghynhadledd rithwir EUROPARC 2021.**
2. **gofyn am enwebiadau (Aelodau / staff) o Eryri i fynychu Cynhadledd rithwir EUROPARC yn 2021 ac i ddirprwyo'r penderfyniad o ran y gynrychiolaeth wirioneddol i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.**

16. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd - Cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar y 24 Mawrth a 9 Mehefin 2021, er gwybodaeth.

Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion.

Yn codi ar hynny,

Cofnodion 24 Mawrth 2021

Dylai'r cofnodion gofnodi bod Mr. Tim Jones yn y Gadair.

Cofnodion 9 Mehefin 2021

Eitem Rhif 5 - Diweddariad ar Blas Tan y Bwlch

Cam Gweithredu Rhif 2 - mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd swyddogion fod y Rheolwr Eiddo yn ceisio cyngor arbenigol ynghylch nam ar y system wresogi bresennol.

PENDERFYNWYD yn ddarostyngedig i'r uchod, nodi'r cofnodion.

17. **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2020/21**

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn amlinellu barn y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ar reolaethau mewnol o fewn yr Awdurdod.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad a chadarnhaodd ei bod yn fodlon bod yr Awdurdod yn rhoi fframwaith rheoli cadarn ar waith i reoli risgiau yn y meysydd yr ymchwiliwyd iddynt yng Nghynllun Archwilio 2020/21. Nododd yr Aelodau, er mwyn rhyddhau amser ar gyfer archwiliad ar y 'Cynllun Rheoli Cynaliadwy', fod archwiliad 'Yr Ysgwrn' wedi'i ohirio o'r cynllun archwilio gwreiddiol.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad a thrafod y materion canlynol:-

- Dychwelyd Offer

cadarnhaodd swyddogion, er bod yr archwiliad yn canolbwyntio ar staff, y cymerwyd camau i sicrhau bod yr Aelodau hefyd yn dychwelyd yr holl offer a ddarperir gan yr Awdurdod.

- cadarnhaodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fod cofrestr lawn yn cael ei chadw o'r holl offer a ddarperir gan yr Awdurdod ac ar yr achlysur prin lle nad yw aelod o staff yn dychwelyd eitem, caiff y mater ei drosglwyddo i'r Adran Bersonél i fynd i'r afael â'r broblem.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau y gellid cynnwys Yr Ysgwrn mewn cynllun archwilio yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

1. **derbyn yr adroddiad fel "Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol" yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.**

2. **derbyn y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu 2021/22, yn ddarostyngedig i newid i'r ymgynghoriad â'r Pennaeth Archwilio Mewnol, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu'r Pennaeth Cyllid.**

18. **Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2020/21**

Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972: Eithriad rhag datgelu dogfennau

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn gofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod i eithrio'r adroddiad dilynol.

PENDERFYNWYD bod "Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2020/21" yn cael ei eithrio rhag cael ei ddatgelu am y rhesymau a amlinellir.

19. **Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2020/21**
Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn amlinellu barn y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ar reolaethau mewnol o fewn yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad ar Seiberddiogelwch ac ystyriodd yr Aelodau hwn yn fanwl.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad fel rhan o adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, i'r Pennaeth Archwilio Mewnol am fynychu'r cyfarfod i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12. 25

**PWYLLGOR SAFONAU
DYDD GWENER 3 MEDI 2021**

PRESENNOL:

Aelod wedi'i benodi gan Gyngor Gwynedd

Cyng Alwyn Gruffydd;

Aelod wedi'i benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyng Philip Capper;

Aelod wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru

Mrs Sarah Hattle;

Aelodau Annibynnol

Mrs Rachael L.J. Davies, Mr. Martin J. Hughes, Mrs. Sharon Warnes;

Swyddogion

Mr. G. Iwan Jones, Mr Emyr Williams, Mrs. Anwen Gaffey;

Ms. Ceri Jarvis, Cyngor A.D., Cyngor Gwynedd.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau a chynghorodd fod y cyfarfod yn ddarostyngedig I Reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes: -

- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd, a

- bod rhan o'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion.

Hefyd, croesawodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Mrs. Sarah Hattle i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Safonau.

- 1. Penodi Cadeirydd**
PENDERFYNWYD penodi Mrs. Rachael Davies yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau am weddill ei chyfnod wedi'i phenodi fel Aelod Annibynnol.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.
- 2. Penodi Is-gadeirydd**
PENDERFYNWYD penodi Mrs Sharon Warnes yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau am weddill ei chyfnod wedi'i phenodi fel Aelod Annibynnol.
- 3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Ni chafwyd ymddiheuriadau.
- 4. Datgan Buddiant**
Cyhoeddodd Mr. G. Iwan Jones fuddiant yn eitem 6 ar yr Agenda a gadawodd y cyfarfod wrth i'r mater gael ei drafod. Cyhoeddodd Mr Emyr Williams hefyd fuddiant yn eitem 6 ar yr Agenda a byddai'n aros yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau a allai godi ond na fyddent yn bresennol yn ystod unrhyw ran o'r broses benderfynu.
- 5. Gwrandawriad Apêl**
Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972: Eithriad rhag datgelu dogfennau
Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Safonau i eithrio'r adroddiad dilynol.

PENDERFYNWYD y dylid eithrio'r adroddiad "Gwrandawriad Apêl" dilynol rhag cael ei ddatgelu am y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiad.

6. **Gwrandawriad Apêl**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Gwasanaeth Personél i ddarparu papurau cefndir a gwybodaeth bellach i'r Aelodau.

Adroddwyd – Gofynnodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol i gyflwyno eu hunain i'r cyfarfod a dywedodd y byddai'r Gwrandawriad Apêl yn cael ei gynnal yn unol â Gweithdrefn Achwyn yr Awdurdod ac y byddai'n dilyn fformat yr apêl fel yr amlinellir yn Atodiad 2.

Yn bresennol yn y cyfarfod, i ymateb i gwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor Safonau oedd: -

- i) yr apelydd
- ii) cynrychiolydd yr apelydd - Mark Jones, Trefnydd Rhanbarthol GMB
- iii) cynrychiolydd yr Awdurdod - Helen Snow, Geldards
- iv) Ymgynghorydd Adnoddau Dynol - Ceri Jarvis
- v) y Prif Weithredwr - Mr. Emyr Williams

Yn codi ar hynny, cydsyniodd yr apelydd a chynrychiolydd yr apelydd i fwrw ymlaen â'r Prif Weithredwr yn bresennol, gan nodi na fyddai'n bresennol nac yn ffurfio unrhyw ran o'r broses benderfynu.

Yn dilyn cwestiynu, bu'r Pwyllgor Safonau yn trafod yn breifat.

Galwyd yr holl bartion yn ôl i'r cyfarfod i dderbyn y penderfyniad. Cynghorodd y Cadeirydd mai cylch gwaith y panel oedd ail-archwilio cywirdeb y penderfyniad a wnaed a bod y weithdrefn a ddilynwyd yn unol â sail yr apêl. Nododd y Cadeirydd fod penderfyniad y gwrandawriad apêl yn derfynol ac yn rhwymol.

Darllenodd y Cadeirydd ddatganiad ar ran y Pwyllgor Safonau yn cadarnhau, ar ôl ystyried yr holl sylwadau yn ofalus, y gwrthodwyd yr apêl ar bob un o'r tri sail.

PENDERFYNWYD

1. **gwrthod yr apêl.**
2. **y byddai'r apelydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o benderfyniad y Gwrandawriad Apêl.**
3. **y dylai'r Awdurdod adolygu sianeli cyfathrebu gyda Plas Tan y Bwlch i sicrhau cyfathrebu effeithiol yn y dyfodol.**
4. **y dylid codi unrhyw gais am gytundeb setliad yn uniongyrchol gyda'r Pennaeth Personél neu'r Prif Weithredwr.**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a gymerodd ran am eu hymddygiad a'u cydweithrediad.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.50

PWYLLGOR SAFONAU
DYDD GWENER 3ydd MEDI 2021

YN BRESENNOL:

Aelod a benodwyd gan Gyngor Gwynedd

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd;

Aelod a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorydd Philip Capper;

Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mrs Sarah Hattle;

Aelodau Annibynnol

Mrs Rachel L.J.Davies (Cadeirydd), Mr Martin J.Hughes, Mrs Sharon Warnes;

Swyddogion

Mr. G.Iwan Jones, Ms. Bethan Hughes, Mrs. Anwen Gaffey.

Nodwyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol bod y cyfarfod yn ddibynnol ar Reoliadau Cofid-19 o ran y modd y mae'r Awdurdod yn gallu cwblhau ei ddyletswyddau ac oherwydd hyn:-

- bod Rhybudd o Gyfarfod wedi ei gyhoeddi a bod yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd
- bod y cyfarfod yn cael ei recordio fel cymorth i wirio'r cofnodion ond y gallai fod ar gael ar-lein maes o law.

1. Datganiadau'r Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Sarah Hattle i'r cyfarfod

2. Datgan Diddordeb

Datganwyd diddordeb personol gan y Cynghorydd Philip Capper yn eitem 7 ar yr Agenda, o dan baragraff 10(2) (a) (ix) (aa) o'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Nid oedd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn bresennol ar gyfer eitem 7 ac ni chymerodd ran mewn llunio unrhyw benderfyniad.

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 16eg Hydref 2020 ac arwyddwyd hwy gan y Cadeirydd fel rhai cywir.

4. Enwebu aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethu Corfforaethol i benodi tri aelod a dau aelod dirprwyol i wasanaethu ar y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl.

Adroddwyd – Cyflwynodd Gyfarwyddwr y Gwasanaethu Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir.

PENDERFYNWYD

- 1. Nodi'r adroddiad**
- 2. Penodi'r Cynghorydd Philip Capper, Mrs Sharon Warnes a Mr. Martin J. Hughes fel aelodau o'r Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl gyda'r Cynghorydd Alwyn Gruffydd a Mrs Rachel L.J. Davies fel aelodau dirprwyol**

5. **Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i hysbysu'r Pwyllgor ynghylch y datblygiadau sydd yn berthnasol i'r Awdurdod hwn.

Adroddwyd – Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a nodi bod manylion llawn y ddau gŵyn – nad oedd yr Ombwdsman wedi cytuno i'w harchwilio – wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Cwynion (Eitem Rhif 6 ar yr Agenda).

PENDERFYNWYD NODI'R ADRODDIAD

6. **Adroddiad Monitro Cwynion**
Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn 2020/21.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad a chadarnhau bod yr ymgeiswyr, yn dilyn cyngor yr Ombwdsman Gwasanaeth Cyhoeddus, wedi cyfeirio eu cwyn yn ymwneud â thorri data gan y gwasanaeth Cynllunio i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Penderfyniad yr Ombwdsman Gwasanaeth Cyhoeddus oedd peidio â chymryd unrhyw gamau pellach yn erbyn yr Awdurdod oherwydd y camau cyflym a gymerwyd, ac oherwydd bod y tor- data yn un bychan iawn. Cafodd yr Aelodau eu sicrhau ymhellach - yn dilyn y tor-data personol dan sylw - bod pob aelod staff yn awr yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelwch data ar-lein yn flynyddol. Canmolodd y Cadeirydd y swyddogion am ddelio gyda'r cwynion mor gyflym.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

7. **Caniatáu Gollyngiadau**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethu Corfforaethol yn argymhell bod y Pwyllgor Safonau yn caniatáu gollyngiad cyffredinol i Aelodau o Gyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Gofynnwyd hefyd i Aelodau nodi y dylid cywiro unrhyw gyfeiriad tuag at baragraff (d) yn yr adroddiad Cymraeg i ddarllen fel (ch).

Adroddwyd - Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethu Corfforaethol yr adroddiad a chadarnhau bod gollyngiadau a ganiatawyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Safonau wedi gweithio'n dda. Trafodwyr yr adroddiad gan yr Aelodau a chytuno i ganiatáu y gollyngiad cyffredinol, yn unol â'r telerau a amlinellir yn yr adroddiad, er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cwblhau ei ddyletswyddau yn effeithlon.

PENDERFYNWYD

1. **Caniatáu gollyngiad i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd er mwyn eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau ar faterion yn ymwneud â Chyngor Gwynedd hyd at 31ain Rhagfyr 2022, oni bai i'r dyddiad gael ei ymestyn ymhellach gan y Pwyllgor hwn cyn 31ain Rhagfyr 2022.**
 2. **Caniatáu gollyngiad i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau ar faterion yn ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hyd at 31ain Rhagfyr 2022, oni bai i'r dyddiad gael ei ymestyn ymhellach gan y Pwyllgor hwn cyn 31ain Rhagfyr 2022.**
8. **Y Fframwaith Moesegol a Chanllawiau Diwygiedig a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y Côt Ymddygiad**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethu Corfforaethol er mwyn i Aelodau gael trafod y canllawiau diwygiedig, os oedd unrhyw faterion yn codi ohonynt ac unrhyw faterion pellach a nodir yn yr adroddiad.

Adroddwyd – Cyflwynodd Gyfarwyddwr y Gwasanaethu Corfforaethol yr adroddiad a thrafodwyd y materion canlynol mewn manylder gan yr Aelodau:-

- Nodwyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol bod hyfforddiant diweddar ar y Côt Ymddygiad fel arfer yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â Hyfforddiant Cynllunio ar gyfer Aelodau.
- Cadarnhawyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethu Corfforaethol bod siartiau llif – i helpu Aelodau wrth ddatgan Diddordebau Personol a Rhagfarnus (tebyg i Atodiadau 2 a 3 yng Nghanllawiau'r Ombwdsman) - wedi eu dosbarthu yn y cyfarfod yn y gorffennol pan gynhelid y cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Teimlad yr Aelodau oedd y gallid dosbarthu'r wybodaeth hon yn ddigidol o hyn ymlaen ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor ar-lein a hybrid.
- Nodwyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethu Corfforaethol y byddai'r Awdurdod – unwaith y byddai'r Côt Ymddygiad newydd yn cael ei gyhoeddi - yn sicrhau bod pob Aelod yn derbyn hyfforddiant ar y côd newydd ac y byddai pob newid yn cael ei amlygu. Byddai'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, ac fe fyddai hynny yn dylanwadu ar aelodaeth yr Awdurdod. Yn achos yr Aelodau hynny sydd yn derbyn hyfforddiant Côt Ymddygiad gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, bydd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar unrhyw wahaniaethau rhwng yr Awdurdodau Unedol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- Nodwyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol bod darparwyr hyfforddiant, megis Trevor Roberts a'i Gwmni, yn y gorffennol wedi darparu hyfforddiant da iawn ar gyfer Aelodau, yn cynnwys chwarae rôl ayyb ac nad oes amheuaeth na allant ddarparu hyfforddiant ar-lein / hybrid yn y dyfodol ar gyfer yr Awdurdod pe byddid yn gofyn iddynt.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd hyfforddiant ar y Côt yn rhan o gylch gorchwyl yr Ombwdsman a bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – er eu bod yn darparu modylau hyfforddiant – yn canolbwyntio yn bennaf ar yr Awdurdodau Unedol gydag ychydig iawn o sylw i Barciau Cenedlaethol.
- Teimlad yr Aelodau oedd ei bod yn anodd i'r Pwyllgor Safonau fonitro gweithrediad y Côt Ymddygiad e.e. datgan diddordebau Aelodau ayyb, a chytunodd swyddogion i ddarparu adroddiad byr yn rhoi manylion datganiadau diddordeb Aelodau ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn flynyddol.
- Yn codi o hyn, cadarnhawyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y bydd cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau o Fai 2022 ymlaen yn cynnwys dyletswydd statudol newydd sef paratoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ynghylch y modd y cafodd dyletswyddau'r pwyllgor eu cwblhau a darparu trosolwg ar faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod. Cytunwyd y dylid trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ar gyfer dechrau Ebrill 2022 (y dyddiad i'w gadarnhau) fel y câi Aelodau gyfle i drafod fframwaith a chynnwys yr adroddiad. Yna byddai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn paratoi'r adroddiad yn unol ag adran '56B Adroddiadau blynyddol gan Bwyllgorau Safonau: paragraffau (1) i (8)' o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru (2021), sydd yn berthnasol i'r Parc Cenedlaethol. Caiff yr adroddiad ei ddosbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgor Safonau fel y gallant gytuno gyda'i gynnwys cyn ei gyflwyno gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod ym mis Mehefin.
- yng ngoleuni'r uchod, roedd yr Aelodau o'r farn y dylid gohirio unrhyw drafodaeth ynghylch rhinweddau neu fel arall sefydlu Cyd-bwyllgor Safonau ag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am oddeutu 18 mis. Byddai hyn yn caniatáu amser i'r Pwyllgor Safonau ganolbwyntio ar fabwysiadu'r Fframwaith Moesegol newydd.

PENDERFYNWYD

- 1. bod Proses Datrys Lleol yr Awdurdod yn dilyn yr hyn a gymeradwyir yn y canllawiau ac felly nid oedd angen ei adolygu.**

2. y dylai'r trothwy gwerth o £25 ar gyfer datgelu Rhoddion a Lletygarwch yn parhau pan fydd yr Awdurdod yn ystyried mabwysiadu'r protocol maes o law.
3. fel rhan o'i ddyletswydd newydd, bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn darparu ac yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
4. bod y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod yn gynnar ym mis Ebrill 2022 i drafod cynnwys a fframwaith yr adroddiad blynyddol.
5. diolch i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am eu diddordeb mewn sefydlu Pwyllgor Safonau ar y cyd, ond i beidio â derbyn eu gwahoddiad ar hyn o bryd gan fod aelodau yn awr yn gweithio ar fabwysiadu'r Fframwaith Moesegol newydd.

9. **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**

Derbyniwyd - adroddiad llafar gan gyn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth.

Nodwyd gan y cyn Gadeirydd ei bod hi wedi mynychu cyfarfod ar-lein o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 24ain Mehefin 2021, a bod nodyn yn amlinellu'r drafodaeth a'r adborth wedi ei ddosbarthu i aelodau cyn cyfarfod heddiw. Nodwyd gan Aelodau bod cyfran helaeth o'r drafodaeth wedi canolbwyntio ar ddarparu adborth ar y Fframwaith Moesegol a'r canllawiau gan yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus. Hefyd, roedd llawer o'r drafodaeth a'r adborth wedi canolbwyntio ar y cyswllt gyda chynghorau cymuned a chynghorau tref gyda phwyslais ar hyfforddiant a'r fantais o gael fframwaith gyson i ddarparu pecynnau hyfforddi ayyb.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth ac i ddiolch i'r cyn Gadeirydd am yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cyfraniad ac i'r swyddogion am eu gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.40